# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD IAU, 17 MEDI 2015 am 2.00 o'r gloch y prynhawn | Thursday, 17 SEPTEMBER, 2015 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1 - SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor — Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**ANNIBYNNOL / INDEPENDENT**

Jim Evans, Victor Hughes, G.O. Jones (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), Raymond Jones

**PLAID CYMRU/THE PARTY OF WALES**

R.Meirion Jones (Cadeirydd/Chair), Lewis Davies, Ann Griffith a Llinos Medi Huws

**GRWP CHWYLDROAD/REVOLUTIONIST GROUP**

Peter Rogers

**HEB YMUNO/UNAFFILIATED**

R Ll Jones

**AELODAU CYFETHOLEDIG GYDA PHLEIDLAIS PAN YN TRAFOD MATERION YN YMWNEUD AG ADDYSG / CO-OPTED MEMBERS WITH A RIGHT TO VOTE WHEN DEALING WITH EDUCATIONAL MATTERS**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig / The Roman Catholic Church) a Parch./Rev. Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD A'R IS-GADEIRYDD**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd a’r Is-Gadeirydd.

3 **COFNODION CYFARFOD 6 GORFFENNAF, 2015** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf, 2015.

4 **ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL (CYNLLUN GWELLA) 2014/15** (Tudalennau 7 - 64)

Cyflwyno’r Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) am 2014/15.

5 **MONITRO PERFFORMIAD - CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CHWARTER 1 2015/16** (Tudalennau 65 - 80)

Cyflwyno’r Cerdyn Sgorio Corfforaethol am Chwarter 1 2015/16.

6 **MONITRO'R GYLLIDEB - Y GYLLIDEB GYFALAF CHWARTER 1 2015/16** (Tudalennau 81 - 90)

Cyflwyno adroddiad monitro’r Gyllideb Gyfalaf am Chwarter 1 2015/16.

7 **MONITRO'R GYLLIDEB - Y GYLLIDEB REFENIW CHWARTER 1 2015/6** (Tudalennau 91 - 98)

Cyflwyno adroddiad monitro’r Gyllideb Refeniw am Chwarter 1 2015/16.

8 **CYNLLUN YMGYNGHORI: CYLLIDEB 2016/17** (Tudalennau 99 - 102)

Cyflwyno’r cynllun ymgynghori ar gyfer Cyllideb 2016/17.

9 **MODERNEIDDIO YSGOLION - YMGYNGHORIAD FFURFIOL ARDALOEDD BRO RHOSYR A BRO ABERFFRAW** (Tudalennau 103 - 182)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Rhaglen Moderneiddio Ysgolion.

10 **PANELAU CANLYNIAD SGRIWTINI: DATGANIAD O'R SEFYLLFA** (Tudalennau 183 - 190)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro ar statws y panelau canlyniad sgriwtini cyfredol.

11 **BLAEN RHAGLEN WAITH 2014-15** (Tudalennau 191 - 194)

Adolygu’r Blaen Rhaglen Waith.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2015

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd R.Meirion Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Gwilym O.Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Jim Evans, Ann Griffith, Victor Hughes, Llinos Medi Huws, R.Llewelyn Jones, Peter Rogers. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Cymuned<br>Pennaeth Dysgu (ar gyfer eitem 6)<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion (ar gyfer eitem 6)<br>Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes (GM) (ar gyfer eitem 7)<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (ar gyfer eitem 8)<br>Rheolwr Gwasanaeth (Diogelu a Sicrwydd Ansawdd) (GLl) (ar gyfer eitem 5)<br>Prif Swyddog Hamdden (DB) (ar gyfer eitem 6)<br>Rheolydd Sgriwtini Dros Dro (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd H.Eifion Jones (Aelod Portffolio Cyllid) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Alwyn Rowlands (Aelod Portffolio – Trawsnewid Perfformiad, Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau Dynol) |

---

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2. DIWEDDARIAD Y CADEIRYDD A'R AELODAU

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr isod -

- Gan gyfeirio at y cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Gwaith ar 2 Gorffennaf 2015, y cafodd wybod fel Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol perthnasol, yn unol â darpariaethau paragraff 4.6.16.10 y Cyfansoddiad, na fyddai'r trefniadau galw i mewn yn berthnasol i'r penderfyniad arfaethedig i ymgynghori ynghylch dyfodol cartref preswyl Heulfre oherwydd tybiwyd bod y mater yn un brys.
- Bod cyfarfodydd o'r Panelau Canlyniad Sgriwtini a Rheoli Asedau a Dileu Dyledion wedi cael eu cynnal ac wedi cychwyn yn addawol iawn. Cynhelir cyfarfod pellach o'r Panel Rheoli Asedau yn y dyddiau nesaf. Dywedodd wrth y Pwyllgor bod y Cynghorydd Llinos Medi Hughes wedi penderfynu sefyll i lawr fel Aelod o'r Panel Canlyniad Sgriwtini Dileu Dyledion oherwydd ymrwymiadau eraill a rhoes wahoddiad i unrhyw Aelod arall o'r Pwyllgor a oedd yn dymuno llenwi'r swydd wag i nodi eu diddordeb.
- Roedd Fforwm y Cadeiryddion a'r Is-Gadeiryddion Sgriwtini wedi cyfarfod yn ddiweddar. Cyfeiriodd y Rheolydd Sgriwtini Dros Dro at y drafodaeth ar y sesiynau cymorth y mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn bwriadu eu cynnal ar ddulliau sgriwtini a'r cyfarfod o'r Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned a gynhelir y dydd Iau hwn 9 Gorffennaf fel materion o ddiddordeb i'r Pwyllgor yn codi o gyfarfod y Cadeiryddion a'r Is-Gadeiryddion Sgriwtini.
- Bod cyfarfodydd o'r Byrddau Rhaglen Trawsnewid yn mynd rhagddynt.
- Bod cyfarfod o Banel Sgriwtini mewn perthynas ag adolygiad achos Gwasanaethau Plant wedi cael ei gynnal. Roedd y Panel wedi ystyried amgylchiadau'r achos ynghyd â meysydd yn ymwneud â phroses, gweithdrefn a chyfathrebu a gwnaed argymhellion i wella ymarfer yn y

dyfodol.  Dywedodd y Rheolydd Sgriwtini Dros Dro ei bod wedi cael trafodaeth gyda Phennaeth y Gwasanaethau Plant ynglŷn â’r dull mwyaf priodol o ddwyn y darn o waith hwn i ben ac adrodd yn ôl i’r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol arno.

- Roedd Aelodau wedi cael eu diweddaru ar gynnydd mewn perthynas â symud ymlaen gyda’r prosiect Gweithio’n Gallach yn y sesiwn friffio fisol i Aelodau ar 2 Gorffennaf a bod hynny felly wedi cwrdd â chais y Pwyllgor hwn am eglurhad ar y mater yn y cyfarfod blaenorol ym mis Mehefin.
- Mewn perthynas â chais gan Aelod am adroddiadau llawnach i Sgriwtini ar faterion yn ymwneud ag Iechyd Meddwl Oedolion ac Anableddau Dysgu Oedolion, dywedodd y Rheolydd Sgriwtini Dros Dro ei bod wedi ymgynghori gyda Phennaeth y Gwasanaethau Oedolion mewn perthynas â rhoddi sylw i’r mater hwn a’i fod ef wedi dweud wrthi y bydd yn cyfarfod gyda’i Reolwyr Gwasanaeth yn o fuan i ystyried rhaglen o bynciau posibl mewn perthynas ag iechyd meddwl oedolion ac anableddau dysgu oedolion y gellid eu cyflwyno i Sgriwtini drwy raglenni gwaith y ddau Bwyllgor. Ymgynghorwyd hefyd gyda Phennaeth y Gwasanaethau Plant oherwydd bod iechyd meddwl oedolion yn faes sy’n cael effaith ar y gwasanaethau plant a mater penodol iechyd meddwl plant a phobl ifanc.  Roedd sawl maes yn y Gwasanaethau Plant wedi cael eu nodi gan gynnwys y Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc yn eu Harddegau (CAMHS) i’w cynnwys fel eitemau ar raglenni gwaith y ddau Bwyllgor Sgriwtini.  Ymgynghorir gyda Chadeiryddion y ddau Bwyllgor Sgriwtini ar rannu’r baich gwaith a sicrhau bod rhaglenni gwaith y naill Bwyllgor a’r llall yn gytbwys.

  **Nodwyd y diweddariad a dim camau gweithredu yn codi.**

### 3. COFNODION 10 MEHEFIN 2015

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfod diwethaf o’r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2015.

### 4. ENWEBIAD I’R PANEL RHIANT CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd er sylw’r Pwyllgor - adroddiad y Swyddog Sgriwtini yn gwahodd y Pwyllgor i enwebu un o’i Aelodau i wasanaethu ar y Panel Rhiant Corfforaethol am y flwyddyn ddinesig 2015/16.  Yn yr adroddiad, cafwyd crynodeb o gylch gorchwyl a phwrpas y Panel Rhiant Corfforaethol ac argymhellwyd y dylid ail-enwebu y Cynghorydd Ann Griffith, sef deilydd y swydd ar hyn o bryd, sydd wedi datblygu dealltwriaeth o’r gwaith sy’n gysylltiedig.

**Penderfynwyd ail-enwebu’r Cynghorydd Ann Griffith i wasanaethu ar y Panel Rhiant Corfforaethol am 2015/16.**

### 5. TREFNIADAU’R AWDURDOD LLEOL I GEFNOGI’R BROSES O DDIOGELU PLANT

Cyflwynwyd er sylw’r Pwyllgor - adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Plant ar adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o drefniadau sicrwydd ac atebolrwydd yr Awdurdod ar gyfer sicrhau bod trefniadau corfforaethol priodol ar gyfer diogelu wedi cael eu sefydlu ac yn gweithio’n effeithiol.  Roedd adroddiad llawn Swyddfa Archwilio Cymru ynghlwm fel Atodiad 1 i’r adroddiad ynghyd â Chynllun Gweithredu i fynd i’r afael ag argymhellion SAC yn Atodiad 2.

Dygodd y Rheolwr Gwasanaeth (Diogelu a Sicrwydd Ansawdd) sylw at yr isod fel pwyntiau allweddol i’r Pwyllgor -

- Mae nifer o’r argymhellion a wnaed yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru eisoes wedi cael eu gweithredu.
- Mae polisi diogelu wedi cael ei fabwysiadu a Bwrdd Diogelu Corfforaethol wedi cael ei sefydlu.
- Er bod adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn cydnabod bod yr Awdurdod wedi sefydlu nifer o brosesau a threfniadau, mae hefyd yn nodi angen i -
    - Gwblhau’r camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Diogelu
    - Gynyddu perchenogaeth o’r agenda Ddiogelu ar draws y sefydliad.
    - Sefydlu’n gadarn sicrwydd sefydliadol ynghylch swyddogaeth ddiogelu’r Awdurdod Lleol yn y broses o gynllunio busnes, rheoli risgiau sefydliadol a fframweithiau rheoli perfformiad.

- Sicrhau fod sefydlu trefniadau sgriwtini ffurfiol a rheolaidd mewn perthynas â diogelu yn cael blaenoriaeth ynghyd â chadarnhau fod gwaith archwilio mewnol yn cael ei wneud yn rheolaidd ar ddiogelu.

- Bod proses i'r holl benaethiaid gwasanaeth nodi a llunio blaenoriaethau diogelu erbyn 2015/16 ar gyfer eu cynnwys mewn cynlluniau darparu gwasanaeth a fydd wedyn yn cael eu monitro drwy'r cerdyn sgorio Diogelu.
- Bydd adroddiad corfforaethol ar ddiogelu yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ac i'r Byrddau Rhanbarthol Diogelu Plant ac Oedolion bob blwyddyn.
- Mae angen cwblhau'r rhaglen hyfforddiant diogelu a'i defnyddio ar draws y Cyngor ac mae angen rhoddi sylw penodol i godi ymwybyddiaeth o faterion diogelu mewn perthynas ag oedolion a phlant gyda chyfeiriad penodol at fasnachu plant, camddefnyddio plant yn rhywiol, camdriniaeth yn y cartref a chaethwasiaeth fodern.
- Mae nifer o'r polisïau allweddol a restrir yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer y Polisi Diogelu wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru ac eithrio'r Polisi Gwirfoddoli, y Polisi Disgyblu a'r canllawiau ar ddefnyddio ataliaeth ac amser a bydd y rhain yn cael eu hadolygu yn unol â'r amserlenni a bennir yn y Cynllun Gweithredu.

  Rhoes y Pwyllgor sylw i'r adroddiad gan mofyn sicrwydd mewn perthynas â'r canlynol

  - Nododd y Pwyllgor fod SAC wedi dwyn sylw at y ffaith fod angen cwblhau ar frys saith o bwyntiau gweithredu yng Nghynllun Gweithredu'r Polisi Diogelu sy'n ymwneud â hyfforddi staff ac Aelodau mewn materion diogelu sef gwaith sy'n mynd rhagddo a bod y Cyngor ychydig islaw'r cyfartaledd o ran nifer y bobl sydd wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu yn y 6 mis diwethaf.
  - Nododd y Pwyllgor hefyd, er bod SAC yn cydnabod bod ymrwymiad clir ar ran y Cyngor i wella, roedd y cynnydd yn araf deg. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth (Diogelu a Sicrwydd Ansawdd) fod hyfforddiant ar faterion diogelu, yn y gorffennol, wedi canolbwyntio'n benodol ar staff y Gwasanaethau Plant ac Oedolion yn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a'i ymestyn i staff Gofal Cymdeithasol o asiantaethau eraill drwy'r Uned Datblygu'r Gweithlu. Mae angen gwella ymwybyddiaeth o faterion diogelu ymysg staff ar draws Gwasanaethau'r Cyngor a darparu hyfforddiant ar themâu diogelu penodol sy'n arbennig o gyfredol sef masnachu mewn pobl, camddefnyddio plant yn rhywiol, caethwasiaeth fodern ac ati. Meysydd yw'r rhain lle mae pwyslais cenedlaethol ar godi ymwybyddiaeth o risgiau i blant ac oedolion mewn cymunedau yn arbennig felly yng nghyd-destun achosion proffil uchel yn ddiweddar yn Rotherham a Swydd Oxford ynghyd ag achosion caethwasiaeth fodern y cafwyd gwybod amdanynt. Mae swydd Cydlynydd Caethwasiaeth Fodern wedi cael ei sefydlu yn Heddlu Gogledd Cymru ac mae'n arwain prosiect penodol yn y maes hwn. Fodd bynnag, mae angen cynnal ychwaneg o sesiynau codi ymwybyddiaeth i staff allweddol yn y Cyngor a dylai Penaethiaid Gwasanaeth nodi staff allweddol y mae angen iddynt fod yn ymwybodol o faterion diogelu a'u deall.

    Nododd y Pwyllgor yr eglurhad ac awgrymwyd y gall fod yn fuddiol ac yn ddefnyddiol efallai o ran codi ymwybyddiaeth o ddiogelu ar lefel gorfforaethol petai Cydlynydd Caethwasiaeth Fodern Heddlu Gogledd Cymru yn cael gwahoddiad i roddi cyflwyniad i'r Cyngor Sir.

  - Yn wyneb achosion y rhoddwyd cyhoeddusrwydd mawr iddynt yn ddiweddar ar gam-drin oedolion mewn unedau iechyd meddwl, gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad fod Gweithwyr Cymdeithasol yn Ynys Môn sy'n gysylltiedig â chyfeiriadau iechyd meddwl wedi cael eu hyfforddi a bod ganddynt sgiliau addas i nodi arwyddion camdriniaeth. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion fod pob Gweithiwr Cymdeithasol yn derbyn hyfforddiant diogelu i lefel briodol. Cydnabyddir bod angen i Weithwyr Cymdeithasol fod yn wyliadwrus a bydd angen dwyn hyn at eu sylw.
  - Cyfeiriodd y Pwyllgor at athrawon ysgol fel staff allweddol o ran diogelu a thanlinellwyd pwysigrwydd cael eu hatborth nhw ynghylch priodoldeb unrhyw gyfeiriadau y maent yn eu gwneud neu achosion y maent yn dwyn sylw atynt a'u bod yn dawel eu meddwl nad ydynt yn torri rheolau cyfrinachedd. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth (Diogelu a Sicrwydd Ansawdd) bod y canllawiau ar gyfer staff dysgu mewn ysgolion a ryddhawyd ym mis Ionawr eleni - Cadw Disgyblion yn Ddiogel - yn fanwl o ran cyfrifoldebau staff dysgu mewn ysgolion mewn perthynas ag adrodd ynghylch pryderon gan nodi'n glir y llinellau adrodd a'r broses ar gyfer

DRAFT

gwneud cyfeiriadau i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Rhoddir sylw arbennig i barchu cyfrinachedd wrth rannu gwybodaeth gyda'r rheini sy'n gwneud y cyfeiriadau ac o ran cadw cofnodiadau.

- Oherwydd pwysigrwydd diogelu fel swyddogaeth a'r ffaith ei fod yn thema gyffredin, ystyriodd y Pwyllgor a fyddai'n cwrdd â'i gyfrifoldeb i sgriwtineiddio diogelu yn well drwy dderbyn Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol gan y Pwyllgor llawn neu gan banel o Aelodau a fedrai roddi sylw manylach i'r adroddiad ac i ddiogelu fel pwnc. Cytunwyd y dylid sefydlu Panel Sgriwtini ar yr adeg briodol.

**Penderfynwyd bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol -**

- **Yn argymell bod y camau gwella a nodir yn Atodiad 2 yn yr adroddiad yn debygol o alluogi'r Awdurdod Lleol i gydymffurfio gyda'r argymhellion a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru.**
- **Yn cytuno i fonitro cydymffurfiaeth gyda'r gofynion ac i ddal Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn atebol am eu cwblhau.**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Y Rheolydd Sgriwtini Dros Dro mewn ymgynghoriad gyda Phennaeth y Gwasanaethau Oedolion, Pennaeth y Gwasanaethau Plant a'r Rheolwr Gwasanaeth (Diogelu a Sicrwydd Ansawdd) i wneud trefniadau i gynnal Panel o'r Pwyllgor hwn i sgriwtineiddio adroddiad blynyddol ar ddiogelu corfforaethol ar yr adeg briodol.**

## 6. MONITRO PERFFORMIAD – CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CHWARTER 4

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor - adroddiad y Rheolydd Sgriwtini Dros Dro ar faterion a oedd yn parhau i fod angen sylw yn codi o'r cerdyn sgorio corfforaethol am Chwarter 4. Yn yr adroddiad, nodwyd ymateb y gwasanaeth i danberfformiad yn erbyn y 3 dangosydd perfformiad a nodir isod sy'n ffurfio cyfres o 6 o DP yr oedd y Pwyllgor Gwaith wedi eu cyfeirio i'r Pwyllgor i'w sgriwtineiddio o Ch4 (rhoddwyd sylw i'r 3 cyntaf yng nghyfarfod o'r Pwyllgor ar 10 Mehefin):

- SCA/01b – canran gofalwyr oedolion sydd wedi cael asesiad neu adolygiad o'u hanghenion yn ystod y flwyddyn.

  Rhoes Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion eglurhad o ran y targed a gollwyd a chyfeiriodd yn benodol at nifer y gofalwyr a oedd wedi gwrthod asesiad (348) ac sydd hefyd yn cael eu cofnodi gan y dangosydd, fel ffactor dylanwadol allweddol yn y tanberfformiad yr adroddwyd arno. Dywedodd y Swyddog, o'r rheini a gytunodd i dderbyn asesiad yn 2014/15, roedd 564 (neu 92%) wedi derbyn asesiad yn y flwyddyn. Pan gaiff y rheini a wrthododd asesiad (348) eu ffactora i mewn, mae'r ganran yn gostwng i 57.1%

  Nododd a derbyniodd y Pwyllgor yr eglurhad a gafwyd.

  Gwnaed pwynt ynglŷn â'r angen i weithredu rhaglen hyfforddiant gynlluniedig ynghylch Alzheimer a Dementia yn y Cyngor. Awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol i'r Cyngor fod mewn sefyllfa i gyflwyno ei hun fel sefydliad sy'n ymwybodol o anghenion unigolion gydag Alzheimer a Dementia ac sydd wedi datblygu rhaglen hyfforddiant penodol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cymuned y byddai'n rhoi sylw i'r mater hwn sy'n berthnasol o ran y Rhaglen Ranbarthol a Rhaglen Drawsnewid y Cyngor ei hun a hefyd yng nghyd-destun y Ddeddf Iechyd a Llesiant( Cymru).

- LCL/004 – nifer y deunyddiau llyfrgell a roddwyd allan yn ystod y flwyddyn.

  Soniodd y Pennaeth Dysgu am yr isod fel ystyriaethau lliniarol -

  - Er bod perfformiad yn erbyn y dangosydd wedi gostwng, gwelwyd cynnydd o 73k yn nifer yr ymweliadau i wasanaethau llyfrgelloedd. Nid yw pawb sy'n ymweld yn benthyca eitemau ymhob achos gyda nifer yn defnyddio gwasanaethau eraill megis y cynnig o gyngor ac ymchwil, ymholiadau a defnyddio cyfrifiaduron.

- Bydd y Gwasanaeth yn adrodd am y tro cyntaf eleni ar ddeunyddiau a “e-fenthyciwyd” a rhagwelir y bydd gwelliant sylweddol o ran nifer yr eitemau a roddwyd allan hefyd yn sgil lansio’r gwasanaeth e-adnodd newydd drwy Gonsortiwm Caffael Cymru Gyfan.
- Mae cyswllt clir rhwng y Gronfa Lyfrau a nifer y deunyddiau a roddir allan yn Ynys Môn gyda’r Gronfa Lyfra yn cael ei nodi fel isel yn adroddiad CYMAL am 2013/14. Cafodd cais i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn canolog i ychwanegu at y Gronfa Lyfrau yn ystod 2015/16 ei wrthod.

  Nododd y Pwyllgor y sefyllfa gan dderbyn yr eglurhad a roddwyd o’r perfformiad yn erbyn y dangosydd.

- LCS/002b – nifer yr ymweliadau i ganolfannau chwaraeon a hamdden yr Awdurdod Lleol yn ystod y flwyddyn lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol.

  Dywedodd y Prif Swyddog Hamdden y gellir priodoli’r tanberfformiad yn erbyn y dangosydd hwn yn bennaf i gau Canolfan Hamdden Caergybi am 6 wythnos yn ystod Ch4 oherwydd prosiect cyfalaf i wella cyfleusterau. Yn ychwanegol at hynny, oedd y modd y cofnodwyd yn anghywir bresenoldeb disgyblion ysgol yng Nghanolfannau Hamdden Caergybi ac Amlwch oherwydd problem dechnegol gyda system reoli trefniadau llogi electronig y Canolfannau Hamdden. Dywedodd y Swyddog ei fod yn gobeithio medru adrodd ar yr ystadegau diwygiedig pan gaiff y rheini eu cadarnhau a’i fod yn hyderus y bydd y targed wedi ei gyflawni yn seiliedig ar ffigyrau’r gorffennol ar gyfer cyfraddau presenoldeb disgyblion ysgol.

  Nododd a derbyniodd y Pwyllgor yr eglurhad. Yn ogystal, gwnaethpwyd y pwynt gan y Pwyllgor nad yw canolfannau hamdden y Sir a’r cyfleusterau y maent yn eu darparu yn cael eu hysbysebu’n ddigonol fel rhan o lenyddiaeth twristiaeth a digwyddiadau’r Awdurdod. Awgrymwyd y byddai rhoddi proffil uwch i’r canolfannau hamdden a’r pyllau nofio yn hybu niferoedd presenoldeb a lefelau incwm ar adeg pan mae adnoddau dan bwysau. Awgrymwyd ymhellach y dylid ystyried gwahodd swyddog o Adain Dwristiaeth yr Awdurdod i roddi cyflwyniad i’r Pwyllgor ar y strategaethau cyfredol ar gyfer hyrwyddo yr amrediad o atyniadau a chyfleusterau sydd ar gael ar yr Ynys.

  **Penderfynwyd nodi’r cyd-destun a’r gweithgareddau lliniarol mewn perthynas â pherfformiad yn erbyn y 3 dangosydd perfformiad a amlinellir ym mharagraffau 3.1, 3.2 a 3.3 yr adroddiad.**

  **CAMAU GWEITHREDU’N CODI: Y Prif Swyddog Hamdden i adrodd yn ôl i’r Pennaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol o ran priodoldeb rhoddi i’r canolfannau hamdden a’r pyllau nofio mwy o amlygrwydd yn llenyddiaeth twristiaeth yr Awdurdod.**

**7. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL DRAFFT 2014/15**

Cyflwynwyd i’r Pwyllgor ei ystyried – ddrafft cychwynnol o Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2014/15. Mae’r adroddiad yn asesu cynnydd y Cyngor yn erbyn ei amcanion gwella am 2014/15 fel y cânt eu hamlinellu trwy’r saith maes allweddol a nodwyd yn Nogfen Cyflawni Blynyddol 2014/15.

Dywedodd y Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes wrth y Pwyllgor fod yr Adroddiad Perfformiad drafft wedi cael ei gyflwyno i’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ynghyd â Swyddfa Archwilio Cymru sydd wedi darparu sylwadau cychwynnol ar y cynnwys. Bydd perfformiad yn cael ei ddadansoddi ymhellach pan fydd gwybodaeth gymharol ynghylch perfformiad ar draws Awdurdodau Cymru ar gael rhyw bryd yn ystod mis Awst i fis Medi.

Wedi rhoddi sylw cychwynnol i’r adroddiad drafft, daeth y Pwyllgor i’r canlyniad nad oedd mewn sefyllfa yn y cyfarfod hwn i wneud cyfiawnhad â’i gynnwys a hynny oherwydd prinder amser ac oherwydd nad oedd gwybodaeth gymharol ar gael gan olygu nad oedd gan y Pwyllgor y darlun llawn a’r data cyflawn i fedru sgriwtineiddio’r adroddiad mewn modd ystyrlon. Nodwyd y bydd yr adroddiad perfformiad yn cael sylw gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 14 Medi ond wedi deall na fydd y wybodaeth lawn ynghylch perfformiad efallai ar gael ar gyfer ei gyhoeddi gydag agenda’r cyfarfod hwnnw, ac yn dilyn trafodaeth bellach, awgrymwyd y dylid cynnal cyfarfod ychwanegol o’r Pwyllgor ar adeg a fyddai’n galluogi’r Pwyllgor i roddi sylw i’r adroddiad perfformiad blynyddol terfynol fel y gall sefydlu lle

DRAFT

y mae'r Awdurdod, lle y mae angen iddo fod, sut y bydd yn cyrraedd yno a sut y mae'n cymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

**Penderfynwyd gohirio'r drafodaeth ar Adroddiad Blynyddol 2014/15 i gyfarfod yn y dyfodol.**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Y Rheolydd Sgriwtini Dros Dro i ymgynghori gyda'r Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes a'r Cadeirydd i gytuno ar adeg addas i'r Pwyllgor ystyried Adroddiad Perfformiad Blynyddol terfynol 2014/15.**

## 8. MATRICS SGORIO STRATEGAETH GYFALAF 2015

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor - adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro yn ymgorffori Strategaeth Gyfalaf 2015 a'r atodiadau cysylltiedig â'r Matrics Cyfalaf ar gyfer sgorio bidiau cyfalaf.

Wedi cael eglurhad ar rai pwyntiau mewn perthynas â'r matrics sgorio ac wedi awgrymu y dylid diwygio aelodaeth y Grŵp Tir ac Asedau Adeiledig Corfforaethol i adlewyrchu'r Uwch Reolwyr presennol, croesawodd y Pwyllgor gyflwyno'r matrics sgorio cyfalaf fel cam cadarnhaol o ran blaenoriaethu a monitro prosiectau cyfalaf.

**Penderfynwyd nodi a chefnogi matrics sgorio cyfalaf a'r strategaeth TGCh ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17 fel y cawsant eu cyflwyno.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

## 9. BLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynwyd er sylw a sylwadau – Blaenraglen Waith diweddaredig y Pwyllgor am 2015/16.

Dygodd y Rheolydd Sgriwtini Dros Dro sylw'r Pwyllgor at newidiadau i'r Rhaglen Waith fel a ganlyn -

- Gohirio ar gais y Gwasanaeth, yr Adolygiad ar y Gwasanaeth Llyfrgelloedd i'r cyfarfod o'r Pwyllgor ym mis Chwefror 2016. Gan fod yr Aelodau wedi cael diweddariad ar y pwnc hwn yn y sesiwn friffio fisol i Aelodau ar 2 Gorffennaf, ystyriwyd ei fod yn ddianghenraid i'w ystyried yn ffurfiol hefyd gan y Pwyllgor yn y cyfarfod hwn. Adroddir ar yr adolygiad o'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd i'r Pwyllgor Gwaith y mis hwn gyda golwg ar ymgynghori a bydd canlyniad y broses yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini ym mis Gorffennaf ynghyd â chynigion penodol y Gwasanaeth.
- Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol wedi cael ei chynnwys fel eitem ychwanegol ar gyfer cyfarfod yr Pwyllgor a gynhelir ym mis Mawrth 2016.

**Penderfynwyd nodi a derbyn y Blaenraglen Waith ddiweddaredig.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

**Y Cynghorydd R. Meirion Jones**
**Cadeirydd**



DRAFFT

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL** |
| **Dyddiad:** | **17/9/15** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2014/15 (Drafft 1af)** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **CYNGHORYDD ALWYN ROWLANDS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **SCOTT A ROWLEY** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **GETHIN MORGAN**<br>01248 752111<br>GethinMorgan@anglesey.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **n/a** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1.1** Mae angen i'r Cyngor gyhoeddi Dogfen Cyflawni Blynyddol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn, dogfen sy'n cynnwys prif flaenoriaethau ac Amcanion Gwella yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn fel amlinellwyd yn y Cynllun Corfforaethol 4 blynedd.

**1.2** Yn ogystal, mae'n ofynnol i'r cyngor hefyd i lunio a chyhoeddi ei Adroddiad Perfformiad blynyddol erbyn 31 Hydref bob blwyddyn - dogfen sydd yn dadansoddi perfformiad dros y flwyddyn ariannol flaenorol yn erbyn y gwellianau a blaenoriaethau amlinellwyd yn y Cynllun Corfforaethol.

**1.3** Mae'r papur hwn yn amlinellu cynhyrchu drafft cychwynol ein Adroddiad Perfformiad sy'n edrych yn ôl dros berfformiad y Cyngor ar gyfer 2014/15

**1.4** Mae'r Adroddiad yn edrych ar gynnydd y cyngor yn erbyn ein Amcanion Gwella ar gyfer 2014/15 fel amlinellwyd drwy ein 7 maes allweddol yn y Ddogfen Cyflawni Blynyddoil 2014/15:-

- Ein bod yn Transform Hŷn Gofal Cymdeithasol i Oedolion
- Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi
- Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein Hysgolion
- Rydym yn cynyddu ein Opsiynau Tai a Lleihau Tlodi
- Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgell
- Dod Cwsmeriaid, Dinasyddion a Bro

- Trawsnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

**1.5** Mae'r drafft hwn yn edrych ar yr allbynnau a'r canlyniadau yn erbyn yr hyn y dywedasom y byddem yn ei gyflawni yn ystod 2014/15 yn erbyn y 7 thema allweddol uchod

**1.6** Rhan allweddol o'r Adroddiad Perfformiad yw asesiad o berfformiad y Cyngor yn erbyn ei ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n edrych ar berfformiad blwyddyn ar flwyddyn ac wedi'w feincnodi yn erbyn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at ein llwyddiannau a meysydd lle mae gwendidau fel nodwyd drwy y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC) a Mesurau Atebolrwydd Perfformiad (MACau). Mae dadansoddiad cyffredinol hefyd yn edrych ar Ddangosydd Perfformiad allweddol ar gyfer gwasanaethau fel y mesurir drwy'r Setiau Data Gwella Gwasanaeth (DGG).

**1.7** Fodd bynnag, nid yw Gwybodaeth Perfformiad yn cael ei ryddhau gan Llywodraeth Cymru ar gyfer ei gyhoeddi a'i dadansoddi cyn mis Awst / Medi bob blwyddyn, ac fel y cyfryw bydd y gwybodaeth cymharol hwn yn cael ei gynnwys yn y fersiwn derfynol o'r adroddiad fydd yn cael ei gyflwyno a'i gyhoeddi erbyn y dyddiad statudol yn mis Hydref 2015.

**1.8** Dylid nodi felly bod yr holl wybodaeth Dangosyddion Perfformiad a gynhwysir yn yr adroddiad drafft yn seiliedig ar ein cyfrifiadau mewnol ein hunain ac nid ydynt, hyd yma, wedi cael eu gwirio gan Llywodraeth Cymru.

**1.9** Gofynir i'r Pwyllgor felly :

- **Craffu canlyniadau a'r allbynnau fel yr amlinellir yn yr Adroddiad Perfformiad ac nodi unrhyw faterion i'w dadansoddi au herio ymhellach**

- **Cytuno bod fersiwn terfynol yr Adroddiad Perfformiad 2014/15 sydd i'w gyhoeddi erbyn y dyddiad statudol yn mis Hydref yn cael ei ddrafftio gan Swyddogion mewn ymgynghoriad a'r Aelod Portffolio**

**B - B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

n/a

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith??**

Dirprwywyd y mater hwn i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** | |

| | | |
|---|---|---|
| | (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151**<br>(mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro**<br>(mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |
| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |
| **F - Atodiadau:** | | |
| Atodiad A – Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2014/15 (Drafft) | | |
| **FF - FF – Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** | | |
| • Dogfen Cyflawni Blynyddol 2014/15<br>• Cynllun Busnes Corfforaethol 2013/17 | | |

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Cyngor Sir Ynys Môn

# ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2014/15

Cyngor Sir Ynys Môn
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW
Ffon: (01248) 752111

# ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2014-2015

# CYFLWYNIAD

Y nod ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn fel y nodwyd yn ein Cynllun Corfforaethol 2013-2017 yw y erbyn 2017-

**"Y byddwn yn gyngor proffesiynol sy'n cael ei redeg yn dda, yn arloesol yn ein hymagwedd ac yn edrych tuag allan, yn ymrwymedig i ddatblygu ein pobl a phartneriaethau er mwyn darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol o ansawdd da, sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan ein dinasyddion"**

Amlinellwyd sut y byddem yn cyflawni blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol yn ein Dogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2014-15. Bydd y ddogfen hon felly yn amlinellu sut y gwnaethom gyflawni ar ein haddewidion dros y deuddeg mis diwethaf (2014/15) ac yn dangos ein parodrwydd i yrru a chyflawni ein dyletswydd o sicrhau gwelliant parhaus, sef yr hyn a ddisgwylir o bob Awdurdod Lleol yn unol â Mesur Llywodraeth Cymru 2009.

Dyma oedd 7 maes allweddol yr oeddem yn canolbwyntio ar eu gwella yn ystod 2014-15, fel yr amlinellwyd yn ein Cynllun Corfforaethol 4 blynedd (2013-2017) ac yn ein Dogfen Gyflawni Flynyddol (2014/15) oedd: -

1. Ein bod yn Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn
2. Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi
3. Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein Hysgolion
4. Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Tlodi
5. Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgelloedd
6. Canolbwyntio mwy ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned
7. Trawsnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

Yn yr adroddiad hwn, byddwn yn edrych yn ôl ar yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud dan y saith maes thematig allweddol hyn ac yn cymharu hynny gyda'r hyn a wnaethpwyd mewn gwirionedd, yn ogystal â dadansoddi'r data perfformiad sy'n dangos ac sy'n cefnogi'r hyn a wnaed gennym i gyflawni ein canlyniadau yn lleol a chenedlaethol.



DRAFT

# Ein bod yn Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn

Mae pobl yn byw'n hirach ac o'r herwydd, rydym yn disgwyl gweld cynnydd o tua 70 % yn nifer y bobl dros 85 sy'n byw ar yr Ynys dros y 10 mlynedd nesaf *. Mae gan Ynys Môn un o'r poblogaethau pobl hŷn mwyaf yng Nghymru. Mae cynnydd hefyd yn niferoedd y bobl sydd â chyflyrau cymhleth tymor hir gan gynnwys dementia. Er mwyn darparu'r lefel angenrheidiol o gefnogaeth sydd ei hangen i gwrdd â'r cymhlethdodau cynyddol yn y galw (yn nhermau cyllid a gweithlu), mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen iddo newid y ffordd y mae'n darparu gofal cymdeithasol i oedolion er mwyn sicrhau eu bod yn gynaliadwy yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**Sut gwnaethom ni hyn yn 2014/15?**

| **Ein Haddewid: Byddwn yn datblygu ac yn sefydlu ar y cyd â phartneriaid 2 gynllun tai gofal ychwanegol yng Ngogledd a chanol yr Ynys ac yn cynllunio ar gyfer cynllun tai gofal ychwanegol pellach yn Ne'r Ynys drwy:** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Nodi safleoedd addas a phartner datblygu, a chytuno ar fodel gwasanaeth a dylunio ar gyfer Gofal Ychwanegol mewn cydweithrediad ag anghenion y gymuned leol<br>• Sicrhau bod Cynlluniau, gan gynnwys caniatâd angenrheidiol, wedi eu sefydlu ar gyfer dechrau adeiladu Tai Gofal Ychwanegol<br>• Gweithredu'r opsiwn mwyaf ymarferol o safbwynt ariannol ar gyfer Llawr Y Dref, Llangefni fel y nodwyd hynny mewn Gwerthusiad o'r Opsiynau<br>• Nodi'r posibiliadau o ran datblygu a safle ar gyfer Gofal Ychwanegol yn Ne'r Ynys |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r gymuned leol i ddatblygu Model Gwasanaeth Gofal Ychwanegol<br>• Mae safle datblygu ar gyfer y datblygiad Gofal Ychwanegol arfaethedig yn Llangefni wedi ei adnabod<br>• Mae partner datblygu hefyd wedi cael ei ddewis i ddatblygu Gofal Ychwanegol yn Llangefni<br>• Ar ôl cynnal gwerthusiad opsiynau, mae cynigion ariannol yn eu lle ar gyfer Tai Gofal Ychwanegol yn Llangefni ac Amlwch<br>• Mae'r cais cynllunio ar gyfer Gofal Ychwanegol yn Llangefni wedi hen gychwyn a bydd yn cael ei gwblhau yn ystod 2015 |



DRAFT

| **Ein Haddewid: Gwella'r amrediad o wasanaethau sydd ar gael yn y gymuned ar gyfer pobl hŷn a'u hargaeledd gan leihau'r ddibyniaeth ar gartrefi gofal preswyl drwy a'r galw amdanynt:** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Cytuno ar strategaeth a chynllun clir i alluogi pobl hŷn i aros yn eu cartrefi am gyfnod hwy, fel y nodwyd yn y Strategaeth 'Does Unman yn debyg i Gartref'<br>• Datblygu, cytuno a dechrau gweithredu'r model 'Hyb Cymunedol' erbyn Rhagfyr 2014, lle bydd ystod eang o gefnogaeth a gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan gymunedau lleol (ac yn aml yn anffurfiol) yn cael eu gwella a'u "cyd-gysylltu" fel bod gwell cefnogaeth a gofal yn cael ei darparu i'r person hŷn mewn angen gan a thrwy'r gymuned leol. |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Mae ein model 'Hyb Cymunedol' yn weithredol sy'n cynnwys y Canolfannau Heneiddio'n Dda yn Amlwch a Llangefni gyda Chydlynydd Ardal Leol yn ardal Seiriol<br>• Mae'r model 'Hyb Cymunedol' yn chwarae rhan allweddol mewn dylunio Gofal Ychwanegol yn Llangefni<br>• Mae strategaeth anffurfiol ond clir yn y broses o gael ei rhoi ar waith i alluogi pobl hŷn i aros yn eu cartrefi am gyfnod hirach |

| **Ein Haddewid: Ailddatblygu ein gwasanaeth ailalluogi i gefnogi a helpu pobl i wella ac adennill annibyniaeth trwy ddefnyddio cynlluniau cymorth sy'n seiliedig ar ganlyniadau trwy:** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Datblygu a sefydlu rhaglen ail-lluogi sy'n galluogi pobl sydd angen gofal a chefnogaeth i aros neu ddychwelyd i'w cartrefi eu hunain a symud allan o'r ysbyty neu leoliadau gofal eraill<br>• Gwella integreiddiad gwasanaeth ailalluogi gyda phob rhan o'r ddarpariaeth ar gyfer diwallu anghenion gofal a llety pobl hŷn |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Rydym wedi datblygu a gwreiddio rhaglen ail-alluogi er mwyn galluogi pobl sydd angen gofal a chymorth i aros neu ddychwelyd i'w cartrefi eu hunain<br>• Mae integreiddio y ail-alluogi wedi cael ei wella ac erbyn hyn yn gysylltiedig â ysbyty dwys, Gwasanaeth Gofal Môn ac yn rhyngweithio â'r holl wasanaethau a ddarperir drwy Ofal Canolraddol |

| **Ein Haddewid: Mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd, datblygu trefniadau i reoli a darparu gwasanaethau ar y cyd, yn enwedig mewn perthynas â dementia, gwasanaethau i bobl hŷn yn gyffredinol a chymorth i ofalwyr trwy:** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Datblygu prosiect sy'n gwella’r ddarpariaeth o wasanaethau cymorth Dementia drwy adolygu trefniadau trothwy ac erbyn Gorffennaf 2014, cytuno ar gynllun prosiect ar gyfer camau a fydd yn gwella gwasanaethau a gweithio ar y cyd ag Iechyd<br>• Cynnal archwiliad o ofalwyr teulu a'r cymorth y maent ei angen erbyn Hydref 2014 |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Rydym wedi gweithio gyda'r sector gwirfoddol i ddarparu Caffis Dementia a cyflesterau Seibiant Dydd Cynhalwyr<br>• Gwaith pellach wedi'i gynllunio ar gyfer 2015-16 i wella'r ddarpariaeth o Wasanaethau Cymorth Dementia ymhellach ac cynnal archwiliad o ofalwyr teulu a'r cymorth sydd ei angen arnynt |

## Gwybodaeth Perfformiad ar gyfer Gwasanaethau Oedolion


Caiff canlyniadau’r Dangosyddion Perfformiad (DP) perthnasol ar gyfer Gwasanaethau Oedolion eu hamlinellu yn Nhabl 1 (isod) a cheir dadansoddiad o’r canlyniadau ar gyfer 2014/15 yn erbyn y flwyddyn flaenorol a safle pob DP yn y chwarteli.

| **Tabl 1**<br>Disgrifiad DP | 2013/ 14 | 2014/ 15 | Tuedd<br>Bl ar fl | Chwartel 14/15 |
|---|---|---|---|---|
| SCA/001: Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd | 0.55 | 1.8 | ↓ | Canolrif Uchaf |
| SCA/002a: Cyfradd pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y rhoddir cymorth iddynt yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth | 54.41 | 49.5 | ↓ | Isaf |
| SCA/002b: Cyfradd pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 | 18.16 | 23.28 | ↑ | Isaf |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mawrth | | | | |
| SCA/007: Canran y cleientiaid â chynllun gofal ar 31 Mawrth, y dylai eu cynlluniau gofal fod wedi'u hadolygu ac a gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn | 87.86 | 92.2 | ↑ | Uchaf |
| SCA/018a: Canran y gofalwyr sy'n gofalu ar ôl oedolion a gafodd gynnig asesiad neu adolygiad o'u hanghenion eu hunain yn ystod y flwyddyn | 91.28 | 92.9 | ↑ | Canolrif Isaf |
| SCA/019: Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion a gwblhawyd lle rheolwyd y risg | 88.89 | 91.92 | ↑ | Isaf |
| SCA/020: Canran y cleientiaid (oedolion) sy'n cael cefnogaeth yn y gymuned yn ystod y flwyddyn | 80.37 | 79.1 | ↓ | Isaf |

Mae'r Dangosyddion Perfformiad ar gyfer Gwasanaethau Oedolion yn dangos ychydig iawn o newid rhwng 2013/14 a 2014/15. O'r 7 DP, mae un yn y chwartel uchaf ac un arall yn y chwartel canol uchaf – yr unig newid yw dirywiad bychan yn SCA/001: Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd, lle yr ydym wedi symud o'r chwartel uchaf i'r chwartel canol uchaf (o'r trydydd safle yng Nghymru yn 2013/14 i'r nawfed safle yn 2014/15, ond mae'n parhau i fod yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru) gweler Tabl 2. Yr unig DP arall sydd wedi gwella o fewn y chwartel uchaf yw SCA/007: Canran y cleientiaid â chynllun gofal ar 31 Mawrth, y dylai eu cynlluniau gofal fod wedi'u hadolygu ac a gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn – gan symud o'r pumed i'r ail safle yng Nghymru ac o 87.9% yn 2013/14 i 92.2% yn 2014/15 (Tabl 3)


**Tabl 2**




**Tabl 3**




DRAFT




O'r 4 DP sydd yn y chwartel isaf – safleoedd 18, 19, 20 a 22 ar draws Cymru - mae perfformiad dau ohonynt wedi gwella (SCA/002b: Cyfradd y bobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth a SCA/019: Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion a gwblhawyd lle rheolwyd y risg. Mae un DP yn parhau i fod yn safle 22 (Tabl 4) ond rydym yn gwybod mai'r rheswm am hyn yw bod model yr adran gwasanaethau cymdeithasol yn seiliedig ar gefnogi unigolion i fod yn annibynnol ar wasanaethau gyda chymorth ataliol cryf a chymorth lefel isel ar gael yn y cymunedau. Mae'r dangosydd hwn yn groes i'r amcan hwn, amcan sydd yn hollol gyson â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

**Tabl 4**




**Yr hyn y mae Defnyddwyr Gwasanaeth yn ei ddweud am y Gwasanaethau Oedolion:**



DRAFT

“Hoffwn ddweud pa mor ddiolchgar ydw i i’r ofalwraig am weithredu a meddwl mor sydyn a hoffwn ddiolch iddi am y modd y cyflawnodd ei dyletswyddau”

“Diolch o galon am y gofal a’r sylw ardderchog a gefais ers cael fy rhyddhau o’r ysbyty”

“Diolch am eich cyfeillgarwch a’ch cefnogaeth i ni fel teulu”

“Hoffwn ddiolch i chi am fod mor garedig tuag ataf yn ystod yr amser y bûm yn aros hefo chi. Roedd y bwyd yn fendigedig a chefais hwyl gyda’r staff.”

“Soniodd y gweithiwr cymdeithasol wrthym am y gefnogaeth sydd ar gael, cafwyd cymorth brys gan y gwasanaeth ail-alluogi gyda hynny’n sicrhau na fu’n rhaid i fy mherthynas aros yn yr ysbyty yn ddiangen ... Ni fedraf ei chanmol ddigon am ei charedigrwydd, ei phroffesiynoldeb a’i gallu i symud pethau yn eu blaenau.”

DRAFT

## Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi

Mae'r Cyngor yn dymuno gweld dyfodol lle mae cymunedau lleol , mentrau cymdeithasol , busnesau a'r sector cyhoeddus yn dod at ei gilydd i gytuno a rhoi sylw i flaenoriaethau adfywio. Yn ogystal, anelwn at weithio mewn partneriaeth i ddefnyddio'r buddsoddiad economaidd arfaethedig i wella ansawdd bywyd. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen i ni feddwl yn greadigol, rhannu adnoddau a chydweithio i wella bywydau a chyfleoedd i bobl leol.

Mae'r economi yn fater o bwys i lawer ac mae ein dinasyddion yn ystyried bod creu swyddi yn hollbwysig i ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer gwella ansawdd bywyd . Er y cydnabyddir mai'r sector preifat yw'r prif sbardun economaidd a chyfoeth ar yr Ynys, mae gan y Cyngor rôl yn sefydlu amgylchedd ar gyfer twf lle gall busnesau lleol dyfu ac ehangu a lle gall mwy o fusnesau newydd sefydlu eu hunain a ffynnu.

Mae'r Rhaglen Ynys Ynni a'r statws Parth Menter yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i greu swyddi newydd sylweddol yn sgil y buddsoddiad arfaethedig a photensial y sector ynni carbon isel i dyfu. Fe ddywedom y buasem yn edrych ar ddatblygu cynlluniau sy'n cynyddu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc, gwella seilwaith a chefnogi'r gadwyn gyflenwi. Yn ogystal, gwnaethom ddatgan y byddai y Cyngor hefyd yn parhau i gefnogi a datblygu sectorau allweddol eraill, megis twristiaeth, sy'n gyrru economi'r Ynys.

**Sut gwnaethom ni hyn yn 2014/15?**

| **Ein Haddewid: Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i gryfhau cystadleurwydd economi'r ynys drwy wella seilwaith, argaeledd sgiliau a chefnogi cwmnïau lleol drwy:** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Gwneud y mwyaf o arian Ewropeaidd a domestig allanol ( gan gynnwys cronfeydd Strwythurol yr UE a Chynllun Datblygu Gwledig 2014-2020) i fanteisio ar gyfleon adfywio a buddsoddi, gan gynnwys darparu a chau 16 o brosiectau UE presennol a datblygu 15 o achosion busnes newydd mewn perthynas â Seilwaith Strategol , Safleoedd ac Adeiladau, Adfywio Ffisegol , Twristiaeth a Chefnogi Busnes<br>• Dylanwadu , hyrwyddo a chyd -drefnu gweithgareddau cefnogi busnes a menter – gan gynnwys cefnogi 18 o fusnesau presennol a newydd a chreu 25 o swyddi newydd mewn mentrau bach a chanolig eu maint ( sy'n cyflogi llai na 250 o bobl ) drwy'r Gronfa Fuddsoddi Leol<br>• Gwella a datblygu safleoedd ac adeiladau seilwaith a busnes strategol newydd ac adeiladau sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys adeiladu 4 uned busnes newydd yn Llangefni i fynd i'r afael â diffyg buddsoddiad mewn adeiladau ar Ynys Môn<br>• Sicrhau bod Ynys Môn yn manteisio'n llawn ar y dynodiad Parth Menter gan Lywodraeth |

| |
|---|
| Cymru trwy ymateb i bob cais mewnfuddsoddi |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Datblygwyd 8 o achosion busnes yn unol â blaenoriaethau allweddol – gan gynnwys<br>▪ Canolfan Fusnes Estyniad<br>▪ Safleoedd ac Adeiladau (Cam 2)<br>▪ Gweithgareddau Adfywio Ffisegol<br>▪ Cerdded a Beicio Llangefni<br>▪ Cronfa Fuddsoddi Caergybi<br>▪ Ffordd Gyswllt Llangefni<br>▪ Cynllun Gwella Seilwaith Ynys Môn<br><br>• Llwyddwyd i gyflawni'n effeithiol a chau 9 o brosiectau a oedd yn cael eu hariannu drwy'r UE, gan gynnwys<br>▪ Llwyddo'n Lleol<br>▪ Taith Trawsnewid Cludiant<br>▪ Gwella Rhwydwaith Cydweithio<br>▪ Ymweld â Môn<br>▪ Mentergarwch<br>▪ Potential NEETs<br>▪ 3 Tref Ynys Mon<br>▪ CDG Gwasanaethau Bro<br>▪ Cysylltiadau Gwaith Newydd<br><br>• Cyflwynwyd 6 o geisiadau newydd am gymorth ariannol (dim UE), gan gynnwys<br>▪ Cyllid etifeddiaethTaith Prydain<br>▪ Cynllun Gweithredu Canol y Dref Llywodraeth Cymru<br>▪ Ffordd Gyswllt<br>▪ Cynllun Gwella Seilwaith<br>▪ Estyniad Canolfan Fusnes Môn<br>▪ Prif Gynllun Gaerwen<br><br>• Yn 2014/15 cefnogwyd 20 o fusnesau drwy'r Gronfa Fuddsoddi Leol (CFL); a cynorthwyo i greu 30 o swyddi newydd (ee Enochs y Fali a bragdy a Becos newydd yn Amlwch<br><br>• Ymgysylltwyd gyda 111 o fusnesau'r Ynys er mwyn deall eu hanghenion datblygu<br><br>• Adeiladwyd 4 o Unedau Busnes newydd yn Llangefni<br><br>• Er mwyn manteisio ar y dynodiad Parth Menter gan Lywodraeth Cymru rydym wedi ymateb i bob cais mewnfuddsoddi a dderbyniwyd yn 2014/15 |

| |
|---|
| **Ein Haddewid: Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo delwedd a chryfderau arbennig Ynys Môn ar gyfer ymwelwyr i hyrwyddo delwedd a chryfderau hynod Ynys Môn;** |

| Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud |
|---|
| • Datblygu a hyrwyddo delwedd a chryfderau hynod Ynys Môn drwy ddenu 250,000 o ddefnyddwyr unigryw i ymweld â CroesoMon.com a 95,000 o ddefnyddwyr unigryw yn ymweld a TreftadaethMon.com<br>• Cefnogi digwyddiadau twristiaeth strategol a phrosiectau gan gynnwys -<br>▪ gwelliannau i gylchdeithiau cerdded/ llwybrau beicio<br>▪ gwella 'Apps' ar gyfer Ffonau Symudol drwy gyfryngau digidol<br>▪ parhau i farchnata a hyrwyddo Geo Môn<br>▪ Tour de Môn, Gŵyl Feicio Cymru, Triathlon Llanc y Tywod Ynys Môn, Gŵyl Gardd Goll (gŵyl gerddoriaeth) Gŵyl Fwyd Môr, Copperfest, Miwsig Moelfre a Gŵyl Ffilm SeeMor<br>• Datblygu economi Mordeithio'r ynys drwy groesawu 15 o longau mordeithio i Borthladd Caergybi<br>• Gweithredu cynlluniau gwella cyfalaf pellach yn Porth Dafarch, Bae Trearddur, Rhosneigr, Cemaes ac Afon Menai a darparu sesiynau rhoi cynnig ar chwaraeon dŵr<br>• Prydlesu 400 o angorfeydd blynyddol a chofrestru 1,000 o gychod a badau dŵr personol<br>• Darparu gwasanaeth diogel, effeithiol a chydlynol i gwrdd ag anghenion cymunedau arfordirol ac ymwelwyr drwy gwblhau gwelliannau i'r seilwaith yn Noc Pysgod Caergybi |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Roedd 501,701 o ddefnyddwyr unigol wedi ymweld â gwefan CroesoMon yn ystod 2014-15<br>• Ddaru 10,994 o ddefnyddwyr unigol ymweld â gwefan TreftadaethMôn.com yn ystod 2014-15<br>• Rydym wedi argraffu a chylchredeg 60k o gyhoeddiadau Cyrchfan yn hyrwyddo'r Ynys a chodi gwybodaeth i ymwelwyr (gan gynnwys Lawlyfrau Cyrchfan, Cylchdeithiau Cerdded a Creigiau ac Adfeilion<br>• Cefnogwyd 2 ddigwyddiad drwy'r prosiect Ymweld â Môn - Sportif Seiclo Tour de Môn a Gŵyl Gerdded Ynys Môn<br>• Cefnogwyd 6 o ddigwyddiadau twristiaeth strategol<br>○ Gwyl Gardd Goll<br>○ Copperfest<br>○ Gwyl Bwyd Mor<br>○ Miwsig Moelfre<br>○ Gwyl Fwyd Biwmares |

- Gwyl Ffilmiau SeeMor

- Cafodd 3 o gylchdeithiau cerdded / llwybrau beicio eu gwella yn geo-trail Cemaes, Llwybr Brickshed – Parc Gwledig Caergybi a Lon Las Cefni
- Cyhoeddwyd a chylchredwyd llyfryn marchnata a hyrwyddo GeoMôn
- Ymwelodd 14 o longau mordeitho â Phorthladd Caergybi yn ystod 2014 (canslwyd un ymweliad oherwydd diffyg galw)
- Cwblhawyd 5 o gynlluniau gwella cyfalaf yng Mhorth Dafrach, Bae Trearddur, Rhosneigr, Cemaes, Afon
- Hwyluswyd 1055 o sesiynau cynefino â chwaraeon dŵr yn ystod 2014-15
- Gosodwyd 350 o lecynnau angori blynyddol a chafwyd 1275 o gofrestriadau ar gyfer cychod a badau dŵr
- Cyflogwyd 26 o Wardeiniaid Traeth a Goruchwylwyr Llithrfeydd er mwyn hyrwyddo diogelwch cyffredinol a mwynhad pawb sy'n defnyddio'r traethau mewn lleoliadau allweddol yn ystod tymor yr haf
- Cwblhawyd gwaith gwella yn Noc Pygod Caergybi a Phorth Amlwch
- Tynnwyd y Pontŵns ar gyfer eu hadnewyddu a gosodwyd Ystolion newydd a chychwynnwyd gwaith ar y Golau Uchel yn Noc Pysgod Caergybi

**Ein Haddewid: Gweithio gyda phartneriaid i oresgyn cyfyngiadau seilwaith (er enghraifft, lled band eang a thechnolegau symudol) i alluogi datblygiad a buddsoddiad ac i greu swyddi drwy;**

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud**

- Cydweithio gyda datblygwyr prosiect a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus i fuddsoddi mewn pobl, busnes a seilwaith cystadleuol i fanteisio ar gyfleoedd lleol a rhanbarthol ar gyfer swyddi, twf a ffyniant
- Sicrhau sgiliau ac adnoddau i foderneiddio seilwaith i gefnogi datblygiadau ynni carbon isel a chodi ymwybyddiaeth o botensial cyfleoedd cyflogaeth i ddenu pobl yn ôl i Ynys Môn , a sicrhau fod gan y gweithlu a phobl ifanc leol y sgiliau a'r galluoedd priodol trwy baratoi busnesau lleol i fanteisio ar y cyfleoedd a gynigir trwy ddatblygiadau mawr
- Paratoi'r Prosbectws Seilwaith Ynys Môn i amlinellu gofynion a gwelliannau ar gyfer y dyfodol a sicrhau gwell gwasanaethau i safleoedd Parth Menter sydd wedi eu blaenoriaethu
- Sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer Ffordd Gyswllt Llangefni - llwybr newydd i wella cysylltiadau a chysylltedd rhwng Parc Busnes Bryn Cefni a Choleg Menai a ddylai hefyd agor



DRAFT

ardaloedd newydd sylweddol o dir cyflogaeth

**Yr hyn a wnaethom**

- Manteiswyd i'r eithaf ar gyfleoedd cyflogaeth sy'n gysylltiedig â'r sector ynni drwy drafod cyfyngiadau capasiti ac gwelliannau posibl sydd eu hangen i'r rhwydwaith trydanol i ateb y galw yn y dyfodol ar yr Ynys gyda Rhwydweithiau Ynni Scottish Power
- Rhoesom cefnogaeth i ddatblygwyr sy'n rhan o'r Rhaglen Ynys Ynni gyda chyngor ac arweiniad ar y gyflogaeth, y gadwyn gyflenwi ac chyfleoedd mewnfuddsoddi y byddant yn cyflwyno
- Rydym wedi cyd-drefnu partneriaid allweddol i sicrhau bod y sgiliau ac anghenion addysg pobl ifanc yr Ynys yn cael eu bodloni ac yn galluogi nhw i fanteisio ar y cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r datblygiadau carbon isel arfaethedig
- Rhoesom gyngor i Fwrdd Gweithgaredd Economaidd Gogledd Cymru ar gyflogaeth a sgiliau
- Trefnwyd digwyddiad CodiSTEM i godi ymwybyddiaeth o bynciau STEM a'u manteision (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg, a Mathemateg)
- Sicrhwyd cyllid drwy'r Rhaglen Parth Menter LlC er mwyn symud ymlaen gyda'r Prosbectws Seilwaith (sy'n cynnwys gofynion adfywio, seilwaith ac eiddo, yn ogystal â chyfathrebu TGCh, pwer, cludiant a dŵr ar gyfer safleoedd allweddol)
- Cyflwynwyd cais cynllunio ar gyfer Ffordd Gyswllt Llangefni a chwblhawyd Asesiad o'r Effaith Economaidd fel rhan o'r broses gynllunio

**Ein Haddewid: Ymgymryd â'n cyfrifoldebau cynllunio yn effeithiol mewn perthynas â'r holl brosiectau mawr ar Ynys Môn, gan sicrhau bod yr effeithiau negyddol posibl yn cael eu lleihau i'r eithaf a sicrhau'r budd cymunedol mwyaf posib trwy:**

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud**

- Nodi, diffinio a datblygu dyheadau Cyngor Sir Ynys Môn o ran etifeddiaeth prosiectau ynni mawr (statudol ac anstatudol - ee Pŵer Niwclear Horizon a Celtic Array) a sicrhau adnoddau trwy Gytundebau Cynllunio Perfformiad gyda datblygwyr mawr fel y gellir cyfrannu at y broses gynllunio statudol mewn modd gwybodus ac amserol
- Sicrhau bod Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer yr Orsaf Niwclear Newydd yn Wylfa yn cael eu mabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor Sir
- Paratoi a gweithredu Strategaeth Gyfathrebu Rhaglen Ynys Ynni a'r Cynllun Cyflawni a pharhau i gydweithio gyda'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd a Llywodraeth Cymru



DRAFT

| Yr hyn a wnaethom |
|---|
| • Cynhaliwyd trafodaethau (ac maent yn parhau) gyda datblygwyr (gan gynnwys Pŵer Niwclear Horizon) ynghylch dyheadau CSYM o ran etifeddiaeth<br>• Mabwysiadwyd Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Gorsaf Wylfa Newydd<br>• Amlinellwyd y disgwyliadau anstatudol yn y Strategaeth Buddion Cymunedol Gwirfoddol<br>• Cafodd gweithgareddau cymwys eu cyllido drwy'r Cytundebau Polisi Cynllunio gyda Horizon, Centrica a'r Grid Cenedlaethol<br>• Mabwysiadwyd yn ffurfiol gan y Cyngor Sir y Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer yr Orsaf Niwclear Newydd yn 2014/15<br>• Cwblhawyd Strategaeth Ddrafft – cychwynnodd y rhaglen waith a llwyddwyd i gyflawni camau allweddol gan gynnwys presenoldeb ar Facebook/Twitter a mynychu digwyddiadau ac ati<br>• Parhawyd i gydweithio gyda'r Adran Ynni & Newid Hinsawdd (AYNH) a chyda Llywodraeth Cymru |

| Ein Haddewid: Gweithio gyda'r Brifysgol i ddatblygu parc gwyddoniaeth yn Ne'r Ynys gan ychwanegu gwerth i'r datblygiadau ynni arfaethedig, creu swyddi ac arallgyfeirio'r economi leol drwy |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Cefnogi Prifysgol Bangor i ddatblygu eu Parc Gwyddoniaeth a sefydlu Rhaglen Ynni Arforol Gogledd Cymru |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Buom yn cydweithio gyda Phrifysgol Bangor ar y Parc Gwyddoniaeth, gyda swyddogion o'r Gwasanaeth E&AC yn mynychu cyfarfodydd Grŵp Cydranddeiliaid Parc Gwyddoniaeth Menai yn rheolaidd ym Mhrifysgol Bangor |

| Ein Haddewid: Gyrru adfywiad cymunedol gan ddatblygu cynlluniau tref a chymuned cyfannol ar gyfer y prif aneddiadau ar yr ynys gan roddi blaenoriaeth i Gaergybi, Llangefni ac Amlwch drwy; |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Datblygu achosion busnes adfywio ffisegol ar gyfer Llangefni ac Amlwch yn dilyn gwerthusiadau cadarn o'r opsiynau er mwyn nodi gweithgareddau adfywio ffisegol, |

| |
|---|
| cymdeithasol ac economaidd a ddylai gael boaenoriaeth er mwyn rhoi sylw i anghenion a gofynion penodol y ddwy dref<br><br>• Gweithredu yn effeithiol y Rhaglen Adfywio Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yng Nghaergybi a chytuno ar ganlyniadau gyda Llywodraeth Cymru<br><br>• Datblygu dealltwriaeth gadarn o holl asedau a gwasanaethau Cyngor Sir Ynys Môn y gellid eu trosglwyddo/allanoli i bartneriaid a chyrff eraill |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Datblygwyd nifer o achosion busnes / astudiaethau dichonoldeb adfywio ffisegol:<br>▪ Ffordd Gyswllt Llangefni<br>▪ Cynllun Gwella Seilwaith Ynys Môn<br>▪ Llwybrau Cerdded a Beicio yn Llangefni<br>▪ Ehangu'r Ganolfan Fusnes<br>▪ Safleoedd ac Eiddo (Cam 2)<br>▪ Gweithgareddau Adfywio Ffisegol<br><br>• Gwariwyd £2M o gyllideb y Rhaglen Adfywio Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (VVP) ar brosiectau adfywio a thai yn ardal Caergybi<br><br>• Trosglwyddwyd y gwaith o redeg y Cwrs Golff Llangefni i Menter Gymdeithasol (Partneriaeth Llangefni) tan fis Ebrill 2017 gyda ystyriaeth bellach tuag at ei ddyfodol tymor hir i'w gytuno yn ddiweddarach<br><br>• Gwnaed gwaith i nodi opsiynau posibl ar gyfer Oriel Môn a Charchar Biwmares a fyddan yn ymgysylltu ar yr opsiynau yma yn ystod 2015/16<br><br>• Penodwyd Wales Co-operative fel ymgynghorwyr i edrych ar elfennau o'r Gwasanaethau Cymdeithasol |

## GWYBODAETH PERFFORMIAD AR GYFER ADFYWIO ECONOMAIDD A CHYMUNEDOL

Nid oes unrhyw Ddangosyddion Perfformiad Cenedlaethol ar gyfer Adfywio Economaidd a Chymunedol

**Yr hyn y mae Defnyddwyr Gwasanaeth yn ei ddweud am y Gwasanaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol:**

*"Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am gymryd rhan yn y Ffair Fusnes. Roedd y sesiwn yn llwyddiant mawr a chafodd y myfyrwyr fewnwelediad gwerthfawr i efffeithiau'r dirwasgiad ar fusnesau lleol. Roeddynt wedi mwynhau pob agwedd o'r sesiwn yn fawr iawn"*

*"Ar ran pawb fu'n ymwneud â'n digwyddiad Scubafest y penwythnos diwethaf, hoffwn ddiolch i chi am eich cymorth caredig er mwyn sicrhau bod hyn yn gallu digwydd. Ar y cyfan, bu'n llwyddiant mawr"*



DRAFT

*"Diolch am wasanaeth mor dda, mae'n gwneud i'n cyngor lleol adref edrych hyd yn oed yn waeth"*

*"Nodyn i ddweud diolch yn fawr iawn i chi am fod mor gymwynasgar yn ystod y cyfnod yr oeddem yn Nhraeth Coch. Roedd y saethu'n wych. Hoffem gynnwys gair swyddogol o ddiolch i'r Swyddfa Arforol yn y credydau ar y diwedd"*

*"Wedi dewis treulio wythnos o'n gwyliau haf eleni yn Ynys Môn ac yn falch iawn o weld mwy o rybuddion ar y traethau ynghylch lle gall cŵn a'u perchenogion fynd – Llanddwyn?? (Niwbwrch), Trearddur a thraeth baner las ymhellach i fyny'r arfordir, popeth fe ymddengys yn cael ei reoli'n dda eleni"*

*"Rwy'n ysgrifennu atoch i ddiolch o galon i chi am eich gwahoddiad i fynychu Ras Gyfnewid Baton y Frenhines ddydd Iau diwethaf ar y Grîn ym Miwmares. Roedd y digwyddiad yn llwyddiant mawr ac er bod Eryri yn aml yn taflu digwyddiadau o'r fath yng ngogledd Cymru i'r cysgod, roedd yn bwysig i'r Ras ddod i Ynys Môn"*

"*Dim ond nodyn byr atoch i ddiolch i chi am eich holl gymorth, roeddech yn hynod garedig, amyneddgar ac yn broffesiynol iawn"*

*"Dim ond eisiau cyfleu fy niolch a fy ngwerthfawrogiad i'r holl staff oedd ar y Dderbynfa ar ddiwrnod ein cyfarfod (dydd Mawrth 25 Mehefin) – Fforwm Medrusrwydd Ariannol Gogledd Cymru"*

*"Da iawn pawb sydd wedi gweithio i gyflawni hyn – enghraifft wych o weithio mewn partneriaeth"*

DRAFT

# Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein Hysgolion

Mae'r Cyngor eisiau i bob plentyn, pob person ifanc, pob dysgwr, lle bynnag y maent, waeth beth fo'u cefndir a'u hamgylchiadau gyflawni eu potensial llawn a bod yn barod i chwarae rôl weithredol fel dinasyddion cyfrifol ac eiriolwyr cymunedol yn y dyfodol. Er mwyn gwireddu hyn, ac i gyfrannu at weledigaeth uchelgeisiol Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg yng Nghymru, rydym yn derbyn bod angen i ni godi safon addysg yn Ynys Môn. Yn hyn o beth, derbynnir mai un o'r blaenoriaethau i'r Cyngor yw herio syniadau cyfredol, annog arloesedd a datblygu seilwaith ysgolion a fydd yn codi safonau addysgu a chyrhaeddiad, lleihau lleoedd gwag, gwella canlyniadau addysgol i blant a phobl ifanc a bod yn ymatebol yn gymdeithasol-economaidd i'n rhaglen gwella cymunedol.

**Sut gwnaethom ni hyn yn 2014/15?**

| **Ein Haddewid: Parhau i godi safonau o ran cyrhaeddiad addysgol a phresenoldeb drwy** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Weithredu'r Cytundeb Partneriaeth yn gyson a thargedu cymorth a her i ysgolion penodol er mwyn sicrhau eu bod yn atebol ar gyfer gwelliannau a gwneud defnydd addas o'r holl ddata sydd ar gael i gytuno ar dargedau heriol ar gyfer pob ysgol gynradd ac uwchradd<br>• Sicrhau bod pob ysgol yn glir ar y camau i'w cymryd i gynyddu lefel yr her i ddysgwyr mwy galluog a thalentog<br>• Adolygu prosesau i safoni asesiadau diwedd Cyfnod Sylfaen a CA2 mewn ysgolion cynradd<br>• Sicrhau bod gan bob ysgol gynlluniau priodol ar waith i wneud defnydd effeithiol o ddata mewn perthynas ag oedran darllen a gwybodaeth am arferion effeithiol i wella safonau darllen, a bod yr Awdurdod yn gwneud defnydd effeithiol o ddata oedran darllen i herio ysgolion unigol<br>• Datblygu rôl y Pwyllgor Sgriwtini mewn perthynas ag Addysg ac 'ysgolion sy'n peri pryder' a sicrhau bod Cyrff Llywodraethol yn cyflawni eu swyddogaethau statudol mewn perthynas â gweithredu fel cyfaill beirniadol i herio Prifathrawon |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Defnyddiwyd y Model Categoreiddio Cenedlaethol newydd i adolygu categorïau ysgolion a sicrhawyd bod yr holl ysgolion yn ymwybodol o'r categoreiddiad newydd a goblygiadau hynny o ran y lefel o gefnogaeth a her a fyddai ar gael o ganlyniad<br>• Cytuno ar dargedau ar gyfer yr holl ysgolion fel rhan o'r ymweliadau Monitro a Herio tymhorol<br>• Adolygwyd y broses gosod targedau yn 2014/15 er mwyn sicrhau targedau uchelgeisiol |

ar gyfer disgyblion unigol

- Aethpwyd ati i gasglu ynghyd yn ganolog dargedau'r ysgolion ar gyfer perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig ac uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig

- Cymerwyd camau i sicrhau fod ysgolion dalgylch, yn ychwanegol at drefniadau mewnol ac arfer dda yn yr ysgolion, yn cael cyfleon penodol i safoni darnau o waith y disgyblion er mwyn gwella'r ddealltwriaeth gyffredinol o'r hyn sy'n nodweddu perfformiad ar wahanol lefelau

- Rhoddwyd cydweithrediad llawn a chanllawiau atodol i ysgolion ar gofynion cymedroli a fydd yn cael eu gweithredu yn 2015

- Cyfrannwyd yn llawn at drefniadau rhanbarthol yr Awdurdodau Lleol drwy:
- Neilltuo adnoddau i ddarparu dull rhanbarthol cyffredinol
- Cefnogi datblygu strategaeth llythrennedd ranbarthol gan GwE
- Dadansoddi data profion darllen ar lefel Awdurdod Lleol fel rhan o'r gwaith o ddadansoddi perfformiad a'i ddefnyddio wedyn i herio ysgolion unigol

- Gwnaed cynnydd da o ran datblygu rôl yr aelodau etholedig hynny a enwebwyd i weithredu fel "Grŵp Adolygu Cynnydd mewn Ysgolion"

- Cafwyd cyfarfodydd gyda Phenaethiaid a Chadeiryddion Cyrff Llywodraethu ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn ystyried perfformiad yr ysgolion

- Sefydlwyd panelau gwella ac arnynt aelodau'r Cyrff Llywodraethu ar gyfer ysgolion a oedd yn cymryd camau dilyn-i-fyny ar ôl arolwg

**Ein Haddewid: Datblygu a chytuno ar strategaeth moderneiddio ysgolion i arwain penderfyniadau tymor hir a fydd yn cynnwys agor ein ysgol anghenion arbennig – Canolfan y Bont a darparu 2 ysgol gynradd ardal newydd drwy:**

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud**

- Datblygu Rhaglen gynhwysfawr ac uchelgeisiol ar gyfer Moderneiddio Ysgolion ac ymgynghori yn ei chylch a'i mabwysiadu

- Agor Canolfan Addysg y Bont yn swyddogol ar 15 Mai, 2014

- Trefnu fod digwyddiadau ymgynghori yn cael eu cynllunio ar gyfer ysgolion ardal newydd yn y Llannau (Llanfachraeth, Llanfaethlu a Llanrhuddlad ardal) ac yn ardal Caergybi yn ystod y flwyddyn, ac wedi hynny bod adroddiadau llawn ac achosion amlinellol strategol yn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith a Llywodraeth Cymru

**Yr hyn a wnaethom**


DRAFT

- Trafodwyd/mabwysiadwyd Rhaglen Foderneiddio ar gyfer ysgolion yn Ardaloedd y Llannau a Chaergybi
- Cynhaliwyd yr ymarfer ymgynghori ar gyfer Ysgolion Ardal y Llannau a Chaergybi
- Cyflwynwyd Achosion Amlinellol Strategol ar gyfer yr Ardaloedd Llannau a Chaergybi
- Agorwyd Canolfan Addysg y Bont yn swyddogol gan Huw Lewis AC ar 14 Mai 2014

**Ein Haddewid: Mabwysiadu a chyflwyno strategaeth sgiliau rhanbarthol sy'n fodd i Ynys Môn a Gogledd Cymru wella sgiliau'r gweithlu ac alinio eu hunain gyda chyfleoedd yn y dyfodol drwy:**

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud**

- Alinio'r rhaglen sgiliau 14-19 gyda chyfleoedd cyflogaeth sy'n esblygu a'r Strategaeth Datblygu Sgiliau Rhanbarthol a sicrhau bod llythrennedd a rhifedd yn cael sylw priodol ym mhob cyfnod allweddol

**Yr hyn a wnaethom**

- Gwnaed cynnydd da o ran datblygu stategaeth addysg a sgiliau ar gyfer yr ardal. Mae'r Grŵp Sgiliau Ynys Ynni wedi hwyluso ymagwedd bartneriaethol rhwng Addysg, Grŵp Llandrillo/Menai, Prifysgol Bangor ac eraill – gan weithio gyda'n gilydd i nodi materion allweddol y mae angen rhoi sylw iddynt os yw pobl ifanc am ennill y sgiliau angenrheidiol i fod yn weithgar yn y gweithlu
- Gwnaed cyfraniad sylweddol drwy brosiectau megis Cwmni Prentis Menai i sicrhau fod gan bobl ifanc y sgiliau angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth

## Gwybodaeth Perfformiad ar gyfer Addysg

Caiff canlyniadau'r Dangosyddion Perfformiad (DP) perthnasol ar gyfer Addysg eu hamlinellu yn Nhabl 5 (isod) a dadansoddir y canlyniadau ar gyfer 2014/15 (Blwyddyn Academaidd 2013/14) yn erbyn y flwyddyn flaenorol a safle pob DP yn y chwarteli.

| **Tabl 5**<br>Disgrifiad DP | 2013/14 | 2014/15 | Tuedd bl ar fl | Chwartel 14/15 |
|---|---|---|---|---|
| EDU/002i: Canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai sydd yng ngofal awdurdod lleol); a sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, | 0.00 | 0.3 | ↓ | Canolrif Isaf |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd | | | | |
| EDU/002ii: Canran y disgyblion sydd yng ngofal awdurdodau lleol sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd | 0.00 | 14.3 | ↓ | Isaf |
| EDU/003: Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon | 87.98 | 87.8 | ↓ | Canolrif Uchaf |
| EDU/004: Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon | 81.46 | 83.6 | ↑ | Canolrif Uchaf |
| EDU/006ii: Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athrawon yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 | 61.75 | 67.2 | ↑ | Uchaf |
| EDU/011: Cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol | 593.55 | 598.3 | ↑ | Uchaf |
| EDU/015a: Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau gan gynnwys eithriadau | 59.09 | 38.5 | ↓ | Isaf |
| EDU/015b: Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau b) heb gynnwys eithriadau | 100.00 | 84.6 | ↓ | Isaf |
| EDU/016a: Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd | 94.41 | 94.6 | ↑ | Canolrif Isaf |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| EDU/016b: Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd | 93.24 | 93.4 | ↑ | Canolrif Isaf |
| EDU/017: Canran y disgyblion 15 oed ar y 31ain Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y trothwy Lefel 2 gan gynnwys gradd A*-C TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg | 54.20 | 53.8 | ↓ | Canolrif Isaf |

O ran DP Addysg, mae'r darlun cyffredinol yn un cymysg ond yn gyffredinol, mae'n dangos dirywiad cyffredinol mewn perfformiad ar draws yr 11 DP perthnasol rhwng 2013/14 a 2014/15 a hynny'n unol â'r hyn yr oeddem yn ymwybodol ohono ac yn ei ddisgwyl. Roedd 8 DP yn y Chwartel uchaf yn 2013/14 ond dim ond dau sydd yno eleni. Rydym yn falch fod EDU/011: Y sgôr ar gyfartaledd i ddisgyblion 15 oed y mis Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, yn golygu ein bod yn parhau i fod yn un o'r ddau awdurdod yng Nghymru sydd ar y brig (Tabl 6).


Fel Awdurdod Lleol bychan o ran poblogaeth (o gymharu â'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru) rydym yn ymwybodol y gall ffigyrau gwaelodlin a chraidd bychain ar gyfer rhai o'n DP arwain at anwadalwch mawr. Gwelir enghraifft o hyn yn Addysg. Er enghraifft, y ni oedd yr Awdurdod oedd ar y brig yng Nghymru yn ystod 2013/14 o ran y DP sy'n edrych ar ganran y disgyblion yng ngofal yr awdurdod lleol sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu gyfleoedd dysgu yn y gwaith heb gymhwyster allanol cydnabyddedig. Fodd bynnag, yn 2014/15, y ni oedd ar waelod y tabl yng Nghymru (22ain allan o'r 22 Awdurdod), canlyniad sy'n cyfateb i newidiadau o fewn ffigyrau sengl rhwng y ddwy flynedd (Tabl 7).

Gwelwyd dirywiad yn y DP sy'n dangos y ganran o ddatganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a gyhoeddwyd o fewn 26 wythnos heb gynnwys eithriadau yn gostwng o 100% yn 2013/14 i 84.6% yn 2014/15, ac o'r chwartel uchaf i'r chwartel isaf yn y drefn honno (Tabl 8).


Gwelir enghraifft arall lle gall amrywiadau bychain arwain at newidiadau lled ddramatig o ran chwartelau yn Nhabl 9 – lle mae symud o 94.4% yn 2013/14 i 94.6% yn 2014/15 yn golygu ein bod hefyd yn symud o'r chwartel uchaf i'r chwartel isaf – er gwaethaf cynnydd bychan o ran perfformiad yn y DP ei hun.

DRAFT


**Tabl 6**


EDU/011: Cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol
700
600
500
400
300
200
100
0
Gwynedd
Isle of Anglesey
Carmarthenshire
The Vale of Glamorgan
Denbighshire
Swansea
North Wales
Pembrokeshire
Flintshire
Merthyr Tydfil
Neath Port Talbot
Rhondda Cynon Taf
Powys
Wales
Wrexham
Monmouthshire
Ceredigion
Newport
Conwy
Bridgend
Torfaen
Blaenau Gwent
Cardiff
Caerphilly
Chwarter Uchaf
Canolrif Uchaf
Canolrif Isaf
Chwartel Isaf
Cymru
Gogledd Cymru


**Tabl 7**


EDU/002ii: Canran y disgyblion sydd yng ngofal ALL sydd mewn unrhyw ysgol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd
16
14
12
10
8
6
4
2
0
Gwynedd
Carmarthenshire
The Vale of Glamorgan
Denbighshire
Swansea
Pembrokeshire
Flintshire
Merthyr Tydfil
Neath Port Talbot
Rhondda Cynon Taf
Powys
Wrexham
Monmouthshire
Ceredigion
Newport
Conwy
Bridgend
Blaenau Gwent
Caerphilly
Wales
North Wales
Cardiff
Torfaen
Isle of Anglesey
Chwarter Uchaf
Canolrif Uchaf
Canolrif Isaf
Chwartel Isaf
Cymru
Gogledd Cymru

## Tabl 8




## Tabl 9




Gwybodaeth ansoddol i'w gynnwys

# Cynyddu ein Opsiynau Tai a Lleihau Tlodi

Mae cael lle fforddiadwy safonol i fyw yn bwysig i sicrhau bod ein holl ddinasyddion yn byw mewn cartref diogel ac addas sy'n eu galluogi i gael y budd mwyaf ar gyfer mynediad i swyddi, hamdden, a mwynderau ac addysg. Yn ogystal, mae'r sylfaen bwysig hon yn eu galluogi i gael y manteision cymdeithasol ac economaidd y maent yn dyheu amdanynt ac yn eu haeddu. Gyda chwmnïau ynni mawr byd-eang yn gweithio tuag at fuddsoddi'n sylweddol yn Ynys Môn, byddwn yn parhau i weithio gyda landlordiaid yn y sector cymdeithasol / preifat i sicrhau'r nifer uchaf posib o gartrefi o safon ar gyfer contractwyr. Dywedwyd y byddwn hefyd yn parhau â'n hymdrechion i ddatblygu'r farchnad dai ar gyfer pobl leol gyda phwyslais arbennig yn cael ei roi ar weithio gyda phartneriaid i gynllunio, datblygu a sefydlu mwy o opsiynau tai fforddiadwy ar gyfer ein dinasyddion.

**Sut y byddwn yn gwneud hyn yn 2014/15?**

| **Ein Haddewid: Gweithio gyda phartneriaid i foderneiddio a chydlynu'r gwasanaeth cyngor budd-daliadau er mwyn gwella annibyniaeth a gweithio tuag at ein strategaeth gwrthdlodi a lliniaru effeithiau diwygio lles drwy** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Taclo tlodi yn Ynys Môn drwy ddatblygu Strategaeth Gwrthdlodi gydag asiantaethau partner dan gyfarwyddyd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol<br>• Sefydlu tudalennau Diwygio Lles penodol ar wefan y Cyngor a chyhoeddi taflenni gwybodaeth ar reoli cyllidebau ar gyfer tenantiaid tro cyntaf (pob deiliadaeth) i godi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael i'r rhai sydd ei angen ar Ynys Môn<br>• Sicrhau 75 % o geisiadau llwyddiannus ar gyfer arian o'r Gronfa Cymorth Dewisol sy'n cael eu cefnogi a'u harwyddo gan yr Awdurdod Lleol |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Sefydlwyd mecanweithiau i fesur effaith y Dreth Ystafell Wely gan gynnwys ymuno â chlwb meincnodi Housemark<br>• Cydleolwyd swyddogion y Gronfa Cymorth Dewisol a'r Taliadau Tai Dewisol gyda Chymunedau'n Gyntaf Môn er mwyn cynnig cymorth i ddinasyddion bregus sydd angen arian o'r gronfa caledi<br>• Sefydlwyd Fforwm Cynhwysiad Ariannol a Digidol ar y cyd rhwng Ynys Môn a Gwynedd<br>• Cysylltwyd â 100% o'r hawlwyr er mwyn scirhau eu bod yn deall effaith y Cap ar Fudd-daliadau<br>• Sefydlwyd tudalennau penodol ar Ddiwygio Lles ar wefan y Cyngor gyda dolen i'r Gwasanaeth |

| |
|---|
| Cyngor Ariannol i gynnig diweddariadau awtomatig er mwyn sicrhau fod gwybodaeth gyfredol ar gael bob amser. Hefyd, gwelwyd cynnydd yn yr ymweliadau â'r tudalennau ar y wefan sy'n ymwneud â Budd-daliadau a Diwygio Lles gyda dros 8,950 o ymweliadau yn ystod 6 mis diwethaf y flwyddyn o gymharu â 6,012 o ymweliadau yn ystod y chwe mis cyntaf i'r tudalennau a oedd ar y we yn flaenorol<br>• Dyluniwyd ac argraffwyd amrediad o daflenni a phosteri ar:<br>o Cinio Ysgol am Ddim<br>o Taflen Deall eich Budd-daliadau<br>o Taflen cyn-Tenantiaeth<br>o Cynilo ar gyfer Credyd Cynhwysol<br>o Ymgeisio am Gredyd Cynhwysol<br>o Newyddlen i Denantiaid<br>• Hyfforddwyd staff y Cyngor i ddelio gyda'r newidiadau o ran Diwygio Lles<br>• Llwyddwyd i gefnogi a chyfeirbwyntio 86% o geisiadau i'r Gronfa Lwfans Dewisol (CLD) |

| **Ein Haddewid:Cynyddu'r opsiynau o ran tai fforddiadwy sydd ar gael ar hyd a lled yr ynys a dod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Dod â 75 o eiddo gwag yn ôl i ddefnydd |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Daethpwyd â 109 o dai gwag yn ôl i ddefnydd mewn cymuedau a lleoliadau ar drws yr ynys |

| **Ein Haddewid: Archwilio opsiynau i gefnogi pobl ifanc i gael i mewn i'r farchnad dai trwy** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Gynorthwyo ymgeiswyr i gael grantiau prynwyr tro cyntaf ar gyfer eiddo gwag a'u prynu drwy Gymorth Prynu Cartref Ynys Môn<br>• Cynyddu nifer yr ymgeiswyr am dai fforddiadwy sydd wedi eu cofrestru gyda Tai Teg |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Cefnogwyd 22 o brynwyr tro cyntaf drwy'r broses ymgeisio, ac fe gymeradwywyd grantiau iddynt<br>• Llwyddodd 7 i brynu cartref drwy Gymorth Prynu Cartref Ynys Môn |

| |
|---|
| • Mae ymgyrch farchnata gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol wedi gweld cynnydd cyson ers y Flwyddyn Newydd gyda 325 o gofrestriadau ar gyfer Ynys Môn erbyn diwedd Mawrth 2015 |

| **Ein Haddewid: Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi cyfleoedd prentisiaeth i bobl ifanc drwy** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Archwilio'r posibilrwydd y gall contractwyr gynnig prentisiaethau ac/neu gyfleoedd hyfforddi i bobl leol |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Gweithio gyda Chymunedau'n Gyntaf Ynys Môn i ddatblygu Buddion Cymunedol gan gynnwys Buddion Cymunedol yn yr holl Gontractau Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid ar y thema Tai gyda'r holl gynlluniau Cyfalaf CRT dros £500k yn cael eu hasesu drwy becyn cymorth Gwerth Cymru |

| **Ein Haddewid: Cefnogi'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref ac sydd yn ddigartref i ddod o hyd i gartrefi parhaol drwy:** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Gynyddu nifer y landlordiaid sydd â statws achrediad i ddarparu cartrefi o safon uchel sy'n cael eu rheoli'n dda<br>• Adeiladu 23 o dai fforddiadwy newydd<br>• Sefydlu cronfa ddata gynhwysfawr o landlordiaid sy'n gweithredu ar yr ynys<br>• Cynyddu nifer y landlordiaid sydd wedi derbyn anogaeth i ddarparu llety i gleientiaid a gyfeiriwyd gan y Gwasanaethau Tai |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Aethwyd ati i weithio'n rhagweithiol gyda Landlordiaid Preifat i sicrhau cynnydd yn nifer y landlordiaid a chanddynt statws Achrediad ar yr Ynys – trefnwyd ar y cyd gydag Achrediad Landlordiaid Cymru 4 o gyrsiau. Mae 83 o landlordiaid newydd (allan o gyfanswm o 123 landlordiaid achrediedig) wedi ennill statws achrediad ar yr Ynys yn ystod y cyfnod hwn<br>• Cwblhawyd 43 o dai fforddiadwy newydd yn Llangefni, Cargybi, Amlwch a Dwyran<br>• Llwyddwyd i nodi 98 o landlordiaid newydd nad oeddynt yn hysbys eisoes i'r Cyngor a'u hychwanegu at y data-bas er mwyn sicrhau fod gennym rhestr gynhwysfawr o landlordiaid sy'n |



DRAFT

gweithredu ar yr Ynys.

- Cynorthwywyd 8 o aelwydydd digartref i gael llety yn y sector preifat yn ystod 14/15 gyda chymorth anogaeth ariannol a a chefnogaeth i sefydlu tenantiaethau

## Gwybodaeth Perfformiad ar gyfer Tai

Gweler y canlyniadau ar gyfer y Dangosyddion Perfformiad (DP) perthnasol ar gyfer Tai yn Nhabl 10 (isod) a cheir dadansoddiad o'r canlyniad ar gyfer 2014/15 yn erbyn y flwyddyn flaenorol a safle pob DP yn y chwarteli.


| **Tabl 10**<br>Disgrifiad DP | 2013/14 | 2014/15 | Tuedd bl ar fl | Chwartel 14/15 |
|---|---|---|---|---|
| PSR/002: Y nifer o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl | 213.11 | 229 | ↓ | Canolrif Uchaf |
| PSR/004: Canran yr anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol | 11.98 | 13.15 | ↑ | Canolrif Uchaf |
| PLA/006b: Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran yr holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn | 83.97 | 39 | ↓ | Canolrif Uchaf |

Dim ond dau DP ar gyfer Tai y gellir yn awr eu cymharu'n uniongyrchol ac mae'r ddau'n ymwneud ag Adnewyddu Tai Sector Preifat. Rydym yn rhan uchaf y chwartel canol ac o gwmpas cyfartaledd Cymru ar gyfer y ddau DP hyn er y gwelwyd dirywiad bychan yn y ddau naill ai o safbwynt perfformiad neu'r safle o gymharu â 2013/14 (Tablau 11 a 12)




DRAFT

**Tabl 11**





**Tabl 12**



Er mai DP Cynllunio yn hytrach na Thai yw hwn (Tabl 14), mae'n berthnasol i'r amcan yn y cynllun corfforaethol o ddarparu cyflenwad o dai fforddiadwy ac mae'n dangos ein bod ychydig islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ac wedi symud o'r 3ydd i'r 11eg safle rhwng 2013/14 a 2014/15.

**Table 13**




Qualitative info to be included

DRAFT

# Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgelloedd

Rydym wedi cydnabod fod  cyfleusterau chwaraeon a hamdden yn chwarae rhan sylweddol yn iechyd y gymuned ac o ran gwneud pobl yn fwy hunan-hydersu. Byddwn yn gweithio tuag at fabwysiadu ymagwedd fwy integredig o ran materion lles yn y dyfodol a fydd yn fodd i adolygu ac ailddiffinio  rôl chwaraeon a hamdden.  Wrth i rôl y gymuned a grwpiau eraill gynyddu o ran darpariaeth, byddwn yn sicrhau bod yr hyn yr ydym yn ei gynnig o ran hamdden yn addas i'r pwrpas ac yn sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian wrth i ni geisio gwella iechyd a lles ein dinasyddion.

Nodwyd ein bod yn  awyddus i gadw ein lle a'n presenoldeb yng nghalon ein cymunedau drwy sicrhau bod ein llyfrgelloedd yn gweithio mewn partneriaeth a rhannu adeiladau, er mwyn sicrhau mynediad symlach, gwell a di-dor i bobl leol  i'r wybodaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

**Sut gwnaethom ni hyn yn 2014/15?**

| **Ein Haddewid: Datblygu a gweithredu strategaeth hamdden ar gyfer y tymor canol i arwain penderfyniadau a lleihau'r angen i'r Cyngor fuddsoddi yn ystod oes y cynllun hwn drwy** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Datblygu Strategaeth Hamdden tymor hir a rheoli'r cyfleusterau a'r ddarpariaeth o weithgareddau yn effeithiol yng Nghanolfannau Hamdden Amlwch, Caergybi a Llangefni i annog trigolion Ynys Môn i fod yn fwy egnïol, yn fwy aml<br>• Cynyddu presenoldeb a chyfranogiad yn y Canolfannau Hamdden a chreu incwm yn sgil hynny a chyflwyno system fodern ar gyfer llogi gweithgareddau a gwneud taliadau yn y Canolfannau Hamdden<br>• Gwella dulliau marchnata a hyrwyddo er mwyn annog mwy o gyfranogiad mewn gweithgareddau cymunedol presennol er mwyn cynyddu presenoldeb |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Cafodd ein Cynllun Hamdden ei fabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Chwefror 2014. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar ein hangen i gymryd ymagwedd fwy masnachol i wella, moderneiddio a diogelu ein darpariaeth hamdden<br>• Roedd cyfanswm o 502k wedi mynychu a chyfranogi yng Nghanolfannau Hamdden Ynys Môn yn 2014-15, i lawr 20k oherwydd gwaith cynnal a chadw yn ein Canolfannau.<br>• Gwelwyd cynnydd o £86k yn incwm y Canolfannau Hamdden o gymharu â'r flwyddyn flaenorol<br>• Rydym wedi moderneiddio ein Canolfannau Hamdden drwy gyflwyno y gallu i dalu gyda cherdyn<br>• Rydym wedi hadnewyddu a moderneiddio cyfleusterau (neuadd chwaraeon, ystafelloedd |

| |
|---|
| newid pwll ac ystafell ffitrwydd) yng Nghanolfan Hamdden Caergybi<br><br>• Mae ein gweithgareddau allgymorth wedi cael eu gwella ymhellach ac mae presenoldeb a chyfranogiad wedi cynyddu i 144k, 42k dros ein targed ar gyfer y flwyddyn |

| **Ein Haddewid: Cydgysylltu ein cyfleusterau neuaddau chwaraeon dan do gyda'n darpariaeth yn yr ysgolion uwchradd a thrafod gyda darparwyr allanol cymunedol i redeg y cyfleusterau gyda'r nos, ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau Ysgol drwy** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Ystyried a datblygu modelau ar gyfer darparu gwasanaethau yn y cyfleusterau mewn ffyrdd gwahanol fel rhan o ddatblygu'r Strategaeth Hamdden tymor hir |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Cynhaliwyd Gwerthusiad Opsiynau gynhwysfawr fel rhan o'n Cynllun Hamdden ac wedi penderfynu mai'r ffordd orau i wella ein cyfleusterau hamdden oedd i fod yn fwy masnachol ac ar hyn o bryd nid yw cydgysylltu â'n darpariaeth ysgol uwchradd |

| **Ein Haddewid: Annog datblygu a chefnogi'r ddarpariaeth o weithgareddau chwaraeon a hamdden yn y cymunedau, gan y cymunedau** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Ystyried a datblygu modelau ar gyfer darparu gwasanaethau mewn ffyrdd gwahanol a manteisio ar amgylchedd naturiol yr ynys i gyflwyno cyfleoedd o ran gweithgareddau awyr agored<br><br>• Allanoli nifer o gyfleusterau awyr agored / cymunedol yng Nghaergybi<br><br>• Sefydlu Rhaglen i gynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau awyr agored<br><br>• Adnabod model newydd ar gyfer darparu gwasanaeth yng Nghwrs Golff Llangefni |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Wedi cychwyn y broses o allanoli cyfleusterau awyr agored er mwyn sicrhau dyfodol cyfleusterau craidd y Gwasanaeth. (ee Caeau Chwarae Trearddur )<br><br>• Fe wnaethom gynyddu y nifer o gyfranogwyr mewn gweithgareddau awyr agored i 6.5k<br><br>• Trosglwyddwyd y gwaith o redeg y Cwrs Golff Llangefni i Menter Gymdeithasol (Partneriaeth Llangefni) tan fis Ebrill 2017 gyda ystyriaeth bellach tuag at ei ddyfodol tymor hir i'w gytuno yn ddiweddarach |

| Ein Haddewid: Ymchwilio i opsiynau a gweithredu model diwygiedig ar gyfer darparu gwasanaeth Llyfrgelloedd |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Sefydlu a chyflwyno gwerthuso opsiynau posibl ar gyfer cynnal Gwasanaeth Llyfrgell mewn modd cynaliadwy yn y dyfodol a chynllunio a chytuno ar fodel addas sy'n gweddu orau i anghenion trigolion Ynys Môn a'r adnoddau sydd ar gael |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Parhawyd i weithio ar Adroddiad ar fodel Gwasanaeth Llyfrgelloedd a ffefrir a fyddan yn ymgysylltu yn 2015/16 |

| Ein Haddewid: Ymchwilio i opsiynau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaeth yn ein safleoedd treftadaeth ddiwylliannol a gweithredu trefniadau rheoli newydd (os yw'n berthnasol) |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Asesu'r opsiynau gorau posibl ar gyfer rheoli a hyrwyddo ein holl Safleoedd Treftadaeth yn y dyfodol |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Buom yn gweithio ar yr opsiynau posibl ar ddyfodol y Gwasanaeth Diwylliant a byddan yn ymgynghori ar yr opsiynau hynny yn 2015/16 |

## GWYBODAETH PERFFORMIAD HAMDDEN A LLYFRGELLOEDD


Mae'r unig DP ar gyfer Hamdden, sy'n edrych ar nifer yr ymweliadau â Chanolfannau Hamdden yn ystod 2014/15 (Tabl 15) wedi gweld dirywiad bychan o 8,767 o ymweliadau yn 2013/14 i 8,434 yn 2014/15 – gan olygu ein bod wedi symud o'r 10fed i'r 11eg safle.

| **Tabl 14**<br>Disgrifiad DP | 2013/14 | 2014/15 | Tuedd Bl ar Fl | Chwartel 14/15 |
|---|---|---|---|---|
| LCS/002b: Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth, pan fydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol | 8767.29 | 8434 | ↓ | Canolrif Isaf |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| LCL/001b: Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth | 4024.47 | 4166 | ↑ | Isaf |


Mae'r unig DP ar gyfer Llyfrgelloedd yn dangos bod nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus wedi cynyddu o 4,024 i 4,166 fesul 1,000 o'r boblogaeth ac o'r 22ain i'r 19eg safle yn 2014/15

**Table 15**




.

**Table 16**




**Yr hyn y mae Defnyddwyr Gwasanaeth yn ei ddweud am y Gwasanaeth Hamdden a Llyfrgelloedd:**

*"Mae'r amrediad o weithgareddau y maent yn eu darparu yn ystod gwyliau'r ysgol yn rhagorol ac mae'r pyllau nofio'n cael eu cynnal a'u cadw i safon uchel."*

*"Mewn oes lle mae pobl yn sydyn iawn i gwyno, mae dyletswydd ar y rheiny sy'n teimlo eu bod wedi cael gwasanaeth da hefyd i gymryd yr amser i fynegi eu barn."*

*"O ran y gwersi nofio a ddarperir ar gyfer yr ysgol, roedd yr athrawon yn dymuno canmol y ganolfan ynghylch 3 pheth o gymharu â Phwll Bangor yr oedd yr ysgol yn ei ddefnyddio cynt: 1. Y cyfleuster a'r adeilad; 2. Y staff a'u hagwedd gyfeillgar tuag at y disgyblion a'r staff; 3. Safon y dysgu".*

# Canolbwyntio ar Gwsmeriaid, Dinasyddion a Chymunedau

Fe wnaethom ddatgan fod gennym lawer i'w wneud eto i safoni a symleiddio prosesau a thrwy ein gwaith gyda Chynghorau eraill, rydym yn rhagweld y byddwn yn sicrhau effeithlonrwydd pellach yn ein swyddogaethau cefnogi a gwell gwydnwch o ran gwasanaethau arbenigol a sgiliau prin. Dywedasom mai rhan hanfodol o drawsnewid ein Cyngor yw gwrando ar yr hyn y mae ein dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a busnesau yn ei ddweud - a gweithredu ar hynny. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi dangos ymrwymiad gwirioneddol tuag at ddarparu gwasanaethau'n well a bydd hyn ond yn gwella eto. Fe ddywedasom hefyd y byddwn yn gwneud y mwyaf o'n technegau cyfathrebu dwyieithog trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol fel 'Facebook' a Trydar yn ogystal â grwpiau traddodiadol wyneb yn wyneb, grwpiau ffocws, paneli dinasyddion a sioeau teithiol cyhoeddus.

**Sut gwnaethom ni hyn yn 2014/15?**

| **Datblygu , cytuno a llofnodi siarter cwsmer gadarn a dilys sydd yn gosod disgwyliadau penodol ar ein staff wrth ddelio â chwsmeriaid** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Cymeradwyo a mabwysiadu Siarter Cwsmer yn dilyn ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori ffurfiol<br>• Gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor er mwyn recriwtio staff a dylunio a mabwysiadu arferion gwaith sy'n bodloni anghenion ein cwsmeriaid orau yn y dyfodol |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Ymgynghorwyd ynghylch a mabwysiadwyd Siarter Gwasanaeth Cwsmer a lansiwyd yn ffurfiol yn Rhagfyr 2014 – a chynhaliwyd cynllun peilot mewn dau wasanaeth rheng flaen yn ystod Ionawr 2015 a byddir yn ei ymestyn i'r holl wasanaethau eraill erbyn Gorffennaf 2015<br>• Cynhaliwyd Gwerthusiad Dichonoldeb o Opsiynau yn ystod y flwyddyn a nodwyd mai'r opsiwn gorau fyddai gweithio gyda chwmni marchnata lleol yn amodol ar gytundeb mewn perthynas â manyleb a chost |



DRAFT

| |
|---|
| **Ein Haddewid: Datblygu a chryfhau ein hymgysylltiad gyda dinasyddion Ynys Môn a'u cynnwys ym mhrosesau'r Cyngor o ran atebolrwydd a gwneud penderfyniadau drwy** |
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Gefnogi'r Prosiect partneriaeth 4 blynedd Lleisiau Cymunedol "Gwrandewch" (a gychwynnodd yn Ebrill 2013) er mwyn ymgysylltu mwy ag unigolion a chymunedau wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus ar Ynys Môn |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Sefydlwyd mewn partneriaeth â Medrwn Môn, Fwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori i yrru gwaith ymgysylltu. Cadarnhawyd trwy'r Bwrdd, galendr cynhwysfawr o ran ymgysylltu ac ymgynghori ar lefel gorfforaethol<br>• Llwyddwyd i sicrhau, drwy Lleisiau Cymunedol, bartneriaid ymgynghori ar gyfer y dyfodol. Sefydlwyd, trwy Lleisiau Cymunedol, ymagwedd bartneriaethol tuag at anghenion a gofynion yn y dyfodol o fewn ac o gwmpas Ward Seiriol, Ynys Môn<br>• Ymgysylltwyd ac ymgynghorwyd ar strategaeth effeithlonrwydd newydd yn amlinellu meysydd o bwys ac arbedion ar gyfer ein trigolion |

| |
|---|
| **Ein Haddewid: Archwilio ansawdd yr adeiladau y mae cwsmeriaid yn derbyn gwasanaethau ynddynt, gan anelu at gyrraedd safon gyson ar draws y Cyngor sy'n cyflwyno'r ddelwedd gywir ar gyfer y gwasanaethau sydd ar gael drwy** |
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Archwilio opsiynau o ran dyluniad prif adeilad swyddfa'r Cyngor gan ganolbwyntio i ddechrau ar y dderbynfa gyda golwg ar greu ardal amlswyddogaethol yn seiliedig ar y safonau a gynigir yn y Siarter Gwasanaeth Cwsmeriaid |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Cynhyrchwyd a gweithredwyd Achos Busnes Llawn (Medi 2014) ar gyfer ailfodelu'r brif dderbynfa<br>• Y nod yn y tymor hwy yw cyflawni'r isod:<br>▪ Cwsmeriaid yn derbyn cyfarchiad CSYM cyson gan y staff yn yr un brif dderbynfa<br>▪ Cwsmeriaid yn derbyn ateb i'w hymholiadau (sylfaenol) yn y pwynt cyswllt cyntaf – ateb sydyn mwy derbyniol |

| |
|---|
| ▪ Mae gan gwsmeriaid fynediad i wasanaethau drwy'r cyfrifiaduron sydd ar gael i'r cyhoedd gan annog newid sianel tuag at hunan-wasanaeth a datblygu sgiliau i gael at wasanaethau o leoliadau sydd fwyaf cyfleus iddynt hwy<br>▪ Mae cwsmeriaid yn derbyn cymorth gan swyddogion pan fydd angen hynny i lenwi ffurflenni, hawliadau budd-daliadau a llogi cyfleusterau ac ati<br>▪ Mae cwsmeriaid yn awr yn cael ymateb mwy cyson o safon uwch i'w galwadau ffôn |

| **Sicrhau hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig drwy greu a gweithredu ar strategaeth iaith Gymraeg ddatblygedig** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Sy'n nodi'r prif flaenoriaethau ar gyfer y Strategaeth Iaith Gymraeg trwy gyfarfodydd rheolaidd o'r Fforwm Iaith Gymraeg |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Wedi gweithio ochr yn ochr â phartneriaid eraill (e.e. Horizon – sydd wedi penodi Swyddog Iaith penodol) i edrych ar ddylunio a cynnal astudiaeth gwaelodlin o'r iaith Gymraeg ar Ynys Môn |

**Ni does Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol ar gyfer y rhan hwn**



DRAFT

# Trawsnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu ( TGCh )

Wrth drawsnewid ein gwasanaethau, bydd adnoddau'r Cyngor yn cael eu defnyddio'n fwy effeithlon ac effeithiol i gyflawni targedau a nodir a chynllunio'n unol â hynny. Bydd y Cyngor yn dod yn sefydliad 24/7 drwy ddefnyddio sianeli megis gwefannau a chyfryngau cymdeithasol, dulliau sydd eisoes yn cael eu defnyddio gan ein cwsmeriaid i ddiwallu llawer o'u hanghenion personol neu fusnes fel bancio neu siopa. Fel hyn, gall ein cwsmeriaid gael mynediad at yr hyn y maent ei angen, pan fyddant ei angen, ble bynnag y maent ac yn eu dewis iaith.

Gellir rhyngweithio yn electronig, yn fewnol ac yn allanol ac ar bob lefel. Bydd cyfathrebu wyneb yn wyneb a ffyrdd eraill ar gael ar gyfer y rhai sydd eu hangen. Drwy newid systemau, byddwn yn rhyddhau staff i 'wneud eu gwaith' o fewn ffiniau clir gan ddefnyddio prosesau sy'n gadarn eto'n ystwyth. Bydd ein systemau yn cefnogi ein blaenoriaethau a byddir yn rhesymoli'n drylwyr i sicrhau nad yw'r systemau hynny nad ydynt yn cefnogi'n blaenoriaethau yn cael eu defnyddio mwyach.

**Sut gwnaethom ni hyn yn 2014/15?**

| **Ein Haddewid: Galluogi staff i gael mynediad at y systemau cyfrifiadurol sydd eu hangen arnynt yn ddiogel o unrhyw leoliad drwy:** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Gweithredu'r weledigaeth Prosiect Gweithio'n Gallach i alluogi staff i gyflawni eu dyletswyddau mewn modd mwy hyblyg |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Cwblhawyd y cyfnod cyntaf o'r prosiect Gweithio'n Gallach - prosiect i ddatblygu gwasanaethau gwell, mwy modern, cynyddu effeithlonrwydd, a sicrhau bydd costau hirdymor yn is - drwy ddatblygu Achos Busnes llawn ar gyfer ailfodelu'r swyddfa i ddarparu ar gyfer gweithio'n hyblyg a hefyd hailfodelu ein gweithlu gweinyddol |

| **Ein Haddewid: Galluogi cwsmeriaid a dinasyddion i gyfathrebu gyda'r Cyngor yn electronig dros y we ar amser ac mewn lleoliad sy'n gyfleus iddynt drwy:** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Cyflwyno 'System strategol ar gyfer Rheoli'r Berthynas gyda'r Cwsmer (CRM)' sy'n galluogi cwsmeriaid i gynnal eu trafodion o'r dechrau i'r diwedd heb unrhyw ymyrraeth, os o gwbl, gan swyddogion |

**Yr hyn a wnaethom**

- Mae'r priosect Rhagoriaeth Gofal Cwsmer wedi bod yn edrych ar y broses ar gyfer rheoli'r berthynas gyda'r cwsmer ar draws y Cyngor ac wedi penderfynu cynnal archwiliad o ymarferoldeb y systemau cyfredol drwy nodi bylchau ac yna baratoi achos busnes ar gyfer yr opsiwn gorau i fynd â'r rhaglen hon yn ei blaen.

**Ein Haddewid: Sicrhau bod gwasanaethau yn defnyddio technoleg yn fwy eang i ddarparu gwasanaeth mwy effeithlon ac effeithiol drwy:**

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud**

- Weithredu'r cynnig Gweithio'n Gallach/Gweithio Hyblyg a sicrhau bod gan ein staff ddyfeisiau symudol priodol fel y gallant gyflawni eu dyletswyddau mewn modd effeithlon ac effeithiol

- Ymchwilio i ddatrysiadau ar gyfer gwella mynediad diogel o bell at systemau corfforaethol a darparu cymorth busnes wrth wneud penderfyniadau i hyrwyddo gwasanaethau awtomataidd ac opsiynau hunanwasanaeth wrth adolygu datrysiadau TG cyfredol

- Hyrwyddo'r angen i sefydlu rhyngwynebau, lle bo hynny'n bosibl, rhwng systemau TGCh gwahanol i gael mwy o elw ar fuddsoddiad a chael cael gwared ar ddyblygu a gwallau a rhannu asedau corfforaethol lle bynnag y bo modd

**Yr hyn a wnaethom**

- Rydym wedi cyflwyno mwy o offer symudol i staff yn ystod y flwyddyn (ee Vasco Keys, Helix a Tabledi)

- Datrysiadau TGCh VASCO – a CITRIX wrthi'n cael eu hystyried i gefnogi'r rhaglen gweithio'n gallach yn y dyfodol

- Sefydlwyd grŵp tasg i ddatblygu dogfen TGCh strategol sy'n amlinellu dull yr awdurdod tuag at dechnoleg a'r defnydd ohoni er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau a sicrhau fod busnes yn gwella.

**Ein Haddewid: Chwilio am dechnolegau TGCh newydd i gwrdd ag anghenion y Cyngor a dinasyddion yr Ynys rŵan ac yn y dyfodol drwy:**

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud**

- Ddatblygu a darparu datrysiad wrth gefn cadarn i gefnogi'r systemau TG sy'n hanfodol ar gyfer busnes ac a fydd yn cefnogi trawsnewid yr Awdurdod

- Datblygu a defnyddio e-ffurflenni drwy wefan gorfforaethol yr Awdurdod er mwyn galluogi dinasyddion Ynys Môn, partneriaid busnes a'r gymuned ehangach i gyfathrebu a chael gafael ar wybodaeth yn ystod a'r tu allan i oriau busnes arferol
- Cefnogi a gwella cysylltedd rhwydweithiau band eang cyflym a symudol ar gyfer dinasyddion Ynys Môn

**Yr hyn a wnaethom**

- Gweithredu prosiect i gytuno ar y fanyleb ar gyfer system gyflogres ac AD hollol integredig a dwyieithog
    - Manyleb System Cyflogres (Ionawr 2015)
    - Manyleb System Adnoddau dynol (Awst 2014)
- Rydym wedi trosi 26 o ffurflenni papur i ffurflenni electronig drwy gymorth gan y cynllun graddedigion Go-Cymru, pob un ohonynt yn awr ar ein gwefan
- Datblygu ffurflenni ar-lein dwyieithog drwy FIRMSTEP (Llwyfan i wella rhyngweithio gyda'r dinasyddion, gwella effeithlonrwydd ac arbed costau drwy symud gwasanaethau ar-lein)
- Defnyddiwyd cymorth grant gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu band eang cyflymach ar gyfer ysgolion
- Gweithio gyda darparwyr rhwydwaith i gael y fargen orau bosibl o ran gwasanaeth ffôn a chostau ar gyfer 3G/4G yn Ynys Môn

DRAFT


# Perfformiad Corfforaethol

Dyma'r ail flwyddyn ers i'r Cyngor fabwysiadu'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol – sef dull sy'n edrych ar y modd yr ydym yn cyflawni ein blaenoriaethau corfforaethol ac sy'n monitro'r dangosyddion 'iechyd' corfforaethol sy'n sylfaen i holl waith y Cyngor. Mae'r cerdyn sgorio terfynol ar gyfer 2014/15 yn edrych ar y data diwedd blwyddyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/15 ac yn amlinellu sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol am y flwyddyn.

Mae'n dangos fod y rhaglen o welliant parhaus a sefydlwyd gan y Weinyddiaeth gyfredol yn cael ei gwireddu oherwydd -

- Mae cyfraddau salwch staff wedi gwella rhywfaint – mae data diwedd blwyddyn yn dangos 3,886.81 o ddiwrnodau sy'n welliant o gymharu â'r un cyfnod y llynedd (4,446.54 o ddiwrnodau) sy'n mynd â'n cyfraddau salwch tymor byr cyffredinol i 12,777 o ddiwrnodau o salwch, sy'n welliant oddeutu 3,500 diwrnod o gymharu â 13/14 (16,272 o ddiwrnodau). Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, fod llawer i'w wneud o hyd i gymharu'n ffafriol gyda'r rhan fwyaf o ALl yng Nghymru (fel y nodir yn Nhabl 17 isod, lle yr ydym yn yr 20fed safle allan o'r 22 ALl)

**Tabl 17**




DRAFT

- Mae glynu wrth bolisïau a rheoli salwch drwy gwblhau cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith (CDG) yn gwella – gyda data Chwarter 4 yn dangos y cynhaliwyd 85% o CDG yn 2014/15 o gymharu â 77% ar gyfer yr un cyfnod yn 2013/14

- Mae salwch sy'n gysylltiedig â straen wedi gostwng

- Mae nifer y pryderon a godwyd a nifer y cyfeiriadau i'r ombwdsmon wedi gostwng – erbyn diwedd y flwyddyn, 65 o gwynion ffurfiol oedd wedi eu derbyn. Ymatebwyd i 61 o'r 65 hyn ac o'r cwynion hyn, cefnogwyd 5 yn llawn, 11 yn rhannol a gwrthodwyd y 45 a oedd yn weddill. Mae'r ffigwr terfynol o 65 o gwynion yr un fath â'r ffigwr am 13/14. Yn ychwanegol at hyn, ymatebwyd i 90.8% o'r cwynion o fewn yr amserlen gydag ond 6 o ymatebion hwyr.

- Llwyddwyd i gyflawni targedau perfformiad yn y rhan fwyaf o'r dangosyddion a gwelwyd gwelliant mewn 20 allan o'r 27 dangosydd.

DRAFT

## DANGOSYDDION PERFFORMIAD ERAILL (DP nad ydynt yn ymwneud â'r Cynllun Corfforaethol)

Gan edrych ar DP eraill nad oes ganddynt gyswllt uniongyrchol â'r blaenoriaethau yn ein Cynllun Corfforaethol, rydym yn ymwybodol fod perfformiad wedi dirywio mewn un maes (rheoli gwastraff) yr oeddem, am nifer o flynyddoedd, ar y brig yng Nghymru yn ei gylch. Symudodd y DP ar gyfer gwastraff a ddanfonwyd i safleoedd claddu gwastraff o'r chwartel canol is i'r chwartel isaf rhwng 2012/13 a 2013/14 ac mae wedi mynd i lawr ymhellach o fewn y chwartel isaf rhwng 2013/14 a 2014/15 – o'r 17eg i'r 20fed safle (allan o 22 Awdurdod Lleol). Mae'r dangosydd ar gyfer gwastraff sirol a gasglwyd ac a gafodd ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu, ac a symudodd o'r chwartel uchaf i'r chwartel canol is yn ystod 2013/14, yn parhau i fod yn weddol sefydlog gan symud o'r 13eg i'r 12fed safle yn 2014/15. Gweler Tablau 18 ac 19.

## GWASANAETHAU AMGYLCHEDDOL A THECHNEGOL

**Table 18**






**Table 19**



Yn Nhabl 20, gallwn weld ein bod yn perfformio'n dda mewn materion sy'n ymwneud â gwarchod y cyhoedd a ni yw'r 4ydd gorau yng Nghymru o ran nifer y sefydliadau bwyd sy'n cydymffurfio gyda safonau hylendid

**Table 20**






**Table 21**




Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol fod angen monitro a rhoi sylw i'r DP sy'n ymwneud â Phriffyrdd – gydag Ynys Môn yn llithro o'r 17eg i'r 18fed safle rhwng 2013/14 a 2014/15 o ran cyflwr ffyrdd nad ydynt yn briffyrdd (Tabl 21).

O ran y Strydoedd (glendid ffyrdd ac ati), mae'r ddau DP perthnasol yn parhau i fod yn y chwartel canol is ond gwelwyd mymryn o welliant o ran safle rhwng 2013/14 a 2014/15. Mae Tabl 22 yn dangos un o'r DP hyn sy'n ymwneud â gadael gwastraff yn anghyfreithlon.

.

**Table 22**




## GWASANAETHAU PLANT

Yn y Gwasanaethau Plant, mae 6 allan o'r 11 DP yn y chwartel uchaf, gyda thri yn y chwartel isaf ac un yn y chwartel canol uchaf ac un yn y chwartel canol isaf. Mae hyn yn welliant o gymharu â 2013/14 gyda 9 o'r 11 DP yn dangos gwelliant yn 2014/15. Er bod hyn i'w groesawu, rhaid bod yn wyliadwrus fodd bynnag oherwydd eto, mae ffigyrau gwaelodlin rhai o'r DP yn isel sy'n golygu y gall amrywiadau bychain arwain at newidiadau dramatig o ran safle yn y chwarteli a hynny'r naill ffordd neu'r llall. Er enghraifft, y ni yw'r gorau yng Nghymru o ran cadw mewn cyswllt gyda phobl ifanc a oedd gynt yn derbyn gofal ac sydd mewn addysg, hyfforddiant neu waith (Tabl 23). Fodd bynnag, mae'r ganran o bobl ifanc a oedd gynt yn derbyn gofal ac y mae'r awdurdod yn cadw mewn cysylltiad â hwy pan maent yn 19 oed (SCC/33e) wedi newid o 100% yn 2013/14 i 50% yn 2014/15, eto oherwydd y niferoedd gwaelodlin bychan iawn (Tabl 24).

**Table 23**







**Table 24**




## CRYNODEB CYFFREDINOL A CHAMAU GWEITHREDU LLINIAROL

O ran dadansoddiad cyffredinol o'r cyfan o'n dangosyddion perfformiad (DP), gan gynnwys y rheiny nad ydynt wedi'u cynnwys ym mlaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol, gweler y prif negeseuon ar gyfer 2014/15 yn Nhabl 25. Mae'n dangos fod bron i 62% o'n DP wedi gwella yn ystod 2014/15 tra bod 35.7% wedi dirywio a 2.4% pellach heb newid rhwng 2013/14 a 2014/15. Mae Tabl 26 yn dangos ymhellach ein bod yn y 6ed safle yng Nghymru o ran y DP hynny sydd wedi gwella yn ystod y flwyddyn benodol hon.

**Tabl 25**





**Tabl 26**




Fodd bynnag, os ydym yn dadansoddi Tabl 27 a Thabl 28, gallwn weld y bu gostyngiad yn nifer y Dangosyddion Perfformiad yn y chwartel uchaf – o 17 yn 2013/14 i 10 yn 2014/15. Yn yr un modd, gwelwyd cynnydd bychan yn nifer y DP yn y chwartel isaf – o 13 yn 2013/14 i 15 yn 2014/15. Er y bu cynnydd yn nifer y DP yn y chwartel canol uchaf o 6 yn 2013/14 i 8 yn 2014/15, gwelwyd cynnydd cyfatebol hefyd yn nifer y DP yn y chwartel canol isaf o 5 yn 2013/14 i 9 yn 2014/15. Yn gyffredinol felly, rydym yn cydnabod y bu dirywiad mewn perfformiad os ydym yn cymharu ein safleoedd yn y chwarteli dros y ddwy flynedd flaenorol.

**Tabl 27**




**Tabl 28**





Mae Tabl 29 isod yn ddarlun o berfformiad y Cyngor ar draws yr holl wasanaethau ac ar sail flynyddol o ran safle ein DP cymharol (DSC a PAM) yn y 4 chwartel drwy gymharu 2014/15 gyda'r flwyddyn flaenorol. Mae Tabl 30 yn cymharu ein safle yn y chwarteli ar draws y 4 chwartel dros y 4 blynedd ddiwethaf.

**Tabl 29**

| Isle of Anglesey County Council Performance | | 2014/15 Quartile Position | | | | PI Change since 2013/14 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Number of Pis | | Top Quartile | Upper Median | Lower Median | Lower Quartile | Improved | Unchanged | Declined | New Indicator |
| Adult Services | 7 | 1 | 1 | 1 | 4 | 4 | 0 | 3 | 0 |
| Childrens Services | 11 | 6 | 1 | 1 | 3 | 9 | 0 | 2 | 0 |
| Housing | 3 | 0 | 2 | 0 | 0 | 1 | 0 | 2 | 0 |
| Economic & Community Regeneration | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Learning | 12 | 2 | 2 | 4 | 4 | 6 | 0 | 6 | 0 |
| Highways & Waste Management | 6 | 0 | 0 | 3 | 3 | 5 | 1 | 0 | 0 |
| Human Resources | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Planning & Public Protection | 2 | 1 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| Isle of Anglesey County Council Total | 43 | 10 23% | 8 19% | 9 21% | 15 35% | 27 63% | 1 2% | 15 35% | 0 0% |

**Table 30**




O ran y Dangosyddion Perfformiad hynny sydd naill ai yn y chwarteli is neu ganol is yn 2014/15, caiff y rhesymau am hynny a chamau lliniaru i fynd i'r afael ag unrhyw faterion o ran perfformiad eu nodi yn y Tabl isod (Tabl 31)

**Table 31**

| LEARNING | Description | Qt | Reason & Mitigating action |
|---|---|---|---|
| PAM EDU/002i | The percentage of all pupils (including those in LA care) in any LA maintained school, aged 15 as at the preceding 31 August who leave compulsory education, training or work based learning without an approved external qualification | 3 | *To be included |
| EDU/002ii: | EDU/002ii: The percentage of pupils in local authority care in any local authority maintained school, aged 15 as at the preceding 31 August who leave compulsory education, training or work based learning without an approved external qualification | 4 | Mae’r ffigwr canrannol yn uchel oherwydd y niferoedd bychan iawn, sef un disgybl mewn gwirionedd. |
| EDU/015a: | The percentage of final statements of special education need issued within 26 weeks including exceptions | 4 | Dengys data mae cyfraniadau gan iechyd tuag at Asesiadau Statudol yw’r ffactor mwyaf sy’n cyfrannu at fethiant i gwblhau’r datganiadau o fewn y cyfnod amser statudol. Mae’r sefyllfa wedi dirywio ers llynedd. Bydd Swyddogion yn gweithio gyda chydweithwyr yn y gwasanaeth iechyd i wella’r cyfraddau ymateb. |
| EDU/015b: | The percentage of final statements of special education need issued within 26 weeks excluding exceptions | 4 | Dengys data mae cyfraniadau gan iechyd tuag at Asesiadau Statudol yw’r ffactor mwyaf sy’n cyfrannu at fethiant i gwblhau’r datganiadau o fewn y cyfnod amser statudol. Mae’r sefyllfa wedi dirywio ers llynedd. Bydd Swyddogion yn gweithio gyda chydweithwyr yn y gwasanaeth iechyd i wella’r cyfraddau ymateb. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| EDU/017: | The percentage of pupils aged 15 at the preceding 31 August, in schools maintained by the local authority who achieved the Level 2 threshold including a GCSE grade A*-C in English or Welsh first language and mathematics | 3 | |
| EDU/016a: | Percentage of pupil attendance in primary schools | 3 | Fel canran o'r cyfraddau presenoldeb posibl, mae perfformiad yn parhau i wella. Fodd bynnag, mae'r gwelliant yn digwydd yn arafach nag y mae yng Nghymru yn gyffredinol.<br>Fel canran o'r cyfraddau presenoldeb posibl, mae perfformiad yn parhau i wella. Fodd bynnag, mae'r gwelliant yn digwydd yn arafach nag y mae yng Nghymru yn gyffredinol. |
| EDU/016b: | Percentage of pupil attendance in secondary schools | 3 | Fel canran o'r cyfraddau presenoldeb posibl, mae perfformiad yn parhau i wella. Fodd bynnag, mae'r gwelliant yn digwydd yn arafach nag y mae yng Nghymru yn gyffredinol.<br>Fel canran o'r cyfraddau presenoldeb posibl, mae perfformiad yn parhau i wella. Fodd bynnag, mae'r gwelliant yn digwydd yn arafach nag y mae yng Nghymru yn gyffredinol. |
| LCL/001(b): | The number of visits to Public Libraries during the year, per 1,000 population | 4 | Rheswm: Mae nifer y digwyddiadau a gweithgareddau wedi gostwng o gymharu â blynyddoedd blaenorol oherwydd materion capasiti staff. Yr un modd, mae'r gallu i fynd ati yn egnïol i hyrwyddo ac annog defnydd yn cael ei effeithio gan faterion capasiti staff a chyfyngiadau cyllidebol.<br>Camau Lliniaru: Mae'r strwythur staffio a'r model o'r gwasanaeth llyfrgelloedd wrthi'n cael eu hadolygu.<br>Wrthi'n ymchwilio i bosibilrwydd cynnwys ymweliadau rhithiol. |

| **ADULTS** | **Description** | **Qt** | **Reason & Mitigating action** |
|---|---|---|---|
| SCA/002a: | The rate of older people (aged 65 or over) supported in the | 4 | Mae model yr adran yn seiliedig ar gefnogi unigolion i fod yn annibynnol o wasanaethau gyda chymorth ataliol cryf a chymorth lefel |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | community per 1,000 population aged 65 or over at 31 March | | isel ar gael yn y cymunedau. Mae'r dangosydd hwn yn groes i'r amcan hon, amcan sy'n gwbl gyson â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles. |
| SCA/002b: | The rate of older people (aged 65 or over) whom the authority supports in care homes per 1,000 population aged 65 or over at 31 March | 4 | Mae'r adran yn cydnabod yr angen i ychwanegu at nifer yr opsiynau sydd ar gael o ran gofal preswyl. Mae Rhaglen Gofal Ychwanegol ar y gweill ac rydym yn parhau i weithio gyda darparwyr i gryfhau'r farchnad gofal cartref fel dewis arall i ofal preswyl. |
| SCA/019: | The percentage of adult protection referrals completed where the risk has been managed | 4 | Mae nifer yr achosion POVA yn isel o gymharu ag awdurdodau eraill sydd â mwy o boblogaeth ac o'r herwydd, gall nifer fechan o achosion arwain at ganlyniad 'Coch'. Mae'r holl achosion hyn wedi codi oherwydd bod unigolion yn dewis peidio â chwyno i'r Heddlu neu gymryd camau ffurfio eraill mewn perthynas â'r gamdriniaeth y maent o bosib wedi ei dioddef. Mae'r unigolion hyn wedi cael eu hasesu fel rhai sydd â chapasiti meddyliol. Mewn amgylchiadau o'r fath, cynigir cefnogaeth i'r unigolion (eiriolaeth, cymorth i ddioddefwyr, cwnsela, IDVA ac ati) ond dewis personol ydyw yn y pen draw i beidio â chwyno a a pharhau i ddioddef camdriniaeth. |
| SCA/020: | The percentage of adult clients who are supported in the community during the year | 4 | Gweler SCA / 020 |
| SCA/018a: | The percentage of carers of adults who were offered an assessment or review of their needs in their own right during the year | 3 | Rydym wedi nodi bod y broblem fwyaf yn ymwneud â'r adolygiadau yn hytrach na'r asesiadau. Rydym yn bwriadu adolygu'r modd yr ydym yn casglu data er mwyn sicrhau fod adolygiadau'n cael eu nodi'n fuan a bod modd cynnig ymateb amserol |



DRAFT

| CHILDREN | Description | Qt | Reason & Mitigating action |
|---|---|---|---|
| SCC/002: | Percentage of children looked after at 31 March who have experienced one or more changes of school, during a period or periods of being looked after, which were not due to transitional arrangements, in the 12 months to 31 March | 4 | *To be included |
| SCC/033d: | The percentage of young people formerly looked after with whom the authority is in contact at the age of 19 | 4 | |
| SCC/037: | The average external qualifications point score for 16 year old looked after children, in any local authority maintained learning setting | 3 | |
| SCC:041a: | The percentage of eligible, relevant and former relevant children that have pathway plans as required | 4 | |

| HIGHWAYS & WASTE | Description | Qt | Reason & Mitigating action |
|---|---|---|---|
| WMT/004(b): | The percentage of municipal waste collected by local authorities sent to landfill | 4 | *To be included |
| WMT/009(b): | The percentage of municipal waste collected by local authorities and prepared for reuse and/or | 3 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | recycled, including source segregated biowastes that are composted or treated biologically in another way | | |
| STS/006: | The percentage of reported fly tipping incidents cleared within 5 working days | 3 | |
| STS/005b | : The percentage of highways inspected of a high or acceptable standard of cleanliness | 3 | |
| THS/007: | The percentage of adults aged 60+ who hold a concessionary bus pass | 4 | |
| THS/012: | The percentage of principal (A) roads, non-principal (B) roads and non-principal (C) roads that are in overall poor condition | 4 | |

| **CORPORATE** | **Description** | **Qt** | **Reason & Mitigating action** |
|---|---|---|---|
| CHR/002: | The number of working days/shifts per full-time equivalent (FTE) local authority employee lost due to sickness absence | 4 | Rydym yn ymwybodol o'r angen i wella'r sefyllfa o ran absenoldeb salwch ac rydym eisoes wedi sefydlu canllawiau a phrosesau newydd ar gyfer gwneud hyn (er enghraifft, rydym yn nodi achosion unigol ailadroddus ac, yn ogystal, rydym wedi cyflwyno proses ddiwygiedig o ran Cyfarfodydd Adolygu Presenoldeb (CAP). |

DRAFT

# Gwybodaeth Pellach

**I gael mwy o wybodaeth am unrhyw beth yn y ddogfen hon neu i wneud unrhyw sylwadau, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda:**

**Swyddfa'r Dirprwy Brif Weithredwr**
**Cyngor Sir Ynys Môn**
**Swyddfeydd y Cyngor**
**Llangefni Ynys Môn**
**LL77 7TWF**
**fôn - 01248 752111E**
**-bost - GethinMorgan@ynysmon.gov.uk**

**Mae'r ddogfen hon ar gael ar dâp, mewn braille ac ar y wefan y Cyngor:**
**www.ynysmon.gov.uk/cynlluncorfforaethol**

**Gellwch gael mwy o wybodaeth hefyd fel a ganlyn:**
**Gellir gweld polisïau, cynlluniau a strategaethau a gyhoeddir gan y Cyngor www.ynysmon.gov.uk**

**Mae'r Cynllun Gwella Blynyddol ar gael ar wefan y Cyngor trwy glicio ar y ddolen a ganlyn:**
**www.ynysmon.gov.uk/AGBSAC**

**Mae Adroddiadau Archwilio ac Arolygu a gynhyrchwyd gan Reoleiddwyr y Cyngor ar gael ar eu gwefannau unigol fel a ganlyn:**

- **Swyddfa Archwilio Cymru:**
  **www.wao.gov.uk**
- **Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru:**
  **www.cssiw.org.uk**
- **Estyn:**
  **www.estyn.gov.uk**

DRAFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **21 MEDI 2015** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 1 (2015/16)** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD ALWYN ROWLANDS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **SCOTT ROWLEY** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | GETHIN MORGAN<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **d/b** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1.1** Hwn yw cerdyn sgorio cyntaf blwyddyn ariannol 2015/16.

**1.2** Mae'n dangos sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel y cawsant eu hamlinellu a'u cytuno rhwng yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth/y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.

**1.3** Gofynnir i'r Pwyllgor sgriwtineiddio'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

***1.3.1*** *Derbynnir targedau salwch cyraeddadwy ar gyfer yr holl wasanaethau yn seiliedig ar ddata/patrymau hanesyddol i gwrdd â'r targed corfforaethol a gwneir ymdrech sylweddol i fynd i'r afael ag achosion salwch tymor hir penodol.*

***1.3.2*** *Rheolaeth Ariannol – trwy'r UDA, ceir rhagor o sylwadau ac argymhellion am faterion ariannol yn yr adroddiad cyllid Ch1 a fydd yn cael sylw yn y cyfarfod hwn.*

***1.3.3*** *Rheoli Perfformiad - cydnabyddir tanberfformiad yn erbyn dangosyddion ac fe reolir hynny trwy gymryd camau lliniaru i gynorthwyo i sicrhau gwelliannau yn ystod Ch2.*

***1.3.4*** *Gwasanaeth Cwsmer – sicrhau bod data'r 'siopwr cudd' yn cael ei adrodd erbyn Ch2 i gyfleu gwaelodlin annibynnol o'n ffocws ar y cwsmer.*

**1.4** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y camau lliniaru a amlinellir uchod.

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| d/b |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith. |

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Ystyriwyd y mater gan yr UDA yn ei gyfarfod ar 1 Medi ac mae eu sylwadau wedi eu hadlewyrchu yn yr adroddiad. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylwadau |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylwadau. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) |
|---|

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 1, 2015/16 a Cherdyn Sgorio. |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| • Adroddiad monitro Cerdyn Sgorio 2014/15 – Chwarter 4 (fel y cafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Chwefror 2015 a'i dderbyn ganddo). |

## ATODIAD A: ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 1 (2015/16)

### 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Un o amcanion y Cyngor dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella yw sicrhau bod gennym ddull o dystiolaethu a chyflwyno gwelliant parhaus ar draws y sefydliad. I'r perwyl hwn, llunnir adroddiad ar berfformiad bob blwyddyn i'w gyhoeddi erbyn diwedd mis Hydref sy'n dangos y cynnydd a wnaed neu'r diffyg cynnydd (fel sy'n berthnasol).

**1.2** Datblygwyd y cerdyn sgorio hwn i roi gwybod i arweinwyr y Cyngor am y cynnydd a wnaed yn erbyn dangosyddion sy'n dangos yn eglur weithrediad llwyddiannus gwaith dydd i ddydd y Cyngor ac sy'n cynorthwyo i ddarparu sail dystiolaeth ar gyfer drafftio'r adroddiad ar berfformiad.

**1.3** Mae'r cerdyn sgorio yn parhau i ddatblygu a gwreiddio gan adlewyrchu'r newidiadau hynny a wnaed i systemau ac arferion traddodiadol yn y Cyngor. Penderfynwyd ar y dangosyddion a gafodd eu cynnwys yn y cerdyn sgorio eleni (fel y llynedd) trwy broses o ymgysylltu ac ymgynghori gyda'r Penaethiaid, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.

**1.4** O ganlyniad, mae rhai dangosyddion newydd wedi eu cynnwys a bydd y rhain angen amser i wreiddio fel ein bod yn adrodd ar bob dangosydd. Rhagwelir y bydd y prosesau hyn wedi eu sefydlu erbyn Chwarter 2 yn y flwyddyn ariannol hon.

**1.5** Mae'r cerdyn sgorio (Atodiad 1) yn dangos y sefyllfa ar ddiwedd Ch1 a bydd yn cael sylw pellach gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Medi.

### 2. YSTYRIAETHAU

**2.1** Dyma'r drydedd flwyddyn o gasglu ac adrodd ar ddangosyddion perfformiad mewn dull cydlynol. Mae'r Cyngor yn awr yn gweld tueddiadau yn sefydlu eu hunain mewn perthynas â nifer o'r dangosyddion hynny ac mae sylwadau'r UDA/Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith yn cael effaith ar gyflawniad gweithredol.

**2.2** Mae'n bwysig nodi y gofynnwyd am i'r cerdyn sgorio ar gyfer eleni gynnwys:

- Dadansoddiad pellach o'r tueddiadau
- Trem yn ôl ar berfformiad y llynedd
- Dangos safle dangosyddion penodol o fewn chwarteli.

Mae hyn yn cynorthwyo'r dadansoddiad chwarterol ac yn golygu y gellir ystyried perfformiad gan ddefnyddio nifer o gymaryddion gwahanol.


### 2.3 RHEOLI POBL

**2.3.1** Mewn perthynas â Rheoli Pobl nodwyd ar ddiwedd Ch4 bod ein cyfraddau salwch *(dangosydd 1 ar y cerdyn sgorio dan 'rheoli pobl')* yn dangos gwell sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn o gymharu â chanlyniadau'r flwyddyn flaenorol - 11.53 o ddyddiau wedi eu colli am bob gweithiwr o gymharu â 12.38 o ddyddiau yn y flwyddyn gynt.

**2.3.2** Mae hyn yn welliant o 0.85 o ddyddiau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r perfformiad hwn yn rhoi Ynys Môn yn y chwartel isaf (20fed) pan dynnir cymhariaeth gyda'r Cynghorau eraill trwy'r wlad.


**2.3.3** Er bod y sefyllfa'n gwella bob blwyddyn fel sydd wedi ei nodi yn 2.3.2, mae safle'r Cyngor ar ddiwedd Ch1 yn is o gymharu â'r llynedd a'r targed corfforaethol o 10 o ddyddiau o salwch ar gyfer pob gweithiwr llawn amser. Mae hyn yn awgrymu y rhagwelir y bydd y cyfraddau salwch erbyn diwedd y flwyddyn (os bydd y tueddiadau yn parhau fel yn y ddwy flynedd diwethaf) yn 12 o ddyddiau salwch ar gyfer pob gweithiwr llawn amser.

**Absenoldeb salwch – dyddiau gwaith/shifftiau a gollwyd ar gyfartaledd**




**2.3.4** Mae dadansoddiad o'r data cysylltiedig yn dangos mai un o'r prif resymau am beidio â chyrraedd ein targed corfforaethol o 2.5 o ddyddiau ar gyfer Ch1 oedd y cynnydd sylweddol yn yr achosion Salwch Tymor Hir o gymharu â Ch1 2013/2015. Yn ystod Ch1 collwyd oddeutu 4,000 o ddyddiau gwaith oherwydd salwch tymor hir (gweler tabl 2 isod).


**SALWCH TYMOR HIR**




Tabl 2

**2.3.5** Roedd salwch tymor hir yn cyfateb i 60% o'n cyfraddau salwch ar gyfer Ch1 o gymharu â 50% am yr un cyfnod yn 2014/15.

**2.3.6** Mae ein cyfraddau salwch tymor byr ar gyfer Ch1 (2,675.63 dyddiau) wedi gwella o gymharu â'r un cyfnod y llynedd (3,213.81 dyddiau). Mae hyn yn dangos bod yr argymhellion a wnaed ac a roddwyd ar waith i fynd i'r afael â salwch tymor byr wedi gwella'r sefyllfa'n sylweddol. Dangosir hyn isod yn Nhabl 3.



**2.3.7** Er bod hwn yn gam cadarnhaol yn y cyfeiriad iawn ar gyfer salwch tymor byr mae'r darlun mawr yn dangos perfformiad gwael o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol a gweddill yr Awdurdodau Lleol yng Nghymru ac y bydd ein perfformiad yn parhau i fod yn y chwartel isaf ac efallai'n golygu bod ein safle'n disgyn eto. O'r herwydd cyfrifwyd targedau absenoldeb salwch gwahanol ar gyfer gwasanaethau ar draws yr Awdurdod ac fe gytunwyd gyda'r UDA/Penaethiaid fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| • Gwasanaethau Oedolion | 15.70 o ddyddiau |
| • Gwasanaethau Plant | 10.81 o ddyddiau |
| • Busnes y Cyngor | 9.01 o ddyddiau |
| • Adfywio Economaidd a Chymunedol | 7.12 o ddyddiau |
| • Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 9.08 o ddyddiau |
| • Tai | 10.47 o ddyddiau |
| • Dysgu | 8.88 o ddyddiau |
| • Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 8.92 o ddyddiau |
| • Adnoddau | 7.00 o ddyddiau |
| • Trawsnewid | 7.00 o ddyddiau |

**2.3.8** Cwblhawyd y fethodoleg ar gyfer gosod targedau salwch gan ddefnyddio'r fformiwla a ganlyn:

- Disgwylir i wasanaethau gyda lefelau salwch hanesyddol o dros 10.1 o ddyddiau am bob gweithiwr amser llawn sicrhau gostyngiad o 15% yn eu cyfraddau salwch ar gyfer 15/16.
- Disgwylir i wasanaethau gyda lefelau salwch hanesyddol o rhwng 10 a 7.1 o ddyddiau o salwch am bob gweithiwr amser llawn sicrhau gostyngiad o 10% yn eu cyfraddau salwch ar gyfer 15/16.
- Disgwylir i wasanaethau gyda lefelau salwch hanesyddol o 7 diwrnod neu lai am bob gweithiwr llawn amser barhau i sicrhau na chollir mwy na 7 diwrnod o waith oherwydd salwch am bob gweithiwr amser llawn, gan wella'r cyfraddau bob blwyddyn.


**2.3.9** **Pwynt i'w Nodi** – Os llwyddir i gyrraedd yr holl dargedau a grybwyllir uchod, bydd y Cyngor yn cwrdd â'i darged absenoldeb salwch o 10 diwrnod am bob gweithiwr llawn amser. Yn seiliedig ar ffigyrau 14/15 byddai hynny'n golygu bod y Cyngor ychydig o dan y cyfartaledd trwy Gymru o 9.8 o ddyddiau am bob gweithiwr amser llawn.

**2.3.10** Mae'r UDA yn argymell felly:

- Derbyn targedau salwch cyraeddadwy ar gyfer yr holl wasanaethau yn seiliedig ar ddata/patrymau hanesyddol i gwrdd â'r targed corfforaethol a gwneud ymdrech sylweddol i fynd i'r afael ag achosion salwch tymor hir penodol a bod y Penaethiaid yn rheoli'r rhesymau y tu ôl i'r cynnydd yn y cyfraddau salwch tymor hir.

**2.3.11** Mae 'rheoli' salwch yn gysylltiedig â chyfraddau salwch. Mae cydymffurfiaeth y staff gyda pholisïau salwch corfforaethol yn rhan annatod o'r broses reoli o fewn y Cyngor ac mae hynny'n cynnwys y cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith *(dangosydd 5 ar y cerdyn sgorio).*

**2.3.12** Mae'r Cyngor yn parhau i wreiddio'r arferion gweithio hyn ar draws ei wasanaethau. Mae'r gwelliant hwn wedi gwreiddio ymhellach yn ystod Ch1 gyda'r ffigyrau ar gyfer cwblhau cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith yn codi o 85% ar ddiwedd 2014/15 i 86% yn Ch1 2015/16 (gweler tabl 4).




**2.3.13** Mewn perthynas â 'rheoli' salwch a chydymffurfiaeth staff gyda pholisïau salwch corfforaethol, gwelwyd tystiolaeth o welliannau sylweddol o ran arferion gyda chyfweliadau dychwelyd i'r gwaith (gweler tabl 4 uchod).

**2.3.14** Argymhellodd yr UDA y dylid rhoi rhagor o sylw i reoli'r achosion hynny o absenoldebau salwch tymor byr ailadroddus sy'n cyrraedd pwyntiau sbardun a lle mae'n rhaid cynnal cyfarfodydd adolygu presenoldeb. Mae'r rhain bellach wedi eu hadlewyrchu yn y cerdyn sgorio newydd ar gyfer 2015/16 ac mae targed o 85% wedi ei osod ar gyfer cwblhau cyfarfodydd adolygu presenoldeb yn ystod y flwyddyn i ddod.

**2.3.15** Mae'r ffigyrau ar gyfer CH1 yn dangos tanberfformiad yn erbyn y targed hwn a bod angen gwreiddio cyfarfodydd adolygu presenoldeb o fewn arferion gweithio'r Cyngor yn ystod y flwyddyn i ddod.

**2.3.16** Mae'r UDA yn argymell felly:

- *Parhau i wreiddio prosesau ac arferion rheolaeth dda mewn perthynas â rheoli salwch er mwyn gwella ein cyfraddau salwch ymhellach, gostwng costau a gwella rheolaeth fel Cyngor.*

**2.3.17** Dangosydd newydd yn y rhan o'r cerdyn sgorio sy'n ymwneud â Rheoli Pobl yw'r % o staff sydd â Thystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd(GDG) (eitem 14 yn y rhan rheoli pobl).

**2.3.18** Ar hyn o bryd mae gan 98.4% o'r staff sydd angen gwiriad GDG ar gyfer eu swydd y dystysgrif berthnasol. Fodd bynnag, nid yw'r ffigwr hwn yn cynnwys data ar gyfer pob gwasanaeth gan nad yw'n cynnwys Dysgu, Adnoddau, Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnal adolygiad ar hyn o bryd o'u harferion GDG a byddant yn adrodd arnynt mewn da bryd ar gyfer dadansoddiad Ch2.

## 2.4 RHEOLAETH ARIANNOL

**2.4.1** Yn dilyn ei berfformiad ariannol yn y chwarter cyntaf mae'r Cyngor yn rhagweld gorwariant net o £1,620k ar ddiwedd y flwyddyn.

**2.4.2** Y prif amrywiaethau gwasanaeth sy'n cael effaith ar y gorwariant hwn a ragwelir ar ddiwedd Ch1 yw:

***Gofal Cymdeithasol i Oedolion*** – gorwariant o £117k ar gyfer y cyfnod. Gwelir y bydd hyn yn cynyddu a hynny, i raddau helaeth, oherwydd pwysau cost ychwanegol ar y gwasanaeth yn 2015/16. Mae enghreifftiau o'r pwysau cost y mae'r gwasanaeth yn eu hwynebu yn cynnwys goblygiadau dyfarniad y Goruchaf Lys ym Mawrth 2014 ynghylch Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, effaith cynnydd o 1.7% yn y ffioedd a delir i gartrefi gofal allanol a'r gostyngiad sylweddol yn y cyllid gofal canolraddol gan LlC.

Fel yr adroddwyd eisoes yn 2013/14 ar y cerdyn sgorio, mae gwasanaethau i'r henoed yn faes sy'n newid yn gyson a gwnaed gwaith sylweddol i wella'r rhagamcanion ar draws pob grŵp cleient ac i ailaleinio cyllidebau.

***Hamdden*** – gorwariant o £31k yn ystod Ch1. Rhagwelir y bydd hyn yn codi i £146k erbyn diwedd y flwyddyn. Y rhesymau am hynny yw fod y gwariant ar Barciau a Chyfleusterau Awyr Agored yn digwydd yn erbyn cyllideb nad oes arian ynddi. Rhagwelir gorwariant o £50k ar y cwrs golff oherwydd nad yw'n cwrdd â'i dargedau incwm (mater sy'n dyddio'n ôl i'r 1990au). Mae cyfrifoldeb am y cwrs bellach wedi ei drosglwyddo i Bartneriaeth Llangefni.

***Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo*** - Roedd gorwariant o £76k yn y cyfnod ar wasanaethau Priffyrdd a rhagwelir y bydd hynny'n codi i £166k erbyn diwedd y flwyddyn. Y prif reswm am y gorwariant a ragwelir yw methiant i gyflawni'r incwm a ddisgwylir o feysydd parcio, sef oddeutu £100k ac amrywiaethau bychan eraill. Roedd tanwariant o £32k yn y gwasanaethau Rheoli Gwastraff yn y chwarter cyntaf ond rhagwelir y bydd gorwariant o £256k erbyn diwedd y flwyddyn. Y rhesymau am hynny yw gorwariant a ragwelir ar y contract casglu gwastraff ac ar orsaf drosglwyddo Penhesgyn. Mae tanwariant a ragwelir ar y contract cael gwared o wastraff yn gwrthbwyso hynny.

**2.4.3** Mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol parhaus yn y sector cyhoeddus nodir y gall y ffigyrau hyn newid oherwydd digwyddiadau, galw am wasanaethau a gwybodaeth a all gael effaith ar y rhagamcanion. Fodd bynnag, fe ddylai'r Penaethiaid, trwy'r UDA, ystyried yr holl opsiynau ar gyfer camau cywiro yn ystod Ch2 i geisio gostwng y gorwariant a amcangyfrifir i'r dyfodol. Rhoddir sylw i ragor o fanylion yn yr adroddiad ariannol CH1.

## 2.5 RHEOLI PERFFORMIAD

**2.5.1** Mae'r cerdyn sgorio ar gyfer Rheoli Perfformiad wedi ei newid ar gyfer 2015/16 i ddangos perfformiad yn erbyn dangosyddion y gofynnwyd amdanynt gan yr UDA, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol. Mae'r isod yn darparu naratif yn erbyn yr heriau a'r ynni sydd raid wrthynt i lwyddo yn 2015/16.

**2.5.2** Ar ddiwedd Ch1 rydym yn nodi bod 6 o ddangosyddion yn tanberfformio o gymharu â'u targedau blynyddol.

**2.5.3** Mae un dangosydd o fewn y <u>Gwasanaethau Oedolion</u> yn dangos tanberfformiad:

(i) 03 - LI/018b - *% o ofalwyr ar gyfer Oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac sydd wedi cael asesiad neu adolygiad yn ystod y flwyddyn*. Mae hyn yn dangos yn GOCH ar y cerdyn. Mae'r canlyniad ar gyfer Ch1 (66.5%) yn is na'r targed o 93%. Gofynnodd 203 o bobl am asesiad neu adolygiad ac fe aseswyd 66.5% ohonynt. Mae 68 yn disgwyl am asesiad neu adolygiad. Y rheswm am y perfformiad uchod oedd prinder staff. Roedd 50% o'r tîm gofalwyr i ffwrdd o'u gwaith oherwydd salwch am 6 mis yn ystod y chwarter cyntaf.

***Camau lliniaru*** – yn ystod Ch2 mae rhestr o adolygiadau ac asesiadau sydd angen sylw yn ogystal ag adolygiadau Ch2 wedi ei throsglwyddo i'r tîm gofalwyr ar gyfer gweithredu arni yn Ch2.

**2.5.4** Mae tri dangosydd o fewn y <u>Gwasanaethau Plant</u> yn dangos tanberfformiad:

(i) 11 - SCC/025 - *y % o ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal yr oedd angen eu cynnal yn ystod y flwyddyn ac a gynhaliwyd yn unol â rheoliadau Ch1* - 89.97% Targed - 100 - AMBR. Mae hyn yn cymharu gyda pherfformiad o 96.43% yn yr un cyfnod yn 2014/15.

Roedd y methiant i gwrdd â'r targed ar gyfer Ch1 yn rhannol oherwydd absenoldeb staff yn ogystal â gwyliau blynyddol; mae pethau wedi gwella ychydig yn ystod mis Gorffennaf. Mae Rheolwyr y tîm PGA a FIT yn defnyddio teclynnau tracio i atgoffa staff i gwblhau ymweliadau ond, yn anffodus, oherwydd bod rheolwyr wedi bod ar wyliau yn ystod Ch1 ni chynhaliwyd y cyfarfodydd tracio hyn.

***Y Camau lliniaru*** ar gyfer gwella'r safonau hyn ar gyfer Ch2 yw:

- Adolygu capasiti'r tîm FIT oherwydd cynnydd yn y galw. Rheolwr Gwasanaeth a'r Tîm i gwblhau adolygiad yn ystod mis Awst.
- Rheoli gwyliau blynyddol/absenoldeb salwch trwy'r gweithdrefnau a'r polisïau corfforaethol a chofnodi diweddariadau misol.
- Parhau i ddefnyddio'r system dracio bob wythnos a sefydlu system i sicrhau bod ymweliadau'n parhau i gael eu cynnal pan fo staff ar eu gwyliau neu'n absennol oherwydd salwch. Gweithredu hyn yn ystod mis Awst.

(ii) SCC/041a: *Y % o blant cymwys/perthnasol neu a oedd gynt yn berthansol sydd â chynlluniau llwybrau fel sy'n ofynnol;* Ch1 - 73.91, Taged o 90 - COCH. Mae hyn yn cymharu â pherfformiad o 90% yn ystod yr un cyfnod y llynedd.

Mae cynlluniau llwybr yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i'r gwasanaeth. Mae cynlluniau na chawsant eu cwblhau yn cynnwys pobl ifanc a ddisgrifiwyd fel pobl nad ydynt yn ymgysylltu â'r gweithiwr cymdeithasol. Mae'r dangosydd hwn hefyd yn adlewyrchu pobl ifanc sydd ar goll (1 person ifanc).

Y **Camau Lliniaru** ar gyfer gwella'r safonau hyn erbyn Ch2 yw:

- Erbyn diwedd Awst datblygu cynllun gweithredu i adolygu sut rydym yn darparu gwasanaeth ôl-ofal i bobl ifanc.
- Dyfeisio system o fewn yr amserlen uchod i fonitro cynlluniau llwybr cyn iddynt fod wedi dyddio.
- Cwblhau cynlluniau sydd angen sylw yn ystod Ch2.

(iii) SCC/043a: Y % o asesiadau craidd gofynnol a gwblhawyd cyn pen 35 diwrnod gwaith; Ch1 - 78.13, Targed 85 - AMBR. Mae hyn yn cymharu â pherfformiad o 70.27% yn ystod yr un cyfnod y llynedd.

Yn ystod y chwarter roedd dau asesiad craidd nad oeddent wedi cwrdd â'r amserlenni yn ymwneud â dau deulu gyda dau neu ragor o blant. Roedd ffactorau eraill yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol yn camgyfrif dyddiadau cau a cholli apwyntiadau a diffyg argaeledd gofalwyr oherwydd gwyliau.

Y **Camau lliniaru** i wella'r safonau hyn yn ystod Ch2 fydd:

- Rheolwr Tîm yn atgoffa staff o'r amserlenni perthnasol, cynnal trafodaethau gydag aelodau unigol o staff a diweddaru'r system dracio.

**2.5.5** Mae un dangosydd yn y <u>Gwasanaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol</u> yn dangos tanberfformiad:

(i) 19 – LCS/002b – *Nifer yr ymweliadau â chanolfannau hamdden a chwaraeon yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn lle bydd ymwelwyr yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol* – mae'n dangos yn GOCH ar y cerdyn sgorio. Y canlyniad oedd 99k yn erbyn taged o 124k.

Mae'r dangosydd hwn yn 63k yn waeth nag yn y chwarter cyntaf yn 2014/15 ac adroddir ar y dangosydd hwn yn awr trwy system newydd y cafwyd anawsterau gyda hi a dyna sydd i gyfrif am y ffigyrau cyfranogiad is na'r disgwyl yn Ch1.

Y **Cam lliniaru** ar gyfer gwella'r dangosydd hwn ar gyfer Ch2 fydd:

- Bydd darparwr y system adrodd yn ymweld ym mis Awst i roi cymorth gyda'r system er mwyn datrys yr anawsterau ac i roi hyfforddiant arni i'r staff perthnasol.

**2.5.6** Mae un dangosydd yn y Gwasanaeth Tai yn dangos tanberfformiad:

(i) Nifer y dyddiau a gymerir ar gyfartaledd i osod llety (heb gynnwys y rheini sy'n anodd i'w gosod); Ch1 – 37.4, Targed – 25; COCH.

Mae tanberfformiad yn erbyn y targed hwn oherwydd bod y Cyngor yn gweld nifer uwch nag erioed o'r blaen o ddarpar denantiaid yn gwrthod cynigion cyntaf ac mae trawsnewid y Gwasanaeth Tai a'r UCA hefyd yn cael effaith ar y canlyniad.

Cymerir **camau lliniaru** trwy gynnal cyfarfodydd monitro wythnosol i gadw llygad ar gartrefi gweigion gyda swyddogion Tai a Swyddogion UCA, yn ogystal ag adolygu'r rhestr aros yn barhaus.

**2.5.7** Er bod yr holl ddangosyddion sy'n weddill ar gyfer Ch1 yn dangos yn WYRDD yn y rhan 'rheoli perfformiad' dylid nodi nad yw hynny'n golygu bod ein safle wedi gwella ar draws pob maes gwasanaeth ar lefel genedlaethol. Yn seiliedig ar ganlyniadau chwarterol cychwynnol 14/15 mae'n ymddangos, er bod 61% o'n gwaith sy'n ymwneud â'r dangosyddion NSI/PAM wedi gwella, mae ein safle cenedlaethol wedi dioddef oherwydd bod Cynghorau eraill yn perfformio'n well yn ystod y flwyddyn.

**2.5.8** Gellir dadansoddi mwy ar y perfformiad cyffredinol trwy'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol a gyhoeddir cyn diwedd mis Hydref ac yr adroddir arno i'r Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Medi.

**2.5.9** Mae llawer o'r dangosyddion wedi cwrdd â'u targedau ar gyfer y flwyddyn. Mae hynny'n galonogol ac yn dangos fod pethau'n gwella yn lleol. Fodd bynag, os ydym am barhau i wneud cynnydd a gwella ein statws fel Cyngor sy'n cyflawni, drwy'r UDA gwel yr angen inni ddiwygio'r targedau i sicrhau eu bod yn heriol ond yn gyraeddadwy *ac fel nad ydym yn gorffwys ar ein bri.*

## 2.6 GWASANAETH CWSMER

**2.6.1** O ran Rheoli Cwynion Cwsmeriaid , erbyn diwedd Ch1 derbyniwyd 11 o gwynion. Mae pob un o'r cwynion wedi cael ymateb ac o'r cwynion hyn mae 2 wedi eu cadarnhau yn llawn, 1 ei chadarnhau yn rhannol, ar 8 yn weddill heb eu cadarnhau.

**2.6.3** Nid oedd y data ar gyfer y ceisiadau rhyddid gwybodaeth, pryderon a chanmoliaeth ar gael wrth ysgrifennu'r adroddiad hwn, ond byddant i gyd yn rhan o'r Cerdyn Sgorio Ch2.

**2.6.4** Mae'r DP Ymarferiad Y Siopwr Cudd (Eitemau 14-18 ar y cerdyn sgorio) hefyd yn cael eu hadrodd am y tro cyntaf yn Ch2. Mae'r ymarfer Siopwr Cudd yn yr broses o gael ei gwblhau gan y Grŵp Cynghori Tenantiaid, sy'n dod i ben ym mis Medi, a bydd y canfyddiadau ac argymhellion yn cael eu hadroddiad am y tro cyntaf yn Ch2.

## 3. ARGYMHELLION

**3.1** Gofynnir i'r Pwyllgor sgriwtineiddio'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

**3.1.1** Derbynnir targedau salwch cyraeddadwy ar gyfer yr holl wasanaethau yn seiliedig ar ddata/patrymau hanesyddol i gwrdd â'r targed corfforaethol a gwneir ymdrech sylweddol i fynd i'r afael ag achosion salwch tymor hir penodol.

**3.1.2** Rheolaeth Ariannol – trwy'r UDA, ceir mwy o sylwadau a manylion am faterion ariannol o'r adroddiad cyllid Ch1 a fydd yn cael sylw yn y cyfarfod hwn.

**3.1.3** Rheoli Perfformiad – cydnabyddir tanberfformiad yn erbyn dangosyddion ac fe reolir hynny trwy gymryd camau lliniarol i gynorthwyo i sicrhau gwelliannau yn ystod Ch2.

**3.1.4** Gwasanaeth Cwsmer – sicrhau bod data'r 'siopwr cudd' yn cael ei adrodd erbyn Ch2 i gyfleu gwaelodlin annibynnol o'n ffocws ar y cwsmer.

**3.2** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y camau lliniaru a amlinellir uchod.

## Corporate Scorecard C-Q1

| Customer Service | Actual | Target | RAG | Trend | 14/15 Result |
|---|---|---|---|---|---|
| 01) No of Complaints received (excluding Social Services) | 11 | 16 | Green | - | 65 |
| 02) No of Stage 2 Complaints received for Social Services | 3 | - | - | - | - |
| 03) Total number of complaints upheld / partially upheld | 3 | 4 | Green | - | 16 |
| 04) Total % of complaints acknowledged within 5 working days | 100% | 100% | Green | - | 100% |
| 05) Total % of written responses to complaints within 20 days | 100% | 100% | Green | - | 100% |
| 06) Number of concerns (excluding Social Services) | - | - | - | - | 71 |
| 07) Number of Stage 1 Complaints for Social Services | 12 | - | - | - | - |
| 08) Number of Ombudsman referrals upheld | 0 | 1 | Green | - | 0 |
| 09) Number of Compliments | - | - | - | - | 521 |
| 10) % of FOI requests responded to within timescale | - | - | - | - | 68% |
| 11) Number of FOI requests received | - | - | - | - | 608 |
| 12) Average 'rings' taken to answer telephone (1 Ring = 3 Sec) | 4 | 5 | Green | - | 3 |
| 13) % of telephone calls not answered | 12% | 15% | Green | - | 16% |
| 14) % of written communication replied to within 15 working days of receipt (Mystery Shop - Q2) | - | - | - | - | - |
| 15) % of written responses in the customers language of choice (Mystery Shop - Q2) | - | - | - | - | - |
| 16) % of appointments seen within 10 mins of appointment (Mystery Shop - Q2) | - | - | - | - | - |
| 17) % of telephone calls answered bilingually (Mystery Shop - Q2) | - | - | - | - | - |
| 18) % of staff that took responsibility for the customer query (Mystery Shop - Q2) | - | - | - | - | - |

| People Management | Actual | Target | RAG | Trend | 14/15 Result |
|---|---|---|---|---|---|
| 01) Sickness absence - average working days/shifts lost | 2.89 | 2.5 | Red | - | 11.53 |
| 02) Short Term sickness - average working days/shifts lost per FTE | 1.15 | - | - | - | 5.47 |
| 03) Long Term sickness - average working days/shifts lost per FTE | 1.74 | - | - | - | 6.06 |
| 04) % of RTW interview held | 86% | 85% | Green | - | 85% |
| 05) % of stress related sickness | 7% | 9% | Green | - | 5% |
| 06) Number of employees that have hit trigger points requiring a Attendance Review Meeting (ARM) | 33% | 85% | Red | - | - |
| 07) Number of staff authority wide, including teachers and school based staff (FTE) | 2318 | - | - | - | 2336 |
| 08) Number of staff authority wide, excluding teachers and school based staff(FTE) | 1324 | - | - | - | 1362 |
| 09) % of PDR's completed within timeframe | 76% | 80% | Amber | ↑ | 53% |
| 10) Local Authority employees leaving (%) (Turnover) (Annual) | 6% | - | - | - | - |
| 11) Local Authority employees made redundant (compulsory) | 1 | - | - | - | 29 |
| 12) Local Authority employees made redundant (voluntary) | 0 | - | - | - | - |
| 13) No. of Agency Staff | 23 | - | - | ↓ | 21 |
| 14) % of staff with DBS Certificate (if required within their role) | 98.4 | - | Green | - | - |

| Financial Management | Spend (£) | Variance (%) | RAG | Trend | 14/15 Result |
|---|---|---|---|---|---|
| 01) Forecasted end of year outturn | £126,266,000 | 1.30% | Red | - | - |
| 02) Salary Year to Date Variance | £10,383,140 | 4.74% | Red | - | - |
| 03) % of Budget spent on Salary | - | 36.99% | - | - | - |
| 04) Cost of agency staff (£'000) | £157,791 | 89.93% | Amber | - | - |
| 05) Cost of consultancy (£'000) | £309,672 | 22.06% | Amber | - | - |
| 06) Notional cost of sickness absence | £588,608 | - | Red | - | - |
| 07) Budget v Actuals (Resources) | £588,901 | 21.73% | Red | - | - |
| 08) Budget v Actuals (Council Business) | £182,650 | 18.14% | Red | - | - |
| 09) Budget v Actuals (Adult Services) | £179,950 | 3.95% | Red | - | - |
| 10) Achievement against efficiencies | - | - | - | - | - |
| 11) Achievement against efficiencies | - | - | - | - | - |
| 12) Achievement against efficiencies | - | - | - | - | - |
| 13) Income v Targets (excluding grants) [Adult Services] | -£1,270,153 | 15.09% | Red | - | - |
| 14) Income v Targets (excluding grants) [Learning] | -£288,101 | 22.71% | Amber | - | - |
| 15) Income v Targets (excluding grants) [Highways, Waste & Property] | -£543,981 | 8.20% | Amber | - | - |
| 16) % of Council Tax collected (for last 3 years) | - | 98.30% | - | - | - |
| 17) % of Business Rates collected (for last 3 years) | - | 98.10% | - | - | - |
| 18) % of Sundry Debtors collected (for last 3 years) | - | 96.70% | - | - | - |
| 19) % Housing Rent collected (for the last 3 years) | - | 96.88% | - | - | - |

| Performance Management | Actual | Target | RAG | Trend | 14/15 Targe | 13/14 Resul | 4/15 Quartil |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) SCA/002b: The rate of older people (aged 65 or over) whom the authority supports in care homes per 1,000 population aged 65 or over at 31 March | 21.96 | 22 | Green | | 22 | 23.28 | TBC |
| 02) SCA/018a: The percentage of carers of adults who were offered an assessment or review of their needs in their own right during the year | 94.8 | 93 | Green | | 93 | 92.87 | TBC |
| 03) LI/18b The percentage of carers of adults who requested an assessment or review that had an assessment or review in their own right during the year | 66.5 | 93 | Red | | 93 | | TBC |
| 04) SCA/018c: The % of carers of adults who were assessed or re-assessed in their own right during the year who were provided with a service | 97 | 96 | Green | | 96 | 96 | TBC |
| 05) SCA/019: The % of adult protection referrals completed where the risk has been managed | 95.24 | 90 | Green | | 90 | 91.92 | TBC |
| 06) SCC/002: During the year, the percentage of children looked after at 31 March, who have experienced one or more changes of school, during the periods of being looked after, which were not due to transitional arrangements | 5 | 15 | Green | | 15 | 18.5 | TBC |
| 07) SCC/025: The % of statutory visits to looked after children due in the year that took place in accordance with regulations | 89.87 | 100 | Amber | | 100 | 93.53 | TBC |
| 08) SCC/041a: The percentage of eligible, relevant and former relevant children that have pathway plans as required | 73.91 | 90 | Red | | 90 | 78.26 | TBC |
| 09) SCC/43a: The % of required core assessments completed within 35 working days | 78.13 | 85 | Amber | | 85 | 77.88 | TBC |
| 10) Attendance - Primary (%) | - | 94.5 | - | | 94.5 | | TBC |
| 11) Attendance - Secondary (%) | - | 93.3 | - | | 93.3 | | TBC |
| 12) No. of days lost to temp exclusion - Primary | - | 25 | Red | | 25 | | TBC |
| 13) No. of days lost to temp exclusion - Secondary | - | 94 | Red | | 94 | | TBC |
| 14) KS4 - % 15 year olds achieving L2+ | - | 56 | - | | 56 | | TBC |
| 15) EDU/015a: The percentage of final statements of special education need issued within 26 weeks including exceptions | - | - | - | | | | TBC |
| 16) EDU/015b: The percentage of final statements of special education need issued within 26 weeks excluding exceptions | - | - | - | | | | TBC |
| 17) LCL/001b: The no. of visits to public libraries during the year | 67k | 70k | Amber | | 285k | | TBC |
| 18) LCL/004: The no. of library materials issued, during the year | 72k | 75k | Amber | | 305k | | N/A |
| 19) The number of applicants with dependent children who the Council secured non-self contained bed and breakfast accommodation | 0 | - | - | | | | N/A |
| 20) % tenants satisfied with responsive repairs | 99.6 | 92 | Green | | 92 | | N/A |
| 21) Average number of housing repair jobs completed per operative per day | - | 6 | - | | 6 | | N/A |
| 22) Productivity of workforce- % time which is classified as productive | 68.6 | 75 | Amber | | - | | N/A |
| 23) The average number of calendar days to let lettable units of accommodation (excluding DTLs) | 37.4 | 25 | Red | | 25 | | N/A |
| 24) STS/005b: The percentage of highways inspected of a high or acceptable standard of cleanliness | - | 95 | - | | 95 | 96.3 | TBC |
| 25) STS/006: The percentage of reported fly tipping incidents cleared within 5 working days | 97.68 | 95 | Green | | 95 | 95.9 | TBC |
| 26) WMT/009b: The percentage of municipal waste collected by local authorities and prepared for reuse and/or recycled | 61.63 | 58 | Green | | 58 | 55.2 | TBC |
| 27) WMT/004b: The percentage of municipal waste sent to landfill | 24.9 | 41 | Green | | 41 | 43.2 | TBC |
| 28) THS/011c: The % of non-principal (C) roads that are in an overall poor condition (annual) | - | - | - | | | | TBC |
| 29) No. of attendances (young people) at sports development / outreach activity programmes | 39k | 24k | Green | | 85k | 144k | N/A |
| 30) LCS/002b: The number of visits to local authority sport and leisure centres during the year where the visitor will be participating in physical activity | 99k | 124k | Red | | 540k | 531k | TBC |
| 31) No of new apprenticeships (Quarter 2) | - | - | - | | | | N/A |
| 32) Adult Social Care Programme | - | - | Green | | | Green | N/A |
| 33) Leisure Transformation Project | - | - | Green | | | Green | N/A |
| 34) Library Transformation Project | - | - | Green | | | - | N/A |
| 35) School Modernisation Programme | - | - | Green | | | Green | N/A |
| 36) Outcome Agreements | - | - | Amber | | | Green | N/A |

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL A PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **17 MEDI 2015**<br>**21 MEDI 2015** |
| **PWNC:** | **ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB – CHWARTER CYNTAF 2015/16 – CYFALAF** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD H E JONES** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **RICHARD MICKLEWRIGHT (EST. 2601)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>**RHIF FFÔN:**<br>**E-BOST:** | **GARETH ROBERTS**<br>**01248 752675**<br>**GarethJRoberts@ynysmon.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL:** | **d/b** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

- Roedd y gwariant ar gynlluniau cyffredinol hyd at ddiwedd Mehefin yn £2.5m (12% o'r gyllideb gyfan ar gyfer cynlluniau cyffredinol). Gwariwyd £0.7m ar gynlluniau tai (6% o'r gyllideb ar gyfer tai) hyd at fis Mehefin. Roedd cyfanswm y gwariant yn 10% o'r gyllideb gyfan, gan fod nifer o'r cynlluniau mawr yn digwydd tuag at ail hanner y flwyddyn.
- Argymhellir y dylid nodi'r cynnydd o ran gwariant a derbyniadau yn erbyn y gyllideb gyfalaf.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

d/b

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y Gyllideb Gyfalaf am chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol.
- Mae monitro'r gyllideb yn swyddogaeth i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Gosod y Gyllideb Gyfalaf flynyddol.

| **DD - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | d/b – hwn yw adroddiad y Swyddog Adran 151 |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |

| 7 | **Arall** | |
|---|---|---|

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad A - Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf – Chwarter 1 2015/16<br>Atodiad B - Cyllideb Gyfalaf 2015/16 – Crynodeb o'r Gwariant Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Cyfalaf 2015/16 |
| **FF - Papurau cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| • Cyllideb Gyfalaf 2015/16 fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor hwn ar 16 Chwefror 2015; a<br>• Rhaglen Fuddsoddi mewn Tai Sector Cyhoeddus 2015/16 (fel y cyflwynwyd, a chymeradwywyd, gan y Pwyllgor hwn ar 20 Ebrill 2015). |

## 1. CEFNDIR

**1.1** Dyma adroddiad monitro'r gyllideb gyfalaf am chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol. Yn Atodiad B, ceir crynodeb o'r gwariant yn erbyn y gyllideb hyd at ddiwedd mis Mehefin.

**1.2** Ym mis Chwefror 2015, cymeradwyodd y Cyngor Raglen Gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn dai werth £15.150m ar gyfer 2015. Ym mis Ebrill 2015/16, cymeradwyodd y Cyngor Raglen Gyfalaf ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai gwerth £8.589m. Dyfarnwyd Grantiau newydd yn 2015/16 oedd yn rhoi cyfanswm o £5.158m, a daethpwyd ag Ymrwymiadau Cyfalaf gwerth £3.943m ymlaen o 2014/15. Mae hyn yn rhoi cyfanswm Cyllideb Gyfalaf o £32.840m ar gyfer 2015/16.

## 2. CYNNYDD

**2.1** Roedd y gwariant at ddiwedd mis Mehefin yn £2.5m (£1.3m yn 2014/15) ar gynlluniau cyffredinol, sy'n cyfateb i 12% (6% yn 2014/15) o gyfanswm y gyllideb ar gyfer cynlluniau cyffredinol. Y rheswm am hyn yw bod yr arian yn y mwyafrif o'r cynlluniau Cyfalaf yn cael ei wario tuag at ail hanner y flwyddyn ariannol. Enghraifft o hyn fyddai'r rhaglenni adnewyddu Ysgolion, Ailweirio Adeiladau Addysg a Lleihau Risg Tân mewn Ysgolion sydd wedi derbyn cyllideb o £0.6m i gyd. Fodd bynnag, ar ddiwedd y chwarter cyntaf nid oedd unrhyw wariant ar y cynlluniau hyn oherwydd eu bod i fod i gychwyn yn ystod y gwyliau ysgol yn chwarter 2.

**2.2** Y gwariant hyd ddiwedd mis Mehefin ar gynlluniau tai Cyfalaf oedd £0.7m (£1.3m 2014/15).

**2.3** Mae'r adroddiadau hyn yn canolbwyntio ar gynlluniau a gyllidir gan grantiau a phrosiectau eraill lle gall bod risg sylweddol os bydd y prosiectau'n llithro neu os bydd gorwariant. Fel yr adroddwyd eisoes, mae nifer y prosiectau a ariennir gan grantiau wedi lleihau yn dilyn toriadau yng nghyllidebau Llywodraeth Cymru, er bod rhai prosiectau mawr a ariennir gan Grantiau Ewropeaidd ar y gweill (sef y prosiect Safleoedd ac Adeiladau ac Amgylchedd Arfordirol Môn). Hefyd, mae 7 (4 yn parhau o 2014/15) o brosiectau a ariennir gan Lywodraeth Cymru wedi cychwyn, a'r mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw'r Grant Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.

**2.3.1** Y tri phrosiect amlycaf o ran risg yw:-

**2.3.1.1** Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi sicrhau arian grant o £7.490m gan Raglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru dros y tair blynedd ariannol nesaf, ar sail cyllid cyfatebol. Mae cyfanswm y gyllideb Gyfalaf a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2015/16 yn £2.411m. Mae'r gyllideb hon o £2.411m wedi ei rhannu dros chwe chategori, Galluogi Cartrefi Newydd (£0.371m), Galluogi Cartrefi mewn Trefi (£0.576m), Canol Trefi Hyfyw (£0.411m), Hyb Neuadd y Farchnad (£0.09m), Swyddi a Busnes (£0.392m), Cymuned Weithgar (£0.571m). Fodd bynnag, ar ddiwedd y chwarter, dim ond £0.227m oedd wedi cael ei wario ar y rhaglen hon. Mae'r rhan fwyaf o wariant y grant hwn wedi cael ei broffilio ar gyfer chwarter 4, fodd bynnag, os bydd llithriad, mae risg sylweddol y byddwn yn colli'r cyllid.

**2.3.1.2** Mae'r rhaglen gwelliannau mân-ddaliadau yn ei chweched blwyddyn sef ei blwyddyn derfynol, a chaiff ei hariannu o'r derbyniadau cyfalaf a neilltuwyd o werthu mân-ddaliadau ac o incwm rhent. Mae'r rhaglen yn parhau i redeg ar gost uwch na'r derbyniadau cyfalaf, a daethpwyd â diffyg o £1.393m ymlaen o 2014/15. Roedd y derbyniadau cyfalaf at ddiwedd y chwarter cyntaf yn £0.814m. Rhagamcanir rhagor o werthiannau ar gyfer 2015/16 a 2016/17.

**2.3.1.3** Mae nifer o brosiectau a chynlluniau sy'n gysylltiedig â thrawsnewid gwasanaeth a thrawsnewid corfforaethol eisoes wedi cychwyn neu yn yr arfaeth yn y tymor byr / canol; mae hyn yn cynnwys y gymeradwyaeth ddiweddar, mewn egwyddor, ar gyfer Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif, Band A, a phrosiectau'n ymwneud â gofal cymdeithasol i oedolion hŷn. Bydd y prosiectau a'r cynlluniau hyn yn gofyn am arian cyfalaf sylweddol gan yr Awdurdod hwn a bydd angen i'r cynlluniau rheoli asedau statudol corfforaethol fod wedi eu halinio'n agos i ddarparu'r derbyniadau cyfalaf sydd eu hangen er mwyn lleihau'r angen i fenthyca. Bydd unrhyw fenthyca a wneir yn cynyddu'r pwysau ar y cyllidebau yn y dyfodol ac yn cynyddu'r risgiau cyffredinol sy'n gysylltiedig â dyled.

## 3. ADNODDAU

### 3.1 Grantiau Cyfalaf

**3.1.1** Yn ystod y Chwarter dyfarnwyd grant cyfalaf Diogelwch Ffyrdd gwerth £191,000 i'r Cyngor. Caiff y grant hwn ei wario ar dri chynllun, sef y B4419 Pentre Berw i Langaffo, yr A4080 Brynsiencyn i Niwbwrch a'r A4080 Engedi i Aberffraw.

**3.1.2** Derbyniodd y Cyngor hefyd grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau o £174,000. Caiff y grant hwn ei wario ar wella hygyrchedd a diogelwch, ac annog cerdded a beicio mewn cymunedau ym mhentref Talwrn.

**3.1.3** Yn olaf, yn ystod y chwarter, dyfarnwyd grant o £58,843 i'r Cyngor i ddatblygu Canolfan Bro Alaw.

### 3.2 Derbyniadau Cyfalaf

**3.2.1** Mae'r derbyniadau cyfalaf am y flwyddyn hon hyd yn hyn fel a ganlyn:-

| | **Derbyniwyd hyd at 30 Mehefin 2015 £'000** | **Cyllideb i 2015/16 £'000** |
|---|---|---|
| Tai – CRT | | |
| Gwerthiannau Hawl i Brynu | 58 | 170 |
| Gwerthu Tir | 0 | 0 |
| Tai Sector Preifat | | |
| Gwerthu Plotiau | 0 | 0 |
| Taliadau a ad-dalwyd | 0 | 0 |
| Grantiau a ad-dalwyd | 5 | 5 |
| Cronfa'r Cyngor : | | |
| Mân-ddaliadau | 814 | 2,739 |
| Cyffredinol | 50 | 1,540 |
| Diwydiannol | 0 | 2 |
| Ysgolion | 0 | 190 |
| **Cyfanswm** | **927** | **4,646** |

## 4. EDRYCH YMLAEN

**4.1** Yr eitemau arwyddocaol y mae'n werth sôn amdanynt yma yw:-

**4.1.1** Mae gwaith dylunio yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar ddau gynllun o fewn Band A y rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif – Ysgol Gynradd newydd Caergybi ac Ysgol Ardal newydd yng ngogledd-orllewin Ynys Môn (Ysgol y Llannau). Bydd angen bwrw ymlaen â gwaith dichonoldeb ar gyfer y ddau brosiect arall ym Mand A yn ddiweddarach eleni.

**4.1.2** Ysgol Newydd Caergybi – mae'r achos busnes llawn wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a bydd yn cael ei gyflwyno i'w panel yn hwyr ym mis Awst. Os caiff yr achos busnes llawn ei gymeradwyo, rhaglennwyd i'r gwaith gychwyn ar y safle ddiwedd mis Medi. Roedd yr achos busnes llawn yn cynnwys cyfanswm diwygiedig ar gyfer Costau'r Prosiect o £10,352,381. Mae'r ffigwr hwn yn dangos cynnydd yn y gost gyfan o £1,942,041 yn erbyn y gyllideb a gymeradwywyd ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru sef £8,410,340. Mae'n bwysig bod aelodau'n nodi nad oes unrhyw warant y bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu 50% o hwn nac unrhyw gynnydd yn y dyfodol. Mae'r costau cynyddol wedi deillio'n bennaf o arolygon manwl a chytundeb gyda CADW ynglŷn â graddfa'r gwaith sydd ei angen ar Bloc Cybi sy'n Adeilad Rhestredig Gradd II.

Cyflwynwyd y Cais Cynllunio Llawn ym mis Ebrill. Cafodd y cais ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio ddiwedd mis Gorffennaf. Cyflwynwyd Cais Cynllunio Adeilad Rhestredig i adnewyddu Bloc Cybi ym mis Gorffennaf.

**4.1.3** Ysgol Ardal Newydd yng ngogledd-orllewin Ynys Môn (Ysgol y Llannau) – cyflwynwyd Cais Cynllunio llawn a gobeithir y bydd yn cael ei gymeradwyo ym mis Medi. Rydym wedi dod i gytundeb gyda'r tirfeddiannwr ynglŷn â phrynu'r tir ac aiff hyn yn ei flaen unwaith y byddwn wedi derbyn Caniatâd Cynllunio.

Mae angen rhagor o waith cloddio archeolegol ar y safle i gwblhau'r ardaloedd a adnabuwyd gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud cyn i'r prif gontractwr ddechrau ar y safle. Bydd tendrau ar gyfer y prif waith adeiladu yn cael eu gwahodd yn fuan ym mis Medi oddi wrth gontractwyr ar Fframwaith Gwaith Adeiladu Mawr Gogledd Cymru.

Disgwylir y bydd gwaith yn cychwyn ar y safle ym mis Chwefror 2016 – gyda chyfnod adeiladu o 12 mis – i'w gwblhau ym mis Chwefror 2017.

**4.2** Roedd y ffurflenni Bidiau Cyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17 ar gael yng nghanol mis Awst. Bydd y broses yn rhedeg tan gyfarfod y Pwyllgor hwn ym mis Tachwedd a bydd yn dilyn yr un weithdrefn ag y llynedd. Bydd y broses eleni yn fyrrach ac yn gynt o thua phump i chwe wythnos.

**ATODIAD B**

| Llithriad 2014/15 £'000 | Cyllideb 2015/16 £'000 | GWASANAETH | Manylder Gwariant Cyfalaf a gynlluniwyd | Swm y Gyllideb ('000) | Cyllid Allanol (grantiau penodol a chyfraniadau) ('000) | Y gost i CSYM ('000) | Gwariant yn Ch1 (£000) | % Gwariant o'r gyllideb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Tai** | | | | | | |
| | | **Tai Sector Cyhoeddus:** | | | | | | |
| 1,300 | **8,809** | Rhaglen Gyfalaf Tai | Gwaith Cynnal a Chadw wedi'i gynllunio ar Dai'r Cyngor | 5,087 | 2,650 | 2,437 | 544 | 11 |
| | | | Gwaith Gwres Canolog | 250 | | 250 | 0 | 0 |
| | | | Gwaith Amgylcheddol | 500 | | 500 | 4 | 1 |
| | | | Pecyn Gwaith Mewnol a Rheoli Asbestos SATC | 750 | | 750 | 69 | 9 |
| | | | Rheoli Risg Tân | 250 | | 250 | 0 | 0 |
| | | | Ailfodelu'r Stoc Bresennol (Llawr y Dref) | 1,530 | | 1,530 | 0 | 0 |
| | | | Caffael Eiddo sy'n Bodoli | 1,372 | | 1,372 | 0 | 0 |
| | | | Addasiadau Sector Cyhoeddus | 150 | | 150 | 7 | 5 |
| | | | Prynu Cerbydau ar gyfer yr UCA | 220 | | 220 | 0 | 0 |
| | | **Cynlluniau Tai Sector Preifat:** | | | | | | |
| | | Cynlluniau Benthyciadau a Grantiau Tai Sector Preifat | Cynllun Gosod Troi Tai'n Gartrefi | | | | 15 | |
| | | | Grantiau Prynwyr Tro Cyntaf | | | | 5 | |
| 30 | 816 | | Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 846 | | 846 | 105 | 12 |
| | 180 | | Cynllun Peilot Prynu Gorfodol | 180 | | 180 | 0 | 0 |
| | 17 | | Astudiaeth Tai a Ffioedd, Grant LlLlLlA | 17 | 17 | | 0 | 0 |
| | 187 | | Tai Cymdeithasol Lôn Cyttir, Grant LlLlLlA | 187 | 187 | | 0 | 0 |
| | 161 | | Bwlch Alltran, Grant LlLlLlA | 161 | 161 | | 0 | 0 |
| 305 | | Cynlluniau Tai Fforddiadwy | | 305 | | 305 | 0 | 0 |
| **1,635** | **10,170** | **Cyfanswm Tai** | | **11,805** | **3,015** | **8,790** | **749** | **6** |
| | | **Addysg** | | | | | | |
| | **442** | Rhaglen Ehangu Cyfalaf Dechrau'n Deg | Addasiad i Adeilad Dechrau'n Deg, Caergybi | 442 | 442 | | **4** | **1** |
| | **189** | Grant LlLlLlA Dechrau'n Deg | | 189 | | 189 | 0 | 0 |
| | **9,159** | Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif | Ysgol Caergybi | 5,728 | 2,864 | 2,864 | 67 | 1 |
| | | | Ysgol Llannau | 3,431 | 1,716 | 1,715 | 44 | 1 |
| | **198** | Ysgolion - Adnewyddu | Ysgol Gynradd Moelfre | 22 | | 22 | 0 | 0 |
| | | | Ysgol Gynradd Pentraeth | 16 | | 16 | 0 | 0 |
| | | | Ysgol Gynradd Llanfairpwll | 19 | | 19 | 0 | 0 |
| | | | Ysgol Gynradd Talwrn | 13 | | 13 | 0 | 0 |
| | | | Ysgol David Hughes | 53 | | 53 | 0 | 0 |
| | | | Ysgol Uwchradd Caergybi | 31 | | 31 | 0 | 0 |
| | | | Ysgol Rhoscolyn | 24 | | 24 | 0 | 0 |
| | | | Ysgol Gynradd Cemaes | 20 | | 20 | 0 | 0 |
| | **253** | Ailweirio Adeiladau Addysg | Ysgol Uwchradd Caergybi | 55 | | 55 | 0 | 0 |
| | | | Ysgol Gynradd Bodffordd | 83 | | 83 | 0 | 0 |
| | | | Ysgol Gynradd Moelfre | 115 | | 115 | 0 | 0 |

| Llithriad 2014/15 £'000 | Cyllideb 2015/16 £'000 | GWASANAETH | Manylder Gwariant Cyfalaf a gynlluniwyd | Swm y Gyllideb ('000) | Cyllid Allanol (grantiau penodol a chyfraniadau) ('000) | Y gost i CSYM ('000) | Gwariant yn Ch1 (£000) | % Gwariant o'r gyllideb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **149** | Lleihau Risg Tân yn Adeiladau'r Cyngor | Ysgol David Hughes | 4 | | 4 | 0 | 0 |
| | | | Pob Ysgol | 24 | | 24 | 0 | 0 |
| | | | Ysgol Gynradd Penysarn | 11 | | 11 | 0 | 0 |
| | | | Ysgol David Hughes | 55 | | 55 | 0 | 0 |
| | | | Ysgol Uwchradd Bodedern | 55 | | 55 | 0 | 0 |
| | **10,390** | **Is-gyfanswm** | | **10,390** | **5,022** | **5,368** | **115** | **1** |
| | | **<u>Hamdden</u>** | | | | | | |
| 85 | | Uwchraddio Canolfan Hamdden Plas Arthur | | 85 | | 85 | 67 | 79 |
| 85 | | Uwchraddio Canolfan Hamdden Amlwch | | 85 | | 85 | 0 | 0 |
| | 70 | Uwchraddio Canolfan Hamdden Caergybi, Grant LlLlLlA | | 70 | 70 | | 92 | 131 |
| **170** | **70** | **Is-gyfanswm** | | **240** | **70** | **170** | **159** | **66** |
| | | **<u>Datblygu Economaidd</u>** | | | | | | |
| 447 | | Isadeiledd Strategol ar Ynys Môn – Safleoedd ac Eiddo | | **447** | | **447** | **780** | **174** |
| | | Cyfleusterau Cyhoeddus | | | | | **24** | |
| | | Toiledau Cemaes | | | | | **3** | |
| 244 | | Prosiect Amgylchedd Arfordirol Ynys Môn | | **244** | | **244** | **318** | **130** |
| 63 | | Cyllid heb ei ddyrannu | | **63** | | **63** | **0** | |
| | **145** | Cronfa Buddsoddi mewn Busnes Caergybi, Grant LlLlLlA | | **145** | **145** | | **31** | **21** |
| | **120** | Uwchraddio Unedau Penrhos, Grant LlLlLlA | | **120** | **120** | | **7** | **6** |
| | **30** | Estyniad HAWFC, Grant LlLlLlA | | **30** | **30** | | **28** | **93** |
| | **50** | Caban Kingsland, Grant LlLlLlA | | **50** | **50** | | **47** | **94** |
| | **1** | Clwb Gymnasteg Ynys Môn, Grant LlLlLlA | | **1** | **1** | | **0** | **0** |
| | **48** | Datblygu Cymunedau Gweithgar, Grant LlLlLlA | | **48** | **48** | | **5** | **10** |
| | **69** | Canolfan Gymunedol Kingsland, Grant LlLlLlA | | **69** | **69** | | **13** | **19** |
| 754 | **463** | **Is-gyfanswm** | | **1,217** | **463** | **754** | **1,256** | **103** |

| Llithriad 2014/15 £'000 | Cyllideb 2015/16 £'000 | GWASANAETH | Manylder Gwariant Cyfalaf a gynlluniwyd | Swm y Gyllideb (‘000) | Cyllid Allanol (grantiau penodol a chyfraniadau) (‘000) | Cost i CSYM (‘000) | Gwariant yn Ch1 (£000) | % Gwariant o’r gyllideb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Priffyrdd** | | | | | | |
| 45 | | Meysydd Parcio | | 45 | | 45 | 0 | 0 |
| 387 | 150 | Cerbydau | | 537 | | 537 | 90 | 17 |
| | 2,000 | Menter Fenthyca Darbodus y Sir | Brynteg, Ffordd Gorad, Y Fali | 17 | | 17 | 18 | 106 |
| | | | Lôn Pandy Llywenan, Llanfigael | 44 | | 44 | 23 | 52 |
| | | | Lôn Fferm Bodloigan, Llanfigael | 52 | | 52 | 51 | 98 |
| | | | Lôn Glanrafon, Llanfechell | 42 | | 42 | 39 | 93 |
| | | | Stad Nant y Mynydd, Llanfechell | 27 | | 27 | 27 | 100 |
| | | | Breeze Hill, Benllech | 40 | | 40 | | 0 |
| | | | Sgwâr Moelfre at yr Arhosfan Bws | 20 | | 20 | | 0 |
| | | | Maes Hyfryd, Lôn Newydd, Moelfre | 30 | | 30 | | 0 |
| | | | Nebo i Llys Dulas, Penysarn | 30 | | 30 | | 0 |
| | | | Maenaddwyn i Frynteg, Brynteg | 100 | | 100 | | 0 |
| | | | Allt Ednyfed / Bonc yr Odyn, Amlwch | 31 | | 31 | | 0 |
| | | | Hen Swyddfa Bost, Brynrefail | 15 | | 15 | | 0 |
| | | | Pengraigwen | 20 | | 20 | | 0 |
| | | | Lôn Fferam Uchaf, Llansadwrn | 40 | | 40 | 37 | 93 |
| | | | Lôn Pen Nebo, Porthaethwy | 44 | | 44 | | 0 |
| | | | Biwmares i Gyffordd Lairds, Llanfaes | 80 | | 80 | | 0 |
| | | | Hendre Hywel, Pentraeth | 24 | | 24 | | 0 |
| | | | Stad Maes y Coed, Talwrn | 15 | | 15 | | 0 |
| | | | Lôn Bryn Ceinwen (The Outbuildings) | 23 | | 23 | 24 | 104 |
| | | | Stad Brig y Nant, Llangefni | 24 | | 24 | | 0 |
| | | | Pentref Llanddaniel | 30 | | 30 | | 0 |
| | | | Capel Mawr i Pont Marquis | 30 | | 30 | | 0 |
| | | | Pentref Bethel | 34 | | 34 | | 0 |
| | | | Lôn Tre Dryw, Brynsiencyn | 22 | | 22 | | 0 |
| | | | Dolwerdd, Llangefni | 55 | | 55 | | 0 |
| | | | Ffordd Kingsland, Caergybi | 62 | | 62 | | 0 |
| | | | Lôn Tŷ Main, Caergeiliog | 34 | | 34 | 35 | 103 |
| | | | Pontrhydybont, Trearddur | 123 | | 123 | | 0 |
| | | | Cyffordd Seacroft, Beach Road | 50 | | 50 | | 0 |
| | | | Wynebu Cylchfan Turnpike Nant | 100 | | 100 | | 0 |
| | | | Allt Goch, Draenio ym Miwmares | 70 | | 70 | | 0 |
| | | | Draeniad Cwlfert Llanfairynghornwy | 100 | | 100 | | 0 |
| | | | Gwaith wyneb – amrywiol leoliadau | 572 | | 572 | | 0 |
| | 900 | Lliniaru Llifogydd Biwmares | Lleihau’r risg o lifogydd ym Miwmares | 900 | 765 | 135 | 370 | 41 |
| | 1,936 | Ffordd Gyswllt Llangefni | | 1,936 | 1,867 | 69 | 12 | 6 |
| | 5 | Mapio Teithio Llesol | | 5 | 5 | | 0 | 0 |
| | 174 | Llwybrau Diogel mewn Cymunedau | Gwella hygyrchedd a diogelwch ac annog cerdded a beicio mewn cymunedau ym mhentref Talwrn | 174 | 174 | | 0 | 0 |
| | 191 | Grant Diogelwch Ffyrdd | B4419 Pentre Berw i Langaffo | 42 | 42 | | 0 | 0 |
| | | | A4080 Brynsiencyn i Niwbwrch | 82 | 82 | | 0 | 0 |
| | | | A4080 Engedi i Aberffraw | 67 | 67 | | 0 | 0 |
| | 16 | Gwella Stryd y Farchnad, Grant LlLlLlA | | 16 | 16 | | 4 | 0 |

| Llithriad 2014/15 £'000 | Cyllideb 2015/16 £'000 | GWASANAETH | Manylder Gwariant Cyfalaf a gynlluniwyd | Swm y Gyllideb (‘000) | Cyllid Allanol (grantiau penodol a chyfraniadau) (‘000) | Cost i CSYM (‘000) | Gwariant yn Ch1 (£000) | % Gwariant o’r gyllideb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 18 | Arwyddion i Ymwelwyr a Pheiriannau Talu i Barcio, Grant LlLlLlA | | 18 | 18 | 2,786 | 0 | 0 |
| 432 | **5,390** | **Is-gyfanswm** | | **5,822** | **3,036** | **2,786** | **730** | **13** |
| | | **Rheoli Gwastraff** | | | | | | |
| 119 | | Compownd Cynwysyddion Gwastraff | | 119 | | 119 | 0 | 0 |
| **119** | | **Is-gyfanswm** | | **119** | | **119** | **0** | **0** |
| | | **Eiddo** | | | | | | |
| 123 | | Gwaith Rheoli Risg Adeiladu | | 123 | | 123 | 46 | 37 |
| 96 | | Doc Pysgod Caergybi | | 96 | | 96 | 0 | 0 |
| 106 | | Mynwent Llanbedrgoch | | 106 | | 106 | 0 | 0 |
| 112 | | Mynwent Llanddona | | 112 | | 112 | 1 | 1 |
| | | Mân-ddaliadau | | | | | 168 | |
| **437** | | **Is-gyfanswm** | | **437** | | **437** | **215** | **49** |
| | | **Corfforaethol** | | | | | | |
| | **1,125** | Gweithio’n Gallach | Derbynfa | 77 | | 77 | 0 | 0 |
| | | | Costau Cysylltiedig TGCh - Derbynfa | 9 | | 9 | 0 | 0 |
| | | | Cefnogaeth Broffesiynol | 103 | | 103 | 0 | 0 |
| | | | Y Prif Adeilad | 588 | | 588 | 0 | 0 |
| | | | Neuadd y Sir | 33 | | 33 | 0 | 0 |
| | | | Costau Cysylltiedig TGCh – Prif Adeilad | 34 | | 34 | 0 | 0 |
| | | | Costau Cysylltiedig TGCh – Neuadd y Sir | 11 | | 11 | 0 | 0 |
| | | | Unified Comms Solution (MS Lync) | 8 | | 8 | 0 | 0 |
| | | | Mynediad o Bell | 54 | | 54 | 0 | 0 |
| | | | Storfa Ychwanegol ar gyfer Rheoli Cofnodion | 29 | | 29 | 0 | 0 |
| | | | Offer Clywedol / Sain ar gyfer Ystafelloedd Cyfarfod | 5 | | 5 | 0 | 0 |
| | | | Effeithlonrwydd Ynni: Ffitiadau Golau LED | 151 | | 151 | 0 | 0 |
| | | | System Fflecsi Newydd | 21 | | 21 | 0 | 0 |
| | | | Meddalwedd Adnabod Llais | 2 | | 2 | 0 | 0 |
| 396 | | TGCh | System wrth gefn TGCh | 150 | | 150 | 0 | 0 |
| | | | Microsoft Exchange | 22 | | 22 | 0 | 0 |
| | | | 3Comm Refresh | 50 | | 50 | 0 | 0 |
| | | | Cost Ychwanegol ar gyfer Systemau Wrth Gefn | 20 | | 20 | 0 | 0 |
| | | | Amnewid gweinyddwyr 2003 | 100 | | 100 | 0 | 0 |
| | | | Darpariaeth ar gyfer costau trwyddedu Microsoft ac Oracle | 15 | | 15 | 0 | 0 |
| | | | Gweinyddwyr newydd | | | | **14** | |
| | | | Cyllid TGCh wrth gefn | 39 | | 39 | 0 | 0 |
| **396** | **1,125** | **Is-gyfanswm** | | **1,521** | | **1,521** | **14** | **1** |

| Llithriad 2014/15 £'000 | Cyllideb 2015/16 £'000 | GWASANAETH | Manylder Gwariant Cyfalaf a gynlluniwyd | Swm y Gyllideb (‘000) | Cyllid Allanol (grantiau penodol a chyfraniadau) (‘000) | Cost i CSYM (‘000) | Gwariant yn Ch1 (£000) | % Gwariant o’r gyllideb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | | | |
| | | Cartrefi Gofal Ychwanegol | **Llangefni** | | | | | |
| | | | **Amlwch** | | | | | |
| | | **Is-gyfanswm** | | | | | | |
| | | **Cynllunio** | | | | | | |
| | | Cronfa Treftadaeth y Loteri | | | | | 43 | 0 |
| | **10** | Parc Morglawdd, Grant LlLlLlA | | **10** | **10** | | 0 | 0 |
| | **81** | Astudiaeth Neuadd y Farchnad, Grant LlLlLlA | | **81** | **81** | | 0 | 0 |
| | **59** | Ffioedd Datblygu, Grant LlLlLlA | | **59** | **59** | | 0 | 0 |
| | **336** | THI Gweithredu Cam 2, Grant LlLlLlA | | **336** | **336** | | 0 | 0 |
| | **486** | **Is-gyfanswm** | | **486** | **486** | | **43** | **9** |
| | | **Grantiau LlLlLlA eraill** | | | | | | |
| | **102** | Cymuned Weithgar – heb ei ddyrannu | | 102 | 102 | | | |
| | **9** | Hyb Neuadd y Farchnad – heb ei ddyrannu | | 9 | 9 | | | |
| | **109** | Swyddi a Busnes – heb ei ddyrannu | | 109 | 109 | | | |
| | **559** | Cartrefi mewn Trefi – heb ei ddyrannu | | **559** | **559** | | | |
| | **24** | Galluogi Cartrefi Newydd – heb ei ddyrannu | | **24** | **24** | | | |
| | **803** | **Is-gyfanswm** | | **803** | **803** | | | |
| **2,308** | **18,727** | **Cyfanswm – Cyffredinol** | | **21,035** | **9,880** | **11,155** | **2,532** | **12** |
| **3,943** | **28,897** | **CYFANSWM Y GYLLIDEB** | | **32,840** | **12,895** | **19,945** | **3,281** | **10** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL A PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **17 Medi 2015**<br>**21 Medi 2015** |
| **Pwnc:** | **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 1 2015/16** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD H E JONES** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **RICHARD MICKLEWRIGHT / BETHAN HUGHES OWEN** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **BEN DAVIES**<br>02148 752510<br>BenDavies@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **d/b** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

1. Ym mis Chwefror 2015, gosododd y Cyngor gyllideb net ar gyfer 2015/16 gyda gwariant gwasanaethau net o £124.6m i gael ei gyllido o incwm o'r Dreth Gyngor, Trethi Cenedlaethol Annomestig a grantiau cyffredinol.
2. Roedd angen arbedion o £4.3m ar gyfer y gyllideb am 2015/16. Mae'r rhain wedi cael eu hymgorffori yng nghyllidebau unigol y gwasanaethau a chaiff llwyddiant neu fethiant i'w cyflawni eu hadlewyrchu yn y tanwariant/gorwariant a ddangosir.
3. Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor am y chwarter cyntaf o'r flwyddyn ariannol a'r sefyllfa a ragamcenir am y flwyddyn gyfan, gan nodi'r sefyllfa gyffredinol a ffynonellau'r prif wahaniaethau.
4. Y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragamcenir ar gyfer 2015/16 yw gorwariant o £1,620k sef 1.3% o gyllideb net y Cyngor am 2015/16 ac mae eglurhad am unrhyw wahaniaethau arwyddocaol wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.
5. Argymhellir y dylid nodi'r isod:-

   **(i)** y sefyllfa a nodir yng nghyswllt y perfformiad ariannol hyd yma;
   **(ii)** y diffyg a ragamcenir ar ddiwedd y flwyddyn; ac
   **(iii)** y camau sy'n cael eu cymryd i roi sylw i hyn.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

d/b

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydyw

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydyw

**DD - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | I'w gadarnhau |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | d/b – Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | I'w gadarnhau |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |
| **E -** | **Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |
| **F -** | **Atodiadau:** | |
| | Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw – Chwarter 1, 2015/16 | |
| **FF -** | **Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** | |
| | • Cyllideb Refeniw 2015/16 (fel y cafodd ei hargymell gan y Pwyllgor hwn ar 16 Chwefror 2015 a'i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 26 Chwefror 2015). | |

# MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 1 2015/16

## 1. Balans Cyffredinol - Sefyllfa Gychwynnol a Chyfraniad a Gynlluniwyd yn 2015/16

**1.1** Roedd yr alldro answyddogol ar gyfer 2014/15 wedi arwain at falansau cyffredinol o £7.5m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gyfredol, sefyllfa fwy iach nag a ddisgwylwyd yn flaenorol.

## 2. Y cyfnod hyd at ddiwedd Chwarter 1 (y cyfeirir ato fel 'y cyfnod' o hyn ymlaen) – Perfformiad Ariannol Fesul Gwasanaeth

**2.1** Mae manylion am berfformiad ariannol yn ôl gwasanaeth am y cyfnod a'r sefyllfa alldro a ragamcenir i bob gwasanaeth i'w gweld yn Anecs A. Y rhagolwg cyffredinol yw y bydd gorwariant net ar y gwasanaethau o £1,620k. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r amrywiadau.

| **Crynodeb o Amrywiadau a Ragamcenir ar 31 Mawrth 2016 yn seiliedig ar Wybodaeth Ariannol fel ym mis Gorffennaf 2015** | |
|---|---|
| | **(Tan)/ Gorwariant £000** |
| Gofal Cymdeithasol Oedolion | 452 |
| Hamdden | 146 |
| Priffyrdd a Thrafnidiaeth | 166 |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 142 |
| Rheoli Gwastraff | 256 |
| Corfforaethol – Gwasanaethau Eraill | 176 |
| Arall | 282 |
| Net | 1,620 |

## 3. Eglurhad o'r Prif Amrywiadau

***Noder os gwelwch yn dda:-***
***Caiff 'Amrywiadau Sylweddol' eu diffinio yn y cyd-destun hwn fel amrywiadau dros £100k; ac Mae Amrywiadau a fynegir yn nhermau % yn % o'r gofyn cyllidebol net.***

### 3.1 Dysgu Gydol Oes

#### 3.1.1 Addysg Ganolog

**3.1.1.1** Roedd tanwariant o £4k (<1%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y chwarter cyntaf. Y rhagolwg ar gyfer diwedd y flwyddyn yw gorwariant o £51k (1%). Mae'r gorwariant a ragwelir yn bennaf o ganlyniad i orwariant a ragwelir o £200k ar leoliadau Integreiddio (11%), ac mae'n cael ei wrthbwyso gan arbediad a ragwelir o £150k (13%) ar leoliadau all-sirol.

#### 3.1.2 Diwylliant

**3.1.2.1** Roedd tanwariant o £14k (3%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod, a rhagwelir mai'r alldro ar gyfer y flwyddyn fydd gorwariant o £5k (<1%).

### 3.2 Cymunedau

#### 3.2.1 Gofal Cymdeithasol Oedolion

**3.2.1.1** Roedd gorwariant o £117k (3%) yn y gwasanaeth hwn am y cyfnod, a rhagwelir mai'r alldro ar gyfer y flwyddyn gyfan fydd gorwariant o £452k (2%).

**3.2.1.2** Yr elfennau sy'n gyfrifol am yr amrywiadau yn yr alldro a ragwelir yw:-

- Mae'r gyfadran Pobl Hŷn ac Oedolion yn rhagweld gorwariant (£450k, 2%):-
  - Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed: rhagweld gorwariant o £327k (5%);
  - Anableddau Corfforol: rhagweld tanwariant o £57k (4%);
  - Anableddau Dysgu: rhagweld gorwariant o £165k (7%);
  - Iechyd Meddwl: rhagweld gorwariant o £129k (3%);
  - Yr Uned Ddarparu: rhagweld tanwariant o £114k (2%); a
  - Rheolaeth a Chefnogaeth: gorwariant o £2k (<1%).

**3.2.1.3** Mae'r gorwariant a ragwelir ar gyfer Gofal Cymdeithasol Oedolion yn deillio i raddau helaeth o'r pwysau cost ychwanegol ar y gwasanaeth yn 2015/16; mae enghreifftiau o'r pwysau cost y mae'r gwasanaeth yn ei wynebu yn cynnwys goblygiadau dyfarniad y Goruchaf Lys a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2014 ynglŷn â Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, effaith y cynnydd o 1.7% yn y ffioedd a delir i gartrefi gofal allanol a'r lleihad sylweddol yn y Cyllid Gofal Canolraddol gan Lywodraeth Cymru. Rydym hefyd yn darogan gorwariant ar Iechyd Meddwl oherwydd nifer fechan o gleientiaid mwy anghenus.

**3.2.1.4** Fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae'r Gwasanaethau i Bobl Hŷn yn faes cyfnewidiol ac mae gwaith helaeth wedi digwydd i wella'r rhagolygon ar draws yr holl grwpiau cleientiaid ynghyd ag ad-drefnu'r cyllidebau.

### 3.2.2 Gwasanaethau Plant

**3.2.2.1** Bu tanwariant o £101k (2%) yn ystod y cyfnod ond rhagwelir y bydd gorwariant o £97k (1%) ar gyfer y flwyddyn gyfan, sy'n cynnwys gorwariant amcanol o £352k (12%) ar gyfer Plant Mewn Gofal; mae hyn yn cynnwys lleoliad cost uchel dan ddarpariaethau gorchymyn diogel.

### Tai (Cronfa'r Cyngor)

**3.2.3.1** Cafwyd tanwariant o £71k (15%) gan y gwasanaeth yn ystod y cyfnod. Oherwydd bod ailstrwythuro'r gwasanaeth yn mynd rhagddo, nid ydym wedi amcangyfrif yr alldro a ragwelir ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

### 3.2.3 Tai (CRT)

**3.2.4.1** Cafwyd tanwariant o £54k gan y gwasanaeth yn ystod y cyfnod, a rhagwelir tanwariant o £22k (1%) erbyn diwedd y flwyddyn.

## 3.3 Datblygu Cynaliadwy

### 3.3.1 Datblygu Economaidd

**3.3.1.1** Roedd tanwariant o £39k (8%) gan y gwasanaeth hwn ar ddiwedd y cyfnod, a rhagwelir y bydd yr alldro am y flwyddyn gyfan yn cyfateb i'r gyllideb.

### 3.3.2 Hamdden

**3.3.2.1** Roedd y gwasanaeth hwn wedi gorwario £31k (7%) yn ystod y cyfnod, a rhagwelir y bydd gorwariant o £146k (7%) am y flwyddyn gyfan. Mae'r rhesymau am hyn fel a ganlyn :-

- Roedd y cyllidebau ar gyfer y Parciau a'r Cyfleusterau Awyr Agored yn rhan o'r arbedion effeithlonrwydd a dderbyniwyd ar gyfer 2012/13 ond nid yw'r holl safleoedd wedi cael eu hallanoli, rhagdybir gorwariant o £100k (£dim cyllideb);
- Rhagdybir y bydd y Cwrs Golff yn gorwario £50k oherwydd nad yw wedi gwireddu ei dargedau incwm, mater yn dyddio'n ôl i'r 1990au (bydd y cyfrifoldeb am y cwrs yn trosglwyddo i Bartneriaeth Llangefni ym mis Gorffennaf 2015);
- Nifer o fân amrywiadau sy'n rhoi cyfanswm o danwariant net o £4k.

**3.3.3 Morwrol**

**3.3.3.1** Roedd gorwariant o £6k (10%) yn y gwasanaeth hwn ar ddiwedd y cyfnod, a chaiff yr alldro a ragwelir am y flwyddyn ei feintioli unwaith y mae elfennau sy'n gysylltiedig â phenawdau incwm penodol wedi cael eu hadolygu gan y Swyddogaeth.

**3.3.4 Priffyrdd**

**3.3.4.1** Roedd y gwasanaeth hwn wedi gorwario £76k (5%) yn ystod y cyfnod, a rhagwelir y bydd wedi gorwario £166k (2%) erbyn diwedd y flwyddyn (heb gynnwys effeithiau'r cyllidebau gwaith (traffig, goleuadau a chynnal a chadw) gan nad yw'r sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn yn hysbys ar yr adeg hon).

**3.3.4.2** Y prif reswm am y gorwariant a ragwelir yw bod incwm sy'n deillio o feysydd parcio wedi tangyflawni o £100k (20%) a mân amrywiadau eraill sy'n rhoi gorwariant net o £66k.

**3.3.5 Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd**

**3.3.5.1** Cafwyd tanwariant o £53k (10%) gan y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod a rhagwelir y bydd wedi gorwario £142k (5%) erbyn diwedd y flwyddyn. Y rheswm am y gorwariant a ragwelir yw nifer o fân amrywiadau gwahanol.

**3.3.6 Eiddo**

**3.3.6.1** Bu tanwariant o £46k (91%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod a rhagwelir y bydd y gwariant yn cyfateb i'r gyllideb am y flwyddyn gyfan.

**3.3.7 Rheoli Gwastraff**

**3.3.7.1** Bu tanwariant o £32k (2%) yn y gwasanaeth hwn erbyn diwedd y cyfnod, a rhagwelir y bydd gorwariant o £256k (3%) am y flwyddyn gyfan. Mae'r rhesymau am y gorwariant a ragwelir fel a ganlyn:-

- Rhagwelir gorwariant o £229k (12%) ar y contract casglu gwastraff;
- Rhagwelir gorwariant o £100k (28%) ar Orsaf Trosglwyddo Gwastraff Penhesgyn;
- Rhagwelir tanwariant o £100k ar y contract gwaredu gwastraff (5%); a
- Rhagwelir mân amrywiadau gwahanol sy'n rhoi cyfanswm o £27k o orwariant net.

**3.4 Dirprwy Brif Weithredwr**

**3.4.1 Corfforaethol – Gwasanaethau Eraill**

**3.4.1.1** Bu gorwariant o £31k (7%) yn y gyllideb hon yn ystod y cyfnod, a rhagwelir gorwariant o £176k (7%) am y flwyddyn gyfan. Y rheswm am y gorwariant a ragwelir yw'r gyllideb 'arbedion i'w canfod', a mater tebyg i'r un yr adroddwyd amdano yn 2014/15.

### 3.4.2 Corfforaethol a Democrataidd

**3.4.2.1** Bu gorwariant o £9k (2%) yn y maes cyllideb hwn yn ystod y cyfnod, a rhagwelir y bydd gorwariant o £2k (<1%) am y flwyddyn gyfan.

### 3.4.3 Swyddfa'r Dirprwy Brif Weithredwr

**3.4.3.1** Bu tanwariant o £2k (1%) yn y gyllideb yn ystod y cyfnod, a rhagwelir y bydd wedi gorwario £84k (132%) erbyn diwedd y flwyddyn.

### 3.4.4 Cyllid – Heb gynnwys Budd-daliadau a Roddwyd

**3.4.4.1** Roedd gorwariant o £188k (26%) yn y gwasanaeth ar ddiwedd y cyfnod, a rhagwelir gorwariant o £97k (12%) am y flwyddyn gyfan.

### 3.4.5 Cyllid – Budd-daliadau a Roddwyd

**3.4.5.1** Mae'r gorwariant a ragwelir ar gyfer y flwyddyn yn sefyll ar £50k (1%). Gellir adennill rhan helaeth o'r gorwariant cyfredol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau drwy gynnydd mewn grant.

### 3.4.6 Adnoddau Dynol

**3.4.6.1** Bu gorwariant o £92k (41%) yn yr adain hon yn ystod y cyfnod ond rhagwelir y bydd tanwariant o £30k (15%) am y flwyddyn gyfan. Roedd £73k o'r gorwariant yn y cyfnod yn gysylltiedig ag Arfarnu Swyddi, a gwnaed cais am gyllid o'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer hyn.

### 3.4.7 TGCh

**3.4.7.1** Bu gorwariant o £83k (20%) yn yr adain hon yn ystod y cyfnod, a rhagwelir y bydd tanwariant o £26k (421%) am y flwyddyn gyfan.

### 3.4.8 Cyfreithiol a Phwyllgorau

**3.4.8.1** Roedd y gwasanaeth hwn wedi gorwario £141k (42%) yn ystod y cyfnod, a rhagwelir y bydd wedi gorwario £7k (5%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae £100k o'r gorwariant yn y chwarter cyntaf o ganlyniad i gostau'r etholiad, a bydd y rhain yn cael eu hadennill.

### 3.4.9 Trawsnewid

**3.4.9.1** Bu tanwariant o £279k (185%) yn yr adain hon yn ystod y cyfnod a rhagwelir y bydd tanwariant o £55k (14%) am y flwyddyn gyfan.

### 3.4.10 Archwilio

**3.4.10.1** Bu tanwariant o £5k (8%) yn yr adain hon yn ystod y cyfnod a rhagwelir y bydd yn cyfateb i'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn.

### 3.4.11 Cyllid Corfforaethol

**3.4.11.1** Mae'r pennawd cyllideb hwn yn cynnwys nifer o feysydd megis incwm o fuddsoddiadau, costau cyllido a hefyd cronfeydd wrth gefn. Mae'n rhy fuan i allu rhagweld y sefyllfaoedd alldro ar incwm o fuddsoddiadau a chostau cyllido oherwydd y cryn ansicrwydd ynghylch yr angen am y cyllidebau a all godi ar y mathau hyn o wariant. O fewn y gyllideb Cyllid Corfforaethol mae cyllidebau wrth gefn oedd yn darparu cyfanswm o £2.124m ar ddechrau'r flwyddyn a cafodd £372k ei ymrwymo yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys £301k ar gostau diswyddo a disgwylir y bydd y cyllidebau hyn wedi gwario yn unol â'r gyllideb am y flwyddyn gyfan.

## 4. Casgliad

**4.1** Amlinellwyd uchod a chynhwyswyd yn Anecs A y gwariant refeniw net a gafwyd gan yr Awdurdod hyd at ddiwedd Mehefin 2015 ynghyd â'r rhagolwg o'r sefyllfa ariannol ar gyfer pob gwasanaeth. Rhagwelir gorwariant amcangyfrifiedig o £1.6m ar wasanaethau ar yr adeg yma, er gall hyn newid yn y dyfodol oherwydd digwyddiadau, galw am wasanaethau a gwybodaeth a all effeithio'r rhagolwg. Nodir yn yr adroddiad fod y gorwariannau amcangyfrifiedig mwyaf sylweddol yng Ngofal Cymdeithasol Oedolion (£452k); Hamdden (£146k); Priffyrdd a Thrafnidiaeth (£166k); Gwastraff (£256k); a Chorfforaethol – gwasanaethau arall (£176k). Eglurir uchod y rhesymau am y gorwariannau amcangyfrifiedig yma. Dylai Penaethiad Gwasanaeth ystyried yr holl opsiynau ar gyfer y camau adferol nawr er mwyn ceisio lleihau y gorwariant amcangyfrifiedig yn y dyfodol. Er ei bod yn rhy gynnar i gymryd camau yn awr y bydd SLT monitro'r sefyllfa yn rheolaidd ac yn gweithredu yn ôl yr angen .

# PERFFORMIAD ARIANNOL (GRONFA'R CYNGOR) CHWARTER1 2015/16

| Cyfadran | Cyllideb wedi'i Phroffilio Ch1 £'000 | Gwirioneddol ac Ymrwymiadau Ch1 £'000 | Amrywiad Ch1 £'000 | Cyllideb Flynyddol £'000 | Alldro Disgwyliedig £'000 | Amrywiad i'r Alldro Disgwyliedig gor/(tan) wariant £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | |
| Cyllideb wedi'i datganoli i'r Ysgolion | 9,418 | 9,418 | 0 | 43,786 | 43,786 | 0 |
| Addysg Ganolog | 1,048 | 1,044 | -4 | 7,838 | 7,889 | 51 |
| Diwylliant | 472 | 458 | -14 | 1,750 | 1,755 | 5 |
| Talnet | 129 | 191 | 62 | 0 | 0 | 0 |
| | **11,067** | **11,111** | **44** | **53,373** | **53,429** | **56** |
| **Cymunedau** | | | | | | |
| Gofal Cymdeithasol Oedolion | 4,569 | 4,686 | 117 | 22,078 | 22,530 | 452 |
| Gwasanaethau Plant | 1,596 | 1,495 | -101 | 6,581 | 6,678 | 97 |
| Tai | 485 | 414 | -71 | 998 | 998 | 0 |
| | **6,650** | **6,595** | **-55** | **29,657** | **30,206** | **549** |
| **Datblygu Cynaliadwy** | | | | | | |
| Datblygu Economaidd | 485 | 446 | -39 | 1,292 | 1,292 | 0 |
| Hamdden | 463 | 493 | 31 | 2,224 | 2,370 | 146 |
| Arforol | 63 | 69 | 6 | 422 | 422 | 0 |
| Priffyrdd a Thrafnidiaeth | 1,650 | 1,726 | 76 | 9,395 | 9,561 | 166 |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 505 | 452 | -53 | 2,859 | 3,001 | 142 |
| Eiddo | 50 | 4 | -46 | 448 | 448 | 0 |
| Gwaith y codir amdano | 53 | 108 | 55 | 0 | 0 | 0 |
| Rheoli'r Gyfadran | 15 | 7 | -8 | 58 | 58 | 0 |
| Gwastraff | 1,609 | 1,577 | -32 | 7,062 | 7,318 | 256 |
| | **4,892** | **4,883** | **-9** | **23,761** | **24,471** | **710** |
| **Dirprwy Brif Weithredwr** | | | | | | 176 |
| Corfforaethol – Gwasanaethau Eraill | 421 | 452 | 31 | 2,596 | 2,772 | 176 |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 234 | 243 | 9 | 2,234 | 2,236 | 2 |
| Swyddfa'r Dirprwy Brif Weithredwr | 180 | 178 | -2 | -64 | 20 | 84 |
| Cyllid – heb gynnwys Budd-daliadau a roddwyd | 730 | 918 | 188 | 802 | 899 | 97 |
| Cyllid – Budd-daliadau a roddwyd | 1,915 | 2,321 | 406 | 5,918 | 5,968 | 50 |
| Adnoddau Dynol | 221 | 313 | 92 | 198 | 168 | -30 |
| TGCh | 408 | 490 | 83 | -6 | -32 | -26 |
| Cyfreithiol a Phwyllgorau | 337 | 477 | 141 | 136 | 143 | 7 |
| Trawsnewid | 151 | -128 | -279 | 377 | 322 | -55 |
| Archwilio | 65 | 60 | -5 | 0 | 0 | 0 |
| Cyllid Corfforaethol | 783 | 783 | 0 | 5,664 | 5,664 | 0 |
| | **5,444** | **6,106** | **662** | **17,855** | **18,160** | **305** |
| **Cyfanswm** | **28,053** | **28,695** | **642** | **124,646** | **126,266** | **1,620** |
| **ARIENNIR GAN** | | | | | | |
| Trethi Cenedlaethol Annomestig | | | | 21,986 | | |
| Y Dreth Gyngor | | | | 30,955 | | |
| Grant Cytundeb Canlyniadau | | | | 725 | | |
| Grant Cymorth Refeniw | | | | 70,980 | | |
| | | | | **124,646** | | |

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR SGRWTINI CORFFORAETHOL** |
| **Dyddiad:** | **17eg O FEDI** |
| **Pwnc:** | **CYNLLUN YMGYNGHORI CYLLIDEB 2016/17** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **CYNGHORYDD ALWYN ROWLANDS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **SCOTT ROWLEY** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **GETHIN MORGAN**<br>01248 752111<br>GethinMorgan@anglesey.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **n/a** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

1.1. Mae'r atodol yn cynnig disgrifiad lefel uchel o'r cynllun ymgynghori arfaethedig ar gyfer y gyllideb i'w wireddu yn ystod y cyfnod – wythnos yn cychwyn Hydref 19eg hyd at Rhagfyr 31ain.

1.2. Mae'n cyfleu dull weithredu traws sector gyda'r bwriad o gyflwyno sylwadau'r dinesydd drwy –

a. Y Wasg
b. Cynghorau Tref a Chymuned
c. Gweithdai Rhanddeiliaid
d. Y We
e. Cyfryngau Cymdeithasol
f. Sesiynau 'drop-in' @ ddigwyddiadau Ynys Mon
g. Panel Dinasyddion
h. Gweithdai Ysgolion Uwchradd

1.3. Gofynnir i'r Pwyllgor archwilio'r cynllun arfaethedig fel y gellid gwella'r cynlluniau ymgynghori cyllidebol i'r dyfodol ac hefyd uchafu ymwybyddiaeth corfforaethol o'r gwaith disgwyliedig dros y cyfnod a nodir.

**B - B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu**

| | | |
|---|---|---|
| **gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** | | |
| n/a | | |
| **C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith??** | | |
| Dirprwywyd y mater hwn i'r Pwyllgor Gwaith. | | |
| **CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | | |
| Ydi | | |
| **D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | | |
| Ydi | | |
| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Trafodwyd y mater yng nghyfarfod diweddar yr UDA ar y 1af o Fedi ac mae'i cefnogaeth i'r cynllun wedi ei nodi. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylw |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylw |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |
| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |
| **F - Atodiadau:** | | |
| Atodiad A – Cynllun Ymgynghori / Cyfathrebu Cynnigion Cyngor Sir Ynys Mon 2016/17 | | |
| **FF - FF – Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** | | |
| | | |

**ATODIAD A**

**CYNLLUN YMGYNGHORI / CYFATHREBU –**

## CYNNIGION CYLLIDEBOL CYNGOR SIR YNYS MÔN 2016/17 – RHAN 2

Pwrpas y cynllun yma yw cydnabod y meysydd o waith fydd ei angen ar y Cyngor i wireddu'r dyhead o ymgynghori'n eang a thrylwyr, fel bod cynnig terfynol y Pwyllgor Gwaith o gyllideb 2016/17 i'r Cyngor ym mis Chwefror 2016 yn cael ei wneud gyda'r dealltwriaeth o safbwyntiau gwahanol a cydnabyddiaeth o'r cyfleoedd a'r risgiau sydd yn bodoli.

Mae'r cynllun yma yn dilyn gwireddiad Rhan 1 oedd yn cychwyn y stori (dros yr haf) ac yn rhoi'r brasamcan i'n dinasyddion / partneriaid o'r heriadau sydd yn ein gwynebu fel corff cyhoeddus.

Mae'r amserlen canlynol yn cwmpasu'r dyddiadau Hydref 16eg - Rhagfyr 31ain.



| Cyfeirnod | Dyddiad / Cyfnod | Digwyddiadau / Ymgyrchoedd a Phwrpas |
|---|---|---|
| A | Wythnos cychwyn 19.10.15 | Cyfarfod Grwp Rhanddeiliaid Cynghorau Tref a Chymuned i drafod cyfleoedd ac oblygiadau y cynnigion posib. |
| B | 2.11.15 | Sesiwn briffio'r Wasg ynglyn a chynnigion cychwynol cyllideb 2016/17. Codi ymwybyddiaeth y darllenwyr o'r heriadau cyllidol sy'n ein gwynebu a'u datrysiad arfaethedig |
| C | 9.11.15 | Cyfarfod Pwyllgor Gwaith i gynnig arbedion arfaethedig 2016/17 i bwrpas ymgynghori a chytuno i'r cynllun ymgynghori a chyfathrebu. |
| Ch | 16.11.15 | Cyfarfod Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol fydd yn craffu ar feysydd o bryder sydd wedi'i cydnabod felly yn rhan o weithdai cyllidol mewnol. |
| D | 17.11.15 | Gweithdy Rhanddeiliaid yn Neuadd Ysgol Gyfun Llangefni i ennyn deallusrwydd a thrafodaeth o'r cyfleoedd a risgiau cynnigion |

| | | |
|---|---|---|
| | | arfaethedig 2016/17. |
| DD | 16.11.15 – 31.12.15 | Ymgyrch hyrwyddo’r arbedion arfaethedig ar y we gydag holiadur pwrpasol wedi ei lunio i dderbyn sylwadau trigolion yr Ynys. Bydd yr ymgyrch yma hefyd yn cynnwys gweithdai yn ysgolion uwchardd yr ynys gyda phresenoldeb yr Arweinydd / Pwyllgor Gwaith. |
| E | 23.11.15 – 10.12.15 | Sesiynau ‘drop-in’ gyda’r Pwyllgor Gwaith mewn ardaloedd poblog o amgylch yr Ynys e.e. meysydd parcio’r archfarchnadoedd / Oriel Ynys Mon / canolfannau hamdden a.y.y.b (*i’w bennu yn ddibynnol ar ddigwyddiadau sirol) TBC* |
| F | 16.11.15 – 31.12.15 | Defnydd o banel dinasyddion a fforymau priodol (I’w wireddu gan y 3ydd sector) i roi adborth ar feysydd sydd ag effaith uniongyrchol ar unigolion y fforymau hynny. *(i’w gadarnhau)* |



Bydd y cynllun uchod yn ein galluogi fel Swyddogion i goladu a chasglu’r wybodaeth angenrheidiol er mwyn ffurfio adroddiad pwrpasol i gynyddu’r ymwybyddiaeth o safbwyntiau gwahanol unigolion a mudiadau i’r cynigion arfaethedig i bwrpas adrodd ar y rhain yng nghyfarfod Sgrwtini Corfforaethol ddechrau mis Chwefror 2016 (1af) ac oddi yno yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith (15fed o Chwefror).

| CYNGOR SIR YNYS MôN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD AT:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **DYDDIAD:** | **Medi 17, 2015** |
| **PWNC :** | **Moderneiddio Ysgolion Môn – Ymgynghori Ffurfiol yn ardaloedd Bro Rhosyr a Bro Aberffraw** |
| **AELODAU PORTFOLLIO( AU):** | **Cynghorydd Ken Hughes** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Emrys Bebb** |

## 1.0 ARGYMHELLION

Yn ei gyfarfod ar Fedi 8, 2014, penderfynodd Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn:

- Awdurdodi swyddogion o’r Adran Dysgu Gydol Oes i’w galluogi i gynnal proses ymgynghori anffurfiol neu anstatudol ar y ddarpariaeth addysg gynradd yn Ne Orllewin Ynys Môn.
- Paratoi’n ddilynol nifer o opsiynau posibl ar y ffordd ymlaen erbyn rhan gyntaf 2015.

Mae’r Cyngor wedi ymgynghori â rhieni, llywodraethwyr a staff yn y chwe ysgol yn yr ardal a hefyd gyda’r cymunedau lleol, cynghorwyr lleol a chyda llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill. Rhedai’r cyfnod ymgynghori o Dachwedd 17eg 2014 hyd at Rhagfyr 21ain 2014.

Trefnwyd cyfarfodydd ymgynghori gyda staff, llywodraethwyr a rhieni’r 6 ysgol gysylltiedig dros y cyfnod hwn. Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgynghori gyda chynghorau cymuned yn ardaloedd Bro Rhosyr a Bro Aberffraw.

Ystyriwyd nifer o opsiynau posibl ar y ffordd ymlaen ar gyfer y ddarpariaeth addysg gynradd yn ardaloedd Bro Rhosyr a Bro Aberffraw yn y broses ymgynghori anstatudol neu anffurfiol. Cododd dau bosibilrwydd o’r dadansoddiad manwl a gynhaliwyd:

**Opsiwn A**
Byddai hwn yn seiliedig ar Opsiwn 2, sef *ysgol newydd ar gyfer Bodorgan, Brynsiencyn, Niwbwrch, Dwyran ac un ysgol newydd ar gyfer Llangaffo a Pharc Y Bont*.

Yn y cyd-destun hwn, byddai lleoli un o’r ysgolion newydd yn ardal Niwbwrch yn golygu y byddai oddeutu traean o’r plant yn gallu cerdded i’r ysgol.

Byddai ar unrhyw ailfodelu Parc y Bont angen mynd i'r afael â'r problemau trafnidiaeth a adnabuwyd ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol.

Gallai'r opsiwn hwn hefyd gynnwys ffedereiddio Ysgol Brynseincyn gydag ysgol arall h.y. cynnal yr ysgol ar y safle presennol ond o dan drefniant rheoli gwahanol.

**Opsiwn B**

Byddai hwn yn seiliedig ar Opsiwn 4, sef *ysgol newydd ar gyfer Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran a Llangaffo ac un ysgol newydd ar gyfer Parc y Bont a Brynsiencyn.*

Byddai angen i unrhyw ailfodelu ym Mharc y Bont fynd i'r afael â'r problemau trafnidiaeth a adnabuwyd ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol.

Gallai'r opsiwn hwn hefyd gynnwys ffedereiddio Ysgol Brynseincyn gydag ysgol arall h.y. cynnal yr ysgol ar y safle presennol ond o dan wahanol gytundeb rheolaethol.

Yn yr opsiwn hwn, **NAILL AI** byddai'r Ysgol Parc y Bont bresennol, ynghyd â Brynsiencyn, yn parhau'n ysgol yr Eglwys yng Nghymru **NEU** byddai'r ysgol newydd yn ardal Niwbwrch (ysgol newydd ar gyfer Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran a Llangaffo) yn gallu dod yn ysgol dan Reolaeth Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru .

Yn ei gyfarfod ar Fawrth 16, 2015, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith:
Awdurdodi swyddogion i fynd rhagddynt i'r broses ymgynghori ffurfiol neu statudol lle byddant yn ymgynghori ar Opsiynau A a B uchod.

Cynhaliwyd yr ymgynghori ffurfiol neu statudol i adolygu'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal De Orllewin Môn o Fehefin 22 2015 i Awst 2 2015. Mae'r adroddiad atodol yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd.

## Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol argymell cymeradwyo naill ai opsiwn B2a neu B4a i'r Pwyllgor Gwaith:

- Opsiwn B2a: Ysgol newydd ar gyfer Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran, Llangaffo a Pharc Y Bont i aros fel ag y mae a ffedereiddio Ysgol Brynsiencyn gydag ysgol lle nad oes gan y pennaeth **unrhyw** gyfrifoldebau addysgu.
- Opsiwn B4a: Ysgol newydd ar gyfer Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran, Llangaffo a Pharc Y Bont (RhW) i aros fel ag y mae a ffedereiddio Ysgol Brynsiencyn gydag ysgol lle nad oes gan y pennaeth **unrhyw** gyfrifoldebau addysgu.

Er hynny, byddai hyfywdra parhaol Ysgol Brynsiencyn yn ddibynnol ar gynnal nifer hyfyw o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol.

**2.0 RHESWM**

2.1 I wneud argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith er mwyn iddo wneud penderfyniad ar batrwm y ddarpariaeth addysg gynradd ym Mroydd Rhosyr ac Aberffraw.

**3.0 SYLWADAU**

Sylwadau Adnoddau Dynol:
"Byddai angen sicrhau fod ymgynghori gyda'r staff sy'n cael eu effeithio'n digwydd ynghyd a dilyn y prosesau cywir parthed trefniadau ad-drefnu sefydliadol ac unrhyw diswyddiadau."

Awdur: Emrys Bebb
Teitl Swydd: Rheolwr Rhaglen
Dyddiad: Medi 9 2015

| | |
|---|---|
| ATODIAD 1- | Adroddiad Ar Yr Ymateb I'r Ymgynghoriad Statudol Ym Mro Rhosyr a Bro Aberffraw |

**SWYDDOGOL – *OFFICIAL***

# YMATEB I'R YMGYNGHORIAD STATUDOL - ARDALOEDD BRO RHOSYR A BRO ABERFFRAW
# *RESPONSE TO THE STATUTORY CONSULTATION - BRO RHOSYR AND BRO ABERFFRAW AREAS*

## Mehefin 22 – Awst 2, 2015
## *June 22 – August 2, 2015*




**CYNGOR SIR YNYS MÔN / *ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL***
**ADRAN DYSGU GYDOL OES / *LIFELONG LEARNING DEPARTMENT***

**www.ynysmon.gov.uk / www.anglesey.gov.uk**

| Rhif | CYNNWYS | TUDALEN |
|---|---|---|
| 1. | CYFLWYNIAD | 3 |
| 2. | GYRWYR AR GYFER NEWID | 3 |
| 3. | Y BROSES YMGYNGHORI | 5 |
| 4. | SYLWADAU O'R CYFARFODYDD YMGYNGHORI | 6 |
| 5. | YMATEBION O YSGOL BODORGAN | 7 |
| 6. | YMATEBION O YSGOL BRYNSIENCYN | 8 |
| 7. | YMATEB O YSGOL DWYRAN | 10 |
| 8. | YMATEB O YSGOL NIWBWRCH | 10 |
| 9. | YMATEBION O YSGOL LLANGAFFO | 10 |
| 10. | YMATEBION O YSGOL PARC Y BONT | 11 |
| 11. | YMATEB O'R EGLWYS YNG NGHYMRU | 12 |
| 12. | YMATEBION ERAILL | 13 |
| 13. | HOLIADURON RHIENI | 14 |
| 14. | ADBORTH GAN DDISGYBLION | 15 |
| 15. | AROLYGON TRAFNIDIAETH | 21 |
| 16. | DADANSODDIAD O OPSIYNAU | 21 |
| 17. | YSTYRIAETHAU ARIANNOL | 42 |
| 18. | ARGYMHELLIAD | 48 |

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ymroddedig i ddarparu'r ddarpariaeth addysgol orau un ar gyfer holl blant a phobl ifanc yr ynys.

Yn rhan o'r ymrwymiad hwn, mae'r Cyngor yn adnabod bod moderneiddio addysg a sicrhau bod ein hadeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu deniadol sy'n symbylu plant a phobl ifanc i ddod yn ddysgwyr effeithiol a chyflawni sgiliau bywyd yn brif flaenoriaeth.

Yn y cyd-destun hwn, mae ar y Cyngor eisiau moderneiddio ysgolion er mwyn:

- gwella deilliannau addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc a thorri'r cyswllt rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad addysgol isel,
- gwella ymhellach safonau arweinyddiaeth ac ansawdd addysgu a dysgu,
- cyflwyno ysgolion sector-arweiniol a safonau sector-arweiniol ar gyfer pob cymuned.

Bydd cyflwyno'r rhaglen foderneiddio uchelgeisiol hon yn gofyn am uno ysgolion sydd ohoni drwy gyfuniad o ffederasiynau ysgol, ad-drefnu dalgylchoedd yn helaeth yn seiliedig ar ailfodelu adeiladau ysgol sydd ohoni neu adeiladu ysgolion ardal newydd a chau ysgolion nad ydynt yn addas i bwrpas.

## 2. GYRRWYR AR GYFER NEWID A MODERNEIDDIO A FYDD YN DYLANWADU AR Y PENDERFYNIAD AR Y DDARPARIAETH ORAU AR GYFER YR ARDAL

Wedi eu nodi isod mae rhai o'r gyrwyr ar gyfer moderneiddio a fydd yn dylanwadu ar benderfynu'r ddarpariaeth orau ar gyfer yr ardal:

*Codi safonau addysgol*

Mae'r Cyngor yn ymroddedig i godi safonau'n sylweddol os ydym i gyrraedd ein nod o fod yn y 5 uchaf o Awdurdodau Lleol gorau yng Nghymru. Mae ymchwil bresennol yn awgrymu ei bod yn anodd cyd-berthnasu safonau â maint ysgol. Fodd bynnag, mae adroddiadau diweddar yn awgrymu bod gan dimau arweinyddiaeth mewn ysgolion cynradd mwy [dros tua 100] gapasiti mwy i beri gwelliant; mae athrawon yn datblygu mwy o arbenigedd mewn meysydd penodol a all wedyn ddylanwadu ar arferion athrawon eraill ac o ganlyniad gael effaith cadarnhaol ar safonau gwaith plant. Mewn ysgolion llai [o oddeutu 50 neu lai] mae dosbarthiadau oedran cymysg weithiau'n rhychwantu mwy nag un cyfnod allweddol. Mae'r broses hon yn her sylweddol ar gyfer athrawon os ydynt i sicrhau bod yr holl blant yn cael eu hymestyn hyd eithaf eu gallu. Mae'r strategaeth moderneiddio ysgolion yn amcanu at leihau enghreifftiau o ddosbarthiadau gyda mwy na 2 grŵp oedran.

*Lleihau nifer y lleoedd dros ben*

Mae nifer y lleoedd dros ben o fewn ysgolion cynradd yn awr wedi cyrraedd 15% ond ceir 31% o leoedd dros ben yn y 6 ysgol o dan ystyriaeth sy'n sylweddol uwch na tharged Llywodraeth Cymru [15% ar lefel Awdurdod a 10% mewn ysgolion unigol]. Mae ar y Cyngor felly angen lleihau nifer y lleoedd dros ben er mwyn cyfarfod â disgwyliadau Llywodraeth Cymru ac ymateb i un o feirniadaethau Estyn yn eu hadroddiad yn 2012. Mae hyn yn golygu mai'r bwriad sy'n ofynnol yw cyrraedd sefyllfa lle mae ysgolion yn fwy na 85% yn llawn a bod 90% o'r lleoedd wedi eu llenwi ar draws y sector cynradd.

*Lleihau'r amrywiad yng nghost y pen*

Mae cost y disgybl yn amrywio'n sylweddol, o £2,857 i £7,550, ar draws ysgolion cynradd yn y

sir. Mae gwariant y Cyngor ar ysgolion cynradd yn 2014-15 [£4869 y disgybl] yn uchaf ond un yng Nghymru. Bydd y rhaglen foderneiddio yn amcanu at normaleiddio cost y disgybl drwy'r awdurdod a'i chyfunioni gyda'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

*Sicrhau bod adeiladau ysgol yn creu'r amgylchedd dysgu gorau posibl*
Mae gwella ansawdd adeiladau ysgol a sicrhau'r amgylchedd dysgu gorau un [sy'n adlewyrchu'r rhai yn ein hadeiladau ysgol mwy diweddar – Ysgol y Graig – a ddefnyddir yn feincnod] ar gyfer ein plant o bwysigrwydd mawr i gyfarfod ag anghenion dysgu ac addysgu yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae'r math hwn o amgylchedd yn cynnwys cyfleusterau addysgu a dysgu o'r ansawdd gorau, mannau chwarae addas, ardaloedd staff a gweinyddu priodol, diogelwch a sicrwydd adeiladau ysgol a safleoedd ysgol ynghyd â chyfleusterau TG ardderchog. Mae Estyn yn nodi bod i " Welliannau yn ansawdd adeiladau effaith fanteisiol iawn ar ansawdd addysgu a morâl staff sy'n cael effaith gadarnhaol ar berfformiad disgyblion." Bydd gan bob plentyn fynediad i gyfleusterau priodol er mwyn darparu ystod gyfan o brofiadau addysgol.

Nid oes modd i'r Cyngor gynnal nifer fawr o adeiladau ysgol sy'n heneiddio ac sy'n gostus i'w cynnal. Mae'n rhaid i batrwm newydd o ysgolion gael ei sefydlu er mwyn dileu'r diffygion mewn adeiladau sydd ohoni ac i osgoi costau cynnal a chadw uchel, hir dymor. Mae angen datblygu cyfundrefn o ysgolion lle mae eu trefniadau cynnal a chadw'n gynaliadwy.

*Creu'r amodau i Benaethiaid lwyddo –cynyddu capasiti arweinyddiaeth*
Mae ysgolion effeithiol yn cael eu harwain yn dda. Mae gan ysgolion llwyddiannus arweinyddiaeth dda ar bob lefel, yn cynnwys llywodraethwyr. Mae'r heriau cysylltiedig ag arwain a rheoli ysgol wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diweddar ac mae'r disgwyliadau'n parhau i gynyddu. Mae ar Benaethiaid angen amser digyswllt digonol i sicrhau bod addysgu a dysgu o'r ansawdd uchaf, ac i ganolbwyntio ar arfarnu a chodi safonau, datblygu gweithdrefnau hunan-arfarnu cadarn a sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus staff. Mae'r disgwyliadau hyn yn sylweddol. Mae angen sicrhau bod gan Benaethiaid leiafswm o 50% o amser digyswllt. Mae hyn yn golygu y dylai bod gan bob ysgol [neu ffederasiwn o ysgolion] o leiaf 100 o ddisgyblion os ydynt i roi'r amser angenrheidiol i'r Pennaeth ymgymryd yn llwyddiannus â'r rôl arweinyddol.

*Sicrhau nifer digonol o Benaethiaid ar gyfer y dyfodol*
Yn y pum mlynedd nesaf mae'n debygol y bydd bron i 50% o'n Penaethiaid yn ymddeol. Gan fod llawer o'r Penaethiaid hyn yn arwain ysgolion bach, mae angen i'r Cyngor ystyried y modelau arweinyddiaeth fwyaf effeithiol a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae nifer yr ymgeiswyr ar gyfer swyddi penaethiaid yn dirywio ac yn achos cryn bryder. Mae angen i'r rhaglen moderneiddio ysgolion fynd i'r afael â hyn drwy sicrhau cyfleoedd datblygu arweinyddiaeth addas mewn ysgolion unigol. Mae arnom angen arweinwyr rhagorol ar gyfer ein hysgolion. Bydd y rhaglen foderneiddio yn mynd i'r afael â materion cynllunio olyniaeth ac yn sicrhau'r ddawn arweinyddol sydd gennym yn ein hysgolion.

*Y defnydd o adeiladau ysgolion gan y gymuned*
Mae ymchwil yn awgrymu bod ysgolion gyda darpariaethau ychwanegol megis clybiau brecwast, clybiau ôl-ysgol, darpariaeth gofal plant, gweithgareddau haf a phenwythnos yn cyflawni safonau uwch ac yn sicrhau ymrwymiad rhieni a chymuned. Disgwylir i ysgolion hefyd fod yn adnodd ar gyfer y gymuned leol er mwyn hybu gweithgareddau cymunedol sy'n cynnwys rhieni, aelodau o'r gymuned a grwpiau lleol. Mae'r math hwn o weithgaredd yn bwysig mewn perthynas â datblygu'r cyswllt rhwng ysgolion a'r gymuned leol. Bydd ysgolion a ddatblygir yn rhan o'r rhaglen foderneiddio yn gweithredu fel ysgolion ardal h.y. yn darparu ystod o wasanaethau a gweithgareddau yn aml y tu draw i'r diwrnod ysgol, i gynorthwyo i foddhau anghenion disgyblion,

eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.

*Darpariaeth gyfrwng Cymraeg a dwyieithog*
Bydd unrhyw drefniant a ddatblygir yn rhan o'r rhaglen foderneiddio yn rhoi blaenoriaeth i gryfhau a diogelu'r Gymraeg / dwyieithrwydd.

## 3. Y BROSES YMGYNGHORI

Mae'r Cyngor wedi ymgynghori â rhieni, llywodraethwyr a staff yn y chwe ysgol yn yr ardal a hefyd gyda Llywodraeth Cymru a chydranddalwyr eraill. Roedd y cyfnod ymgynghori'n rhedeg o Fehefin 22ain 2015 tan Awst 2ail 2015.

Trefnwyd cyfarfodydd ymgynghori gyda chydranddalwyr ysgol dros y cyfnod hwn:

| | | Cyfarfod gyda | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **Dyddiad (yn 2015)** | **Staff** | **Llywodraethwyr** | **Rhieni** |
| **Brynsiencyn** | **Dydd Llun 29 Mehefin** | **3.45** | **5.00** | **6.00** |
| **Parc y Bont** | **Dydd Mawrth 30 Mehefin** | **3.45** | **5.00** | **6.30** |
| **Llangaffo** | **Dydd Mercher 1 Gorffennaf** | **3.30** | **4.30** | **5.30** |
| **Bodorgan** | **Dydd Iau 2 Gorffennaf** | **3.30** | **5.00** | **6.30** |
| **Dwyran** | **Dydd Mercher 8 Gorffennaf** | | | **7.00** |
| **Niwbwrch** | **Dydd Iau 9 Gorffennaf** | **4.00** | **6.00** | **7.00** |

## 4. SYLWADAU O'R CYFARFODYDD YMGYNGHORI

Isod ceir crynodeb o bwyntiau a godwyd ym mhob un o'r cyfarfodydd ymgynghori uchod:

Roedd pryder ymhlith staff ynghylch swyddi yn gyffredin ar draws yr holl ysgolion.

*Brynsiencyn*

- Effaith ad-drefnu posibl ar ddalgylch ysgolion uwchradd.
- Credid bod maint y safle presennol yn ddigon mawr i ymestyn yr ysgol.
- Effaith posibl ffedereiddio ar drefniadau staffio a swyddi
- Mae nifer fawr o blant yn cerdded i'r ysgol.

*Parc y Bont*

- Eisiau gweld yr ysgol yn parhau fel y mae ac fel ysgol eglwysig.
- Pryder y byddai amser teithio i ysgol newydd posib yn cynyddu.
- Byddai'n dda cael defnydd cymunedol o unrhyw ysgol newydd.

*Llangaffo*

- Mae hon yn ysgol dda o ran safonau
- Nid oes problem gyda lleoedd dros ben yn yr ysgol.
- Effaith ad-drefnu posibl ar ddalgylch ysgolion uwchradd.

*Bodorgan*

- Pryder ynghylch effaith bosibl cau ar dŷ'r ysgol, y gymuned a'r ganolfan Gymunedol.
- Pryder y bydd rhieni'n symud y rhan fwyaf o'r disgyblion cyn cau ffurfiol posibl.

*Dwyran*

- Sicrhau fod y meini prawf cywir yn cael eu defnyddio i ddewis.
- Pryder ynghylch effaith bosibl cau ar y gymuned.

*Niwbwrch*

- Ceisio eglurder ar gyfer y broses o ffurfio corff llywodraethu cysgodol ar gyfer ysgol gynradd newydd.
- Ansicrwydd ynghylch yr hyn y mae ysgol Eglwysig yn ei olygu.

## 5. YMATEBION O YSGOL BODORGAN

5.1 Derbyniwyd cyfanswm o 85 o ymatebion ond dim ond 2 o'r rhain a oedd yn datgan eu bod yn rhieni disgyblion yr ysgol gynradd. Roeddent i gyd yn dweud eu bod yn gwrthwynebu cau Ysgol Bodorgan ond dim ond un ymatebwr a oedd yn ffafrio opsiwn A1 ac ni ddatganodd unrhyw un arall hoffter o unrhywun o'r opsiynau.

5.2 O'r ymatebwyr hyn, cyflwynwyd 56 neu 66% ar ffurf llythyr safonol. Prif bwyntiau'r llythyr oedd:

- Mae Ysgol Bodorgan wedi ei lleoli mewn man diogel ac felly ni welai ysgrifenwyr y llythyrau'r angen i'w chau.
- Roeddent yn teimlo bod "cymunedau gwledig llwyddiannus, clòs, yn cael eu cosbi'n annheg".
- Roedd yr ysgrifenwyr llythyrau'n teimlo bod ysgolion bach yn "dod â manteision sylweddol, nid dim ond mewn cynnal cymunedau gwledig" a'u bod yn cynnig " model teulu-gyfeillgar, cymuned-seiliedig ar gyfer addysg sydd yn rhy werthfawr i'w golli."
- Roeddent yn honni bod "Ysgolion cynradd bychain, yn cynnwys ysgolion bach iawn, yn gyson ar frig mesurau perfformiad cenedlaethol ar draws y DU".

5.3 Mynegodd 8 ymatebwr (9%) na fyddent yn mynd â'u plant i ysgol gynradd newydd bosibl yn **Niwbwrch**.

5.4 Roedd rhai ymatebwyr (7 neu 8%) yn meddwl bod y safle **presennol** yn addas ar gyfer ysgol newydd tra credai 3 ymatebwr (4%) y dylai'r ysgol gael ei **ffedereiddio** gydag Ysgol Henblas yn Llangristiolus.

5.5 Mewn perthynas â **chludiant**, disgwyliai un rhiant (1%) y byddai bws i gludo disgyblion i ysgol gynradd newydd a phryderai 5 ymatebydd arall (6%) ynghylch disgyblion yn cael eu cludo mewn bws i ysgol newydd.

5.6 Roedd rhyw 8 ymatebydd (9%) o'r farn bod yr ansicrwydd ynghylch **dyfodol** yr ysgol gynradd a "sôn am gau" wedi cael "effaith niweidiol ar niferoedd y disgyblion" yn yr ysgol gynradd dros y 6 blynedd a aeth heibio.

5.7 Dywedodd rhai ymatebwyr (17 neu 20%) y byddai cau'r ysgol gynradd yn cael effaith niweidiol ar y gymuned tra bod 21 o ymatebwyr (25%) yn pwysleisio pwysigrwydd y ganolfan gymunedol i'r gymuned. Anghytunai eraill (4 ymatebydd neu 5%) gyda phwyntiau yn yr Asesiad Effaith Cymunedol.

5.8 Roedd cysylltiadau ag eglwysi lleol yn bwysig i 3 ymatebydd (3%).

5.9 Roedd dau ymatebydd (2%) yn meddwl y "gallai cau fod yn benderfyniad cibddall" gyda golwg ar fewnlifiad pobl ddisgwyliedig a fydd " yn digwydd".

5.10 Roedd effeithiau amgylcheddol posibl cludiant ychwanegol yn bryder i un ymatebwr (1%) tra bod ymatebwr arall yn meddwl (1%) y dylid ystyried "optio allan o reolaeth yr AALl " .

5.11 Ni dderbyniwyd llythyr oddi wrth Gorff Llywodraethu Ysgol Bodorgan.

5.12 Derbyniwyd llythyr oddi wrth Gadeirydd Canolfan Gymunedol Bodorgan i gofrestru eu "gwrthwynebiad llwyr i gau arfaethedig" Ysgol Gynradd Bodorgan. Mynegodd y Cyngor Cymuned y byddai Cyngor Sir Ynys Môn " yn gyfrifol am ddinistrio cymuned". Codwyd mater "materion

cyfreithiol heb eu datrys mewn perthynas â Chanolfan Gymunedol Bodorgan" mewn llythyr. Mae copi o'r llythyr o Gyngor Cymunedol Bodorgan wedi ei gynnwys yn Atodiad 1.

5.13 Derbyniwyd llythyr oddi wrth Gadeirydd Cyngor Cymuned Bodorgan "yn unfrydol yn gwrthwynebu i gynlluniau i gau'r ysgol leol". Nid oedd y Cyngor Cymuned yn gweld y byddai hyn yn "llawer o arbedion ariannol". Mae copi o'r llythyr o Ganolfan Gymunedol Bodorgan wedi ei gynnwys yn Atodiad 2.

5.14 Nid oedd cwmni Malltraeth Ymlaen yn gefnogol o "gau arfaethedig y cyfleuster cymunedol amhrisiadwy hwn (h.y. Canolfan Gymunedol Bodorgan)" gan ei ddisgrifio fel "cam yn ôl ". Codwyd mater "materion cyfreithiol heb eu datrys mewn perthynas â Chanolfan Gymunedol Bodorgan" hefyd yn y llythyr. Cynhwysir copi o lythyr cwmni Malltraeth Ymlaen yn Atodiad 3.

## 6. YMATEBION O YSGOL BRYNSIENCYN

6.1 Derbyniwyd cyfanrif o 105 o ymatebion gan gydranddalwyr yr – 22 neu 21% ohonynt oddi wrth rieni ac roedd 28 neu 27% oddi wrth ddisgyblion yn yr ysgol. Cyflwynwyd y rhan fwyaf o'r ymatebion hyn (99 neu 94%) drwy'r ffurflen adborth.

6.2 Datganodd yn union dros dri chwarter yr ymatebwyr (81 neu 77%) pa opsiwn yr oeddent yn ei gefnogi. Roeddent wedi eu rhannu fel a ganlyn:

| Opsiwn | Cyfluniad | Nifer yr ymatebwyr o blaid | % yr ymatebwyr yn cefnogi |
|---|---|---|---|
| A1 | Ysgol newydd i Fodorgan, Brynsiencyn, Niwbwrch, Dwyran<br>Ymestyn Parc y Bont (dan Reolaeth Wirfoddol) i ymgorffori Llangaffo | 26 | 25% |
| A2 | Ysgol newydd i Fodorgan, Niwbwrch, Dwyran<br>Ymestyn Parc y Bont (dan Reolaeth Wirfoddol) i ymgorffori Llangaffo<br>Ffedereiddio Brynsiencyn | 3 | 3% |
| B1 | Ysgol newydd i Fodorgan, Niwbwrch, Dwyran, Llangaffo<br>Ymestyn Parc y Bont (dan Reolaeth Wirfoddol) i ymgorffori Brynsiencyn | 1 | 1% |
| B2 | Ysgol newydd i Fodorgan, Niwbwrch, Dwyran, Llangaffo<br>Parc y Bont (dan Reolaeth Wirfoddol)<br>Ffedereiddio Brynsiencyn | 6 | 6% |
| B3 | Ysgol newydd i Fodorgan, Niwbwrch, Dwyran, Llangaffo (dan Reolaeth Wirfoddol)<br>Ymestyn Parc y Bont i ymgorffori Brynsiencyn | 2 | 2% |
| B4 | Ysgol newydd i Fodorgan, Niwbwrch, Dwyran, Llangaffo (ân Reolaeth Wirfoddol)<br>Parc y Bont<br>Ffedereiddio Brynsiencyn | 46 | 44% |

Roedd rhai o'r rhai a oedd yn cefnogi opsiwn a oedd yn cynnwys ffedereiddio Ysgol Brynsiencyn yn datgan manteision canfyddadwy gwneud hynny sef rhannu pennaeth, cael un corff llywodraethu a rhannu adnoddau.

6.3 Roedd ar y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (76 neu 72%) eisiau cadw'r ysgol gynradd ym Mrynsiencyn ac roedd 21 neu 20% yn meddwl bod digon o le ar y safle i ymestyn yr ysgol gynradd bresennol.

6.4 Crybwyllodd llawer o ymatebwyr (20 o gydranddalwyr neu 19%) y gallent **gerdded** i'r ysgol gyda'u plant yn y boreau a mynd i'w cyfarfod yn yr ysgol yn y prynhawn, ar ddiwedd y diwrnod ysgol tra mynegodd eraill nad oedd ganddynt gar. Roedd gan dros hanner (59 o ymatebwyr neu 56%) bryderon ynghylch disgyblion yn teithio i unrhyw ysgol newydd arfaethedig yn arbennig os nad oeddent yn cael eu hebrwng. Dadleuodd dau ymatebwr y byddai cludo'r plant i'r ysgol mewn lleoliad y tu allan i'r pentref yn cynyddu'r ôl troed carbon.

6.5 Cyfeiriodd 6 ymatebydd (6%) at y ffaith bod gan Ysgol Brynsiencyn ganran uchel o siaradwyr **Cymraeg** (72%). Dywedasant "y dylai aros fel hynny".

6.6 Dim ond 2 ymatebwr (2%) a ddywedodd unrhyw beth mewn perthynas â statws Ysgol Brynsiencyn drwy ddatgan nad oeddent "yn gwrthwynebu i ysgol Eglwysig fod ym Mrynsiencyn".

6.7 Dywedodd 2 ymatebydd arall (2%) bod y cyfleuster meithrin yn Ysgol Brynsiencyn yn rhoi "cyfle" i'r plant "ddod yn gyfarwydd ag amgylchedd yr ysgol". Bu iddynt grybwyll hyn fel rheswm i gadw Ysgol Brynsiencyn yn agored.

6.8 Roedd dau ymatebwr yn meddwl y dylai Ysgol Brynsiencyn gael ei hatgyweirio i "safonau Ysgol yr 21ain Ganrif" tra dywedodd un arall y dylai'r ysgol gael ei "hatgyweirio".

6.9 Roedd pob un o'r ffactorau a ganlyn y cyfeiriwyd atynt gan ymatebwr unigol yn " rhesymau i gadw Ysgol Brynsiencyn yn agored":

- Defnydd cymunedol ac allgyrsiol o'r ysgol
- **Maint dosbarthiadau** mewn unrhyw ysgol newydd (2 ymatebwr neu 1%).

6.10 Pwyntiau eraill a grybwyllwyd gan un ymatebwr oedd:

- Roedd cost y pen yn anfanteisiol i " ysgolion gwledig".
- "Cadw pob ysgol yn agored".
- Pryder ynghylch "beth a fydd yn digwydd i'r staff".
- Pryderon y gall gwisgoedd ysgol "gostio mwy".
- Pryderon y bydd "cost cinio yn ddrutach".
- Gallai fod "mwy o siawns o fwlio".
- Pryder mewn perthynas â'r effaith bosibl y byddai teithio i ysgol newydd yn ei gael ar ddisgyblion gydag anghenion addysgol arbennig e.e. datganiad.

6.11 Un cynnig a roddwyd ymlaen gan ymatebydd unigol oedd ar gyfer :

- "Uno Ysgol Dwyran ac Ysgol Brynsiencyn ym Mrynsiencyn"
- "Uno Ysgol Bodorgan a Ysgol Niwbwrch yn Niwbwrch

6.12 Cynhwysir copi o'r llythyr gan y Corff Llywodraethu yn Atodiad 4.

6.13 Derbyniwyd lythyrgan "Grŵp Gweithredu Achub Ysgol Brynsiencyn".

6.14 Cynhwysir copi o'r llythyr o Gyngor Cymuned Llanidan yn Atodiad 5.

## 7. YMATEB O YSGOL DWYRAN

7.1 Derbyniwyd dau ymateb gan gydranddalwyr Ysgol Dwyran. Derbyniwyd y cyntaf gan riant. Cefnogodd opsiwn 2 ysgol ond roedd yn pryderu ynghylch cludiant a'r hyn a fyddai'n digwydd i blentyn a oedd yn sâl yn ystod y diwrnod ysgol tra efallai na allai ei r(h)ieni gasglu'r plentyn o'r ysgol.

7.2 Roedd yr ail ymateb gan gydranddaliwr arall a oedd yn cefnogi opsiwn A1 ac yn meddwl y dylai'r ysgol gynradd newydd fod mewn "lleoliad canolog". Nid oedd y cydranddaliwr yn gweld y byddai'r pellter i'r ysgol newydd arfaethedig "yn peri anawsterau" gan y crybwyllai'r cydranddaliwr enghreifftiau o blant 4-11 oed yn teithio ar fysys i'r ysgolion cynradd lleol.

7.3 Ni dderbyniwyd llythyr gan Gorff Llywodraethu Bro Rhosyr, y Corff Llywodraethu ar gyfer ysgolion Niwbwrch a Dwyran.

## 8. YMATEB O YSGOL NIWBWRCH

8.1 Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb oddi wrth gydranddalwyr Ysgol Niwbwrch yn cynnwys Corff Llywodraethu Bro Rhosyr sef y Corff Llywodraethu ar gyfer ysgolion Niwbwrch a Dwyran.

## 9. YMATEBION O YSGOL LLANGAFFO

9.1 Derbyniwyd cyfanswm o 19 o ymatebion gan gydranddalwyr ysgolion.

9.2 O'r holl ymatebwyr, mynegodd 6 (32%) na fyddent yn mynd â'u plant i ysgol gynradd newydd arfaethedig yn Niwbwrch.

9.3 Roedd eraill (5 ymatebwr neu 29%) yn teimlo bod "ystadegau a manylion presennol" Ysgol Llangaffo yn gadarnhaol ac nad oeddent yn cytuno gyda chau'r ysgol hon.

9.4 Roedd llawer o'r ymatebwyr (15 neu 79%) yn teimlo y dylai "ysgol Eglwysig" gael ei chadw beth bynnag a fyddai deilliant yr ymgynghori.

9.5 Mynegodd staff Ysgol Llangaffo bod "y ffordd o Langaffo i Ysgol Parc y Bont yn ffordd gul a bod ganddynt bryderon diogelwch mewn perthynas â hyn. Nid oeddent yn meddwl ychwaith y byddai rhieni'n teithio ymaith oddi wrth yr A5 i fynd â'u plant i'r ysgol ond byddent yn mynd â'u plant i'r ysgol "gerllaw'r A5". Cytunai dau riant â'r syniadau hyn. Cynhwysir copi o'r llythyr gan staff yn Atodiad 6.

9.6 Dywedodd 10 ymatebwr (53%) na fyddent yn barod i'w plant deithio ar fws i'r ysgol.

9.7 Pryder i 2 ymatebwr (11%) oedd effaith unrhyw ad-drefnu ysgolion cynradd ar ddalgylchoedd ysgolion uwchradd. Dywedodd un ymatebwr y gallai hynny olygu siblingiaid yn mynychu gwahanol ysgolion uwchradd.

9.8 Mynegodd 1 rhiant (5%) eu bod "wedi dewis Ysgol Llangaffo" gan ei bod yn "ysgol lle siaredid yr iaith Gymraeg yn naturiol gan y plant a'u rhieni".

9.9 Roedd rhiant arall yn meddwl y dylai ysgolion Dwyran, Niwbwrch a Bodorgan gael eu cyfuno a Llanddaniel a Brynsiencyn gael eu "rhoi efo'i gilydd" ac y dylid "gadael llonydd" i Langaffo.

9.10 Nododd un rhiant lawer o bryderon ynglŷn â'r hyn a fyddai'n digwydd i glybiau brecwast ac ar ôl ysgol, amseroedd unrhyw gludiant i ysgol newydd bosibl a'r "ffyrdd cefn peryglus" yn y cyffiniau.

9.11 Ar 30 Gorffennaf, 2015, derbyniodd y Gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes ddeiseb gan rieni disgyblion sydd yn Ysgol Llangaffo yn cynnwys 764 llofnod. Roedd y llofnodwyr " yn erbyn cau Ysgol Llangaffo a'r uno arfaethedig gydag unrhyw ysgolion cynradd eraill yn Ymgyngoriad Ysgol Bro Rhosyr". Aeth y ddeiseb yn ei blaen: "Credwn … y dylai'r Cyngor ddarparu cyllid i atgyweirio'r ysgol gan ganiatáu iddi aros yn agored a pharhau i gynnig addysg a dyfodol ardderchog i'n plant".

9.12 Mae copi o'r llythyr gan y Corff Llywodraethu wedi ei gynnwys yn Atodiad 7.

## 10. YMATEBION O YSGOL PARC Y BONT

10.1 Derbyniwyd cyfanswm o 32 o ymatebion gan yr ysgol ac roedd 21 (66%) o'r ymatebwyr yn rhieni.

10.2 Byddai tri chwarter o'r ymatebwyr (24 neu 75%) yn ffafrio Opsiwn A1 yn y ddogfen ymgynghori statudol (gweler y tabl isod) sef ymestyn Ysgol Parc y Bont i ymgorffori Ysgol Llangaffo. Datganodd 81 neu 77% o'r ymatebwyr pa opsiwn roeddent yn ei gefnogi fel a ganlyn:

| Opsiwn | Cyfluniad | Nifer yr ymatebwyr a oedd yn cefnogi | % yr ymatebwyr a oedd yn cefnogi |
|---|---|---|---|
| A1 | Ysgol newydd i Fodorgan, Brynsiencyn, Niwbwrch, Dwyran<br>Ymestyn Parc y Bont (Rh W) i ymgorfforiLlangaffo | 24 | 75% |
| A2 | Ysgol newydd i Fodorgan, Niwbwrch, Dwyran<br>Ymestyn Parc y Bont (dan RW) i ymgorffori Llangaffo<br>Ffedereiddio Brynsiencyn | 3 | 9% |
| B1 | Ysgol newydd i Fodorgan, Niwbwrch, Dwyran, Llangaffo<br>Ymestyn Parc y Bont (dan RW) i ymgorffori Brynsiencyn | 1 | 3% |
| B2 | Ysgol newydd i Fodorgan, Niwbwrch, Dwyran, Llangaffo<br>Parc y Bont (dan RW)<br>Ffedereiddio Brynsiencyn | 2 | 6% |
| B3 | Ysgol newydd i Fodorgan, Niwbwrch, Dwyran, Llangaffo (dan RW)<br>Ymestyn Parc y Bont i ymgorffori Brynsiencyn | 0 | 0% |
| B4 | Ysgol newydd i Fodorgan, Niwbwrch, Dwyran, Llangaffo (dan RW)<br>Parc y Bont<br>Ffedereiddio Brynsiencyn | 1 | 3% |

10.3 Mynegodd chwarter yr ymatebwyr (25%) yn glir nad oedd arnynt eisiau i Ysgol Parc y Bont fod yn rhan o ffederasiwn o ysgolion gan eu bod yn teimlo bod "pob ysgol yn elwa o fod â Phennaeth ar y safle sydd hefyd yn addysgu'r plant, ac sydd yn bresennol ar gyfer rhedeg yr ysgol o ddydd i ddydd". Ni allent weld sut y mae "ffedereiddio'n mynd i'r afael â materion sylfaenol torri'r cysylltiad rhwng amddifadedd a chyflawniad addysg isel, gan ddarparu arbedion cyfredol a chostau oherwydd bod yr ysgolion ar ddau safle. Mae ffedereiddio'n ymddangos i mi fel status quo ar gyfer popeth yn hytrach na gwelliant i bawb".

10.4 Roedd yn union dros hanner yr ymatebwyr (17 neu 53%) yn meddwl bod Ysgol Parc y Bont yn parhau fel ag y mae yn ei lleoliad presennol gan ei fod yn adeilad cymharol newydd neu'n cael ei ymestyn i ymgorffori Ysgol Llangaffo gan ei bod yn ysgol dan RW yr Eglwys yng Nghymru . Beth bynnag fydd deilliant yr ymgynghoriad hwn, roedd 6 ymatebydd (19%) yn awyddus i Ysgol Parc y Bont barhau i "wneud yn dda". Roedd un ymatebwr yn meddwl (3%) y dylid gadael llonydd i Ysgol Llangaffo ar ei phen ei hun.

10.5 Pe bai Opsiwn A yn cael ei wireddu, pwysleisiodd 3 ymatebwr (9%) "i'r ffyrdd gorau a diogelaf gael eu defnyddio i symud plant" i ysgol arall.

10.6 Ffactor pwysig i 21 o ymatebwyr (66%) oedd bod yr ysgol yn parhau i fod yn "ysgol eglwysig".

10.7 Roedd un ymatebwr yn meddwl ei "bod yn bwysig iawn bod yr awdurdod lleol yn sicrhau na chaniateir i blant ond mynd i ysgolion yn eu dalgylch eu hunain" [1]. Nododd yr un ymatebwr bod Ysgol Parc y Bont ac Ysgol Llangaffo mewn dalgylchoedd ysgolion uwchradd gwahanol (Ysgol David Hughes ac Ysgol Gyfun Llangefni yn eu trefn)" ond "ni chredai y dylai hynny newid" ac nid oedd ychwaith yn "credu y dylai fod yn rhwystr i uno'r ysgolion".

10.8 Rhoddodd dau ymatebydd (6%) awgrymiadau ynghylch y modd y gallai'r lle o fewn yr ysgol gael ei ddefnyddio'n well a chyflwynodd awgrymiadau i wella sefyllfa'r drafnidiaeth o fewn terfynau'r ysgol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol.

10.9 Ni allai dau o'r ymatebwyr (6%) ddeall pam y rhoddwyd ymlaen yr opsiwn o ffedereiddio Ysgol Brynsiencyn a pham yr oedd yr ysgol "yn cael triniaeth arbennig" o ystyried "yr ymddangosai" bod ffedereiddio ysgolion cynradd " wedi cael ei ddiystyru" yn y cam ymgynghori anstatudol.

10.10 Cynhwysir copi o lythyr y Corff Llywodraethu yn Atodiad 8.

10.11 Copi o lythyr Cyngor Cymuned Llanddaniel Fab yn Atodiad 9.

## 11. YMATEB GAN YR EGLWYS YNG NGHYMRU

11.1 Ymgynghorodd swyddogion yr Adran Dysgu Gydol Oes gydag Adran Addysg Esgobaeth Bangor cyn dechrau' r cyfnod ymgynghori statudol. Roedd hyn yn unol â'r weithdrefn a amlinellwyd yng Nghôd Trefniadaeth Ysgol 2013, rhan 3.4, paragraff 3 [tudalen 31] ac ni allai'r broses hon ddechrau tan ar ôl diwedd y cyfnod Etholiad ar 8 Mai 2015. Derbyniwyd llythyr dwyieithog gan Adran Addysg Esgobaeth Bangor drwy e-bost ar 8 Mehefin 2015. Nodwyd pum pwynt bwled yn eu llythyr. Yn nhermau opsiynau, mynegodd Cyfarwyddwr Addysg yr Eglwys yng Nghymru bod yr Eglwys

[1] Mae'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn caniatau i rieni dewis pa ysgol fydd eu plentyn yn ei fynychu.

yng Nghymru'n "gallu gweld manteision ac anfanteision ar gyfer darparu ysgol eglwysig yn opsiynau A a B, a'i bod yn awyddus i glywed llais cymuned ysgol Ysgol Llangaffo. Mae wedi bod y fwyaf cefnogol o ddarpariaeth Ysgol Eglwysig, a gallai ei llais yn wir fod yn hyn sy'n ffurfio barn yr Esgobaeth. Mae'r Esgobaeth yn gofyn i'r Awdurdod Lleol ystyried yn ofalus y ffordd orau i gasglu gwybodaeth gan y grŵp hwn, a byddai'n hoffi cynorthwyo i wneud hyn."

Yn ei lythyr, dywedodd yr Esgobaeth: "Pe bai cynnig yn dod ymlaen a fyddai'n lleoli'r ddarpariaeth ysgol Eglwysig yn Ysgol Parc y Bont, a hefyd yn ceisio integreiddio Ysgol Brynsiencyn, byddai'r Esgobaeth yn annhebygol iawn o ystyried ffederasiwn statudol o'r ysgolion. Byddai'r Esgobaeth yn ystyried Ymddiriedolaeth Gydweithio Leol (YGL / LCT --- lle, yn ei hanfod, y byddai'r ddau gorff llywodraethu yn sefydlu ymddiriedolaeth i fod yn gyfrifol am redeg yr ysgolion) neu greu un ysgol yn gweithio dros ddau safle."

Cafwyd trafodaeth pellach gydag Esgobaeth Bangor a dywedodd yr Esgobaeth:
2. "Byddai Esgobaeth Bangor yn dewis opsiwn B4a, fel y disgrifir yn paragragh 18.3, sef statws ysgol Eglwysig dan reolaeth wirfoddol fydd yn cael ei ffurfio o gau'r ysgolion yn Llangaffo, Dwyran, Niwbwrch a Bodorgan.

2i. Mae'r Esgobaeth yn gwerthfawrogi wrth symud i 2 ysgol gynradd o 5 (ac eithrio Brynsiencyn), nid yw'n bosibl i'r ddwy ysgol 'newydd' i fod yn ysgolion eglwys, gan fod gennych chi (yr Awdurdod Lleol) gyfrifoldeb i gadw cydbwysedd o ddarpariaeth 'gymunedol' a darpariaeth gynradd ysgolion Eglwysig. Felly mae'n rhaid gwneud penderfyniad.

2ii. Cyn yr ymgynghoriad, dywedodd yr Esgobaeth (paragraff 11.1) ei bod yn awyddus i glywed llais cymuned Ysgol Llangaffo, oherwydd ei fod yn gefnogol iawn i'r ddarpariaeth ysgolion Eglwys. Nid yw'r adroddiad hwn yn dangos unrhyw consenswს o farn cymuned Ysgol Llangaffo, ac eithrio y ddeiseb yn erbyn cau'r ysgol. Nid yw cadw Ysgol Llangaffo ar agor ar gael fel opsiwn yn yr ymgynghoriad.

2iii. Yr ysgol fydd yn olynydd i Ysgol Llangaffo fydd yr ysgol newydd fydd yn cael ei ffurfio o gau'r ysgolion yn Llangaffo, Dwyran, Niwbwrch a Bodorgan. Mae hyn yn golygu y bydd yn ofynnol, yn ôl y gyfraith, i asedau o werthu safle Ysgol Llangaffo fynd tuag at gostau'r ysgol newydd, ac ni fyddai felly os yw'r ysgol sy'n olynydd i Ysgol Llangaffo yn ysgol 'gymunedol'.

Os bydd y opsiwn 2 yn digwydd, byddai'r Esgobaeth yn drist na fyddai Ysgol Parc y Bont bellach yn ysgol yr Eglwys yng Nghymru, a byddai'n flin i golli ei darpariaeth a'i chysylltiad yno."

Cynhwysir copi o'r llythyr cyntaf gan Adran Addysg yr Esgobaeth yn Atodiad 10.

## 12. YMATEBION ERAILL

12.1 Ymgynghorodd swyddogion yr Adran Dysgu Gydol Oes hefyd gyda nifer o gydranddalwyr eraill yn cynnwys undebau llafur a chafwyd ateb gan *Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru* neu UCAC. Mynegodd llefarydd ar ran yr undeb: "Mae UCAC yn falch bod yr Awdurdod wedi cynnwys cyfres o gyfarfodydd … ar gyfer staff, llywodraethwyr a rhieni' r chwe ysgol dan sylw ". Mynegodd yr undeb hefyd ei fod yn "falch gweld mwy nag un opsiwn yn cael eu cyflwyno o fewn y ddogfen". Nid oedd UCAC mewn sefyllfa i gefnogi unrhyw "opsiwn penodol". Cynhwysir copi o'r e-bost o UCAC yn Atodiad 11.

12.2 Ymgynghorodd yr Awdurdod hefyd gydag Estyn a derbyniwyd adborth : "Oherwydd y nifer uchel

o opsiynau posibl a awgrymwyd o fewn y ddogfen ymgynghori a diffyg gwybodaeth ar y manteision disgwyliedig , yn nhermau darpariaeth addysgol, nid yw Estyn yn gallu dod i ganlyniad ar effaith y cynigion ar safonau darpariaeth addysgol yn yr ardal". Cynhwysir copi o ymateb Estyn yn Atodiad 12.

## 13. HOLIADURON RHIENI

13.1 Yn dilyn ymgynghoriad anstatudol, anfonwyd holiadur i rieni yn gofyn pa ffactorau a oedd yn bwysig wrth wneud penderfyniad ynghylch pa ysgol y mae eu plentyn yn ei mynychu. Gofynnwyd i rieni restru'r ffactorau pwysig iddynt hwy pan oeddent yn dewis ysgol ar gyfer eu plentyn.

Roedd y ffactorau a ganlyn yn bwysig i rieni ar draws y 6 ysgol:

- Mae'r ysgol yn cael ei harwain a'i rheoli'n dda
- Mae enw da'r ysgol yn y gymuned yn bwysig i rieni ar draws y 6 ysgol

Y ffactor a ganlyn yw'r lleiaf pwysig i rieni mewn 4 o'r ysgolion.

- Mae arnoch eisiau i'ch plentyn fynychu ysgol fawr (> 90) a
- Statws yr ysgol h.y. a yw'n 'ysgol eglwysig', oedd y pumed peth pwysicaf i rieni disgyblion yn Ysgol Llangaffo tra roedd yn nawfed ffactor pwysicaf i rieni Parc y Bont.

13.2 Anfonwyd holiadur i ddarpar-rieni iddynt roi gwybod i'r awdurdod pa ffactorau a oedd yn bwysig iddynt mewn penderfynu pa ysgol y mae eu plentyn yn ei fynychu. Gellir gweld y manylion yn yr adroddiad ar y broses ymgynghori anstatudol.

13.3 Ar wahân i'r holiaduron uchod, gofynnodd swyddogion priffyrdd i rieni am eu rhesymau dros ddewis yr ysgol y mae eu plentyn neu eu plant yn ei mynychu. Datgelodd y ffigurau bod 'lleol' yn bwysig i'r mwyafrif llethol o rieni ym Mrynsiencyn, Bodorgan, Dwyran a Niwbwrch ond nid oedd mor bwysig yn y ddwy ysgol arall. Yr ail a'r trydydd ffactor pwysicaf i rieni yn Ysgolion Llangaffo a Pharc y Bont oedd enw da'r ysgol a chysylltiadau gyda'r Eglwys ( yng Nghymru).

## 14. ADBORTH GAN DDISGYBLION

14.1 Cynhaliodd swyddogion o'r Gwasanaeth Ieuenctid gyfarfodydd byr gyda chynrychiolaeth o ddisgyblion o bob un o'r chwe ysgol. Dilynodd yr ymgynghoriad hwn y fformat ymgynghoriad anffurfiol a gwblhawyd ym mis Chwefror, lle'r esboniwyd y rhesymau dros y cynigion ar gyfer moderneiddio :

- Roedd yn rhy ddrud cynnal yr ysgolion presennol fel y maent ar hyn o bryd.
- Mae gan Ynys Môn ormod o leoedd gwag yn ei hysgolion ac roedd Llywodraeth Cymru'n anhapus gyda hyn.
- Roedd yn bwysig sicrhau bod pob disgybl yn cael addysg o ansawdd.
- Roedd rhai ysgolion yn hen iawn ac angen llawer o wario arnynt.

Defnyddiwyd holiadur dwyieithog wedi ei symleiddio ar gyfer yr ymgynghori, yn esbonio'r dewisiadau presennol a gynigir gan y Cyngor. Gofynnwyd i ddisgyblion am eu barn ar bob opsiwn.

Amlinellir yr ymatebion isod (cynhwysir copi o'r holiadur dwyieithog wedi ei symleiddio yn Atodiad 14).

14.2 **Roedd yr adborth gan ddisgyblion Ysgol Bodorgan ar yr opsiynau fel a ganlyn:**

**Opsiwn A2**
*Adeiladu ysgol newydd ar gyfer disgyblion Bodorgan, Dwyran a Niwbwrch (tua 137 disgybl) Disgyblion Ysgol Llangaffo yn symud i Ysgol Parc y Bont – Ysgol Eglwysig (Llanddaniel) (tua o 170 o ddisgyblion)*

Dewisodd 6 disgybl yr opsiwn hwn oherwydd mai hwn oedd yr opsiwn a roddai iddynt y dewis o fynychu ysgol lai, ond gwelai 2 hyn hefyd yn gyfle i wneud mwy o gyfeillion newydd.

**Opsiwn B1**
*Adeiladu ysgol newydd i ddisgyblion o Fodorgan, Niwbwrch, Dwyran a Llangaffo (tua 203 disgybl. Disgyblion Brynsiencyn yn symud i Ysgol Parc y Bont – Ysgol Eglwysig (tua o 161 disgybl)*

Roedd 1 disgybl yn ffafrio'r opsiwn hwn, oherwydd ei fod yn cael ei weld yn gyfle i wneud mwy o gyfeillion mewn ysgol fwy.

**Gwrthod yr Opsiynau**
Roedd 9 o'r disgyblion yn anhapus i dderbyn unrhyw rai o'r opsiynau. Roedd ar ddau eisiau cadw Ysgol Gymuned Bodorgan, ac nid oedd arnynt eisiau gweld unrhyw ysgol yn cau. Nododd un bod arno eisiau gweld ei frawd a'i chwaer iau yn aros yn Ysgol Bodorgan. Mynegodd 5 nad oeddent yn hapus i fynychu ysgol yn Niwbwrch oherwydd bod arnynt ofn cael eu bwlio, a nododd 2 bod 2 ddisgybl eisoes wedi symud o Niwbwrch i Fodorgan oherwydd bwlio. Gwrthododd 2 o'r disgyblion bob opsiwn a mynegi y byddent yn symud i Ysgol Pencarnisiog yn hytrach na mynychu unrhyw rai o'r ysgolion a gynigir yn yr opsiynau.

Er bod 7 disgybl yn fodlon derbyn un neu'r llall o'r opsiynau, mae 9 disgybl yn aros yn bendant na fyddent yn derbyn unrhyw rai o'r opsiynau arfaethedig, ac roedd 2 yn glir y byddent yn symud allan o ardal Rhosyr i Ysgol Pencarnisiog yn hytrach na derbyn unrhyw rai o'r opsiynau. Mae'r canfyddiad o fwlio yn fater mewn un ysgol /pentref arbennig (Niwbwrch) a'r ffaith bod yr holl gynigion yn golygu uno gyda'r ysgol arbennig hon yn golygu y bydd angen gwneud llawer o waith i oresgyn y rhwystr hwn, os bydd unrhyw rai o'r 9 disgybl o Ysgol Bodorgan yn mynd i dderbyn yr opsiynau arfaethedig.

14.3 **Roedd yr adborth gan ddisgyblion Ysgol Brynsiencyn ar yr opsiynau fel a ganlyn:**

**Opsiwn A1**

*Adeiladu ysgol newydd ar gyfer disgyblion Bodorgan, Brynsiencyn, Niwbwrch a Dwyran (amcangyfrif o 190 o ddisgyblion)*
*Symud disgyblion Ysgol Llangaffo i Ysgol Parc y Bont (Llanddaniel) – Ysgol Eglwysig (amcangyfrif o 170 o ddisgyblion)*

Roedd 19 o ddisgyblion yn ffafrio'r opsiwn hwn, gyda'r ysgol newydd i gael ei hadeiladu ym Mrynsiencyn, oherwydd bod gormod o dir o amgylch yr ysgol.

**Opsiwn A2**

*Ysgol newydd ar gyfer disgyblion Bodorgan, Dwyran a Niwbwrch (tua 137 disgybl)*
*Disgyblion Ysgol Llangaffo yn symud i Ysgol Parc y Bont – Ysgol Eglwysig (Llanddaniel) ( amcangyfrif o 170 o ddisgyblion)*
*Ysgol Brynsiencyn yn aros yr un fath ond wedi ei ffedereiddio (amcangyfrif o 79 o ddisgyblion)*
Roedd 1 disgybl yn ffafrio'r opsiwn hwn.

**Opsiwn B4**

*Ysgol newydd ar gyfer disgyblion Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran a Llangaffo – Ysgol Eglwysig (amcangyfrif o 203 o ddisgyblion)*
*Ysgol Parc y Bont yn aros fel y mae ar hyn o bryd (amcangyfrif o 105 o ddisgyblion)*
*Ysgol Brynsiencyn yn aros yr un fath ond wedi ei ffedereiddio (amcangyfrif o 70 )*

Dewisodd 4 disgybl yr opsiwn hwn.

**Sylwadau llafar neu sylwadau ar yr holiaduron**

Nid oedd yr un o'r disgyblion eisiau gweld Ysgol Brynsiencyn yn cau. Roedd pob opsiwn yn ail ddewis.

**A oeddent yn deall y rhesymau am y newid?**

Roeddent yn eu deall, ond nid oeddent yn cytuno â hwy.

**Sylwadau eraill**

Roedd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn rhagweld y byddent yn symud ymlaen i Ysgol David Hughes ar gyfer eu haddysg uwchradd.

Casgliad

I grynhoi, roedd y disgyblion yn gryf o'r farn nad oeddent yn dymuno gweld yr ysgol bresennol yn cau, ond os oeddent i gael eu huno gydag ysgol arall, yna eu dewis fyddai uno gyda Bodorgan, Niwbwrch a Dwyran mewn ysgol newydd wedi ei hadeiladu ym Mrynsiencyn (19). Yr ail ddewis mwyaf poblogaidd (5) oedd cadw'r ysgol bresennol a'i bod yn cael ei ffedereiddio.

14.4 **Roedd yr adborth gan ddisgyblion Ysgol Dwyran ar yr opsiynau fel a ganlyn:**

**Opsiwn A1**

*Adeiladu ysgol newydd ar gyfer disgyblion Bodorgan, Brynsiencyn, Niwbwrch a Dwyran ( amcangyfrif o 190 o ddisgyblion)*
*Disgyblion Llangaffo'n symud i Ysgol Parc y Bont (Llanddaniel) –Ysgol Eglwysig (tua 170 disgybl)*

Roedd 2 o'r disgyblion wedi dewis yr opsiwn hwn, oherwydd eu bod yn teimlo nad oedd yr ysgol yn rhy fawr, o'i chymharu â'r opsiynau arfaethedig blaenorol, a byddai'n haws gwneud ffrindiau yno. Roedd ar un eisiau mynd â'r murlun o'r Land Rover gydag ef!

**Opsiwn A2**
*Adeiladu ysgol newydd ar gyfer disgyblon Bodorgan, Dwyran a Niwbwrch (tua 137 disgybl)*
*Disgyblion Ysgol Llangaffo yn symud i Ysgol Parc y Bont – Ysgol Eglwysig (Llanddaniel) (amcangyfrif o 170 o ddisgyblion)*
*Ysgol Brynsiencyn yn aros yr un fath ond wedi ei ffedereiddio (amcangyfrif o 79 o ddisgyblion)*
Roedd 2 ddisgybl yn ffafrio'r opsiwn hwn ( gan nodi eto bod gan yr opsiwn hwn lai o ddisgyblion nag a nodwyd mewn peth o'r ymgynghoriad cyntaf).
**Opsiwn B1**
*Adeiladu ysgol newydd ar gyfer disgyblion Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran a Llangaffo (tua 203 disgybl)*
*Disgyblion Brynsiencyn yn symud i Ysgol Parc y Bont – Ysgol Eglwysig (tua 161 disgybl)*

Roedd 1 disgybl yn ffafrio'r opsiwn hwn

**Opsiwn B3**
*Adeiladu ysgol newydd ar gyfer disgyblion o Fodorgan, Niwbwrch, Dwyran a Llangaffo – Ysgol Eglwysig (amcangyfrif o 203 o ddisgyblion)*
*Disgyblion Brynsiencyn yn symud i Ysgol Parc y Bont – nid Ysgol Eglwysig (tua 161 disgybl)*

Roedd 1 o'r disgyblion yn ffafrio'r opsiwn hwn oherwydd eu bod yn hoffi'r syniad o'r ysgol newydd yn bod yn Ysgol Eglwysig.
**Sylwadau ar yr opsiynau**
Pwysleisiodd pob disgybl ei bod yn bwysig iddynt nad oedd yr ysgol newydd yn rhy fawr.
**A oeddent yn deall y rhesymau dros y newid?**
Roeddent yn deall y rhesymau dros y newid.

14.5 **Roedd yr adborth gan ddisgyblion Ysgol Niwbwrch ar yr opsiynau fel a ganlyn:**

**Opsiwn A2**
*Adeiladu ysgol newydd ar gyfer disgyblion Bodorgan, Dwyran a Niwbwrch (amcangyfrif o 137 o ddisgyblion)*
*Disgyblion Ysgol Llangaffo yn symud i Ysgol Parc y Bont – Ysgol Eglwysig (Llanddaniel) ( amcangyfrif o 170 o ddisgyblion)*
*Ysgol Brynsiencyn yn aros yr un fath ond wedi ei ffedereiddio (amcangyfrif o 79 o ddisgyblion)*
Roedd 5 disgybl yn ffafrio'r opsiwn hwn. Rhoddodd 2 eu rheswm am eu bod eisoes yn adnabod disgyblion o Fodorgan a Dwyran. Roedd ar un eisiau gweld plant Niwbwrch yn aros gyda'i gilydd yn Niwbwrch, a gwnaeth 2 y sylw bod arnynt eisiau i'w hathrawon aros gyda hwy yn yr ysgol newydd.
**Opsiwn B3**
*Adeiladu ysgol newydd ar gyfer disgyblion o Fodorgan, Niwbwrch, Dwyran a Llangaffo - Ysgol Eglwysig (amcangyfrif o 203 o ddisgyblion)*
*Disgyblion Brynsiencyn yn symud i Ysgol Parc y Bont - nid Ysgol Eglwysig (tua 161 disgybl)*

Roedd 4 disgybl yn ffafrio'r opsiwn hwn. Nododd un bod arni eisiau bod yn rhan o Ysgol Eglwysig gan ei bod yn hoffi canu. Nododd 3 bod yr opsiwn hwn yn golygu y byddai ganddynt fwy o blant y gallent wneud ffrindiau gyda hwy mewn ysgol fwy. Roedd un yn pryderu y byddai pobl yn colli eu swyddi drwy uno ysgolion.
**Opsiwn B4**
*Adeiladu ysgol newydd ar gyfer disgyblion o Fodorgan, Niwbwrch, Dwyran a Llangaffo – Ysgol Eglwysig (amcangyfrif o 203 o ddisgyblion)*

*Ysgol Parc y Bont yn aros yr un fath (amcangyfrif o 105 o ddisgyblion)*
*Ysgol Brynsiencyn yn aros yr un fath ond wedi ei ffedereiddio (Amcangyfrif o79 o ddisgyblion)*

Dewisodd 2 yr opsiwn hwn, ond mewn gwirionedd mae gan Opsiwn B3 a B4 yr un cynnig ar gyfer disgyblion Niwbwrch.

**A oeddent yn cytuno â'r rhesymau dros newid?**
Arhosodd un disgybl yn ddi-droi o'r farn nad oedd arno eisiau derbyn unrhywrai o'r opsiynau, ac nad oedd arnynt eisiau gweld unrhywrai o'r ysgolion presennol yn agos.

**Symud ymlaen i'r Ysgol Uwchradd**
Rhagwelodd disgyblion o'r ysgol hon eu hunain yn mynd i Ysgol David Hughes, Ysgol Friars ac Ysgol Gyfun Llangefni, fel eu bod yn annhebygol o symud ymlaen i Ysgol Uwchradd gyda'i gilydd.

I grynhoi – roedd ar 5 o ddisgyblion eisiau gweld ysgol newydd i ddisgyblion Bodorgan, Niwbwrch a Dwyran; ac roedd ar 5 eisiau gweld disgyblion o Fodorgan, Niwbwrch, Dwyran a Llangaffo yn mynychu ysgol newydd. Arhosai un yn gadarn o'r farn nad oedd arno eisiau gweld cau unrhyw ysgolion a gwrthododd bob un o'r 6 opsiwn.

14.6 **Roedd yr adborth gan ddisgyblion Ysgol Llangaffo ar yr opsiynau fel a ganlyn:**
**Opsiwn A1**
*Adeiladu ysgol newydd ar gyfer disgyblion Bodorgan, Brynsiencyn, Niwbwrch a Dwyran (amcangyfrif o 190 o ddisgyblion)*
*Disgyblion Llangaffo yn symud i Ysgol Parc y Bont (Llanddaniel) – Ysgol Eglwysig (amcangyfrif o 170 o ddisgyblion)*

Dewisodd 10 o'r disgyblion yr opsiwn hwn, h.y. uno Llangaffo ac Ysgol Parc y Bont. Nododd 2 mai'r rheswm dros hynny oedd bod y ddwy yn Ysgolion Eglwysig, ac o'r rheini nododd un y byddai cyfle i wneud mwy o ffrindiau mewn ysgol fwy. Nododd 3 na fyddent yn mynd i ysgol gyda 'bwlis Niwbwrch'. Er bod 2 arall wedi dewis yr opsiwn hwn, roedd un yn bryderus am y daith bws, a nododd un ei fod yn torri traddodiad teuluol pe bai'r ysgol yn cau, ac na fyddai unrhyw bobl ifanc yn symud i Langaffo, ac y byddai calon y pentref yn mynd pe bai'r ysgol yn cau.

**Opsiwn A2**

*Adeiladu ysgol newydd ar gyfer disgyblion Bodorgan, Dwyran a Niwbwrch (amcangyfrif o 137 o ddisgyblion)*
*Disgyblion Ysgol Llangaffo yn symud i Ysgol Parc y Bont – Ysgol Eglwysig (Llanddaniel) (amcangyfrif o 170 o ddisgyblion)*
*Ysgol Brynsiencyn yn aros yr un fath ond wedi ei ffedereiddio (amcangyfrif o 79 o ddisgyblion)*
Roedd 7 disgybl yn ffafrio'r opsiwn hwn (er mewn gwirionedd mae'r un opsiwn â 12 1, hynny yw uno gyda Pharc y Bont. Nododd 3 eto ei bod yn bwysig aros mewn Ysgol Eglwysig, a gwelai 2 hynny'n gyfle i wneud mwy o ffrindiau. Nododd 4 na fyddent yn bendant yn mynd i ysgol yn Niwbwrch oherwydd bod arnynt ofn bwlio. Nododd un plentyn bod Llanddaniel yn ysgol 'aeddfed'. Roeddent yn dal i apelio i gadw Ysgol Llangaffo ar agor.
**Opsiwn A1**
*Adeiladu ysgol newydd ar gyfer disgyblion o Fodorgan, Niwbwrch, Dwyran a Llangaffo (amcangyfrif o 203 o ddisgyblion)*
*Disgyblion Brynsiencyn yn symud i Ysgol Parc y Bont – Ysgol Eglwysig (tua 161 disgybl)*

Roedd 1 disgybl yn ffafrio'r opsiwn hwn, gyda 2 yn nodi ei fod yn gyfle i wneud ffrindiau newydd, ond nododd un hefyd mi'r opsiwn a ffafrir byddai cadw Ysgol Llangaffo yn agored.

**Opsiwn A3**

*Adeiladu ysgol newydd i ddisgyblion o Fodorgan, Niwbwrch, Dwyran a Llangaffo – Ysgol Eglwysig (amcangyfrif o 203 o ddisgyblion)*

*Disgyblion Brynsiencyn yn symud i Ysgol Parc y Bont – nid yn Ysgol Eglwysig (amcangyfrif o 161 o ddisgyblion)*

Roedd 1 o'r disgyblion yn ffafrio'r opsiwn hwn. Nododd un ei fod yn gyfle i wneud mwy o ffrindiau a nododd un bod ganddo ffrindiau yn Niwbwrch eisoes. Nododd dau arall eu bod yn ffafrio Niwbwrch oherwydd eu bod yn byw yn Niwbwrch, ac felly y byddai'n well ganddynt fynychu ysgol yn Niwbwrch oherwydd ei lleoliad.

**Opsiwn B4**

*Adeiladu ysgol newydd i ddisgyblion Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran a Llangaffo (tua 203)*

*Parc y Bont yn aros yr un fath (amcangyfrif o 105 o ddisgyblion)*

*Ysgol Brynsiencyn yn aros yr un fath ond yn dod yn ysgol ffederal (70 o ddisgyblion)*

Roedd 2 o'r disgyblion yn ffafrio'r opsiwn hwn, gydag un yn nodi ei fod yn gobeithio na fyddai bwlio mewn ysgol newydd.

I grynhoi, cytunai'r disgyblion yn unfrydol mai'r hyn a fyddai orau ganddynt fyddai cadw Ysgol Llangaffo yn agored. O'r opsiynau a oedd ar gael i ddisgyblion o Ysgol Llangaffo, mewn gwirionedd dim ond 2 opsiwn a drafodwyd ganddynt. O'r rheini roedd 17 yn ffafrio uno gydag Ysgol Parc y Bont, ac o'r rheini datganodd llawer na fyddent yn bendant yn symud i ysgol yn Niwbwrch. Roedd 9 yn ffafrio'r opsiwn o ysgol newydd ar gyfer Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran a Llangaffo, ac o'r rhain roedd llawer yn hapus i'r lleoliad fod yn Niwbwrch, gan y byddai'n fwy cyfleus iddynt.

14.7 **Roedd yr adborth gan ddisgyblion Ysgol Parc y Bont ar yr opsiynau fel a ganlyn:**

**Opsiynau a ddewiswyd:**

**Opsiwn B1**

*Adeiladu ysgol newydd ar gyfer disgyblion o Fodorgan, Niwbwrch, Dwyran a Llangaffo (amcangyfrif o 203 o ddisgyblion)*

*Disgyblion Brynsiencyn yn symud i Ysgol Parc y Bont – Ysgol Eglwysig (tua 161 disgybl)*

Roedd 2 ddisgybl yn ffafrio'r opsiwn hwn, oherwydd ei fod yn cael ei weld yn gyfle i wneud mwy o ffrindiau mewn ysgol fwy. Rhoddodd un ei rhesymau fel caniatáu iddi barhau i fynychu Ysgol Eglwysig, gan ei bod yn hoffi'r gwasanaeth, ac roedd yn ysgol ardderchog, gyda'r athrawon yn eu haddysgu'n dda. Nododd yr ail ddisgybl hefyd bwysigrwydd aros mewn Ysgol Eglwysig, ond y byddai uno ag Ysgol Brynsiencyn yn rhoi cyfle i wneud mwy o ffrindiau, a dysgu mwy.

**Opsiwn B2**

*Adeiladu ysgol newydd ar gyfer disgyblion o Fodorgan, Niwbwrch, Dwyran a Llangaffo (amcangyfrif o 203 o ddisgyblion)*

*Parc y Bont yn aros yr un â'r presennol ac yn aros yn Ysgol Eglwysig (tua 105 disgybl)*

*Brynsiencyn yn aros yr un fath ond yn cael ei ffedereiddio*

Dewisodd 6 o'r disgyblion yr opsiwn hwn , oherwydd ei fod yn golygu dim newid ar gyfer yr ysgol hon. Rhoddodd 3 eu rhesymau sef ei bod yn bwysig iddynt aros yn Ysgol Eglwysig, a nododd 2

bod hon yn ysgol ardderchog, ac felly nid oedd arnynt eisiau gweld unrhyw newidiadau.

I grynhoi, gwelai pob un o'r 8 disgybl y buom yn ymgynghori â hwy aros yn Ysgol Eglwysig yn rhywbeth pwysig iawn. Dewisodd 2 opsiwn 2 oherwydd ei fod yn golygu bod Ysgol Parc y Bont yn aros ar y safle presennol, ond y gallai disgyblion Brynsiencyn uno â hwy. Nododd pob disgybl bod hon yn ysgol dda ac ni allent weld unrhyw resymau dilys dros wneud newidiadau.

Amlygodd yr ymatebion y materion a ganlyn:

14.8 Mae cefnogaeth yn uchel ym Mrynsiencyn i adeiladu ysgol newydd ar gyfer Bodorgan, Brynsiencyn, Niwbwrch a Dwyran, ond dim ond os bydd yr ysgol ym Mrynsiencyn. Ni cheir llawer o gefnogaeth i ffedereiddio gydag ysgol sydd ohoni.
Roedd disgyblion o Ysgol Parc y Bont, yn ffafrio'r opsiwn o aros fel yr ydym, neu o dderbyn disgyblion o Ysgol Brynsiencyn i'r ysgol. Fodd bynnag, o'r opsiynau a gynigir, ceir 17 o blant o Ysgol Llangaffo a oedd yn ffafrio'r opsiwn o uno gydag Ysgol Parc y Bont, ond a oedd yn awyddus i'r ysgol aros yn Ysgol Eglwysig.
Mae'n glir nad yw nifer uchel o blant ysgol sy'n mynychu Ysgol Llangaffo yn barod i ystyried mynd i ysgol yn Niwbwrch.
Mae'n annhebygol y bydd niferoedd uchel o blant sy'n mynychu Ysgol Bodorgan yn barod i fynychu ysgol y mae disgyblion o Niwbwrch yn ei mynychu. Nodai rhai y byddent yn mynychu ysgolion y tu allan i dalgylch Rhosyr os mai dyma'r unig opsiwn a gynigir iddynt.
Mae rhai wedi symud eisoes o Ysgol Aberffraw, ac maent yn anhapus iawn i gael eu symud eto.

14.9 Gan fod llawer o opsiynau a'u bod yn weddol gymhleth, defnyddiodd staff gwasanaeth Ieuenctid CSYM holiadur sydd wedi ei symleiddio (Atodiad 13) a oedd yn effeithio ar yr ysgol arbennig honno mewn coch, ac adnabod opsiynau a oedd yn cynnig Ysgol Eglwysig mewn gwyrdd ar gyfer pob ysgol.
Dewisodd rhai ysgolion i'r Cyngor Ysgol gynrychioli'r ysgol tra gofynnai eraill i swyddogion ymgynghori â dosbarth. Mae hyn yn esbonio'r gwahaniaeth yn y niferoedd yr ymgynghorwyd â hwy yn y tabl isod.

| | Rhif yr opsiwn | | | | | | Nifer a wrthododd yr opsiwn | Nifer y disgyblion |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 (A1) | 2 (A2) | 3 (B1) | 4 (B2) | 5 (B3) | 6 (B4) | | |
| Ysgol Brynsiencyn | 19 | 1 | 0 | 0 | 0 | 4 | 0 | 24 |
| Ysgol Dwyran (dewisodd 1 disgybl 3 opsiwn) | 2 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 4 |
| Ysgol Niwbwrch (dewisodd 1 disgybl 2 opsiwn) | 0 | 5 | 0 | 0 | 4 | 2 | 1 | 11 |
| Ysgol Bodorgan | 0 | 6 | 1 | 0 | 0 | 0 | 9 | 16 |
| Ysgol Parc y Bont | 0 | 0 | 2 | 6 | 0 | 0 | 0 | 8 |
| Ysgol Llangaffo | 10 | 7 | 3 | 0 | 4 | 2 | 0 | 26 |

## 15. AROLYGON TRAFNIDIAETH

15.1 Yn ystod y cyfnod Ymgynghori Anffurfiol Tachwedd 17 – Rhagfyr 21 2014, lleisiodd rhieni eu pryderon ynghylch materion diogelwch trafnidiaeth y tu allan i rai o'r ysgolion o dan ystyriaeth. Penderfynwyd y dylai swyddog o adran Briffyrdd y Cyngor gwblhau arolwg trafnidiaeth ym mhob un o'r 6 ysgol dan sylw yn ystod mis Ionawr 2015 (cofnodwyd sut dywydd oedd hi). Roedd yr arolwg yn cynnwys dwy ran:
Yn y rhan gyntaf, cofnododd y Swyddog Priffyrdd nifer y plant a gyrhaeddodd ar droed ac mewn car – yn ystod gollwng yn y bore ac amserau casglu'r prynhawn.
Yn yr ail ran, gofynnwyd i'r rhieni gwblhau arolwg byr 3 chwestiwn a gynlluniwyd i adnabod o le yr oeddent wedi teithio (côd post cartref), ac i le yr oedd ei taith ymlaen. Arsylwodd y Swyddog Priffyrdd ar rai materion diogelwch trafnidiaeth ar rai o safleoedd yr ysgol ( gellir dod o hyd i fanylion pellach yn yr adroddiad ar y broses ymghynghori anffurfiol a drafodwyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 16 Mawrth, 2015).

Casgliadau'r asesiadau trafnidiaeth oedd :
"O'r 6 ysgol, ystyriwyd bod y sefyllfa drafnidiaeth yn ddiogel ym Mrynsiencyn a Niwbwrch. Roedd parcio gerllaw safle Dwyran yn rhesymol ond mae rhieni'n parcio ar y ffordd sy'n arwain allan o'r pentref. Dyma fel y mae hi hefyd yn Llangaffo sy'n arwain at dagfa a pheryglon posibl. Mae'r sefyllfa drafnidiaeth o amgylch Ysgol Bodorgan hefyd yn beryglus bosibl gan nad oes mannau codi a golwg o fewn safle'r ysgol. Er bod peryglon posibl ar safle Parc y Bont, gellid lleihau'r rhan ond byddai gwariant yn ofynnol.

Felly, y safleoedd mwyaf addas i'w defnyddio neu eu datblygu i'r dyfodol, mewn perthynas â phryderon iechyd a diogelwch, yw Ysgol Brynsiencyn, Ysgol Niwbwrch ac Ysgol Parc y Bont."

## 16. DADANSODDIAD O'R OPSIYNAU

16.1 Cafwyd peth cefnogaeth ar gyfer yr opsiynau a ganlyn yn yr ymatebion i'r ddogfen a'r cyfarfodydd ymgynghori statudol.

i. Tra nad oedd llawer (76 neu 72%) eisiau i Ysgol Brynsiencyn gau, datganodd mwyafrif cydranddalwyr Ysgol Brynsiencyn (46) eu cefnogaeth i opsiwn B4 (Ysgol newydd ar gyfer Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran, Llangaffo (dan RW) tra byddai Parc y Bont yn aros byddai Ysgol Brynsiencyn yn cael ei ffedereiddio). Caed peth cefnogaeth gan 26 o gydranddalwyr ar gyfer opsiwn A1 (ysgol newydd ar gyfer Bodorgan, Brynsiencyn, Niwbwrch, Dwyran ac Ymestyn Parc y Bont (dan RW) i ymgorffori Llangaffo).

ii. Tra nad oedd ar lawer (14 neu 74%) eisiau i Ysgol Llangaffo gau, roedd naw ymateb gan rieni Llangaffo'n datgan eu bod yn cefnogi opsiwn A1 tra roedd 2 yn datgan eu cefnogaeth i opsiwn A2. Roedd y ddau'n cynnwys ymestyn Ysgol Parc y Bont i ddal y disgyblion o Ysgol Llangaffo. Mewn geiriau eraill, pe bai'r Awdurdod yn penderfynu mynd ymlaen gyda chau'r ysgol ac adeiladu ysgol neu ysgolion newydd yna'r unig opsiwn derbyniol ar gyfer rhieni Llangaffo fyddai uno â Pharc y Bont gan fod y ddwy ysgol yn ysgolion Eglwysig.

iii. Roedd llawer o ymatebwyr o Ysgol Parc y Bont (24) hefyd yn ffafrio opsiwn A1 tra datganodd 3 eu cefnogaeth i opsiwn A2. Eto, roedd y ddau opsiwn yn cynnwys ymestyn Ysgol Parc y Bont i gynnwys y disgyblion o Ysgol Llangaffo. Fodd bynnag, nid oedd chwarter yr ymatebwyr yn ffafrio ffurfio ffederasiwn o ysgolion rhwng Ysgol Parc y Bont ac ysgol arall.

iv. Roedd un cydranddaliwr o Ysgol Dwyran yn cefnogi opsiwn A1 ond ni dderbyniwyd unrhyw ymateb gan gydranddalwyr Ysgol Niwbwrch.

v. Ym Modorgan, roedd yr holl ymatebwyr yn erbyn cau posibl yr ysgol gynradd ond roedd un ymatebwr yn ffafrio opsiwn A1.

vi. Cynigiodd rhai ymatebwyr o Fodorgan y posibilrwydd a ganlyn: ffedereiddio Bodorgan gydag Ysgol Henblas yn Llangristiolus.

vii. Un cynnig a roddwyd ymlaen gan ymatebwr sengl oedd:
“Uno Ysgol Dwyran ac Ysgol Brynsiencyn ym Mrynsiencyn”
“Uno Ysgol Bodorgan ac Ysgol Niwbwrch yn Niwbwrch”

viii. Roedd aelod arall yn meddwl y dylai ysgolion Dwyran, Niwbwrch a Bodorgan gael eu cyfuno a Llanddaniel a Brynsiencyn gael eu “rhoi gyda’i gilydd” ac y dylid “gadael” Llangaffo “ar ei phen ei hun”.

Er bod yr Awdurdod yn ymgynghori ar opsiynau a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, rhoddwyd awgrymiadau ymlaen fel yr amlinellwyd uchod. Eir i’r afael â’r opsiynau a grybwyllwyd yn (i) i (v) uchod sef opsiynau A1, A2, B1, B2, B3 a B4 yn y dadansoddiad opsiynau a sgoriwyd isod.

Mae dadansoddiad cychwynnol o awgrymiadau (vi) yn awgrymu na fyddai’r model yn arwain at ddatrysiad cynaliadwy hirdymor, na fyddai’n ymroi i gapasiti arweinyddiaeth ac mai llwyddiant cyfyngedig fyddai ganddo mewn mynd i’r afael â lleoedd dros ben.

Mae awgrym (vii) wedi ei drafod yn nadansoddiad y cam ymgynghori anstatudol neu anffurfiol. Roedd ystyriaeth o’r opsiwn hwn yn awgrymu na fyddai’r model yn arwain at ddatrysiad cynaliadwy hirdymor, na fyddai’n mynd i’r afael â chapasiti arweinyddiaeth ac mai llwyddiant cyfyngedig a fyddai ganddo mewn mynd i’r afael â lleoedd dros ben.

Ymddengys bod awgrym (viii) yn amrywiad ar opsiwn A2. Mae dadansoddiad cychwynnol yn awgrymu na fyddai’r model yn arwain at ddatrysiad cynaliadwy hirdymor, na fyddai’n ymroi i gapasiti arweinyddiaeth ac mai llwyddiant cyfyngedig a fyddai ganddo mewn ymroi i leoedd dros ben.

16.2 Mae’r dadansoddiad opsiynau’n canolbwyntio ar y 6 opsiwn a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori statudol. Rhestrir yr opsiynau isod.

| | |
|---|---|
| Opsiwn A1: | Opsiwn newydd ar gyfer Bodorgan, Brynsiencyn, Niwbwrch, Dwyran<br>Ymestyn Parc y Bont (dan RW) i ymgorffori Llangaffo |
| Opsiwn A2: | Ysgol newydd ar gyfer Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran<br>Ymestyn Parc y Bont (dan RW) i ymgorffori Llangaffo<br>Ffedereiddio Brynsiencyn |
| Opsiwn B1: | Ysgol newydd ar gyfer Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran, Llangaffo<br>Ymestyn Parc y Bont (dan RW) i ymgorffori Brynsiencyn |
| Opsiwn B2: | Ysgol newydd ar gyfer Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran, Llangaffo<br>Parc y Bont (dan RW)<br>Ffedereiddio Brynsiencyn |
| Opsiwn B3: | Ysgol newydd ar gyfer Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran, Llangaffo (dan RW)<br>Ymestyn Parc y Bont i ymgorffori Brynsiencyn |
| Opsiwn B4: | Ysgol newydd ar gyfer Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran, Llangaffo (dan RW)<br>Parc y Bont<br>Ffedereiddio Brynsiencyn |

Arfernir pob un o'r opsiynau hyn a'u sgorio allan o 10 yn erbyn y gyrrwyr ar gyfer newid a amlinellwyd isod.
• Codi safonau addysgol
• Lleihau nifer y lleoedd gweigion
• Lleihau'r amrywiad mewn cost y disgybl
• Sicrhau y bydd adeiladau ysgol yn creu'r amgylchedd dysgu gorau posibl
• Sicrhau bod adeiladau ysgol mewn cyflwr da ac nad oes materion iechyd a diogelwch
• Cynyddu capasiti i ddatblygu arweinyddiaeth
• Defnydd cymunedol o adeilad ysgol
• Darpariaeth addysg gyfrwng Cymraeg a dwyieithog
• Ffactorau daearyddol a theithio.

16.3 Cyflwynir yr arfarniadau cyffredinol yn yr adran a ganlyn. Mae angen ystyried y sylwadau a'r sgorau canlyniadol ochr yn ochr â'r arsylwadau a ganlyn.

- Gall pob ysgol o dan ystyriaeth gael eu dosbarthu fel ysgolion bach [<100] er bod y niferoedd sy'n mynychu Ysgol Parc y Bont ychydig yn llai na'r ffigwr hwn. Os cymerir i ystyriaeth nifer y disgyblion all-dalgylch yna mae nifer y disgyblion yn Nwyran, Bodorgan a Llangaffo yn agos iawn i 30 neu o dan hynny– mae cynnal ysgolion gyda'r nifer hwn yn anghynaliadwy.
- Mae'r ardal wedi ei nodweddu gan nifer sylweddol o rieni'n dewis darpariaeth allddalgylch. Roedd yr wybodaeth a gasglwyd gan rieni yn ystod y cam ymgynghori anffurfiol yn awgrymu bod y safonau a gyflawnwyd ac enw da'r ysgol yn y gymuned yn ffactorau allweddol mewn dewis rhieni. Yn y cyd-destun hwn, mae'r safonau cyffredinol a gyflawnir - a chanfyddiad rhieni – yn amrywio ar draws y maes. Mae angen mwy o gysondeb mewn perthynas â'r safonau addysgol a gyflawnir.
- Yn y ddwy ysgol lle mae nifer y disgyblion all-dalgylch yn uchel – Parc y Bont a Llangaffo – arsylwyd ar faterion iechyd a diogelwch trafnidiaeth-berthynol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Mae angen i unrhyw ailgyfluniad adlewyrchu casgliadau'r arolygon traffig.
- Ym mhob un o'r cyfarfodydd, nododd cydranddalwyr y gallai cau'r ysgol gael effaith sylweddol ar y pentref/cymuned.
- Mae effaith bosibl ad-drefnu ar gynyddu meintiau dosbarth wedi ei godi hefyd ym mhob un o'r cyfarfodydd. Mae angen ystyried hyn ochr yn ochr â'r ymateb a ddarparwyd yn y cyfarfodydd sef y byddai'r Awdurdod yn sicrhau y byddai meintiau dosbarthiadau yn aros o dan ddisgwyliadau Ll C.
- Ymddengys bod % y rhieni sy'n cerdded eu plant i'r ysgol yn uwch mewn dwy ysgol – Niwbwrch a Brynsiencyn.

16.4 Cyflwynir isod y dadansoddiad manwl ar gyfer pob un o'r opsiynau a nodwyd yn 16.2.

Noder - Os gweithredir opsiwn sy'n cynnwys cyfuno disgyblion o ddwy neu fwy o ysgolion, mae'r dalgylch newydd yn debygol o fod yn ddalgylch cyfunedig. Fodd bynnag, mae gan yr Awdurdod yr hawl a'r pwerau i newid dalgylchoedd ysgolion a gall newid y rhain yn dilyn ymgynghori.

**Opsiwn A1 – Un ysgol newydd ar gyfer Bodorgan, Brynsiencyn, Niwbwrch a Dwyran ac ysgol dan RW ar gyfer Parc y Bont a Llangaffo.**



| Gyrwyr | Meini prawf o fewn y gyrrwr | Sylwadau | Sgôr |
|---|---|---|---|
| Codi safonau addysgol | Maint [100 neu fwy]<br><br>Capasiti'r tîm arweinyddol i sicrhau gwelliannau<br><br>Athrawon gyda mwy o arbenigedd mewn meysydd penodol, sydd yn eu tro'n dylanwadu ar arferion yr athrawon eraill.<br><br>Lleihau nifer y dosbarthiadau oedran cymysg gyda mwy na 2 oedran.<br><br>Codi safonau ymhellach | Byddai'r ddwy ysgol newydd ar gyfer oddeutu 170 a 135 o blant.<br><br>Yn ôl fformiwla'r awdurdod, ar gyfer ysgol o 170, byddai hyn yn arwain at sefyllfa lle byddai gan y Pennaeth gyfrifoldeb addysgu am ran o'r wythnos. Rhagwelir y gallai ysgolion o'r maint hwn dîm rheoli bychan fydda'n helpu gwella safonau.<br><br>Byddai 5 neu 6 o ddosbarthiadau yn yr ysgolion a fyddai yn eu tro yn darparu cyfle i athrawon unigol weithredu fel arweinyddion ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd ac mewn pynciau unigol.Byddai hefyd yn arwain at eraill yn gallu arbenigo mewn meysydd fel AAA, ABCh.<br><br>Byddai dosbarthiadau oedran cymysg yn yr ysgol o 135 a dosbarthiadau oedran cymysg ar gyfer 2 grŵp oedran yn y llall. Felly byddai 21% o ddosbarthiadau o oed cymysg.<br><br>Rhagwelir y gall ysgolion o'r maint hwn gynnig mwy o hyblygrwydd i gyfarfod ag anghenion plant unigol a fyddai yn eu tro yn codi safonau ar draws yr ystod oedran | **6** |
| Lleihau lleoedd dros ben | Cyfrannu at leihau lleoedd dros ben drwy'r Awdurdod fel bod lleoedd dros ben yn 15% drwy'r Awdurdod ac yn 10% mewn ysgolion unigol<br><br>Ysgolion unigol yn fwy na 85% o lawn | Byddai'r ysgolion newydd yn arwain at leihad o 141 mewn lleoedd dros ben drwy'r ardal - a byddent wedi eu cynllunio i fod â dim mwy na 10% o leoedd dros ben. Byddai'r opsiwn hwn yn lleihau lleoedd dros ben ar draws y 6 ysgol o 35% i 11% a byddai'r ysgolion newydd dros 90% o lawn. Byddai'r lleoedd dros ben i'r Awdurdod for the Authority hefyd wedi eu lleihau i 11%. Un risg o hyn fyddai pe bai rhai rhieni'n dewis ceisio am le i'w plentyn mewn ysgol y tu allan i ddalgylch yr ysgol newydd. | **9** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Lleihau'r amrywiaeth mewn cost y disgybl | Lleihau'r amrywiaeth yng nghost y pen ar draws yr Awdurdod ac ar draws yr ardal fel bod cost y disgybl yn nes at gyfartaledd yr Awdurdod.<br><br>Mae hyn yn arwain at arbedion ariannol drwy hefyd ddefnyddio'r gyllideb yn fwy effeithiol ac effeithlon | Byddai sefydlu dwy ysgol newydd yn lleihau cost y pen ar draws yr ardal o £5,137 i £4,640 sydd o dan y cyfartaledd o £4,869 ar gyfer yr Awdurdod.<br><br>Arbedion net blynyddol o oddeutu £166k [heb gostau llog ar fenthyciad cyfalafol]. | **8** |
| Sicrhau y bydd adeiladau'r ysgol yn creu'r amgylchedd dysgu gorau posibl | Cyfleusterau addysgu a dysgu o'r ansawdd uchaf within ar gyfer yr adeilad a thu allan.<br><br>Mannau chwarae priodol<br><br>Mannau staff a gweinyddu priodol<br><br>Cyfleusterau Tegwch diweddaraf | Bydd sefydlu ysgolion newydd yn arwain at welliant yn yr amgylchedd dysgu. Byddai cyfleusterau dosbarth yn cynnwys dosbarthiadau o faint digonol, golau naturiol da, toiledau o ansawdd yn agos i'r dosbarthiadau ayyb. Byddai ardaloedd wedi eu cynllunio ar gyfer addysgu a dysgu wedi eu lleoli'n agos i'r dosbarth.<br><br>Ardaloedd chwarae un pwrpas wedi eu cynllunio ar gyfer disgyblion o wahanol oedrannau.<br><br>Byddai llety addas ar gyfer y Pennaeth a'r staff gweinyddu, ystafell staff ac ystafell ar gyfer cyfnodau CPA.<br><br>Byddai gan yr ysgol adnoddau TGa Ch wedi eu rhwydweithio sydd wedi eu cyfuno i gynllun pob dosbarth. | **10** |
| Sicrhau bod adeiladau ysgol mewn cyflwr da ac nad oes unrhyw faterion iechyd a diogelwch | Bydd cyflwr yr adeiladau yn lleihau cynnal a chadw ar y lefel ardal.<br><br>Materion iechyd a diogelwch:<br><br>1. Mynediad i'r safle a diogelwch adeilad<br>2. Parcio ar gyfer staff, rhieni ac ymwelwyr<br>3. Cyffredinol | Byddai sefydlu ysgolion newydd yn dileu ôl-groniad cynnal a chadw. Byddai hefyd yn gyfle i sefydlu cyfundrefn i sicrhau nad oes ôl-groniad cynnal a chadw'n hel.<br><br>Byddai cynllun yr ysgol newydd yn sicrhau yr eir i'r afael yn briodol â materion diogelwch mewn perthynas â'r adeilad o'r cychwyn cyntaf.<br><br>Byddai'r cynllun yn rhoi sylw dyledus i drafnidiaeth ar y safle i sicrhau diogelwch plant / cerddwyr.<br><br>Byddai hefyd yn rhoi sylw dyledus i faterion mewn perthynas â pharcio ar gyfer ymwelwyr ac ar gyfer pwynt gollwng addas ar gyfer bysys. | **10** |
| Cynyddu capasiti | Capasiti'r ysgol i ddarparu amser digyswllt digonol. | Rhagwelir y byddai Pennaeth ysgol o 150 neu fwy yn addysgu am beth o'r amser. | **7** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| arweinyddiaeth | Capasiti i allu darparu dirprwy a thîm rheoli . | Yn ychwanegol, mewn ysgolion o faint cyffelyb ceir yn arferol dîm rheoli bychan. | |
| Defnydd cymunedol o adeiladau ysgol | Darpariaeth gyn ac ar ôl ysgol e.e. clybiau brecwast, gweithgareddau ar ôl ysgol, clwb gwarchod plant.<br><br>Gweithgareddau haf a phenwythnos.<br><br>Darpariaeth gymunedol i hybu gweithgareddau cymunedol sy'n cynnwys rhieni, aelodau'r gymuned a grwpiau lleol. | Byddai cyfleusterau yn yr ysgol newydd yn addas ar gyfer clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol a gweithgareddau eraill y tu allan i oriau ysgol.<br><br>Byddai'r adnoddau'n briodol ar gyfer gweithgareddau cymunedol e.e. bydd neuadd o faint digonol ar gyfer y gweithgareddau i'r Gymuned, neuadd addas ar gyfer gweithgareddau megis ffitrwydd e.e. badminton. | **10** |
| Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog | Blaenoriaeth i gryfhau ac amddiffyn yr addysg Gymraeg a dwyieithog. | Byddai hyn yn sicrhau bod unrhyw benodiadau newydd i'r ysgol yn llwyr ymroddedig i adeiladu ymhellach ar y sylfaen gadarn sydd wedi ei gosod yn yr ardal ac sy'n gyfredol mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg a hyfedredd dwyieithog. | **10** |
| Ffactorau Daearyddol a theithio | Pellter teithio.<br><br>Cyfeiriad teithio<br><br>Costau trafnidiaeth | Mae sefydlu dwy ysgol newydd yn golygu llai o deithio nag i un ysgol newydd ond byddai'n cynyddu'r pellter teithio i tua 120 o blant. Mae amser teithio'n debygol o fod yn llai nag i un ysgol. Mae nifer y plant sy'n cerdded i'r ysgol yn debygol o fod yn uwch nag ar gyfer ysgol sengl e.e. pe bai'r ysgolion newydd wedi eu lleoli yn Niwbwrch a Llanddaniel yna byddai oddeutu traean o'r plant yn gallu cerdded i'r ysgol; mae hyn yn hollol ddibynnol ar y dewis o safle ar gyfer yr ysgol newydd e.e. pe bai un ysgol newydd wedi ei lleoli yn Niwbwrch yna byddai oddeutu traean o'r plant mewn sefyllfa i gerdded i'r ysgol gyda'r gweddill yn teithio ar fysys.<br><br>Mae modd hefyd y byddai cyfeiriad teithio i'r ysgolion eraill yn groes i gyfeiriad rhieni'n teithio i'r gwaith.<br><br>Byddai costau trafnidiaeth (£65,930) yn uwch na'r costau presennol ond mae'r rhain eisoes wedi eu cynnwys yn yr arbedion refeniw. | **6** |
| **Cyfanswm** | | | **76** |

**Opsiwn A2 - un ysgol newydd yn lle Ysgolion Bodorgan, Niwbwrch a Dwyran ac un ysgol newydd ar gyfer Llangaffo a Pharc y Bont. Ffedereiddio Ysgol Brynsiencyn**



| Gyrwyr | Meini prawf o fewn y gyrrwr | Sylwadau | Sgôr |
|---|---|---|---|
| Codi safonau addysgol | Maint [100 neu fwy]<br><br>Capasiti'r tîm arweinyddiaeth i sicrhau gwelliannau<br><br>Athrawon gyda mwy o arbenigedd mewn ardaloedd penodol, sydd yn eu tro'n dylanwadu ar arferion athrawon eraill<br><br>Lleihau nifer y dosbarthiadau oedran cymysg gyda mwy na 2 grŵp oedran.<br><br>Codi safonau ymhellach | Byddai'r ddwy ysgol newydd yn darparu ar gyfer oddeutu 120 a 135 o blant a byddai Ysgol Brynsiencyn yn aros<br><br>Yn ôl fformiwla'r Awdurdod, byddai hyn yn arwain at sefyllfa lle byddai gan y Penaethiaid gyfrifoldeb addysgu am ran o'r wythnos ym mhob un o'r ysgolion. Rhagwelir na fyddai ysgol o'r maint hwn yn gallu cynnal tîm rheoli o fwy na dau unigolyn.<br>Byddai 4 neu 5 dosbarth yn yr ysgol o 135, 4 dosbarth yn yr ysgol o 120 a 2 neu 3 dosbarth yn Ysgol Brynsiencyn. Byddai hynny'n darparu cyfle'n rhannol i athrawon unigol weithredu fel arweinyddion ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd ac mewn pynciau unigol.<br><br>Byddai 55% o ddosbarthiadau oedran cymysg yn y 3 ysgol.<br><br>Rhagwelir y bydd ysgolion o'r maint hwn yn gallu cynnig rhywfaint o hyblygrwydd i gyfarfod ag anghenion plant unigol a fyddai yn eu tro'n codi safonau ar draws yr ystod gallu. | **5** |
| Lleihau lleoedd dros ben | Cyfrannu at leihau lleoedd dros ben ar draws yr Awdurdod fel bod lleoedd dros ben yn 15% ar draws yr Awdurdod ac yn 10% mewn ysgolion unigol<br><br>Ysgolion unigol yn fwy na 85% o lawn | Byddai'r ad-drefnu'n arwain at leihad o 113 mewn lleoedd dros ben ar draws yr ardal - a byddai'r ysgolion newydd wedi eu cynllunio i fod â dim mwy na 10% o leoedd dros ben er y byddai lleoedd dros ben yn aros yn uchel ( 37% ar hyn o bryd) at Ysgol Brynsiencyn. Byddai'r opsiwn hwn yn lleihau lleoedd dros ben ar draws y 6 ysgol 35% i 12% a byddai'r ddwy ysgol newydd dros 90% o lawn. Byddai'r lleoedd dros ben ar gyfer yr Awdurdod hefyd yn cael eu lleihau i 12%. Un risg o hyn fyddai pe bai rhai rhieni'n dewis ceisio am le i'w plentyn mewn ysgol y tu allan i ddalgylch yr ysgol newydd. | **8** |
| Lleihau'r amrywiad yng nghost y disgybl | Lleihau'r amrywiad yng nghost y pen ar draws yr Awdurdod ac ar draws yr ardal fel bod cost y disgybl yn nes at gyfartaledd yr Awdurdod. | Byddai sefydlu dwy ysgol newydd yn lleihau cost y pen ar draws yr ardal o £5,137 i £4,916 sy'n 1% uwch ben y cyfartaledd o £4,869 ar gyfer yr Awdurdod. Mae cost y pen yn cynnwys £5,375 ar gyfer Brynsiencyn (10% yn uwch na chyfartaledd Ynys Môn), £4,636 ar gyfer yr ysgol gynradd newydd | **A2a-8**<br><br>**A2b-7** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae hyn yn arwain at arbedion ariannol gan hefyd ddefnyddio'r gyllideb yn fwy effeithiol ac effeithlon | (5% islaw cyfartaledd Ynys Môn ) a £4,935 ar gyfer yr ysgol newydd ar gyfer Llangaffo a Pharc y Bont (1% uwchben cyfartaledd Ynys Môn).<br><br>Arbedion net blynyddol o oddeutu £136k pe bai Ysgol Brynsiencyn yn cael ei ffedereiddio gydag ysgol lle nad yw'r pennaeth yn addysgu. Byddai'n arwain at arbedion net o£108k pe bai Ysgol Brynsiencyn yn cael ei ffedereiddio gydag ysgol lle mae gan y pennaeth 50% o amser di-gyswllt [heb gostau llog ar fenthyciad cyfalafol]. | |
| Sicrhau y bydd adeiladau ysgol yn creu'r amgylchedd dysgu gorau posibl | Cyfleusterau addysgu a dysgu o'r ansawdd gorau y tu mewn a'r tu allan i'r adeilad.<br><br>Mannau chwarae priodol<br><br>Mannau staffio a gweinyddu priodol<br><br>Cyfleusterau TGaCh diweddaraf | Bydd sefydlu ysgolion newydd yn arwain at welliant yn yr amgylchedd dysgu. Byddai cyfleusterau dosbarth yn cynnwys dosbarthiadau o faint digonol, goleuni naturiol da, toiledau o ansawdd yn agos i'r dosbarthiadau ayyb. Byddai ardaloedd wedi eu cynllunio ar gyfer addysgu a dysgu wedi eu lleoli yn ymyl y dosbarth.<br><br>Mannau chwarae un pwrpas wedi eu cynllunio i ddisgyblion o wahanol oedrannau.<br>Byddai man addas ar gyfer y Pennaeth a'r staff Gweinyddol, ystafell staff ac ystafell ar gyfer cyfnodau CPA athrawon. Fodd bynnag, ni fyddai cynllun cyffredinol Ysgol Brynsiencyn yn newid llawer. Pe dewisid yr opsiwn hwn, byddai o leiaf un dosbarth ychwanegol yn ofynnol yn Ysgol Parc y Bont ynghyd â chyfleusterau atodol e.e toiledau ac ystafelloedd cotiau.<br><br>Byddai gan yr ysgol adnoddau TGaCh wedi eu rhwydweithio sydd wedi eu cyfuno yng nghynllun pob ystafell. | **9** |
| Sicrhau bod adeiladau ysgol mewn cyflwr da ac nad oes unrhyw faterion iechyd a diogelwch | Bydd cyflwr yr adeiladau yn lleihau costau cynnal a chadw ar y lefel ardal .<br><br>Materion iechyd a diogelwch:<br><br>1. Mynediad i'r safle a diogelwch adeilad<br>2. Parcio ar gyfer staff, rhieni ac ymwelwyr<br>3. Cyffredinol | Byddai sefydlu ysgolion newydd yn dileu ôl-groniad cynnal a chadw. Byddai'r ôl-groniad cynnal a chadw ar gyfer Ysgol Brynsiencyn yn cael ei glirio pe dewisid yr opsiwn hwn a gwneid peth ailfodelu.<br>Byddai cynllun yr ysgol newydd yn sicrhau yr eid i'r afael yn briodol â materion diogelwch mewn perthynas â'r adeilad o'r cychwyn cyntaf.<br><br>Byddai'r cynllun yn rhoi sylw dyledus i'r drafnidiaeth ar y safle i sicrhau diogelwch plant /cerddwyr. Byddai hefyd yn rhoi sylw dyledus i faterion mewn perthynas â pharcio ar gyfer ymwelwyr a phwynt gollwng addas ar gyfer bysys. | **10** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynyddu capasiti arweinyddiaeth | Capasiti'r ysgol i ddarparu amser di-gyswllt digonol.<br><br>Capasiti i allu darparu dirprwy a thîm rheoli. | Rhagwelir y byddai Pennaeth ysgol o 120, 135 ac Ysgol Brynsiencyn yn addysgu am beth o'r amser.<br><br>Yn ychwanegol, mewn ysgolion o faint cyffelyb ceir yn arferol dîm rheoli bychan. | **7** |
| Defnydd cymunedol o adeilad ysgol | Darpariaeth gyn ac ar ôl ysgol e.e. clybiau brecwast, gweithgareddau ôl-ysgol, clwb gwarchod plant.<br><br>Gweithgareddau haf a phenwythnos<br><br>Darpariaeth gymunedol i hybu gweithgareddau cymunedol sy'n cynnwys rhieni, aelodau cymunedol a grwpiau lleol. | Byddai cyfleusterau yn yr ysgol newydd yn addas ar gyfer clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol a gweithgareddau eraill y tu allan i oriau ysgol.<br><br>Byddai'r adnoddau'n briodol ar gyfer gweithgareddau cymunedol e.e. Bydd neuadd o faint digonol ar gyfer gweithgareddau i'r gymuned, a Neuadd addas ar gyfer gweithgareddau megis ffitrwydd e.e. badminton. | **10** |
| Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog | Blaenoriaeth i gryfhau ac amddiffyn addysg Gymraeg a dwyieithog . | Byddai hyn yn sicrhau y byddai unrhyw benodiadau newydd i'r ysgol yn llwyr ymroddedig i adeiladu ymhellach ar y Sylfaen gref sydd wedi ei gosod yn yr ardal ac sy'n gyfredol mewn perthynas â'r defnydd o Gymraeg a hyfedredd dwyieithog. | **10** |
| Ffactorau Daearyddol a theithio | Pellter teithio.<br><br>Cyfeiriad teithio<br><br>Costau trafnidiaeth | Mae sefydlu dwy ysgol newydd a chadw Ysgol Brynsiencyn yn golygu llai o deithio nag i un ysgol newydd ond byddai'n cynyddu'r pellter teithio i tua 110 o blant. Mae amser teithio'n debygol o fod yn llai nag i un ysgol. Mae nifer y plant sy'n cerdded i'r ysgol yn debygol o fod yn uwch nag ar gyfer ysgol sengl e.e. pe bai ysgolion newydd wedi eu lleoli yn Niwbwrch a Llanddaniel a Brynsiencyn i gael ei chadw, yna byddai mwy na thraean o'r plant yn gallu cerdded i'r ysgol; mae hyn yn hollol ddibynnol ar y dewis o safle ar gyfer yr ysgol newydd e.e. pe bai un ysgol newydd wedi ei lleoli yn Niwbwrch yna byddai oddeutu traean o'r plant mewn sefyllfa i gerdded i'r ysgol gyda'r gweddill yn teithio ar fysys.<br><br>Mae modd hefyd y byddai cyfeiriad teithio i'r ysgolion newydd yn groes i gyfeiriad teithio i'r gwaith y rhieni.<br><br>Byddai costau cludiant (£49,210) yn dal i fod yn uwch na chostau cyfredol ond mae'r rhain eisoes wedi eu cynnwys yn yr arbedion refeniw.. | **8** |
| **Cyfanswm** | | | **75** |

**Opsiwn B1 - Un ysgol newydd yn lle ysgolion Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran a Llangaffo ac ysgol dan RW ar gyfer Brynsiencyn a Pharc y Bont.**

| Gyrwyr | Meini prawf o fewn y gyrrwr | Sylwadau | Sgôr |
|---|---|---|---|
| Codi safonau addysgol | Maint [100 neu fwy]<br><br>Capasiti'r tîm arweinyddol i sicrhau gwelliannau<br><br>Athrawon gyda mwy o arbenigedd mewn ardaloedd penodol, sydd yn eu tro'n dylanwadu ar arferion athrawon eraill<br><br>Lleihau nifer y dosbarthiadau oedran cymysg gyda mwy na 2 grŵp oedran.<br><br>Codi safonau ymhellach | Byddai'r ddwy ysgol newydd yn darparu ar gyfer oddeutu 180 a 150 o blant.<br><br>Yn ôl fformiwla'r Awdurdod, byddai hyn yn arwain at sefyllfa lle byddai gan y Penaethiaid gyfrifoldeb addysgu am ran o'r wythnos. Rhagwelir y byddai ysgolion o'r maint hwn yn gallu cynnal timau rheoli bychan fyddai'n helpu i godi safonau.<br><br>Byddai oddeutu 6 neu 7 dosbarth yn yr ysgolion a fyddai yn eu tro'n darparu cyfle i athrawon unigol weithredu fel arweinyddion ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd a'r pynciau unigol.<br><br>Byddai dosbarthiadau oedran cymysg yn yr ysgol o 150 ac un dosbarth oedran cymysg yn y llall.<br><br>Rhagwelir y gall ysgolion o'r maint hwn gynnig mwy o hyblygrwydd i gyfarfod ag anghenion plant unigol a fyddai yn ei dro yn codi safonau ar draws yr ystod gallu. | **7** |
| Lleihau lleoedd dros ben | Cyfrannu tuag at leihau lleoedd dros ben ar draws yr Awdurdod fel bod lleoedd dros ben yn 15% ar draws yr Awdurdod ac yn 10% mewn ysgolion unigol<br><br>Ysgolion unigol yn fwy na 85% o lawn. | Byddai'r ysgol newydd yn arwain at leihau 116 mewn lleoedd dros ben ar draws yr ardal - a byddent wedi eu cynllunio i fod â dim mwy na 10% o leoedd dros ben. Byddai'r opsiwn hwn yn lleihau lleoedd dros ben ar draws y 6 ysgol o 35% i 11% a byddai'r ysgol newydd yn 89% o lawn. Byddai'r lleoedd dros ben ar gyfer yr Awdurdod hefyd wedi eu lleihau i 12%. Un risg o hyn fyddai pe bai rhai rhieni'n dewis ceisio am le ar gyfer eu plentyn mewn ysgol y tu allan i ddalgylch yr ysgol newydd | **8** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Lleihau'r amrywiad yng nghost y disgybl | Lleihau'r amrywiad yng nghost y pen drwy'r Awdurdod ac ar draws yr ardal fel bod cost y disgybl yn nes at gyfartaledd yr Awdurdod. Mae hyn yn arwain at arbedion ariannol drwy ddefnyddio'r gyllideb yn fwy effeithiol ac effeithlon . | Byddai sefydlu 2 ysgol newydd yn lleihau cost y pen ar draws yr ardal o £5,137 i £4,699 sydd o dan y gost gyfartalog o £4,869 i'r Awdurdod.<br><br>Arbedion net blynyddol o oddeutu £169k [heb gostau llog ar fenthyciad cyfalafol]. | **8** |
| Sicrhau y bydd adeiladau'r ysgol yn creu'r amgylchedd dysgu gorau posibl | Cyfleusterau addysgu a dysgu o'r ansawdd uchaf o fewn yr adeilad a'r tu allan.<br><br>Mannau chwarae priodol<br><br>Mannau staffio a gweinyddu priodol<br><br>Cyfleusterau TGaCh diweddaraf | Bydd sefydlu ysgolion newydd yn arwain at welliant yn yr amgylchedd dysgu. Byddai cyfleusterau dosbarth yn cynnwys dosbarthiadau o faint digonol, golau naturiol da, toiledau o'r ansawdd gorau yn agos i'r dosbarthiadau ayyb. Byddai ardaloedd wedi eu cynllunio ar gyfer addysgu a dysgu wedi eu lleoli'n agos i'r dosbarth.<br><br>Mannau chwarae un pwrpas wedi eu cynllunio ar gyfer disgyblion o wahanol oedrannau.<br><br>Byddai lle addas ar gyfer y Pennaeth a'r staff gweinyddol, ystafell staff ac ystafell ar gyfer cyfnodau CPA athrawon.<br><br>Byddai gan yr ysgol adnoddau TGaCh wedi eu rhwydweithio sydd wedi eu hintegreiddio yng nghynllun pob dosbarth. | **10** |
| Sicrhau bod adeiladau'r ysgol mewn cyflwr da | Bydd cyflwr yr adeiladau'n lleihau costau cynnal a chadw ar lefel ardal.<br><br>Materion iechyd a diogelwch:<br><br>1. Mynediad i'r safle a diogelwch adeilad<br>2. Parcio ar gyfer staff, rhieni ac ymwelwyr<br>3. Cyffredinol | Byddai sefydlu ysgolion newydd yn dileu ôl-groniad cynnal a chadw . Byddai hefyd yn gyfle i sefydlu cyfundrefn i sicrhau nad oes ôl-groniad cynnal a chadw'n hel.<br><br>Byddai cynllun yr ysgol newydd yn sicrhau yr eid i'r afael â materion diogelwch mewn perthynas â'r adeilad yn briodol o'r cychwyn cyntaf.<br><br>Byddai'r cynllun yn rhoi sylw dyledus i'r drafnidiaeth ar y safle er mwyn sicrhau diogelwch plant / cerddwyr.<br>Byddai hefyd yn rhoi sylw dyledus i faterion mewn perthynas â pharcio i ymwelwyr ac ar gyfer pwynt gollwng addas i fysiau. | **10** |
| Cynyddu capasiti arweinyddiaeth | Capasiti'r ysgol i ddarparu amser di-gyswllt digonol.<br>Capasiti i allu darparu dirprwy a thîm rheoli. | Rhagwelir y byddai Pennaeth ysgol o 150 yn addysgu am beth o'r amser.<br>Yn ychwanegol, mewn ysgolion o'r maint hwn, ceir yn arferol dîm rheoli bychan. | **8** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Defnydd cymunedol o adeilad ysgol | Darpariaeth gyn ac ar ôl ysgol e.e. clybiau brecwast, gweithgareddau ar ôl ysgol, clwb gwarchod plant.<br><br>Gweithgareddau haf a phenwythnos<br><br>Darpariaeth gymunedol i hybu gweithgareddau cymunedol sy'n cynnwys rhieni, aelodau'r gymuned a grwpiau lleol. | Byddai cyfleusterau yn yr ysgol newydd yn addas iawn ar gyfer clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol a'r tu allan i oriau ysgol.<br><br>Byddai'r adnoddau'n briodol iawn ar gyfer gweithgareddau cymunedol e.e. bydd neuadd o faint digonol ar gyfer y gweithgareddau yn cael ei hybu gan y Gymuned, Neuadd addas ar gyfer gweithgareddau megis ffitrwydd e.e. badminton. | **10** |
| Darparu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog | Blaenoriaeth i gryfhau ac amddiffyn addysg Gymraeg a dwyieithog. | Byddai hyn yn sicrhau y byddai unrhyw benodiadau newydd i'r ysgol yn llwyr ymroddedig i adeiladu ymhellach ar y Sylfaen gref sydd wedi ei gosod yn yr ardal ac sy'n gyfredol mewn perthynas â'r defnydd o Gymraeg a hyfedredd dwyieithog. | **10** |
| Ffactorau daearyddol a theithio | Pellter teithio<br><br>Cyfeiriad teithio<br><br>Costau trafnidiaeth | Mae sefydlu dwy ysgol newydd yn golygu llai o deithio nag i un ysgol newydd ond byddai'n cynyddu'r pellter teithio i tua 150 o blant. Mae amser teithio'n debygol o fod yn llai nag i un ysgol . Mae nifer y plant sy'n cerdded i'r ysgol yn debygol o fod yn uwch nag ar gyfer ysgol sengl e.e. pe bai'r ysgolion newydd wedi eu lleoli yn Niwbwrch a Llanddaniel yna byddai oddeutu traean o'r plant yn gallu cerdded i'r ysgol; mae hyn yn hollol ddibynnol ar y dewis o safle ar gyfer yr ysgol newydd e.e. pe bai un ysgol newydd wedi ei lleoli yn Niwbwrch yna byddai oddeutu traean o'r plant mewn sefyllfa i gerdded i'r ysgol gyda'r gweddill yn teithio ar fysiau.<br><br>Mae modd hefyd y byddai'r cyfeiriad i'r ysgolion newydd yn groes i gyfeiriad teithio i'r gwaith y rhieni.<br><br>Byddai costau cludiant (£63,080) yn dal i fod yn uwch na chostau cyfredol ond mae'r rhain eisoes wedi eu cynnwys yn yr arbedion refeniw.. | **6** |
| **Cyfanswm** | | | **75** |

Tudalen 137

**Opsiwn B2 – Un ysgol newydd yn lle yasgolion Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran a Llangaffo, gadael Parc y Bont yn ysgol dan RW a ffedereiddio Ysgol Brynsiencyn**

| Gyrwyr | Meini prawf o fewn y gyrrwr | Sylwadau | Sgôr |
|---|---|---|---|
| Codi safonau addysgol | Maint [100 neu fwy]<br><br>Capasiti'r tîm arweinyddiaeth i sicrhau gwelliannau<br><br>Athrawon gyda mwy o arbenigedd mewn meysydd penodol, sydd yn eu tro'n dylanwadu ar arferion athrawon eraill<br><br>Lleihau nifer y dosbarthiadau oedran cymysg gyda mwy na 2 grŵp oedran.<br><br>Codi safonau ymhellach | Byddai'r ysgol newydd yn darparu ar gyfer oddeutu 180 o blant a byddai Ysgol Parc y Bont ac Ysgol Brynsiencyn yn aros.<br><br>Yn ôl fformiwla'r Awdurdod, byddai hyn yn arwain at sefyllfa lle byddai gan y Pennaeth gyfrifoldeb addysgu am ran o'r wythnos yn yr ysgol newydd. Rhagwelir y byddai ysgol o'r maint hwn yn gallu cynnal tîm rheoli o fwy na dau unigolyn.<br><br>Byddai hyd at 6 dosbarth yn yr ysgol o 180, 4 dosbarth ym Mharc y Bont a 2 neu 3 dosbarth yn Ysgol Brynsiencyn. Byddai hyn yn darparu cyfle'n rhannol i athrawon unigol weithredu fel arweinyddion ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd ac mewn pynciau unigol.<br><br>Byddai dosbarthiadau oedran cymysg yn y 3 ysgol.<br><br>Rhagwelir y gall ysgolion i 180 disgybl gynnig mwy o hyblygrwydd i gyfarfod ag anghenion plant unigol a fyddai yn eu tro yn codi safonau ar draws yr ystod gallu. | **6** |
| Lleihau lleoedd dros ben | Cyfrannu at leihau lleoedd dros ben ar draws yr Awdurdod fel bod lleoedd dros ben yn 15% drwy'r Awdurdod ac yn 10% mewn ysgolion unigol. Ysgolion unigol yn fwy na 85% llawn | Byddai'r opsiwn hwn yn arwain at leihau 94 mewn lleoedd dros ben drwy'r ardal - a byddai'r ysgol newydd wedi ei chynllunio i fod â dim mwy na 10% o leoedd dros ben. Byddai'r opsiwn hwn yn lleihau lleoedd dros ben ar draws y 6 ysgol i 15% a byddai'r ysgol newydd dros 90% o lawn. Fodd bynnag, byddai lleoedd dros ben yn aros yn uchel ( 37%ar hyn o bryd ) yn Ysgol Brynsiencyn. Byddai'r lleoedd dros ben i'r Awdurdod hefyd yn cael eu lleihau i 12%. Un risg i hyn fyddai pe bai rhai rhieni'n dewis ceisio am le i'w plentyn mewn ysgol y tu allan i ddalgylch yr ysgol newydd. | **7** |

Tudalen 138

| | | | |
|---|---|---|---|
| Lleihau'r amrywiad yng nghost y disgybl | Lleihau'r amrywiad yng nghost y pen ar draws yr Awdurdod ac ar draws yr ardal fel bod cost y disgybl yn nes at gyfartaledd yr Awdurdod.<br><br>Byddai hyn yn arwain at arbedion ariannol drwy hefyd ddefnyddio'r gyllideb yn fwy effeithiol ac effeithlon | Byddai sefydlu dwy ysgol newydd yn lleihau cost y pen ar draws yr ardal o £5,137 i £4,640 sydd o dan y cyfartaledd o £4,869 ar gyfer yr Awdurdod.<br><br>Arbedion net blynyddol o oddeutu £145k pe bai Ysgol Brynsiencyn yn cael ei ffedereiddio gydag ysgol lle nad yw'r pennaeth yn addysgu. Byddai'n arwain at arbedion net o£118k pe bai Ysgol Brynsiencyn yn cael ei ffedereiddio gydag ysgol lle mae gan y pennaeth 50% o amser di-gyswllt [.llai costau llog ar fenthyciad cyfalafol]. | **B2a-7**<br><br>**B2b-6** |
| Sicrhau y bydd adeiladau ysgolion yn creu'r amgylchedd dysgu gorau posibl | Cyfleusterau addysgu a dysgu o'r ansawdd uchaf o fewn yr adeilad a thu allan.<br><br>Mannau chwarae priodol<br><br>Mannau staffio a gweinyddu priodol<br><br>Cyfleusterau TGaCh diweddaraf | Byddai sefydlu ysgol newydd yn arwain at welliant yn yr amgylchedd dysgu. Byddai cyfleusterau dosbarth yn cynnwys dosbarthiadau o faint digonol, goleuni naturiol da, toiledau da eu hansawdd yn agos i'r dosbarthiadau ayyb. Byddai mannau a gynlluniwyd ar gyfer addysgu a dysgu yn cael eu lleoli wrth ymyl y dosbarth.<br><br>Mannau chwarae un-pwrpas wedi eu cynllunio ar gyfer disgyblion o wahanol oedrannau.<br><br>Yn yr ysgol newydd, byddai man addas ar gyfer y Pennaeth a'r staff gweinyddol, ystafell staff ac ystafell ar gyfer cyfnodau CPA athrawon. Fodd bynnag, ni fyddai cynllun cyffredinol Ysgol Brynsiencyn yn newid llawer.<br>Byddai gan yr ysgol newydd adnoddau TGaCh wedi eu rhwydweithio ac integreiddio yng nghynllun pob dosbarth. | **8** |
| Sicrhau bod adeiladau ysgol mewn cyflwr da ac nad oes unrhyw broblemau iechyd a diogelwch | Bydd cyflwr yr adeiladau'n lleihau costau cynnal a chadw ar y lefel ardal.<br><br>Materion iechyd a diogelwch:<br><br>1. Mynediad i'r safle a diogelwch adeilad<br>2. Parcio ar gyfer staff, rhieni ac ymwelwyr<br>3. Cyffredinol | Byddai sefydlu ysgol newydd yn dileu ôl-groniad cynnal a chadw. Byddai ôl-groniad cynnal a chadw ar gyfer Ysgol Brynsiencyn yn cael ei glirio pe dewisid yr opsiwn hwn a gwneid peth ailfodelu.<br><br>Byddai cynllun yr ysgol newydd yn sicrhau yr eid i'r afael yn briodol â materion diogelwch mewn perthynas â'r adeilad o'r cychwyn cyntaf.<br><br>Byddai'r cynllun yn rhoi sylw dyledus i'r drafnidiaeth ar y safle i sicrhau diogelwch plant / cerddwyr. Byddai hefyd yn rhoi sylw dyledus i faterion mewn perthynas â pharcio ar gyfer ymwelwyr ac ar gyfer pwynt gollwng addas ar gyfer bysiau. | **9** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynyddu capasiti arweinyddiaeth | Capasiti'r ysgol i ddarparu amser di-gyswllt digonol.<br><br>Capasiti i allu darparu dirprwy a thîm rheoli. | Rhagwelir na fyddai Pennaeth ysgol o 180 yn addysgu am beth o'r amser. Yn ychwanegol, mewn ysgolion o faint cyffelyb ceir yn arferol dîm rheoli bychan. Ym Mrynsiencyn a Pharc y Bont, byddai'r penaethiaid yn parhau i fod yn addysgu. | **6** |
| Defnydd cymunedol o adeilad ysgol | Darpariaeth gyn ac ar ôl ysgol e.e. clybiau brecwast, gweithgareddau ar ôl ysgol, clwb gwarchod plant.<br><br>Gweithgareddau haf a phenwythnos<br><br>Darpariaeth gymunedol i hybu gweithgareddau cymunedol sy'n cynnwys rhieni, aelodau cymunedol a grwpiau lleol. | Byddai cyfleusterau yn yr ysgol newydd yn addas iawn ar gyfer clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol a gweithgareddau eraill y tu allan i oriau ysgol.<br><br>Byddai'r adnoddau'n briodol iawn ar gyfer gweithgareddau cymunedol e.e. Bydd neuadd o faint digonol ar gyfer y gweithgareddau i'r Gymuned, neuadd addas ar gyfer gweithgareddau megis ffitrwydd e.e. badminton. Ym Mrynsiencyn a Pharc y Bont, byddai'r sefyllfa yn debygol yn aros yr un fath yn y cyswllt hwn. | **10** |
| Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog | Blaenoriaeth i gryfhau ac amddiffyn Addysg Gymraeg a dwyieithog. | Byddai hyn yn sicrhau y byddai unrhyw benodiadau newydd i'r ysgol yn llwyr ymroddedig i adeiladu ymhellach ar y Sylfaen gref sydd wedi ei gosod yn yr ardal ac sy'n gyfredol mewn perthynas â'r defnydd o'r Gymraeg a hyfedredd dwyieithog. | **10** |
| Ffactorau Daearyddol a theithio | Pellter teithio<br><br>Cyfeiriad teithio<br><br>Costau cludiant | Mae sefydlu ysgolion newydd yn golygu llai o deithio nag i un ysgol newydd ond byddai'n cynyddu'r pellter teithio tua 100 o blant. Mae amser teithio'n debygol o fod yn llai nag i un ysgol. Mae nifer y plant sy'n cerdded i'r ysgol yn debygol o fod yn uwch nag ar gyfer ysgol sengl e.e. pe bai'r ysgolion newydd wedi eu lleoli yn Niwbwrch a Llanddaniel yna byddai oddeutu traean o'r plant yn gallu cerdded i'r ysgol; mae hyn yn gyfan gwbl ddibynnol ar y dewis o safle ar gyfer yr ysgol newydd e.e. pe bai un ysgol newydd wedi ei lleoli yn Niwbwrch yna byddai oddeutu traean o'r plant mewn sefyllfa i gerdded i'r ysgol gyda'r gweddill yn teithio ar fysiau.<br><br>Mae modd hefyd y byddai cyfeiriad y teithio i'r ysgolion newydd yn groes i gyfeiriad teithio i'r gwaith y rhieni.<br><br>Byddai costau teithio'n uwch (£46,360) na'r costau presennol ond mae'r rhain eisoes wedi eu cynnwys yn yr arbedion refeniw. | **6** |
| **Cyfanswm** | | | **B2a-69**<br>**B2b-68** |

**Opsiwn B3 – Un ysgol dan RW yn lle Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran a Llangaffo ac un ysgol newydd yn lle Brynsiencyn a Pharc y Bont**

| Gyrwyr | Meini prawf o fewn y gyrrwr | Sylwadau | Sgôr |
|---|---|---|---|
| Codi safonau addysgol | Maint [100 neu fwy]<br><br>Gallu'r tîm arweinyddol i sicrhau gwelliannau<br><br>Athrawon gyda mwy o arbenigedd mewn ardaloedd penodol, sydd yn eu tro'n dylanwadu ar arferion athrawon eraill<br><br>Lleihau nifer y dosbarthiadau oedran cymysg gyda mwy na 2 grŵp oedran.<br><br>Codi safonau ymhellach | Byddai'r ddwy ysgol newydd yn darparu ar gyfer oddeutu 180 a 150 o blant.<br><br>Yn ôl fformiwla'r Awdurdod, byddai hyn yn arwain at sefyllfa lle byddai gan y Penaethiaid gyfrifoldeb addysgu am ran o'r wythnos. Rhagwelir y byddai ysgolion o'r maint hwn yn gallu cynnal timau rheoli bychain fyddai'n helpu codi safonau.<br><br>Byddai oddeutu 6 neu 7 dosbarth yn yr ysgolion a fyddai yn eu tro yn darparu cyfle i athrawon unigol weithredu fel arweinyddion ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd a'r pynciau unigol.<br><br>Byddai 2 ddosbarth oedran cymysg yn yr ysgol o 150 ac un dosbarth oedran cymysg yn y llall.<br>Rhagwelir y gall ysgolion o'r maint hwn gynnig mwy o hyblygrwydd i gyfarfod ag anghenion plant unigol a fyddai yn eu tro yn codi safonau ar draws yr ystod gallu. | **7** |
| Lleihau lleoedd dros ben | Cyfrannu at leihau lleoedd dros ben ar draws yr Awdurdod fel bod lleoedd dros ben yn 15% ar draws yr Awdurdod ac yn 10% mewn ysgolion unigol<br><br>Ysgolion unigol yn fwy na 85% llawn | Byddai'r ysgolion newydd yn arwain at leihad o 116 mewn lleoedd dros ben ar draws yr ardal - a byddent wedi eu cynllunio i fod â dim mwy na 10% o leoedd dros ben. Byddai'r opsiwn hwn yn lleihau lleoedd dros ben drwy'r 6 ysgol o 35% i 11% a byddai'r ysgol newydd yn 89% llawn. Byddai'r lleoedd dros ben ar gyfer yr Awdurdod hefyd yn cael eu lleihau i 12%. Un risg o hyn fyddai pe bai rhai rhieni'n dewis gwneud cais am le i'w plentyn mewn ysgol y tu allan i ddalgylch yr ysgol newydd. | **8** |
| Lleihau'r amrywiad yng nghost y disgybl | Lleihau'r amrywiad yng nghost y pen drwy'r Awdurdod ac ar draws yr ardal fel bod cost y disgybl yn nes at gyfartaledd yr Awdurdod.<br><br>Mae hyn yn arwain at arbedion ariannol drwy hefyd ddefnyddio'r gyllideb yn fwy effeithiol ac effeithlon | Byddai sefydlu 2 ysgol newydd yn lleihau cost y pen ar draws yr ardal o £5,137 i £4,699 sydd islaw'r gost gyfartalog o £4,869 i'r Awdurdod.<br><br>Arbedion net blynyddol o oddeutu £169k [ yn llai o gostau llog ar fenthyciad cyfalafol]. | **6** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sicrhau y bydd adeiladau ysgol yn creu'r amgylchedd dysgu gorau posibl | Cyfleusterau addysgu a dysgu o'r ansawdd uchaf o fewn yr adeilad a thu allan.<br><br>Mannau chwarae priodol<br><br>Mannau staffio a gweinyddu priodol<br><br>Cyfleusterau TGaCh o'r radd flaenaf | Bydd sefydlu ysgolion newydd yn arwain at welliant yn yr amgylchedd dysgu. Byddai cyfleusterau dosbarth yn cynnwys dosbarthiadau o faint digonol, golau naturiol da, toiledau o ansawdd yn agos i'r dosbarthiadau ayyb. Byddai ardaloedd wedi eu cynllunio ar gyfer addysgu a dysgu yn cael eu lleoli yn ymyl y dosbarth.<br><br>Mannau chwarae un-pwrpas wedi eu cynllunio ar gyfer disgyblion o wahanol oedrannau.<br><br>Byddai lle addas ar gyfer y Pennaeth a'r staff gweinyddol, ystafell staff a lle ar gyfer cyfnodau CPA athrawon .<br><br>Byddai gan yr ysgol adnoddau TGaCh wedi eu rhwydweithio a gyfunir yng nghynllun pob dosbarth. | **10** |
| Sicrhau bod adeiladau ysgol mewn cyflwr da ac nad oes materion iechyd a diogelwch | Bydd cyflwr yr adeiladau'n lleihau costau cynnal a chadw ar lefel arwynebedd.<br><br>Materion iechyd a diolgelwch:<br><br>1. Mynediad i'r safle a sicrwydd yr adeilad<br>2. Parcio ar gyfer staff, rhieni ac ymwelwyr<br>3. Cyffredinol | Byddai sefydlu ysgolion newydd yn dileu ôl-lwyth cynnal a chadw. Byddai hefyd yn gyfle i sefydlu cyfundrefn fel nad oes ôl groniad cynnal a chadw'n hel.<br><br>Byddai cynllun yr ysgol newydd yn sicrhau yr ymroir yn briodol i faterion diogelwch mewn perthynas â'r adeilad o'r cychwyn.<br><br>Byddai'r cynllun yn rhoi sylw dyledus i'r drafnidiaeth ar y safle er mwyn sicrhau diogelwch plant / cerddwyr.<br><br>Byddai hefyd yn rhoi sylw dyledus i faterion mewn perthynas â pharcio ar gyfer ymwelwyr ac ar gyfer pwyntiau gollwng asddas ar gyfer bysiau. | **10** |
| Cynyddu capasiti arweinyddol | Capasiti'r ysgol i ddarparu amser di-gyswllt digonol.<br><br>Capasiti i allu darparu dirprwy a thîm rheoli. | Rhagwelir y byddai pennaeth ysgol o 150 yn addysgu am beth o'r amser.<br><br>Yn ychwanegol, mewn ysgolion o'r maint hwn, ceir yn arferol dîm rheoli bychan. | **8** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Defnydd cymunedol o adeilad ysgol | Darpariaeth gyn ac ar ôl ysgol e.e. clybiau brecwast, gweithgareddau ar ôl ysgol, clwb gwarchod plant<br><br>Gweithgareddau haf a phenwythnos<br><br>Darpariaeth gymunedol i hybu gweithgareddau cymunedol sy'n cynnwys rhieni, aelodau'r gymuned a grwpiau lleol. | Byddai cyfleusterau yn yr ysgol newydd yn addas iawn ar gyfer clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol a gweithgareddau eraill y tu allan i oriau ysgol.<br><br>Byddai'r adnoddau'n briodol iawn ar gyfer gweithgareddau cymunedol e.e. hyrwyddir neuadd o faint digonol ar gyfer y gweithgareddau gan y Gymuned, Neuadd addas ar gyfer gweithgareddau megis ffitrwydd e.e. badminton. | **10** |
| Darparu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog | Blaenoriaeth i gryfhau ac amddiffyn yr addysg Gymraeg a dwyieithog. | Byddai hyn yn sicrhau bod ymrwymiad llawn i unrhyw benodiadau newydd i'r ysgol i adeiladu ymhellach ar y sylfaen gref a osodwyd yn yr ardal ac sy'n gyfredol mewn perthynas â'r defnydd o hyfedredd Cymraeg a dwyieithog . | **10** |
| Ffactorau Daearyddol a theithio | Pellter teithio<br><br>Cyfeiriad teithio<br><br>Costau cludiant | Mae sefydlu dwy ysgol newydd yn golygu llai o deithio nag i un ysgol newydd ond byddai'n cynyddu'r pellter teithio ar gyfer tua 150 o blant. Mae amser teithio'n debygol o fod yn llai nag i un ysgol. Mae nifer y plant sy'n cerdded i'r ysgol yn debygol o fod yn uwch nag i ysgol sengl e.e. pe bai'r ysgolion newydd wedi eu lleoli yn Niwbwrch a Llanddaniel yna byddai oddeutu traean o'r plant yn gallu cerdded i'r ysgol; mae hyn yn gyfan gwbl ddibynnol ar y dewis o safle ar gyfer yr ysgol newydd e.e. pe bai un ysgol newydd wedi ei lleoli yn Niwbwrch yna byddai oddeutu traean o'r plant mewn sefyllfa i gerdded i'r ysgol gyda'r gweddill yn teithio ar fysiau.<br><br>Mae modd hefyd y byddai cyfeiriad teithio i'r ysgolion newydd yn groes i gyfeiriad teithio i'r gwaith y rhieni.<br><br>Byddai costau cludiant (£63,080) yn uwch na chostau cyfredol ond mae'r rhain eisoes wedi eu cynnwys yn yr arbedion refeniw. | **6** |
| **Cyfanswm** | | | **75** |

Tudalen 143

**Opsiwn B4 - Un ysgol dan RW yn lle ysgolion Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran a Llangaffo, gadael Parc y Bont a ffedereiddio Ysgol Brynsiencyn**

| Gyrwyr | Meini prawf o fewn y gyrrwr | Sylwadau | Sgôr |
|---|---|---|---|
| Codi safonau addysgol | Maint [100 neu fwy]<br><br>Capasiti'r tîm arweinyddol i sicrhau gwelliannau<br><br>Athrawon gyda mwy o arbenigedd mewn ardaloedd penodol, sydd yn ei dro'n dylanwadu ar arferion athrawon eraill<br><br>Lleihau nifer y dosbarthiadau oedran cymysg gyda mwy na 2 grŵp oedran.<br><br>Codi safonau ymhellach. | Byddai'r ysgol newydd yn darparu ar gyfer oddeutu 180 o blant a byddai Ysgolion Parc y Bont a Brynsiencyn yn aros.<br><br>Yn ôl fformiwla'r Awdurdod, byddai hyn yn arwain at sefyllfa lle byddai gan y Pennaeth gyfrifoldeb addysgu am ran o'r wythnos yn yr ysgol newydd. Rhagwelir y byddai ysgol o'r maint hwn yn gallu cynnal tîm rheoli o fwy na dau unigolyn fyddai'n helpu codi safonau.<br><br>Byddai hyd at 6 dosbarth yn yr ysgol o 180, 4 dosbarth ym Mharc y Bont a 2 neu 3 dosbarth yn Ysgol Brynsiencyn. Byddai hyn yn rhannol yn darparu cyfle i athrawon unigol i weithredu fel arweinyddion ar yfer datblygu llythrennedd a rhifedd ac mewn pynciau unigol.<br><br>Byddai dosbarthiadau o oedran cymysg yn y 3 ysgol.<br><br>Rhagwelir y byddai ysgoli 180 disgybl yn gallu cynnig mwy o hyblygrwydd i gyfarfod ag anghenion plant unigol a fyddai yn ei dro yn codi safonau ar draws yr ystod gallu. | **6** |
| Lleihau lleoedd dros ben | Cyfrannu at leihau lleoedd dros ben drwy'r Awdurdod fel bod lleoedd dros ben yn 15% drwy'r Awdurdod ac yn 10% mewn ysgolion unigol<br><br>Ysgolion unigol yn fwy na 85% o lawn | Byddai'r opsiwn hwn yn arwain at leihau 94 mewn lleoedd dros ben ar draws yr ardal – a byddai'r ysgol newydd wedi ei chynllunio i fod â dim mwy na 10% o leoedd dros ben. Byddai'r opsiwn hwn yn lleihau lleoedd dros ben ar draws y 6 ysgol i 15% a byddai'r ysgol newydd dros 90% yn llawn. Fodd bynnag, byddai lleoedd dros ben yn aros yn uchel ( 37% ar hyn o bryd) yn Ysgol Brynsiencyn. Byddai'r lleoedd dros ben ar gyfer yr Awdurdod hefyd yn cael eu lleihau i 12%. Un perygl o hyn fyddai pe bai rhai rhieni'n dewis ceisio am le ar gyfer eu plentyn mewn ysgol y tu allan i dalgylch yr ysgol newydd. | **7** |

Tudalen 144

| | | | |
|---|---|---|---|
| Lleihau'r amrywiad yng nghost y disgybl | Lleihau'r amrywiad yng nghost y pen drwy'r Awdurdod ac ar draws yr ardal fel bod cost y disgybl yn nes at gyfartaledd yr Awdurdod.<br><br>Mae hyn yn arwain at arbedion ariannol drwy hefyd ddefnyddio'r gyllideb yn fwy effeithiol ac effeithlon | Byddai sefydlu dwy ysgol newydd yn lleihau cost y pen ar draws yr ardal o £5,137 i £4,640 sydd yn is na'r cyfartaledd o £4,869 ar gyfer yr Awdurdod.<br><br>Arbedion net blynyddol o oddeutu £145k pe bai Ysgol Brynsiencyn yn cael ei ffedereiddio gydag ysgol lle nad yw'r pennaeth yn addysgu Byddai'n arwain at arbedion net o£118k pe bai Ysgol Brynsiencyn yn cael ei ffedereiddio gydag ysgol lle mae gan y pennaeth 50% o amser di-gyswllt [Llai o gostau llog ar fenthyciad cyfalafol]. | **B2a-7**<br><br>**B2b-6** |
| Sicrhau y bydd adeiladau ysgol yn creu'r amgylchedd dysgu gorau posibl | Cyfleusterau addysgu a dysgu o'r ansawdd uchaf yn yr adeilad a thu allan.<br><br>Mannau chwarae priodol<br><br>Mannau staffio a gweinyddu priodol<br><br>Cyfleusterau TGaCh o'r radd flaenaf | Byddai sefydlu'r ysgol newydd yn arwain at wella yn yr amgylchedd dysgu. Byddai cyfleusterau dosbarth yn cynnwys dosbarthiadau o faint digonol, golau naturiol da, toiledau da ei hansawdd yn agos i'r dosbarthiadau ayyb. Byddai mannau wedi eu cynllunio ar gyfer addysgu a dysgu wedi eu lleoli ger y dosbarth.<br>Mannau chwarae un pwrpas wedi eu cynllunio ar gyfer disgyblion o wahanol oedrannau.<br>Yn yr ysgol newydd, byddai lle addas ar gyfer y Pennaeth a'r staff gweinyddol, ystafell staff ac ystafell ar gyfer cyfnodau CPA athrawon. Fodd bynnag, ni fyddai cynllun cyffredinol Ysgol Brynsiencyn yn newid llawer.<br><br>Byddai gan yr ysgol newydd adnoddau TGaCh wedi eu rhwydweithio sydd wedi eu hintegreiddio yng nghynllun pob dosbarth. | **8** |
| Sicrhau bod adeiladau ysgol mewn cyflwr da ac nad oes unrhyw faterion iechyd a diogelwch | Bydd cyflwr yr adeiladau yn lleihau costau cynnal a chadw ar y lefel ardal.<br><br>Materion iechyd a diogelwch:<br><br>1. Mynediad i'r safle a diogelwch adeilad<br>2. Parcio i staff, rhieni ac ymwelwyr<br>3.Cyffredinol | Byddai sefydlu ysgol newydd yn dileu llwyth cynnal a chadw wedi hel. Byddai llwyth cynnal a chadw wedi hel ar gyfer Ysgol Brynsiencyn yn cael ei glirio pe dewisid yr opsiwn hwn a gwneid peth ailfodelu.<br><br>Byddai cynllun yr ysgol newydd yn sicrhau yr eir i'r afael yn briodol â materion diogelwch mewn perthynas â'r adeilad o'r cychwyn.<br>Byddai'n cynllun yn rhoi sylw dyledus i'r drafnidiaeth ar y safle er mwyn sicrhau diogelwch plant / cerddwyr. Byddai hefyd yn rhoi sylw dyledus i faterion mewn perthynas â pharcio ar gyfer ymwelwyr neu ar gyfer pwynt gollwng addas i fysys. | **9** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynyddu gallu arweinyddol | Capasiti'r ysgol i ddarparu amser di-gyswllt digonol.<br><br>Capasiti i allu darparu dirprwy a thîm rheoli. | Rhagwelir na fyddai Pennaeth ysgol o 180 yn addysgu am beth o'r amser. Yn ychwanegol, mewn ysgolion o faint cyffelyb ceir yn arferol dîm rheoli bychan. Ym Mrynsiencyn a Pharc y Bont, byddai'r penaethiaid yn dal i addysgu. | **6** |
| Defnydd cymunedol o adeilad yr ysgol | Darpariaeth gyn ac ar ôl ysgol e.e. clybiau brecwast, gweithgareddau ar ôl ysgol, clwb gwarchod plant<br><br>Gweithgareddau haf a phenwythnos<br><br>Darpariaeth gymunedol i hybu gweithgareddau cymunedol sy'n cynnwys rhieni, aelodau cymunedol a grwpiau lleol. | Byddai cyfleusterau yn yr ysgol newydd yn addas iawn ar gyfer clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol a gweithgareddau eraill y tu allan i oriau ysgol.<br><br>Byddai'r adnoddau'n briodol iawn ar gyfer gweithgareddau cymunedol e.e. byddai neuadd o faint digonol ar gyfer y gweithgareddau i'r Gymuned, Neuadd addas ar gyfer gweithgareddau megis ffitrwydd e.e. badminton. Ym Mrynsiencyn a Pharc y Bont, byddai'r sefyllfa'n debygol yn aros yr un fath yn y cyswllt hwn. | **10** |
| Darparu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog | Blaenoriaeth i gryfhau ac amddiffyn y Gymraeg ac addysg ddwyieithog. | Byddai hyn yn sicrhau bod unrhyw benodiadau newydd i'r ysgol yn llwyr ymroddedig i adeiladu ymhellach ar y sylfaen gref sydd wedi ei gosod yn y maes ac yn gyfredol mewn perthynas â'r defnydd o Gymraeg a hyfedr dwyieithog. | **10** |
| Ffactorau Daearyddol a theithio | Pellter teithio.<br><br>Cyfeiriad teithio<br><br>Costau cludiant | Byddai sefydlu ysgol newydd yn cynyddu'r pellter teithio ar gyfer tua 100 o blant. Mae nifer y plant sy'n cerdded i'r ysgol yn debygol o fod yn uwch nag ar gyfer ysgol sengl e.e. pe bai'r ysgolion newydd wedi eu lleoli yn Niwbwrch a Llanddaniel yna byddai oddeutu traean o'r plant yn gallu cerdded i'r ysgol; mae hyn yn gyfan gwbl ddibynnol ar y dewis o safle ar gyfer yr ysgol newydd e.e. pe bai un ysgol newydd wedi ei lleoli yn Niwbwrch yna byddai oddeutu traean o'r plant mewn sefyllfa i gerdded i'r ysgol gyda'r gweddill yn teithio ar fws.<br><br>Mae modd hefyd y byddai cyfeiriad teithio i'r ysgolion newydd yn wahanol i gyfeiriad teithio i'r gwaith y rhieni.<br><br>Byddai costau cludiant (£46,360) yn uwch na'r costau presennol ond mae'r rhain eisoes wedi eu cynnwys yn yr arbedion refeniw. | **6** |
| **Cyfanswm** | | | **B4a-69**<br>**B4b-67** |

Yn ogystal â'r ffactorau yn y tablau uchod, mae angen ystyried ffactorau ariannol e.e. costau cyfalaf a derbynion cyfalaf gael eu hystyried, eu sgorio a'u ffactoreiddio i ddadansoddiad pob opsiwn. Mae arbedion refeniw eisoes wedi cael eu harfarnu.

## 17. YSTYRIAETHAU ARIANNOL

17.1 Mae pob un o'r 9 opsiwn wedi eu gwerthuso o safbwynt ariannol. Mae'r canlynol wedi cael eu hystyried ar gyfer pob opsiwn - costau cyfalaf, arbedion refeniw, costau cludiant, derbyniadau cyfalaf a chostau benthyca.

17.2 Opsiwn A1: Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Bodorgan, Brynsiencyn, Niwbwrch a Dwyran ynghyd ag Ysgol Parc Y Bont estynedig i gynnwys Llangaffo.

| Opsiwn | Cost gyfalaf | Arbedion refeniw | Costau cludiant | Derbyniadau cyfalaf |
|---|---|---|---|---|
| **A1** | £5,952,400 | £231,959 | £65,930 | £743,000 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Arbedion net | £166,029 | Cost prosiect net | £5,209,400 |
| | | Cost i'w hariannu | £2,233,200 |

Yr arbedion net a amcangyfrifwyd o'r opsiwn hwn yw £166,029 ac amcangyfrif o gost net y prosiect yw £5,209,400. Bydd costau benthyca, i wasanaethu'r £2,233,200 o fenthyg nas cynhelir, yn cyrraedd ei anterth ar £175,455 y.f. yn 2020/21.

17.3 Opsiwn A2: Ysgol newydd ar gyfer Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran ac un ysgol estynedig ar gyfer Llangaffo a Pharc Y Bont a ffedereiddio Brynsiencyn.

O fewn yr opsiwn hwn, mae modd y gellid ffedereiddio Ysgol Brynsiencyn gydag ysgolion gwahanol. Ar gyfer opsiwn A2a, tybir y byddai Ysgol Brynsiencyn yn cael ei ffedereiddio gydag ysgol lle nad oes gan y pennaeth **unrhyw** gyfrifoldebau addysgu. Ar gyfer opsiwn A2b, cymerir yn ganiataol y byddai Ysgol Brynsiencyn yn cael ei ffedereiddio gydag ysgol lle mae gan y pennaeth **rai** cyfrifoldebau addysgu. Ar gyfer opsiwn A2b, byddai goblygiadau cost gan y byddai angen staff ychwanegol i ryddhau'r pennaeth fel na fyddai ganddo/ganddi unrhyw gyfrifoldebau addysgu.

| Opsiwn | Cost gyfalaf | Arbedion refeniw | Costau cludiant | Derbyniadau cyfalaf |
|---|---|---|---|---|
| **A2a** | £5,447,000 | £185,091 | £49,210 | £418,000 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Arbedion net | £185,091 | | |
| | £ 49,210 | | |
| | £135,881 | Cost prosiect net | £5,029,000 |
| | | Cost i'w hariannu | £2,305,500 |

Amcangyfrif o'r arbedion net o'r opsiwn hwn yw £135,881 ac amcangyfrif o gost net y prosiect yw £5,029,000. Bydd costau benthyg, i wasanaethu £2,305,000 o fenthyg nas cynhelir yn cyrraedd ei anterth ar oddeutu £181,135 y.f. yn 2020/21.

| Opsiwn | Cost gyfalaf | Arbedion refeniw | Costau cludiant | Derbyniadau cyfalaf |
|---|---|---|---|---|
| **A2b** | £5,447,000 | £157,684 | £49,210 | £418,000 |

| | |
|---|---|
| Arbedion net | £157,684 |
| | £ 49,210 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| £108,474 | | Cost net y prosiect | £4,029,000 |
| | | Cost i'w hariannu | £2,305,500 |

Amcangyfrif o'r arbedion net o'r opsiwn yw £108,474 ac amcangyfrif o gost net y prosiect yw £5,029,000. Bydd costau benthyca, i wasanaethu'r £2,305,000 o fenthyg nas cefnogir yn cyrraedd ei anterth ar oddeutu £181,135 y.f. yn 2020/21.

17.4 Opsiwn B1: Ysgol newydd ar gyfer Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran, Llangaffo ac un ysgol estynedig ar gyfer Parc y Bont a Brynsiencyn

| Opsiwn | Cost gyfalaf | Arbedion refeniw | Costau cludiant | Derbyniadau cyfalaf |
|---|---|---|---|---|
| **B1** | £5,952,400 | £231,959 | £63,080 | £743,000 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Arbedion net | £231,959 | | |
| | £ 63,080 | | |
| | £168,889 | Cost net y prosiect | £5,209,400 |
| | | Cost i'w hariannu | £2,233,200 |

Amcangyfrif o'r arbedion net o'r opsiwn hwn yw £168,889 ac amcangyfrif o gost net y prosiect yw £5,209,400. Bydd costau benthyca, i wasanaethu £2,233,200 o fenthyca nas cynhelir, yn cyrraedd anterth ar oddeutu £175,455 y.f. yn 2020/21.

17.5 Opsiwn B2: Ysgol newydd ar gyfer Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran, Llangaffo a Pharc Y Bont i aros fel ag y mae a ffedereiddio Ysgol Brynsiencyn.

O fewn yr opsiwn hwn, mae modd ffedereiddio Ysgol Brynsiencyn gydag ysgolion gwahanol. Ar gyfer opsiwn B2a, cymerir yn ganiataol y byddai Ysgol Brynsiencyn wedi ei ffedereiddio gydag ysgol lle nad oes gan y pennaeth **unrhyw** gyfrifoldebau addysgu. Ar gyfer opsiwn B2b, cymerir yn ganiataol y byddai Ysgol Brynsiencyn yn cael ei ffedereiddio gydag ysgol lle byddai gan y pennaeth **rai** cyfrifoldebau addysgu. Ar gyfer opsiwn B2b, byddai goblygiadau cost gan y byddai angen staff ychwanegol i ryddhau'r pennaeth fel na fyddai ganddo/ganddi unrhyw gyfrifoldebau addysgu

| Opsiwn | Cost gyfalaf | Arbedion refeniw | Costau cludiant | Derbyniadau cyfalaf |
|---|---|---|---|---|
| **B2a** | £4,700,400 | £191,819 | £46,360 | £418,000 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Arbedion net | £191,819 | | |
| | £ 46,360 | | |
| | £145,459 | Cost net y prosiect | £4,282,400 |
| | | Cost i'w hariannu | £1,932,200 |

Yr amcangyfrif o'r arbedion net o'r opsiwn hwn yw £145,459 ac amcangyfrif o gost net y prosiect yw £4,282,400. Bydd costau benthyg, i wasanaethu £1,932,200 o fenthyciad nas cefnogir, yn cyrraedd ei anterth ar oddeutu £151,807 y.f. yn 2020/21.

| Opsiwn | Cost gyfalaf | Arbedion refeniw | Costau cludiant | Derbyniadau cyfalaf |
|---|---|---|---|---|
| **B2b** | £4,700,400 | £164,412 | £46,360 | £418,000 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Arbedion net | £164,412 | | |
| | £ 46,360 | | |
| | £118,052 | Cost net y prosiect | £4,282,400 |

Cost i'w hariannu £1,932,200

Amcangyfrif o'r arbedion net o'r opsiwn hwn yw £118,052 ac amcangyfrif cost net y prosiect yw £4,282,400. Bydd costau benthyg i wasanaethu'r £1,932,200 o fenthyg nas cefnogir, yn dod i'w anterth ar oddeutu £151,807 y.f. yn 2020/21.

17.6 Opsiwn B3: Ysgol newydd ar gyfer Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran, Llangaffo (RhW) ac un ysgol estynedig ar gyfer Parc y Bont a Brynsiencyn

| Opsiwn | Cost gyfalaf | Arbedion refeniw | Costau cludiant | Derbyniadau cyfalaf |
|---|---|---|---|---|
| **B3** | £5,952,400 | £231,959 | £63,080 | £743,000 |

Arbedion net £231,959
£ 63,080
£168,889

Cost net y prosiect £5,209,400
Cost i'w hariannu £2,233,200

Amcangyfrif o'r arbedion net o'r opsiwn hwn yw £168,889 ac amcangyfrif o gost net y prosiect yw £5,209,400. Bydd costau benthyg, i wasanaethu £2,233,200 o fenthyciad nas cefnogir, yn dod i'w anterth ar oddeutu £175,455 y.f. yn 2020/21.

17.7 Opsiwn B4: Ysgol newydd ar gyfer Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran, Llangaffo a Pharc Y Bont i aros fel ag y mae a ffedereiddio Ysgol Brynsiencyn.

Y gwahaniaeth rhwng opsiynau B2a a B4a yw lleoliad yr ysgol dan R W.
O fewn yr opsiwn hwn, mae modd y gellid ffedereiddio Ysgol Brynsiencyn gydag ysgolion gwahanol. Ar gyfer opsiwn B4a, cymerir yn ganiataol y byddai Ysgol Brynsiencyn yn cael ei ffedereiddio gydag ysgol lle **nad** oes gan y pennaeth gyfrifoldebau addysgu. Ar gyfer Opsiwn B4b, cymerir yn ganiataol y byddai Ysgol Brynsiencyn yn cael ei ffedereiddio gydag ysgol lle bo **gan** y pennaeth gyfrifoldebau addysgu. Ar gyfer opsiwn B4b, byddai oblygiadau cost gan y byddai angen staff ychwanegol i ryddhau'r pennaeth fel na fyddai ganddo/ganddi unrhyw gyfrifoldebau addysgu.

| Opsiwn | Cost gyfalaf | Arbedion refeniw | Costau cludiant | Derbyniadau cyfalaf |
|---|---|---|---|---|
| **B4a** | £4,700,400 | £191,819 | £46,360 | £418,000 |

Arbedion net £191,819
£ 46,360
£145,459

Cost net y prosiect £4,282,400
Cost i'w hariannu £1,932,200

Amcangyfrif o'r arbedion net o'r opsiwn hwn yw £145,459 ac amcangyfrif o gost net y prosiect yw £4,282,400. Bydd costau benthyg, i wasanaethu'r £1,932,200 o fenthyciad nas cynhelir, yn dod i anterth ar oddeutu £151,807 y.f. yn 2020/21.

| Opsiwn | Cost gyfalaf | Arbedion refeniw | Costau cludiant | Derbyniadau cyfalaf |
|---|---|---|---|---|
| **B4b** | £4,700,400 | £164,412 | £46,360 | £418,000 |

Arbedion net £164,412

| | | | |
|---|---|---|---|
| £ 46,360 | | | |
| £118,052 | | Cost net y prosiect | £4,282,400 |
| | | Cost i'w hariannu | £1,932,200 |

Amcangyfrif o'r arbedion net o'r opsiwn hwn yw £118,052 ac amcangyfrif o gost net y prosiect yw £4,282,400. Bydd cost benthyca, i wasanaethu'r £1,932,200 o fenthyca nas cynhelir, yn cyrraedd ei anterth ar oddeutu £151,807 y.f. yn 2020/21.

**Nodyn** – Nid yw cost y ffigurau cynnal a chadw ar gyfer yr ysgolion wedi eu cymryd i ystyriaeth.

17.8 Cyflwynir isod grynodeb o'r ffigurau a gyflwynir yn adrannau 17.2 – 17.7 uchod.

| Opsiwn | Cost ar gyfer arian CSYM | Arbedion net | Cost anterth benthyg 2020-21 |
|---|---|---|---|
| A1 | £2,233,200 | £166,029 | £175,455 |
| A2a | £2,305,500 | £135,881 | £181,135 |
| A2b | £2,305,700 | £108,474 | £181,135 |
| B1 | £2,233,200 | £168,889 | £175,455 |
| B2a | £1,932,200 | £145,459 | £151,807 |
| B2b | £1,932,200 | £118,052 | £151,807 |
| B3 | £2,233,200 | £168,889 | £175,455 |
| B4a | £1,932,200 | £145,459 | £151,807 |
| B4b | £1,932,200 | £118,052 | £151,807 |

Mae'r ffigurau'n dangos y bydd opsiynau B2a, B2b, B4a a B4b, sef

- Opsiwn B2a: Ysgol newydd ar gyfer Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran, Llangaffo a Pharc Y Bont i aros fel ag y mae a ffedereiddio Ysgol Brynsiencyn gydag ysgol lle nad oes gan y pennaeth **unrhyw** gyfrifoldebau addysgu.
- Opsiwn B2b: Opsiwn newydd ar gyfer Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran, Llangaffo a Pharc Y Bont i aros fel ag y mae a ffedereiddio Ysgol Brynsiencyn gydag ysgol lle mae gan y pennaeth **ychydig** o gyfrifoldebau addysgu.
- Opsiwn B4a: Ysgol newydd ar gyfer Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran, Llangaffo a Pharc Y Bont (RhW) i aros fel ag y mae a ffedereiddio Ysgol Brynsiencyn gydag ysgol lle nad oes gan y pennaeth **unrhyw** gyfrifoldebau addysgu.
- Opsiwn B4b:Ysgol newydd ar gyfer Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran, Llangaffo (RhW) a Pharc Y Bont i aros fel ag y mae a ffedereiddio Ysgol Brynsiencyn gydag ysgol lle mae gan y pennaeth **ychydig** o gyfrifoldebau addysgu.

fyddai'r opsiynau mwyaf fforddiadwy y byddai angen i CSYM eu hariannu, sydd â'r costau benthyca anterth isaf ond nid o angenrheidrwydd yr arbedion uchaf.

Yn ogystal, dylid sgorio ffactorau ariannol , yn enwedig yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, Cafodd y gost i CSYM i'w gyllido a'r gost benthyca anterth eu sgorio fel a ganlyn:

| **Cost i CSYM ei gyllido** | **Sgôr** |
|---|---|
| Hyd at £2,000,000 | 10 |
| £2,000,000 i £2,250,000 | 5 |
| £2,250,000 i £2,500,000 | 1 |

| | |
|---|---|

| **Cost benthyca anterth 2020-21** | **Sgôr** |
|---|---|
| Hyd at £160,000 | 10 |
| £160,000 i £170,000 | 7 |
| £170,000 i £180,000 | 4 |
| Dros £180,000 | 1 |

17.9 The table below summarises the information in the above analysis.

| | **Opsiwn** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gyrwyr / Ffactorau** | **A1** | **A2a** | **A2b** | **B1** | **B2a** | **B2b** | **B3** | **B4a** | **B4b** |
| 1. Codi safonau addysgol | 6 | 5 | 5 | 7 | 6 | 6 | 7 | 6 | 6 |
| 2. Lleihau nifer y llefydd gweigion | 9 | 8 | 8 | 8 | 7 | 7 | 8 | 7 | 7 |
| 3. Lleihau'r amrywiaeth mewn cost y disgybl | 8 | 8 | 7 | 8 | 7 | 6 | 6 | 7 | 6 |
| 4. Sicrhau bod adeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu orau bosib | 10 | 9 | 9 | 10 | 8 | 8 | 10 | 8 | 8 |
| 5. Sicrhau bod adeiladau ysgol mewn cyflwr da ac nad oes materion iechyd a diogelwch | 10 | 10 | 10 | 10 | 9 | 9 | 10 | 9 | 9 |
| 6. Cynyddu capasiti arweinyddiaeth | 7 | 7 | 7 | 8 | 6 | 6 | 8 | 6 | 6 |
| 7. Defnydd cymunedol o'r adeilad | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 |
| 8. Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 |
| 9. Ffactorau daearyddol a theithio | 6 | 8 | 8 | 6 | 6 | 6 | 6 | 6 | 6 |
| 10. Cost for IoACC to finance | 5 | 1 | 1 | 5 | 10 | 10 | 5 | 10 | 10 |
| 11.Peak borrowing cost 2020-21 | 4 | 1 | 1 | 4 | 10 | 10 | 4 | 10 | 10 |
| **Total** | **85** | **77** | **76** | **86** | **89** | **88** | **85** | **89** | **88** |

Mae'r sgoriau ar gyfer ffactorau 4, 5, 7 ac 8 yn debyg iawn gan fydd yr ysgolion newydd yn sicrhau bod materion penodol sy'n ymwneud ag adeiladau ysgolion, materion iechyd a diogelwch, defnydd cymunedol a darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn cael yr un effaith bynnag fydd y drefniadaeth derfynol.

17.10 The figures show that options B2a and B4a, namely

- Opsiwn B2a: Ysgol newydd ar gyfer Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran, Llangaffo a Pharc Y Bont i aros fel ag y mae a ffedereiddio Ysgol Brynsiencyn gydag ysgol lle nad oes gan y pennaeth **unrhyw** gyfrifoldebau addysgu.
- Opsiwn B4a: Ysgol newydd ar gyfer Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran, Llangaffo a Pharc Y Bont (RhW) i aros fel ag y mae a ffedereiddio Ysgol Brynsiencyn gydag ysgol lle nad oes gan y pennaeth **unrhyw** gyfrifoldebau addysgu.

sydd â'r sgôr uchaf.

Yr unig wahaniaeth rhwng opsiynau B2a a B4a yw lleoliad yr ysgol dan R W yr Eglwys yng Nghymru. Yn opsiwn B2b, byddai Ysgol Parc y Bont yn aros fel ysgol dan R W yr Eglwys yng Nghymru. Byddai'r ysgol gynradd newydd yn ne orllewin Môn yn ysgol dan R W yr Eglwys yng

Nghymru os daw opsiwn B4a i fodolaeth. Mae mân wahaniaethau rhwng ysgol gymunedol ag ysgol dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru. Mae rhai o'r rhain wedi'u hamlinellu isod:

Agweddau sy'n gyffredin gydag ysgolion eraill
Fel gydag unrhyw ysgol arall, mae angen i ysgol wirfoddol a reolir i

- ddilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol;
- cyflwyno Addysg Grefyddol fel rhan o'r cwricwlwm yn dilyn y Maes Llafur Cytunedig Ynys Môn;
- cynnal gweithred ddyddiol o addoli ar y cyd (sef cynnal gwasanaeth bob dydd ar gyfer yr ysgol gyfan, mewn adrannau neu fesul dosbarth);
- meithrin gwerthoedd moesol ac ysbrydol yn ogystal ag egwyddorion eraill megis parch at eraill;
- hysbysu rhieni o'u hawl i dynnu'r plentyn o'r addoli ar y cyd ac o Addysg Grefyddol os dymunant.

Gwahaniaethau mewn ysgol gynradd dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru

- Mae lleiafrif o lywodraethwyr yn cael eu penodi i'r Corff Llywodraethu gan yr Eglwys yng Nghymru yn dilyn canllawiau statudol.
- Mae addoli ar y cyd yr ysgol a chymeriad Cristnogol yn cael ei gefnogi a'i fonitro gan yr Eglwys yng Nghymru.
- Gofynnir i'r Pennaeth gefnogi a datblygu'r ysgol fel ysgol eglwys a'i chymeriad a gwerthoedd Cristnogol. Rhestrir rhai o'r gwerthoedd Cristnogol isod:
- Cynhwysiant, sef cyfle sef cyfartal i bawb, hyrwyddo lles pob dysgwr ac yn annog pobl ifanc i gyflawni eu llawn botensial,
- Cyfle i ddisgyblion ystyried y dimensiwn ysbrydol i fywyd,
- Parchu cefndir ei gilydd drwy annog pobl ifanc i ddarganfod a deall beth sydd ganddynt yn gyffredin, meithrin agwedd gadarnhaol tuag at amrywiaeth o gredoau.

Dylid nodi bod y rhain yn werthoedd sy'n cael eu datblygu yn y chwe ysgol dan sylw ac yn dangos bod y gwahaniaeth rhwng ysgol wirfoddol a reolir ac ysgol gymunedol yn fach iawn.

17.11 I grynhoi, fel nodwyd yn adran 6, mynegodd Llywodraethwyr Ysgol Brynsiencyn ddiddordeb mewn gweithio mewn partneriaeth ag ysgol arall, fyddai'n golygu cadw'r ysgol ar y safle presennol ond o dan strwythur rheoli gwahanol. Pwysleisiodd y Llywodraethwyr hefyd bod % sylweddol o ddisgyblion yn cerdded i'r ysgol [fel sy'n wir ar gyfer Niwbwrch] profwyd hyn yn yr arolwg traffig. Gellid ymgorffori'r awgrym hwn yn yr ail-gyflunio drwy ffederaleiddio, yn swyddogol, Brynsiencyn gydag ysgol arall. Byddai hyn yn arwain at Frynsiencyn yn dod yn rhan o ysgol arall gydag un corff llywodraethol ac un gyllideb - un ysgol ar ddau safle. Rhestrir y rhesymau dros ystyried yr opsiwn hwn isod.

- Amserau teithio. Os caeir Ysgol Brynsiencyn a'r disgyblion yn cael eu trosglwyddo i'r ysgol newydd yn Niwbwrch, byddai'r amser teithio o Frynsiencyn i Niwbwrch yn golygu codi disgyblion ar hyd y ffordd yn Dwyran a lleoedd eraill ac yn golygu y gallai'r amser teithio fod yn agos at y terfyn amser uchaf a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, h.y. 45 munud.
- Mae canran uchel o ddisgyblion ym Mrynsiencyn yn cerdded i'r ysgol ac mae cynaliadwyedd yn fater pwysig i Lywodraeth Cymru. Mae'r ddogfen "**Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned** - Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru" o fis Mai 2009 yn dweud: "Rydym yn awyddus i gynyddu canran y plant sy'n cerdded i'r ysgol i gyfateb i gyfartaledd y DU".
- Mae ffigurau o Gyfrifiad Ysgolion 2014 yn dangos bod 30% o ddisgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim - mae hyn y cydradd uchaf yn yr ardal. Mae'r mesur hwn yn cael ei ystyried yn

gyffredinol fel mesur o amddifadedd. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd o 21.4% ar gyfer ysgolion cynradd Ynys Môn ac yn uwch na chyfartaledd Cymru (20.8%). Byddai hyn yn tueddu i gefnogi'r pwynt a godwyd gan rai rhieni ym Mrynsiencyn nad oes car gan lawer. Byddai hefyd yn tueddu i gryfhau'r ddadl bod Ysgol Brynsiencyn yn ysgol ar gyfer y gymuned.

- Mae canran y siaradwyr Cymraeg ym Mrynsiencyn yr uchaf allan o'r 6 ysgol dan ystyriaeth ar 72%. Byddai hyn yn cefnogi'r gyrrwr 'darpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Gymraeg' ar gyfer newid a fanylwyd arno yn adran 2 yr adroddiad hwn.
- Taith i Landdaniel. Os caewyd Ysgol Brynsiencyn ac mae'r disgyblion yn cael eu trosglwyddo i Ysgol Parc y Bont wedi'i hail-fodelu, byddai angen bws 50 sedd ar gyfer cludo disgyblion. Fodd bynnag, byddai'r bws yn teithio ar ffordd ddi-ddosbarth i Landdaniel. Er bod y ffordd yn "gyffredinol yn fwy na 4 metr o led" yn ôl mapiau Arolwg Ordnans, nid yw'n ffordd ddelfrydol.
- Ystyriwyd trefniadau traffig o amgylch yr ysgol i fod yn ddiogel.
- Caiff yr ysgol ei defnyddio'n eang gan y gymuned, er enghraifft gan glwb pêl-droed y pentref, cyngor cymuned, etholiadau, partion a gweithgareddau eraill. Byddai cau Ysgol Brynsiencyn yn golygu colli'r cyfleuster hwn ar gyfer y gymuned.
- Fel yr amlinellir yn adran 16 o'r adroddiad, byddai
  - Byddai cost net y prosiect yn 3.5% yn llai (£5,209,400 minws £5,029,000) ar gyfer yr opsiwn 2c o'i gymharu ag opsiwn 2. Mewn geiriau eraill, ni fyddai'r ysgol newydd yn y rhan orllewinol De-orllewin Ynys Môn yn costio cymaint oherwydd ni fyddai angen iddo ddarparu ar gyfer cymaint o ddisgyblion. Fodd bynnag, byddai angen gwaith ailfodelu ar Parc y Bont;
  - Byddai arbedion net yn 4% yn llai (£219,000 minws £210,000) ar gyfer yr opsiwn 2c o'i gymharu ag opsiwn 2;
  - Byddai uchafswm costau benthyca yn 1% yn llai (£190,000 minws £188,000) ar gyfer yr opsiwn 2c o'i gymharu ag opsiwn 2;
  - Byddai cost angen i'r Awdurdod i ariannu opsiwn 2c (£2,305,500) yn 3% yn uwch nag ar gyfer opsiwn 2 (£2,233,200).

Gellid cynnwys Ysgol Llangaffo fel rhan o Parc y Bont wedi'i hail fodelu. Prif anfantais yr opsiwn hwn yw'r seilwaith ffordd rhwng Llangaffo a Llanddaniel. Mae hyn yn adlewyrchu pryder Adran Addysg Esgobaeth Bangor na fyddai rhieni o Langaffo yn dewis Parc y Bont oherwydd ddaearyddiaeth leol, seilwaith ffyrdd a'r duedd amlwg i deithio i'r gogledd tuag at yr A55, yn hytrach na dwyrain neu'r gorllewin. Fodd bynnag, dylid nodi canfyddiadau'r holiadur rhieni, sef mai statws yr ysgol oedd y pumed ffactor pwysicaf i rieni disgyblion yn Ysgol Llangaffo.

O ystyried yr uchod, awgrymir mai'r opsiynau dewisol yw opsiynau B2a a B4a.

## 18. ARGYMHELLIAD

18.1 Byddai lleoli un o'r ysgolion newydd yn ardal Niwbwrch yn golygu bod tua thraean o'r plant yn gallu cerdded i'r ysgol. Awgrymir y dylai'r ysgol ardal hon gymryd lle'r ysgolion presennol yn Niwbwrch a Dwyran [gan fod y ddwy ysgol eisoes yn gweithredu fel ffederasiwn], Bodorgan [gan fod % fawr o ddisgyblion yn byw ym mhentref Malltraeth ac mae'r ffordd gyswllt yn dda] ac o bosibl Llangaffo [gan fod % sylweddol o ddisgyblion yn yr ysgol gyda chodau post Niwbwrch ac mae'r cyswllt ffordd yn dda] a Brynsiencyn [fel y cyswllt ffordd i'r ardal Niwbwrch yn dda]. Byddai lleoliad yn ardal Niwbwrch hefyd yn gyfleus i lawer o rieni o Niwbwrch ac o bosibl Malltraeth sy'n teithio ar y B4421 tuag at yr A55 i'w gwaith. Fodd bynnag, dylid nodi bod nifer fawr o rieni Llangaffo yn byw o fewn cod post Niwbwrch. Byddai Brynsiencyn yn dod yn rhan o ffederasiwn ble nad oes gan y pennaeth unrhyw gyfrifoldeb dysgu.

18.2 Byddai parhau’r ddarpariaeth yn Ysgol Parc y Bont yn sicrhau byddai'r rhai sy’n byw yn Llanddaniel ac yn yr ardal o gwmpas yr A4080 yn gallu mynychu eu hysgol dalgylch. Yn ogystal, os yw'r dynodiad presennol fel Eglwys yng Nghymru am barhau, yna gallai'r disgyblion yn y Llangaffo presennol ddewis mynychu'r ysgol. Yn y cyd-destun hwn, byddai angen addasu safle presennol Parc Y Bont i fynd i'r afael â'r materion traffig a nodwyd ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol.

18.3 Gofynnir i’r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol argymell cymeradwyo naill ai opsiwn B2a neu B4a i’r Pwyllgor Gwaith:

- Opsiwn B2a: Ysgol newydd ar gyfer Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran, Llangaffo a Pharc Y Bont i aros fel ag y mae a ffedereiddio Ysgol Brynsiencyn gydag ysgol lle nad oes gan y pennaeth **unrhyw** gyfrifoldebau addysgu.
- Opsiwn B4a: Ysgol newydd ar gyfer Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran, Llangaffo a Pharc Y Bont (RhW) i aros fel ag y mae a ffedereiddio Ysgol Brynsiencyn gydag ysgol lle nad oes gan y pennaeth **unrhyw** gyfrifoldebau addysgu.

Er hynny, byddai hyfywdra parhaol Ysgol Brynsiencyn yn ddibynnol ar gynnal nifer hyfyw o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol.

ATODIAD 1 / APPENDIX 1

# Cyngor Cymuned BODORGAN Community Council

[redacted]

[redacted]

22ain Gorffennaf 2015

Rheolwr Rhaglen
Adran Addysg Gydol-oes
Parc Mownt
Ffordd Glanhwfa
LLANGEFNI
Ynys Môn
LL77 7EY

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
27 JUL 2015
ADRAN ADDYSG A HAMDDEN
DERBYNIWYD/RECEIVED

Annwyl Syr,

**Parthed Ysgol Gymuned Bodorgan**

Yn ei cyfarfod neithiwr, trafododd aelodau y Cyngor eich dogfen ymgynghoriad yn ymwneud ac ysgolion cynradd de orllewin Môn.
Roeddent yn unfrydol ei barn i wrthwynebu unrhyw gynnig i gau yr ysgol leol a diddymu yn llwyr unrhyw ddarpariaeth o addysg yn y gymuned wledig ddifreintiedig hon. Mae hwn yn gam mawr yn ôl ac yn adlewyrchu y sefyllfa a oedd yn bodoli ddau can mlynedd yn ôl.
Mae yn gwbl amlwg fod swyddogion y cyngor sir wedi llwyr anwybyddu dymuniadau rhiant yr ardal, sydd yn awyddus i gadw darpariaeth yn lleol, ond wedi ei gwneud yn hollol eglur na fydd ei plant yn cael ei symud i ysgol newydd yn Niwbwrch. Teimlant y byddai hynny yn risg o ddadleniad i ymddygiad gwrth gymdeithasol.

Hefyd, mae yn amlwg eich bod wedi llwyr anwybyddu anghenion cymunedol yr ardal yma, ac mae unrhyw awgrym y buasai anghenion ardal Bodorgan yn cael ei bodloni trwy ddatblygu cyfleusterau cymunedol mewn adeilad newydd o fewn cymuned arall yn gwbl chwerthinllyd. Mae y diffyg gweithredu corfforaethol o fewn y Cyngor Sir mewn materion gwledig, yn sicr o arwain tuag at ddinistr cefn gwlad Môn.

Fe fuasai yr aelodau yn awgrymu eich bod yn sicrhau fod eich ffeithiau yn gywir gogyfer a phob elfen cyn gwneuthur penderfyniad terfynol
Oherwydd nad ydi sefyllfa y ganolfan gymunedol eto yn eglur, mae yn gwbl bosib na fydda na lawer o arbediad ariannol yn dilyn o gau yr ysgol leol, os y bydd yn eglur fod yn rhaid i'r Cyngor Sir gadw at ymrwymiad y cytundeb cyfreithiol sydd yn ymwneud ar ganolfan,

Yn gywir,

[redacted] Cadeirydd, Cyngor Cymuned BODORGAN .

APPENDIX 2 / ATODIAD 2

**Canolfan Gymunedol BODORGAN Community Centre**

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

1 5 JUL 2015

ADRAN ADDYSG A HAMDDEN
DERBYNIWYD RECEIVED

[redacted]

14th July 2015

Programme Manager
Department of Lifelong Learning
Isle of Anglesey County Council
Park Mount
Glanhwfa Road
LLANGEFNI
Ynys Mon. LL77 7EY

Dear Sir,

Re: Bodorgan Community School

We write to register our total opposition to the proposed closure of the above named community school. We do so in the knowledge, that in all probability the letter will be disregarded by both the officers and the Executive of the authority who appear to treat the electorate with contempt.

The authority itself must bear responsibility for the low numbers of pupils attending the school, as your actions over the last six years have unsettled parents who require certainty for their children; together with your inactions in dealing with the issues recently highlighted by Estyn.

You clearly have ignored the parents, who have made it abundantly clear that they will not permit their children to be educated at Newborough. They have no wish to expose their children to the social issues of that area. Your mutterings about the location of the new school as yet to be decided is a joke and another example of the electorate being treated as idiots.

The Community Impact Assessment is a piece of pure fiction, containing numerous inaccuracies, the "loss" of one Bodorgan village and a ludicrous conclusion. The provision of community facilities within a new building at Newborough will be of no use to Bodorgan, and we are confident that organisations that currently exist in this area will fold rather than move to Newborough. In short you will be responsible for the destruction of a community.

I also refer to the unresolved legal issues regarding the Bodorgan Community Centre, as if the matter is settled in the favour of the management committee the authority will have a significant cost burden, which could be with them or their successors until 2087. The only savings emanating from the closure of this school would be the salaries of the staff.

I have copied this letter to our two ward councillors for their information,

Yours faithfully,

[redacted] [redacted] Chairman

Elusen Rhif/Charity No – 700192
Cadeirydd/Chairman – Mr D Jones, Morlais, Malltraeth, Bodorgan, LL62 5AT.
Ysgrifennydd/Secretary – Mrs S Prytherch, Bryn Ffynnon, 9 Argraig, Hermon, Bodorgan, LL62 5LG.

ATODIAD 3 / APPENDIX

# Malltraeth Ymlaen 'cyf'

[redacted]

[redacted]

23rd July 2015

Programme Manager
Dept. of Lifelong Learning
Park Mount
Glanhwfa Road
LLANGEFNI
LL77 7EY

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
24 JUL 2015
ADRAN ADDYSG A HAMDDEN
DERBYNIWYD/RECEIVED

Dear Sir,

Re: Bodorgan Community School, Anglesey.

I am instructed to write on behalf of the Bodorgan Community group to lodge our objection to the proposed closure of this invaluable community facility. Such a step is a retrograde move insofar as the provision of education in rural communities is concerned.
We have little confidence in the ability of the local authority to preserve and enhance such communities as all the evidence points in the opposite direction. The authority appears to concentrate on self-interest (officers and members) and some perverse fiscal priorities, ahead of community interests and even education.
The fact that the school in Brynsiencyn receives special consideration in most of the options put forward begs a question. Could the fact that one member of the executive who might be reliant on the electors of Brynsiencyn be a factor? This is <u>not</u> an allegation, merely an innocent question.
The parents of Bodorgan have made their position very clear – they will not allow their children to attend school at Newborough. This because they do not wish impressionable youngsters to be exposed to the social problems that exist there. Indeed, a number of Newborough parents have already moved their children to schools in other areas, and probably not to return. Yet, your plans have made no allowance for the foregoing, so to plough ahead with a new school with vacant places designed in appears ludicrous to us.
Your community impact assessment is nothing more than a sick joke. It contains numerous inaccuracies, and the conclusion beggar's belief. Bodorgan organisations will just not attend community facilities in Newborough, but will be terminated. In short, you will destroy a vibrant community.
The legal issues regarding the Bodorgan Community Centre are yet to be resolved, and in the event of their being resolved in the favour of the community, the authority will retain a heavy financial burden until 2087 at the earliest,

Yours faithfully,

[redacted] Chairman.

MALLTRAETH YMLAEN cyf – a company limited by guarantee. Registered in England & Wales, Reg No 5902143. Reg Office – Bodorgan Community Centre, Bodorgan, Anglesey, LL62 5AB.

Atodiad 4

# Ysgol Gynradd Brynsiencyn

## Ymateb Corff Llywodraethol Brynsiencyn i'r Ddogfen Ymgynghori Statudol Ardaloedd Bro Rhosyr a Bro Aberffraw 22 Mehefin – 2 Awst 2015

Mae'r Corff Llywodraethol wedi astudio'n fanwl yr Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015 ac yna'r Ddogfen Ymgynghori Statudol a ddaeth allan ar 22 Mehefin 2015. Maen't yn gwneud y sylwadau canlynol sydd yn ychwanegol i'r sylwadau a wnaed yn yr ymateb i'r Ymgynghoriad Anstatudol.

Fel y dywedwyd eisoes mae Brynsiencyn yn gymuned glos, gyda sawl cenhedlaeth o deuluoedd yn byw yn y pentref, sy'n gefn mawr i rieni i gasglu plant o'r ysgol sy'n sâl ac yn y blaen, petai'r angen. Wrth symud y plant i ysgol tu allan i'r pentref, mae'r cyfle i wneud hyn yn cael ei golli gan nad oes gan bob teulu y modd i gasglu'r plant sydd unai'n sâl neu eisiau cymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol sydd yn rhan bwysig o fywyd yr ysgol ar hyn o bryd. Mae hyn yn rhoi'r teuluoedd sydd dan anfantais yn barod ac sydd angen ein cymorth tan fwy o anfantais. Dywedwyd mae un o'r rhesymau dros ffederaleiddio oedd diogelu ysgolion mewn cymunedau fel hyn.

Ym Mis Mehefin 2015, fe lansiwyd " Wynebu'r her gyda'n gilydd (YGaTh): Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd i ysgolion yng Nghymru" gan Huw Lewis y Gweinidog Addysg, pecyn i ysgolion i hyrwyddo ymrwymiad teuluol a'r gymuned leol fel rhan holl bwysig o addysg plant. Mae'r pecyn wedi cael ei ddatblygu i ysgolion gydnabod y rôl bwysig sydd gan ein teuluoedd a'r gymuned leol i godi safonnau ein plant ac yn enwedig y disgyblion sydd gyda chefndir difreintiedig. Pwysleisiwyd hyn gan Mr. Lewis yn ei araith agoriadol "Nid wyf wedi newid fy safiad ar hyn ers pan oeddwn yn athro, pan welais yr effaith gref mae cynnwys teuluoedd mewn addysg yn ei gael ar y plant. Mae ymchwil yn dangos bod y cyswllt teuluol yma yn cael chwe gwaith mwy o effaith ar gyrhaeddiad plant na gwahaniaeth mewn ansawdd yr ysgol. Bydd y pecyn hyfforddi yn gymorth i ysgolion i ddatblygu perthynas agos a chynhyrchiol rhwng teuluoedd a'r gymuned leol. O ganlyniad mae'n rhaid i hyn fod yn rhan o'n gwaith i wella safonnau yn ein hysgolion**."**

Mae rhifau y plant sydd yn cael cinio am ddim ym Mrynsiencyn, sydd yn fesur cydnabyddedig o amddifadedd, yn arwydd o statws llawer o'n plant. Mae yn hanfodol ein bod yn lleihau y bwlch cyrhaeddiad rhwng dysgwyr o gefndir difreintiedig ac eraill ac mae ymrwymo teuluoedd yn addysg eu plant yn ffordd bwerus o godi safonnau a lles yn ein hysgolion. Mae'n llawer haws ymrwymo

teuluoedd sy'n dod i'r ysgol yn ddyddiol gyda'u plant na chyda theuluoedd sydd yn rhoi eu plant ar fws bob dydd a thrwy hynny yn colli'r cyswllt pwysig hwn gyda'r ysgol. Mae perthynas glos yn bodoli ar hyn o bryd rhwng ein staff a'n teuluoedd ac rydym yn sicr y byddai hyn yn wahanol wrth symud y plant i ysgol ymhell o'r pentref lle na fyddai'r teuluoedd yn dod i adnabod y staff mor hawdd. Mae hyn yn ddadl dros ffederaleiddio a chadw ysgolion bach yn y gymuned fel modd o godi a chadw safonnau sydd yn un o brif amcanion y Rhaglen Moderneiddio.

Mae aelodau staff yr ysgol yn gwerthfawrogi budd cydweithio'n agos gyda'r ysgolion eraill yn ein "Teulu". Mae'r cydweithio rhwng ysgolion yn ddull amrhisiadwy o datblygu'n broffesiynol, rhannu gwybodaeth ac adnoddau ac yn ffordd i'r plant gyfarfod efo plant eraill mewn lleoliadau gwahanol er mwyn cael ystod eang o brofiadau. Ymwelodd ysgol leol â Brynsiencyn yn ddiweddar er mwyn cael cyfle i wneud gwaith gwyddoniaeth gan nad oedd ganddynt amgylchedd cyffelyb yn eu hysgol. Byddai ffederaleiddio yn gyfle mwy ffurfiol i rannu sgiliau, adnoddau ac arbenigaeth rhwng ysgolion. Fe fyddai'n bosibl cael cydlynwyr pynciau ar draws ysgolion fyddai'n lleihau baich cyfrifoldeb athrawon mewn ysgol fechan sydd yn gyfrifol am sawl pwnc.

Un o'r pryderon a godwyd yn gyson yn y cyfarfodydd moderneiddio ydi'r proffeil oedran penaethiaid cynradd a'r diffyg o ymgeisiwyr am swyddi gwag. Mae hyn wedi bod yn un o'r dadlau ynglyn â chael ysgolion mawr. Mae pennaeth sydd yn addysgu mewn ysgol fach yn cynnal dwy swydd sef addysgu'n ardderchog ac arwain ysgol yr un modd, gyda diffyg amser i gyflawni disgwyliadau naill rôl na'r llall. Mae ffederaleiddio yn un ffordd o ddod dros hyn ac ar yr un pryd rhoi cyfle i staff yr ysgol fach ddatblygu eu sgiliau arweinyddol er mwyn sicrhau carfan o benaethiaid yn y dyfodol. Yn ychwanegol mae 'na gyfle i rannu'r staff gweinyddol ar draws ysgolion i wneud defnydd da o adnoddau dynol, sgiliau ac arbenigaeth.

Mae ffederaleiddio yn rhoi'r cyfle i gadw cymeriad unigol yr ysgol. Mae iaith a diwylliant cryf Cymreig yn Ysgol Brynsiencyn gyda 72% o'r plant yn siarad Cymraeg adref sydd y maint uchaf allan o'r ysgolion yn yr ardal dan sylw. Mae cadw'r iaith yn gryf yn bwysig i'r teuluoedd, y staff a'r llywodraethwyr ac 'rydym yn poeni y byddai'r pwyslais gref hon yn cael ei wanhau mewn ysgol gyda llai o blant gyda mamiaith Gymreig. Mae Cylch Meithrin annibynnol dan nawdd Mudiad Ysgolion Meithrin yn defnyddio ystafell yn yr ysgol. Mae hyn y rhoi cyfle ardderchog i'r plant ieuengaf ddechrau ar eu siwrnai addysgol drwy'r Gymraeg. Os byddai'r ysgol yn cau, mae'r Cylch yn debygol o fod yn ddi-gartref. Os nad oes gan y rhieni y modd i deithio allan o'r pentref fe fyddai'r cyfle i ddatblygu ac ehangu sgiliau iaith y plant yn cael eu colli. Un o yrrwyr newid allweddol y Rhaglen Moderneiddio yw "Darpariaeth y Gymraeg a Dwyieithrwydd", ac mae'r pwyslais cryf ar ddefnyddio'r Gymraeg ym Mrynsiencyn yn cefnogi hyn. Mae Llywodraethwyr Ysgol Brynsiencyn eisoes wedi dangos diddordeb mewn gostwng oedran mynediad i'r ysgol i gydymffurfio a'r rhan fwyaf o ysgolion Ynys Môn ac rydym yn bendant y byddai'r rhieni yn croesawu hyn.

Mae’r rhan fwyaf o blant Brynsiencyn yn cerdded i’r ysgol, ac mae lleoliad yr ysgol, yn gyfagos i ganol y pentref a mwyafrif o gartrefi’r plant, yn annog hyn. Mae mynediad i gerddwyr ar wahân i’r brif fynedfa yn golygu bod y plant yn gallu dod i mewn i’r ysgol yn ddiogel heb fod yn agos i gerbydau a thrafnidiaeth y ffordd fawr. Mae cerdded i’r ysgol o fudd i’r plant am amrhyw o resymau, mae’n dda er lles iechyd a’r amgylchedd, mae’n hwyl ac yn gyfle i gymdeithasu gyda ffrindiau. Mae’n arbed arian, datblygu annibyniaeth ac yn hybu sgiliau diogelwch ffyrdd tra ar yr un pryd yn datblygu gwybodaeth am eu hamgylchedd leol. Mae dogfen Llywodraeth Cymru “ One Wales : One Planet” gyda’r nod i annog mwy o bobl i gerdded a beicio yn fwy diogel ac yn fwy aml. Maen’t yn awyddus i gynyddu y ganran o blant sydd yn cerdded i’r ysgol i fod yn gyffelyb i’r cyfartaledd yn y D.U. Mae’r “ National Travel Survey 2011” yn dangos bod 49% o blant rhwng 5 a 10 yn cerdded i’r ysgol. Roedd hyn yn is na’r 53% ym 1995 -97. Dangosodd yr arolwg gan Adran Priffyrdd yr Awdurdod bod 69% o blant ym Mrynsiencyn yn cerdded ar un diwrnod a 76% yn cerdded i’r ysgol ar yr ail ddiwrnod. Dywedwyd hefyd bod trefniant traffig tu allan i’r ysgol yn dda ac yn ddiogel i’r plant. Mae’r ganran sy’n cerdded i’r ysgol yn aml yn llawer mwy na hyn, yn ddibynnol ar y tywydd ac amgylchiadau personol y teuluoedd.

Ystyriaeth arall sy’n gysylltiedig a cherdded i’r ysgol yw faint o amser a gymer i deithio o Frynsiencyn i Niwbwrch os byddai Ysgol Brynsiencyn yn cau a’r ysgol newydd yn cael ei leoli yn ardal Niwbwrch. Fe fyddai’n rhaid codi plant ar y ffordd ac, fel y dywedwyd yn Adroddiad mis Mawrth, fe fyddai’n debygol y byddai’r siwrnai yn agos at y 45 munud macsimwm penodedig gan Lywodraeth Cymru i blant bach. Nid yw’r mwyafrif o’n teuluoedd yn hapus chwaith bod plant bach o bedair oed yn teithio i’r ysgol ar eu pen eu hunain ar fws.

Ar y llaw arall, os byddai plant Brynsiencyn yn cael eu symud i Ysgol Llanddaniel fel awgrymwyd yn Opsiwn B, fe fyddai’n rhaid iddynt deithio mewn bws 50 o seddi ar ffordd gul iawn heibio safle Meithrinfa Siwgr Plwm lle mae rhieni yn mynd a’u plant yn y bore ar y ffordd i’w gwaith – mae hyn yn gonsyrn mawr i’r rhieni yma ac i rieni plant Siwgr Plwm. Ni fyddai hyn yn ddelfrydol nac yn ddiogel. Fel y datgelwyd yn yr adroddiad gan yr Adran Priffyrdd i’r Pwyllgor Gwaith, mae’r fynedfa a’r ffordd gerllaw Ysgol Parc y Bont yn orlawn yn y boreau a’r prynhawn. Buasai angen newid sylweddol a chostus i drethdalwyr Môn i wneud y safle yn ddiogel gyda digon o le i fysiau a’r nifer uchel o geir sydd yn dod a’r 36% o blant alldalgylch i’r ysgol. Nid yw’n debygol y byddai trethdalwyr Llanddaniel yn hoffi gweld mwy o draffig yn y pentref sydd yn orlawn yn barod yn ystod amseroedd prysur yn y bore a’r prynhawn. Dyma ddadl gref eto dros gadw Ysgol Brynsiencyn yn agored.

Mae’r Llywodraethwyr yn gwerthfawrogi’r ffaith bod yr Awdurdod wedi cynnwys opsiwn i Ffederaleiddio Ysgol Brynsiencyn yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol ac yn ddiolchgar am y cyfle i baratoi tystiolaeth ychwanegol i gefnogi hyn.

Serch hynny, mewn cyfarfod diweddar mynegwyd siom nad oedd Swyddogion yr Awdurdod Lleol wedi derbyn y gwahoddiad a roddwyd iddynt ym Mehefin 2014 i ymweld a safle’r ysgol gyda’r posibilrwydd o ymestyn yr adeilad i ddal mwy o blant. Y rheswm a roddwyd oedd nac yw’r safle yn ddigon mawr. Mae hyn yn

syndod gan fod y safle tua 11,400$m^2$ gyda'r posibilrwydd o brynu ychwaneg o dir gan fod yna gaeau ar ddwy ochr o'r ysgol. Fe fyddwn yn ddiolchgar os gallai'r Awdurdod esbonio'n fwy clir os yw'r syniad hwn wedi cael unrhyw sylw yn ystod yr Ymgynghoriad?

Mae'r criteria i Ysgolion yr 21ain Ganrif yn Adroddiad Mis Mawrth yn son am bwysigrwydd y safle allanol sy'n angenrheidiol i ysgol newydd. Mae hyn yn un o nodweddion arbennig y safle yma ym Mrynsiencyn, safle sydd yn ddigon mawr, sydd yn gyfoethog o ran holl ofynion allanol addysg y disgyblion, safle sydd eisoes ym mhortffolio'r Awdurdod ac yn osgoi cost ychwanegol i drethdalwyr Môn. Rydym yn sylweddoli nad yw Brynsiencyn yn hollol ganolig i'r ysgolion dan sylw, yn enwedig Ysgol Bodorgan sydd ymhellach i ffwrdd, ond eto mae'n safle hwylus sydd mor agos i'r A4080, y brif ffordd tuag at yr A55, gyda mynediad diogel a digon o le i geir a bysiau fynd a dod. Cefnogir hyn gan Adroddiad Diogelwch Teithio yr Adran Priffyrdd yn eu hadroddiad i'r Pwyllgor Gwaith.

Fe fyddai'r Corff Llywodraethol yn croesawu Ffederaleiddio fel opsiwn gyda'r sicrwydd y byddai arian ar gael i wneud yn siwr bod yr adeilad a'r adnoddau yn gymwys i anghenion Ysgol 21ain Ganrif. Mae safle Brynsiencyn yn cyflawni sawl o'r anghenion sydd wedi eu rhestru yn Atodiad 1 o'r Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith. Maen't yn cynnwys

Cyfleusterau addas ar gyfer y Cyfnod Sylfaen

Cyfleoedd rhyfeddol ar gyfer dysgu allanol

Neuadd Ysgol o faint digonol

Ardal ddiogel o fewn tir yr ysgol

Iard addas i blant chwarae

Diogelwch - Ffens diogel o gwmpas yr ysgol

Diogelwch - Mynedfa ar wahan i gerddwyr a cherbydau

Diogelwch - Man llwytho a dadlwytho bysiau

Mae llawer mwy gan gynnwys athrawon a staff ategol ymrwymedig sy'n gweithio'n galed bob amser a Llywodraethwyr brwdfrydig a chefnogol. Rydym yn meddwl mae'r opsiwn ddelfrydol fyddai adeiladu'r ysgol newydd ym Mrynsiencyn ond rydym yn ymwybodol nad oedd hyn yn opsiwn yn y ddogfen ymgynghori.

Wrth ystyried yr arian sydd ar gael i uwchraddio Ysgol Brynsiencyn yn rhan o opsiwn ffederaleiddio dylai'r pwyntiau canlynol gael sylw.

- Nid oes angen ysgol mor fawr yn ardal Niwbwrch felly fe fyddai arbedion cyllidol yno.

- Os nad yw Brynsiencyn yn uno gyda Parc y Bont, fel yn Opsiwn B fe fyddai arbedion sylweddol yn cynnwys arbedion trafnidiaeth fel safle ddiogel i fysiau a cheir
- Hefyd arbedion yn y gost parhaol o gludo plant o Frynsiencyn i Parc y Bont.

Mae'n sicr y byddai'r arbedion yma yn ffactorau pwysig i drethdalwyr Môn ac hefyd ein haelodau etholedig yn enwedig mewn cyd-destyn a chyfyngiadau economaidd cyfredol. Wrth edrych ar yr opsiynau penodol yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol byddwn yn ffafrio'r opsiwn i ffederaleiddio gydag ysgol mawr gyda Pennaeth llawn amser di-gyswllt (opsiwn B2a neu B4a) a fyddai'n gwneud yr arbedion mwyaf a chost effeithlon.

Mae lles plant a theuluoedd Brynsiencyn yn holl bwysig i Lywodraethwyr Ysgol Brynsiencyn fel mae'n sicr, sy'n wir am Swyddogion yr Awdurdod Addysg Lleol. Rydym eisiau gweld ein plant yn cyflawni eu potensial ac yn unigolion cytbwys hapus sy'n mwynhau dysgu fel ffordd o fyw. Gyda'r buddsoddiad cywir, rydym yn credu y byddai gan Ysgol Brynsiencyn ddyfodol llewyrchus ac fe fyddai'n opsiwn atyniadol i rieni newydd o'r gymdogaeth yn y dyfodol. Byddai'n cyfuno buddion addysg 21$^{ain}$ Ganrif gydag amgylchedd sy'n wirioneddol lleol, yn gynaliadwy a chyda gwreiddiau ddiwylliannol Cymreig o fewn sefydliad sydd yn ddigon mawr i fod yn llwyddiannus ond yn ddigon bach i ofalu.

Gobeithiwn feithrin plant ym Mrynsiencyn fydd, yn y dyfodol, mor falch o'u cynefin a'u rhieni, neiniau a theidiau ac aelodau'r gymuned sy'n brwydro mor galed dros gadw ysgol yng nghalon y pentref. Gobeithiwn y bydd Swyddogion ac Aelodau Etholedig o'r Cyngor Sir yn gwerthfawrogi hyn ac yn teimlo'n debyg.

Ar ran Llywodraethwyr Ysgol Brynsiencyn.

[redacted]
Cadeirydd

29$^{ain}$ Gorffennaf 2015

ATODIAD 5 / APPENDIX 3

CYNGOR CYMUNED LLANIDAN
LLANIDAN COMMUNITY COUNCIL

[redacted]

[redacted]

Gorffennaf 6ed, 2015

[redacted]
Rheolwr Rhaglen
Adran Addysg Gydol Oes
Parc Mownt
Ffordd Glanhwfa
LLANGEFNI
LL77 7EY

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
- 7 JUL 2015
ADRAN ADDYSG A HAMDDEN
DERBYNIWYD/RECEIVED

Annwyl Syr,

**YMGYNGHORIAD STATUDOL – ARDALOEDD BRO RHOSYR A BRO ABERFFRAW (Mehefin22ain – Awst 2ail, 2015) PARTHED: YSGOL GYNRADD BRYNSIENCYN**

Ysgrifennaf atoch ar ran Cyngor Cymuned Llanidan yn dilyn ein cyfarfod ar Mehefin 30ain, 2015 ynglŷn â'r uchod.

Cyfeiriaf at fy llythyr dyddiedig Rhagfyr 18ed, 2014 i chi mewn perthynas a'r Ymgynghoriad Anstatudol (copi amgaeëdig) a dymunaf ddwyn i'ch sylw fod y Cyngor Cymuned yn cadarnhau cynnwys y llythyr.

Pasiwyd i mi eich hysbysu fod y Cyngor Cymuned yn datgan yn gryf ac yn unfrydol ei fod eisiau cadw'r ysgol gynradd ym Mrynsiencyn ac yn cefnogi'r opsiwn o ffederaleiddio.
Yr eiddoch yn gywir,

[redacted]

[redacted] Clerc Cyngor Cymuned Llanidan

ATODIAD 5 / APPENDIX 5

CYNGOR CYMUNED LLANIDAN
LLANIDAN COMMUNITY COUNCIL

[redacted]

[redacted]

Rhagfyr 18ed, 2014

[redacted]
Rheolwr Rhaglen
Adran Addysg Gydol Oes
Parc Mownt
Ffordd Glanhwfa
LLANGEFNI
LL77 7EY

Annwyl Syr,

**YMGYNGHORIAD ANSTATUDOL – ARDALOEDD BRO RHOSYR A BRO ABERFFRAW (Tachwedd 17 – Rhagfyr 21, 2014) PARTHED: YSGOL GYNRADD BRYNSIENCYN**

Ysgrifennaf atoch ar ran Cyngor Cymuned Llanidan i ddiolch i chi a`r tim am fynychu`r cyfarfod ar Rhagfyr 16, 2014 i egluro`r sefyllfa a`r opsiynau ar gyfer dyfodol addysg gynradd yn yr ardal.

Trafodwyd y mater gan y Cyngor mewn cyfarfod arbennig a phasiwyd fy mod yn eich hysbysu fod y Cyngor yn gryf o blaid cadw`r ysgol ym Mrynsiencyn ond yn fodlon gweld ffederaleiddio fel y ffordd ymlaen yn wyneb y sefyllfa sydd ohoni.
Cefnogir y sylwadau yn y ddogfen gan y Llywodraethwyr.

Gweler isod y prif resymau dros gadw`r ysgol ym Mrynsiencyn:

- Mae`n ysgol gymunedol sydd yn cael ei defnyddio a`i chefnogi yn dda gan y trigolion lleol
- Lleolir yr ysgol yn agos at ystad o dai ar ochr ffordd gymharol ddistaw ac mae digonedd o le i ehangu yn y dyfodol
- Mae nifer sylweddol o`r plant (72%) yn dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg fel iaith gyntaf ac mae`r rhieni yn falch o gymeriad ac ysbryd Cymraeg cryf sydd yn amlwg yn yr ysgol

- Mae nifer fawr (oddeutu 90%) o`r disgyblion yn cerdded i`r ysgol ac nid yw`r rhieni yn fodlon i`w plant orfod teithio mewn bws i ysgol arall.

- Cynigir cyfleoedd i`r plant fynychu gweithgareddau allgyrsiol heb orfod teithio. Mae hyn yn bwysig oherwydd fod 30% o`r plant yn derbyn prydau ysgol am ddim

- Defnyddir yr adeilad gan Fudiad Ysgolion Meithrin a thrwy hynny rhoir cyfle i`r plant lleiaf gyfarwyddo ag amgylchedd yr ysgol

- Yn dilyn y cyfarfod cyhoeddus yn y pentref ffurfiwyd Grwp Gweithredu sydd, mae`n debyg, ag aelodaeth o 500 erbyn hyn. Dengys hyn fod y teimladau cryf yn lleol yn cael eu hadlewyrchu yn y nifer o aelodau sydd gan y Grwp

- Nid yw`n deg cymharu ffigyrau `gwariant y pen` mewn ardal wledig fel hon gyda ardaloedd trefol

- Petai`n rhaid i`r plant deithio i ysgol arall sydd ddim o angenrheidrwydd yn ddewis y rhieni, yna bydd y rhieni mwy difreintiedig (sydd heb fodur dyweder) o dan anfantais oherwydd y bydd eu dewis wedi ei gyfyngu

Yr eiddoch yn gywir,

[redacted] Cyngor Cymuned Llanidan

ATODIAD 6
APPENDIX 6

ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
20 JUL 2015
ADRAN ADDYSG A HAMDDEN
...WYD/RECEIVED

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Ysgol Gynradd Llangaffo
[redacted]

Annwyl [redacted]

Dymunwn gyflwyno yr isod fel ymateb i'r cynnig ar gyfer ad-drefnu Ysgolion Cynradd Ardal Bro Rhosyr a Bro Aberffraw.

Carem nodi ein tristwch a'n siom fod y cyngor wedi dod i'r penderfyniad yma a hynny yng ngwyneb y ffaith fod ystadegau a manylion presenol yr Ysgol mor gadarnhaol.

<u>Barn am leoliad yr Ysgol newydd</u>
Opsiwn A – Mae'r lôn o safle bresenol ysgol Llangaffo i safle bresenol Ysgol Parc y Bont, Llanddaniel yn lôn fechan droellog. Mae gennym bryder am ddiogelwch a hygyrchedd y daith. Pe byddai'r rheini/bws yn teithio ar y brif lôn yna byddent yn pasio Ysgol Esgeifiog ar eu taith. Mae'n debygol y byddai rhai yn dewis trosglwyddo eu plentyn i Ysgol Esgeifiog.

Opsiwn B – Mae niferoedd clwb brecwast Llangaffo yn uchel, gyda nifer o'r rhieni yn gadael eu plant yn yr Ysgol ar eu ffordd i'r gwaith. Nid ydym yn credu y byddai'r rhieni hyn yn barod i deithio "am yn ôl" i fynd i Ysgol – byddant yn fwy tebygol o fynd yn eu blaenau i Ysgolion eraill sydd yn agos at yr A5.

Mae hawl gan rieni i ddewis ysgol ar gyfer eu plentyn. Mae nifer helaeth o'n disgyblion eisioes yn blant all-ddalgylch a'n pryder yw y byddai'r rhieni yn dewis mynd a'u plant i ysgolion eraill sy'n nes at yr A5.

Canlyniad hyn yw y byddai llefydd gweigion o fewn yr Ysgol/ ysgolion newydd. Pendraw hyn yw na fyddai angen cynifer o staff yn yr Ysgol/ ysgolion "newydd."

Mae'n bryder gennym, gan fod yr argymhelliad yn nodi y bydd Ysgol Llangaffo yn cau, y byddai rhai rhieni yn symud eu plentyn yn gynt er mwyn sicrhau lle oddi mewn i Ysgol o'u dewis.

<u>Barn am bellter teithio</u>
Ni ddylai plant deithio yn fwy nag sydd yn rhesymol iddynt ei wneud.

<u>Barn am statws grefyddol</u>
Y mae naws ac ethos Gristnogol yr Ysgol yn bwysig i holl aelodau'r staff.

Credwn y dylai'r statws Eglwysig ddilyn Ysgol Llangaffo. H.y gyda pha bynnag Ysgol/ ysgolion y bydd Ysgol Llangaffo yn uno, dylai'r Ysgol honno fod yn Ysgol Eglwys.

Hyderwn y bydd trafodaeth fanwl ar y pwyntiau uchod cyn cyrraedd unrhyw benderfyniad.

Yn Gywir

[redacted]

Ar ran staff Ysgol Llangaffo

ATODIAD 7
APPENDIX 7

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
20 JUL 2015

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**Ysgol Gynradd Llangaffo**

[redacted]

LLANGAFFO

Annwyl [redacted]

Dymunwn gyflwyno yr isod fel ymateb i'r cynnig ar gyfer ad-drefnu Ysgolion Cynradd Ardal Bro Rhosyr a Bro Aberffraw.

Carem nodi ein tristwch a'n siom fod y cyngor wedi dod i'r penderfyniad yma a hynny yng ngwyneb y ffaith fod ystadegau a manylion presenol yr Ysgol mor gadarnhaol.

**<u>Barn am leoliad yr Ysgol newydd</u>**

Opsiwn A – Mae'r lôn o safle bresenol ysgol Llangaffo i safle bresenol Ysgol Parc y Bont, Llanddaniel yn lôn fechan droellog. Mae gennym bryder am ddiogelwch a hygyrchedd y daith. Pe byddai'r rheini/bws yn teithio ar y brif lôn yna byddent yn pasio Ysgol Esgeifiog ar eu taith. Mae'n debygol y byddai rhai yn dewis trosglwyddo eu plentyn i Ysgol Esgeifiog.

Opsiwn B – Mae niferoedd clwb brecwast Llangaffo yn uchel, gyda nifer o'r rhieni yn gadael eu plant yn yr Ysgol ar eu ffordd i'r gwaith. Nid ydym yn credu y byddai'r rhieni hyn yn barod i deithio "am yn ôl" i fynd i Ysgol – byddant yn fwy tebygol o fynd yn eu blaenau i Ysgolion eraill sydd yn agos at yr A5.
Roedd yn gwbl eglur yn y cyfarfod i rieni na fyddai'r rhieni yn fodlon mynd a'u plant i ysgol yn Niwbwrch. Mynegwyd rhesymau hanesyddol a chymdeithasol ganddynt. Roeddent yn huawdl iawn eu barn.
Ein pryder yw pe byddai Ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ym mhentref Niwbwrch na fyddai rhieni Llangaffo yn mynd a'u plant yno. Canlyniad hyn fyddai ysgol newydd fyddai 50+ o ddisgyblion yn brin. Byddai hyn, wrth reswm, yn arwaitn at lefeydd gweigion o fewn yr Ysgol Newydd. Pendraw hyn yw na fyddai angen cynifer o staff yn yr Ysgol/ ysgolion "newydd." Fe allai hyn, wrth reswm, gael effaith ar staff presenol Ysgol Llangaffo.

Nodwyd yr opsiwn o adeiladu ysgol newydd yn y caeau sydd rhwng Niwbwrch a Llangaffo. Credwn y dylid cywain barn rhieni cyn symud ymlaen gyda'r awgrym hwn i holi a fyddai hyn yn newid eu barn.

**<u>Barn am bellter teithio</u>**

Ni ddylai plant deithio yn fwy nag sydd yn rhesymol iddynt ei wneud.

**<u>Barn am statws grefyddol</u>**

ATODIAD 7
APPENDIX 7

Fel corff Llywodraethol mae statws grefyddol yr Ysgol yn allweddol bwysig. Yn arolwg ddiwethaf yr Eglwys ar Ysgol Llangaffo (Haf 2014) nodwyd ein bod yn Ysgol Eglwys Ragorol. Yng ngolwg hyn, a'n dymuniad i gefnogi barn y rhieni, credwn y dylai'r statws Eglwysig ddilyn Ysgol Llangaffo. H.y gyda pha bynnag Ysgol/ ysgolion y bydd Ysgol Llangaffo yn uno, dylai'r Ysgol honno fod yn Ysgol Eglwys.

<u>Materion Ychwanegol</u>
Dymunwn gyflwyno y pwynt isod fel ystyriaeth pellach:

- Dalgylchoedd Ysgol Uwchradd.
  Gallai <u>opsiwn A</u> olygu newid i ddalgylch ysgol uwchradd "arferol" Ysgol Llangaffo. Gallai hyn olygu:
  - Fod brawd/ chwaer yn mynd i ysgolion uwchradd gwahanol.
  - Nad yw'r disgyblion all-ddalgylch, (56% ohonynt) sydd yn yr Ysgol ar hyn o bryd, yn cael cludiant rhad i'r Ysgol Gyfun "newydd" gan nad ydynt yn byw yn y dalgylch.

Hyderwn y bydd trafodaeth fanwl ar y pwyntiau uchod cyn cyrraedd unrhyw benderfyniad.

Yn Gywir

[redacted]

Ar ran corff Llywodraethol Ysgol Llangaffo

## Ymateb I'r Ddogfen Ymgynghori Statudol

Yr ydym fel Llywodraethwyr am ategu ein barn glir ac unfryd, sydd wedi ei leisio drwy gydol y broses, fod rhaid sicrhau parhad darpariaeth addysg 3-11 oed ym mhentref Llanddaniel. Byddem yn ddiolchgar pe byddech yn nodi unwaith eto'r pwyntiau a ganlyn sy'n cefnogi hynny:

- *Mae'r ysgol yn cynnig addysg o safon uchel – gweler adroddiadau 2008 a 2014. Credwn yn gryf y byddai unrhyw newid safle yn niweidiol iawn, ac yn peryglu safon addysg y plant.*
- *Adeiladwyd yr ysgol yn 2000, ac mae'n darparu lleoliad ac adnoddau priodol a modern ar gyfer addysg o'r safon uchaf. Nid oes angen gwariant sylweddol ar yr adeilad o'i gymharu â'r ysgolion eraill.*
- *Mae Parc y Bont yn darparu gwerth am arian – nid oes problem gyda llefydd gwag, ac mae gwariant y pen yn is nac unrhyw un o'r ysgolion eraill yn y cynllun ac yn llawer is na 4 o'r ysgolion. Mae hyn yn gosod sylfaen gref i unrhyw ysgol / sefydliad newydd ar y safle yn y dyfodol.*
- *Mae niferoedd yr ysgol (109 ym Medi 2015) yn dangos yn gwbl glir mai deheuad rhieni'r ardal yw parhad addysg o'r safon uchaf yn Llanddaniel.*

Yr ydym yn credu am y rhesymau uchod, y gellid ymestyn Ysgol Parc y Bont, a datblygu'r safle. Gyda buddsoddiad y cynllun Moderneiddio, credwn y gallwn greu canolfan sy'n darparu addysg o safon uchel, ac sydd hefyd yn ganolbwynt i weithgareddau'r gymuned leol a'r ardal. Credwn fod lle i gyd-weithio gyda'r Cyngor Plwyf a chwmni cydweithredol y pentref (sy'n berchen ar adnodd arall yn y gymuned) i'r cyfeiriad yma.

Yr ydym hefyd o'r farn y dylai Ysgol Parc Y Bont (neu unrhyw ysgol newydd ar y safle / yn y pentref) barhau i fod yn Ysgol Eglwys. Yr ydym yn gwerthfawrogi'r ethos unigryw sydd wedi ei chreu gan ein perthynas â'r Eglwys, ac yr ydym am bwysleisio y byddai colli statws Eglwysig yr ysgol yn achosi cryn bryder.

Ein blaenoriaeth fel Llywodraethwyr yw parhad y ddarpariaeth addysg yn Llanddaniel, ac felly yr ydym yn fodlon ystyried a thrafod unrhyw gynllun sy'n sicrhau hynny. O'r opsiynau sydd wedi eu cynnig yn y ddogfen, ac er mwyn ymateb yn benodol i'r rhestr hynny, teimlad y Corff yw mai opsiwn 'A' fyddai orau i ni fel ysgol, ond gyda'r amod clir a phendant y dylid lleoli'r ysgol 'newydd' ar safle Parc y Bont.

Wrth ystyried y dewis pellach ynglŷn â ffederaleiddio gydag ysgol arall, barn y Llywodraethwyr yw na fyddai hynny'n ddewis cyntaf, gan yr hoffem sicrhau arweinyddiaeth lawn amser ym Mharc y Bont. Serch hynny, ac fel yr wyf eisoes wedi ei nodi, yr ydym wrth gwrs yn fodlon ystyried unrhyw gynllun a fyddai'n sicrhau dyfodol hirdymor ein hysgol yn Llanddaniel.

Yn gywir

[redacted]

**Cadeirydd Ysgol Parc y Bont, ac ar ran y Corff Llywodraethol**

**Cyngor Cymuned Llanddaniel Fab**

[redacted]

[redacted]

**YMATEB CYNGOR CYMUNED LLANDDANIEL I'R YMGYNGHORIAD STATUDOL**

Fel ymateb i'r pwyntiau a godwyd yn yr ymgynghoriad statudol ynghylch Moderneiddio Ysgolion Bro Rhosyr a Bro Aberffraw, hoffai Cyngor Cymuned Llanddaniel Fab ddatgan eu bod yn cadarnhau'r pwyntiau a wnaethpwyd gennym ar ddiwedd 2014 yn ymateb i'r ymgynghoriad anstatudol – yr ydym yn awyddus i weld darpariaeth addysgol yn parhau yn Llanddaniel ac ar safle Ysgol Parc y Bont.

Yr ydym hefyd yn cyd-fynd ag ymateb Llywodraethwyr Ysgol Parc y Bont yn hyn.

Ein blaenoriaeth yw cadw'r ysgol yn Llanddaniel, ond byddem hefyd yn hapus gydag Opsiwn A, sef uno Parc y Bont ac Ysgol Llangaffo. Fodd bynnag, nid oedd y Cyngor Cymuned yn awyddus i weld sefyllfa ffederaleiddio gydag ysgol arall gan y byddai hynny yn cael effaith negyddol ar yr ysgol ac yn rhannu'r arweinyddiaeth. Mae hyn yn adlewyrchu barn llawer o'r rhieni yn y gymuned.

Yn gywir,

[redacted]

[redacted]

Atodiad 10

[redacted]

08 Mehefin 2015

Annwyl [redacted],

**Cyn-ymgynghoriad Statudol – Bro Rhosyr a Bro Aberffraw**

Ar ran yr Esgobaeth, a gaf ddiolch i chi a'ch cydweithwyr yn y tîm Dysgu Gydol Oes am y ddogfennaeth a'r perthynol i'r cyn-ymgynghori statudol yn ardal Bro Rhosyr a Bro Aberffraw.

Yn ymateb i'r cyn-ymgynghoriad statudol hwn, dymuna Bwrdd Addysg Statudol Esgobaeth Bangor wneud y sylwadau a ganlyn:

1 Tra deëllir y rhesymau pam, mae'r Esgobaeth wedi ei thristáu y bydd darpariaeth addysg Ysgol Eglwysig gynradd statudol yn dod i ben yn Ysgol Llangaffo. Mae hon yn ysgol gydag ethos Cristnogol ac Eglwysig arbennig, sy'n ychwanegu dimensiwn ychwanegol cadarnhaol at ddatblygiad Dysgwyr.

2 Mae'r Esgobaeth yn gwerthfawrogi ac yn diolch i Awdurdod Lleol Ynys Môn y bydd yr holl opsiynau a gynigir yn y ddogfen ymgynghori hon yn sicrhau y cedwir nifer lleoedd ysgolion Eglwysig, er gwaethaf colli Ysgol Llangaffo.

3 Gall yr Esgobaeth weld y manteision a'r anfanteision ar gyfer darpariaeth ysgol Eglwysig yn opsiynau A a B, ac mae'n awyddus i glywed llais cymuned ysgol Ysgol Llangaffo. Mae wedi bod yn fwyaf cefnogol o ddarpariaeth ysgol Eglwysig, a gallai ei llais yn wir fod yn hyn sy'n ffurfio barn yr Esgobaeth. Mae'r Esgobaeth yn gofyn i'r Awdurdod Lleol ystyried yn ofalus y ffordd orau i gasglu gwybodaeth gan y grŵp hwn, a byddem yn dymuno cynorthwyo i wneud hynny.

4 Pe bai cynnig yn dod ymlaen a fyddai'n lleoli'r ddarpariaeth ysgol Eglwysig yn Ysgol Parc y Bont, a hefyd yn ceisio integreiddio Ysgol Brynsiencyn, byddai'r Esgobaeth yn annhebygol iawn o ystyried ffederasiwn statudol o'r ysgolion. Byddai'r Esgobaeth yn ystyried Ymddiriedolaeth Gydweithio Leol (YGL / LCT - lle,

[redacted]

Atodiad 10

yn ei hanfod, y byddai'r ddau gorff llywodraethu yn sefydlu ymddiriedolaeth i fod yn gyfrifol am redeg yr ysgolion) neu greu un ysgol yn gweithio dros ddau safle.

5 Mae'r Esgobaeth yn awyddus i fod yn bresennol ym mhob un o'r cyfarfodydd mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn.

Fel bob amser, mae'r Esgobaeth yn edrych ymlaen at barhau â'r berthynas weithio dda sy'n bodoli rhwng yr ALl a'r Esgobaeth.

Gyda'm gweddïau a phob bendith,

[redacted]

UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

# Yr ymgynghoriad statudol i ad-drefnu ysgolion yn ardaloedd Bro Rhosyr a Bro Aberffraw

Gorffennaf 2015

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.athrawon.com

## Yr ymgynghoriad statudol i ad-drefnu ysgolion yn ardaloedd Bro Rhosyr a Bro Aberffraw

### Cyflwyniad

Mae Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) yn falch o gael y cyfle i ymateb i'r Ddogfen Ymgynghori Statudol (Y Ddogfen) hon ar ad-drefnu ysgolion yn Ne Orllewin Ynys Môn. Byddwn yn fwy na pharod i ymhelaethu ar y sylwadau hyn a'u trafod unrhyw bryd.

Mae UCAC yn gwerthfawrogi dyhead yr Awdurdod i '*sicrhau ysgolion modern sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain' ar yr Ynys ac yn* llawn sylweddoli bod Cyngor Môn yn wynebu her *wrth geisio* cynllunio ar gyfer sicrhau'r ddarpariaeth orau mewn ardal cymharol wledig fel hyn. Cydnabyddir hefyd bod ad-drefnu ysgolion yn fater cymhleth a bod amrywiaeth barn a theimladau cryfion o du disgyblion, rhieni, staff ysgol a'r cymunedau eu hunain.

Mae UCAC yn falch o weld bod yr Awdurdod wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd rhwng diwedd Mehefin a dechrau Gorffennaf ar gyfer staff, llywodraethwyr a rhieni'r chwe ysgol i wyntyllu'r opsiynau o fewn yr ymgynghoriad hwn. Gwerthfawrogwyd y cyfle i gael bod yn bresennol mewn cyfarfod efo'r staff.

### Rhesymau Dros Newid

Mae UCAC yn llawn sylweddoli bod awdurdodau lleol dan bwysau i leihau y niferoedd o lefydd gweigion o fewn ysgolion ac y mae'n amlwg bod y cynllun hwn yn ceisio ymateb i hynny. Profiad ein aelodau mewn sawl sir ydy nad yw capasiti adeiladau bob amser yn adlewyrchu bob tro faint o le sydd o fewn adeilad mewn gwirionedd oherwydd y ffordd y caiff y capasiti hwnnw ei gyfrifo. Mae yna beryglon o godi ysgolion sydd yn fuan yn rhy fach a rhaid bob yn ymwybodol bod ystadegau yn awgrymu cynnydd yn y boblogaeth dros y ddegawd nesaf fydd yn naturiol yn effeithio gyntaf ar ysgolion cynradd. Rhaid i gynlluniau ysgolion newydd neu ailfodelu sicrhau bod hi'n rhwydd ymestyn y ddarpariaeth os cyfyd y galw.

Mae'r Undeb hefyd yn llawn sylweddoli y wasgf a ariannol sylweddol mae ysgolion ac Awdurdodau Addysg yn gorfod ymdopi ag o y dyddiau hyn. Rydym yn dwyn y materion hyn i sylw gwleidyddion yn gyson. O ran arbedion rhagweladwy rydym yn canfod yn aml bod yna gostau ychwanegol - yn gostau cyfalaf a chostau refeniw - nad ydynt bod amser wedi eu hadnabod wrth gynllunio i ad-drefnu ysgolion sy'n arwain i'r gwir arbedion fod yn llai nag a ragdybir.

### Opsiynau

Mae UCAC yn falch o weld bod mwy nag un opsiwn yn cael ei gyflwyno o fewn y Ddogfen, ond yn gobeithio hefyd na fydd y Sir yn diystyru unrhyw opsiwn arall a gaiff ei awgrymu fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Derbyniwn nad yw *'gwneud dim'* yn ddewis realistig a bod yna ddymuniad clir i gynnal ysgol yr Eglwys yng Nghymru o fewn yr ad-drefnu.

Nid yw UCAC mewn sefyllfa i gefnogi un opsiwn yn benodol. Mae'r sylwadau cyffredinol a ganlyn yn berthnasol i bob un o'r opsiynau dan ystyriaeth.

### Adeiladau/adnoddau

Mae'r Undeb yn croesawu'r nod o gael adeiladau ac adnoddau '*addas i bwrpas'* ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Rydym yn cytuno bod cael yr amgylchedd dysgu gorau yn hanfodol i addysg disgyblion; byddem am ychwanegu bod hyn yn llesol i forâl staff hefyd. I sicrhau hynny y mae angen I waith cefndir manwl o ran addasrwydd ac argaeledd y tir, ble mae adeiladu i'w codi, ddigwydd yn ddi-oed ynghyd â gwyntyllu'n llawn oblygiadau unrhyw broblemau trafnidiaeth. Ar hyn o bryd deil gormod o amwysedd neu ansicrwydd ar faterion o'r fath.

Mewn cyfnod o doriadau anghymharus o fewn llywodraeth leol, rhaid gofyn hefyd a fydd yr arian sydd ei angen i sicrhau bod y cynllun terfynol yn dwyn ffrwyth ar gael?

## Opsiwn ffedereiddio

Os y penderfynir dilyn yr opsiwn o ffedereiddio un neu fwy o'r ysgolion yna mae angen bod yn gwbl glir o'r cychwyn ynghylch natur y drefniadaeth a hynny mewn manylder, yn cynnwys materion megis cyllido a staffio. Mae ffedereiddio o'i drefnu'n drylwyr yn gallu cynnig strwythur effeithiol a chynnal presenoldeb ysgol o fewn cymunedau. Heb blaengynllunio digonol, mae materion cyllido, pwysau arolygiadau a monitro, rôl rheolwyr safle a chostau teithio o un safle i'r llall (staff a disgyblion) ymhlith y materion sy'n gallu profi'n broblemus gan osod straen afresymol ar unigolion a llesteirio llwyddiant yr addysg.

Trueni nad yw'r Ddogfen yn cydnabod unrhyw gydweithio sydd eisoes yn digwydd rhwng ysgolion yr ardal.

## Staffio’r ysgolion newydd

Mae'r Undeb yn cytuno bod *'recriwtio i swyddi pennaeth yn her'* ac mae hynny i raddau helaeth yn deillio o'r disgwyliadau cynyddol ac afresymol ar ddeiliaid y swyddi hyn. Cytunwn bod hi'n gwbl hanfodol gwarantu amser digyswllt sylweddol i unrhyw bennaeth.

Ac eithrio'r sylw at arweinyddiaeth a rheolaeth, nid os unrhyw sylw yn y Ddogfen at oblygiadau staffio yr ad-drefnu arfaethedig. Mae hyn yn siomedig. Tra'n derbyn mai cyfrifoldeb y Cyrff Llywodraethol Cysgodol fydd pennu unrhyw strwythurau staffio terfynol, mae'r Undeb o'r farn bod lle i wyntyllu'r oblygiadau posibl i staff o'r cychwyn cyntaf.

Mae UCAC yn cydnabod bod yr Awdurdod wedi ymateb yn gadarnhaol i nifer o bryderon a godwyd gan yr Undeb yn sgil yr ad-drefnu digwyddodd mewn ardaloedd eraill. Pwyswn eto am gael penderfyniad buan ar faterion staffio ac am sicrhau bod staff yn cael diweddariad cyson ar yr hyn sy'n digwydd, a phob cefnogaeth a chynhaliaeth wrth iddynt fynd drwy'r broses o lenwi swyddi. O ystyried na fydd unrhyw drefniant newydd yn debygol o fod yn ei le cyn 2018/2019 ar y cynharaf, mae staff yn mynd i wynebu cyfnod hir o ansicrwydd. Gall hyn arwain at staff yn chwilio am swyddi eraill yn ddiangen fyddai yn ei dro yn effeithio ar safonau addysg a sefydlogrwydd yn y chwe ysgol yn y cyfamser.

Y cam cyntaf, wrth gwrs, fyddai penodi pennaeth(iaid) a byddai UCAC am weld hyn yn digwydd o leiaf flwyddyn ymlaen llaw efo datblygiad mor sylweddol â hyn.

## I gloi

Mae UCAC yn pwyso ar y Cyngor i wneud pob dim posibl i ddod i benderfyniadau terfynol ar ddyfodol ysgolion Ardaloedd Bro Rhosyr a Bro Aberffraw cyn gynted â phosibl gan geisio cadw at y bwriad i ddod i benderfyniad yn ystod Tymor Yr Hydref 2015.

Rydym yn barod iawn i gydweithio efo'r Cyngor yn yr ymgais i hybu addysg yn ysgolion yr ardaloedd hyn a gwarchod buddiannau ac amodau gwaith yr athrawon a’r staff eraill sy’n gweithio ynddynt. I'r perwyl hwn, byddai UCAC yn gwerthfawrogi cael gwahoddiad i unrhyw gyfarfod yn y dyfodol fydd yn delio yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â swyddi staff o fewn yr ysgolion a effeithir gan yr ad-drefnu arfaethedig.

**UCAC**
**Gorffennaf 2015**



**UCAC**
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU
ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com
facebook.com/AthrawonCymru twitter.com/AthrawonCymru

www.athrawon.com

**Ymateb Estyn i'r ymgynghoriad statudol i adolygu'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal de-orllewin Môn**.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr, a gwybodaeth ychwanegol arall fel data gan Lywodraeth Cymru a barnau'r Consortia Rhanbarthol sy'n darparu gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion yn y cynnig.

**Cyflwyniad**

Mae'r cynnig gan Gyngor Sir Ynys Môn. Mae dogfen y cynnig yn cynnwys amrywiaeth o opsiynau ar gyfer ad-drefnu'r ddarpariaeth addysg yn ardaloedd Bro Rhosyr a Bro Aberffraw, sy'n cynnwys Ysgolion Cynradd Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran, Llangaffo, Parc y Bont a Brynsiencyn.

**Crynodeb/Casgliad**

Yn ei harweiniad ar gynigion ad-drefnu ysgolion, mae canllaw Llywodraeth Cymru, y 'Cod Trefniadaeth Ysgolion[1]' yn datgan:

'O dan rai amgylchiadau, efallai y bydd cynigwyr o'r farn ei bod yn briodol ymgynghori ar amrywiaeth o opsiynau yn hytrach nag un cynnig penodol, ond, ym mhob achos, **rhaid** i'r holl wybodaeth uchod[2] gael ei darparu mewn perthynas â phob un o'r opsiynau a nodwyd.'

Ym marn Estyn, nid yw'r cynnig hwn yn darparu digon o fanylion am yr holl opsiynau a gynigir. Felly, oherwydd nifer uchel yr opsiynau posibl a awgrymir yn y ddogfen ymgynghori a diffyg gwybodaeth am y manteision disgwyliedig, o safbwynt y ddarpariaeth addysg, nid yw Estyn yn gallu dod i gasgliad ynghylch effaith y cynigon ar safonau'r ddarpariaeth addysg yn yr ardal.

1.'Cod Trefniadaeth Ysgolion (Ebrill 2013), Llywodraeth Cymru'
2. Gweler tt26-30 am restr o wybodaeth ddisgwyliedig

**Disgrifiad a manteision**

Mae’r cynnig yn darparu rhesymwaith clir dros yr angen i ad-drefnu’r ddarpariaeth addysg yn yr ardal a nodwyd o safbwynt cyllid, darparu cyfleusterau addysgu modern a lleihau nifer y lleoedd dros ben, ac mae’n amlinellu’r manteision disgwyliedig yn y meysydd hyn yn glir. Mae’n debygol y bydd yr adeiladau newydd a awgrymir ym mhob opsiwn yn darparu’r cyfleusterau diweddaraf i ddisgyblion, a fyddai’n gallu cynorthwyo â chyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys. Fodd bynnag, nid yw’r cynnig yn nodi’r manteision disgwyliedig o safbwynt ansawdd yr addysg yn yr ardal yn ddigon da. Er enghraifft, nid oes digon o wybodaeth am yr effaith bosibl ar safonau dysgu ac addysgu. Nid yw’r cynnig yn talu digon o sylw i unrhyw anfanteision sydd ynghlwm wrth yr amrywiaeth eang o opsiynau a awgrymir.

Mae’r cynigiwr wedi ystyried risgiau penodol sydd ynghlwm wrth y cynnig, ond oherwydd diffyg opsiwn a ffefrir, nid yw’r rhain yn glir. Er enghraifft, nid yw’r cynnig yn glir ynghylch y goblygiadau i staff presennol na gofynion staffio posibl yn y dyfodol, fel nifer y staff sy’n ofynnol neu’r goblygiadau ariannol.

Mae’r cynnig yn darparu amrywiaeth eang o opsiynau eraill ar gyfer yr ad-drefnu ac nid yw’n rhoi unrhyw wybodaeth glir am ba un y mae’r cynigiwr yn ei ffafrio. Gallai hyn achosi dryswch i rieni a’r cyhoedd, gan fod nifer uchel o senarios wedi’u cynnwys yn y cynnig, sy’n aneglur at ei gilydd.

Mae’r cynnig yn rhoi ystyriaeth addas i effaith yr opsiynau a awgrymir ar deithio’r dysgwyr ac mae’n nodi bod y gost i’r awdurdod lleol yn debygol o gynyddu ac y bydd costau ac amseroedd teithio yn cynyddu.

Mae’r cynigiwr wedi darparu gwybodaeth glir am nifer y lleoedd presennol mewn ysgolion, y lleoedd dros ben ac mae wedi nodi tueddiadau yn niferoedd y disgyblion yn y dyfodol yn dda. Mae’r cynnig yn delio â’r mater hwn yn glir.

Mae’r awdurdod lleol wedi cynnal asesiad manwl o’r effaith ar yr iaith. Gan fod pob ysgol sydd wedi’i henwi yn y cynnig yn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, mae’n annhebygol y bydd unrhyw un o’r opsiynau a awgrymir yn effeithio’n negyddol ar y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn yr awdurdod.

Mae’r cynigiwr wedi cyhoeddi asesiadau priodol o effaith yn ymwneud â’r gymuned a chydraddoldeb. Fodd bynnag, nid yw’r cynigiwr wedi ystyried effaith yr holl opsiynau a nodwyd yn fanwl. Er enghraifft, wrth ystyried yr effaith ar y gymuned, mae pob un o’r chwe ysgol a enwyd yn darparu clwb brecwast ac mae hanner ohonynt yn darparu gofal ar ôl ysgol. Mae’r cynnig ond yn gallu datgan, ‘rhagwelir y byddai’r ddarpariaeth hon (clwb brecwast) yn parhau’, ac nid yw’n darparu unrhyw wybodaeth ynghylch p’un a fyddai unrhyw ofal ar ôl ysgol ar gael mewn unrhyw rai o’r opsiynau yn y cynnig.

**Agweddau addysgol ar y cynnig**

Nid yw'r cynigiwr wedi ystyried effaith y cynnig ar ansawdd y deilliannau a'r ddarpariaeth yn ddigon da. Mae wedi ystyried safonau presennol y deilliannau addysgol ym mhob ysgol sy'n rhan o'r cynnig. Mae wedi dadansoddi perfformiad presennol yr ysgolion ond, yn holl bwysig, nid yw wedi darparu gwybodaeth am gategori cenedlaethol yr ysgol na barn y consortiwm rhanbarthol am yr ysgolion. Nid yw'r cynnig yn darparu digon o wybodaeth am effaith ddisgwyliedig y newidiadau arfaethedig ar y safonau addysg yn yr ardal.

Nid yw'r cynnig yn ystyried yr effaith ar safonau arweinyddiaeth a rheolaeth yn ddigon da. Mae'n datgan sefyllfa bresennol yr ysgol o safbwynt cyfrifoldeb addysgu ac arweinyddiaeth y penaethiaid presennol, ond nid yw'n darparu unrhyw wybodaeth am effaith y cynigion yn y maes pwysig hwn.

Gan nad yw'r cynigiwr wedi nodi ei opsiwn a ffefrir, nid yw'r cynnig yn amlygu manteision posibl yn ddigon clir. Ychydig iawn o wybodaeth sydd yn y cynnig am effaith bosibl yr ad-drefnu ar y trefniadau staffio yn yr ysgolion dan sylw. Nid yw'r cynnig yn arfarnu pa effaith y gallai'r cynnig ei chael ar unrhyw ddarparwyr addysg cyn-ysgol yn yr ardal.

Nid yw'r cynigiwr wedi dangos yn ddigon clir ei fod wedi ystyried effaith y cynigion i sicrhau bod y cwricwlwm llawn yn cael ei gyflwyno yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r cynnig yn nodi bod 'archwiliad o bortffolio adeiladau ysgol yr Awdurdod yn dangos bod diffygion difrifol yn addasrwydd nifer o safleoedd ac adeiladau'. Er y gallwn ragdybio y bydd unrhyw adeiladau newydd yn sicrhau bod cwricwlwm llawn yn cael ei gyflwyno, nid yw'r cynnig yn diffinio'n glir sut bydd yr amrywiaeth eang o opsiynau yn effeithio ar y maes hwn yn llawn.

Mae'r cynnig yn datgan yn glir y byddai unrhyw adeilad newydd yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010 ac y byddai'n hollol hygyrch. Fodd bynnag, wrth ystyried yr effaith ar ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig, mae'r cynnig yn canolbwyntio'n bennaf ar y disgyblion ag anableddau corfforol ac nid yw'n ystyried anghenion unigol disgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig yn yr ysgol yn ddigon da.

Er bod y potensial i'r cynnig darfu ar addysg dysgwyr yn ymddangos yn nodedig, nid yw'r cynigiwr wedi darparu tystiolaeth glir o sut y byddai'n lleihau'r tarfu ar addysg dysgwyr cymaint â phosibl.

YMGYNGHORIAD YSGOLION ARDAL RHOSYR / RHOSYR AREA SCHOOL CONSULTATION

Disgybl Ysgol [redacted]

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol newydd i blant Bodorgan, Brynsiencyn, Niwbwrch a Dwyran (190)<br><br>Plant Llangaffo yn symud i Parc y Bont (Llanddaniel) – Ysgol Eglwys (170) | Ysgol newydd i blant Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran (137)<br><br>Plant Llangaffo yn symud i Parc y Bont (Llanddaniel) – Ysgol Eglwys (170)<br><br>Brynsiencyn yn aros yn yr ysgol a rhannu Prifathro (79) | Ysgol newydd i blant Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran a Llangaffo (203)<br><br>Plant Brynsiencyn yn symud i Parc y Bont (Llanddaniel) – Ysgol Eglwys (161) | Ysgol Newydd i blant Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran, Llangaffo (203)<br><br>Parc y Bont yn aros run fath – Ysgol Eglwys (105)<br><br>Brynsiencyn yn yr ysgol, a rhannu Prifathro hefo Ysgol arall. (79) | Ysgol newydd ar gyfer Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran a Llangaffo – Ysgol Eglwys (203)<br><br>Plant Brynsiencyn yn symud i Ysgol Parc y Bont (161) | Ysgol newydd i blant Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran a Llangaffo – Ysgol Eglwys (203)<br><br>Parc y Bont yn aros run fath (105)<br><br>Plant Brynsiencyn yn aros a rhannu Prifathro hefo Ysgol arall. (79) |
| | | | | | |

Ticiwch UN BOCS

Enw ……………………

This page is intentionally left blank

| ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **DYDDIAD:** | **17 Medi, 2015** |
| **PWNC :** | **PANELI CANLYNIAD SGRIWTINI A SEFYDLWYD GAN BWYLLGORAU SGRIWTINI'R AWDURDOD LLEOL** |
| **DEILYDD(ION) PORTFFOLIO :** | **D/B** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Rheolwr Sgriwtini Dros Dro**<br><br>**01248752039**<br>**AnwenDavies@anglesey.gov.uk** |

1. **RHESWN**

Gwnaed nifer o argymhellion allweddol ar ymarfer sgriwtini llywodraeth leol mewn adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn dwyn y teitl "*Craffa Da? Cwestiwn Da!*"[1]. Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio'n benodol at yr argymhellion canlynol o'r adroddiad hwnnw:

- Gwella effeithiolrwydd aelodau pwyllgorau sgriwtini wrth ddal y Pwyllgor Gwaith i gyfrif [effeithiolrwydd trefniadau];
- Datblygu prosesau blaen raglennu craffu ymhellach [darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau a chanolbwyntio mwy ar ganlyniadau];
- Cysoni rhaglennu craffu â threfniadau rheoli perfformiad, hunan werthuso a gwella'r Cyngor [materion perfformiad ac oblygiadau ar gyfer gwella];
- Cynnal hunan werthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu [cadernid trefniadau, clirdeb rolau – Sgriwtini a Gweithredol – ac agweddau gwerth ychwanegol Sgriwtini].

2. **PWRPAS**

Mae yna ddau bwrpas i'r adroddiad hwn:

- Darparu datganiad sefyllfa/gwybodaeth ynglŷn â'r Paneli Canlyniad Sgriwtini a sefydlwyd gan y ddau Bwyllgor Sgriwtini ac mae yna 7 ohonynt ar hyn o bryd;
- Cynnig sut y bwriada'r Awdurdod gryfhau ymhellach yr aliniad rhwng y Swyddogaeth Graffu a blaenoriaethau strategol y Cyngor.

3. **DATGANIAD SEFYLLFA: PANELI CANLYNIAD SGRIWTINI**

Mae yna 7 o Baneli Canlyniad Sgriwtini'n weithredol ar hyn o bryd fel a ganlyn:

3.1 **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (5)**

- Gwaredu Asedau;
- Adolygiad o Achos Benodol yn y Gwasanaethau Plant;

[1] Craffa Da? Cwestiwn Da! Astudiaeth Wella Archwilydd Cyffredinol Cymru: Craffu mewn Llywodraeth Lleol (Mai, 2014)

- Dileu Dyledion;
- Arbedion Effeithiolrwydd (2015/16);
- Diogelu Corfforaethol.

3.2 **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio (2)**

- Grŵp Adolygu Cynnydd Ysgolion;
- Cyd Graffu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

Atodir datganiad sefyllfa sy'n crynhoi cefndir, cylch gwaith a chynnydd hyd yma ar waith y 7 Panel Canlyniad Sgriwtini (**ATODIAD 1**).

**4. ALINIAD: SWYDDOGAETH SGRIWTINI A BLAENORIAETHAU STRATEGOL Y CYNGOR**

4.1 Mae dau Bwyllgor Sgriwtini'r Cyngor yn dal i gyfrif, mewn modd cadarnhaol ac adeiladol, yr hyn a wneir gan y Pwyllgor Gwaith a sefydliadau Partner y Cyngor er mwyn cynorthwyo'r Awdurdod i gyflawni ar ei weledigaeth a blaenoriaethau strategol. Mae hi hefyd yn swyddogaeth gan y Pwyllgorau Sgriwtini i gefnogi gwasanaethau i gynnal safonau darparu gwasanaeth uchel a'u llywio tuag at eu gwneud yn fwy effeithiol ac effeithlon;

4.2 Manylir ar gynlluniau gwella'r Awdurdod dros dymor y Cyngor presennol hyd at 2017 yn ein Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Trawsnewid cysylltiedig. Gwelwyd adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru[2] (cyfeirir ato ym mharagraff 1 uchod) yn gwneud 9 argymhelliad allweddol ar ymarfer craffu Llywodraeth Leol yng Nghymru. 'Roedd un o'r argymhellion hyn yn ymwneud â'r angen i ddarparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau a chanolbwyntio mwy ar ganlyniadau ynghyd â sicrhau aliniad rhwng rhaglenni craffu a threfniadau rheoli perfformiad, hunan werthuso a gwella'r Cyngor;

4.3 I'r perwyl hwnnw, argymhellir cefnogi'r Rhiant Bwyllgorau Sgriwtini i ddatblygu clirdeb o amgylch y materion canlynol pan yn ystyried y priodoldeb o sefydlu Paneli Canlyniad Sgriwtini newydd:

- Cytuno rhesymeg glir dros ddewis pynciau;
- Cytundeb ar y cylch gorchwyl a'r canlyniadau a ddymunir;
- Aliniad gyda blaenoriaethau strategol y Cyngor;
- Sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar y gyfer y maes pwnc a'r canlyniad a ddymunir.

Yn sgîl trafodaethau diweddar gyda'r Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Sgriwtini, argymhellir hefyd y dylid ymgynghori gyda'r canlynol ar gylch gorchwyl a chanlyniadau a ddymunir ar gyfer unrhyw Baneli Sgriwtini newydd:

- ➢ Rhiant Bwyllgor Sgriwtini perthnasol;
- ➢ Grŵp Gwaith Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Sgriwtini;
- ➢ Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

[2] Craffa Da? Cwestiwn Da! Astudiaeth Wella Archwilydd Cyffredinol Cymru: Craffu mewn Llywodraeth Leol (Mai, 2014)

**5. ARGYMHELLION**

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini perthnasol:

**A1** Nodi'r sefyllfa ddiweddaraf parthed gwaith y saith Panel Canlyniad Sgriwtini;

**A2** Gefnogi ymdrechion swyddogion i gyflwyno adroddiadau cynnydd chwarterol ar waith y Paneli Canlyniad Sgriwtini i'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, Grŵp Gwaith Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Sgriwtini a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth;

**A3** Gryfhau ymhellach ar yr aliniad rhwng y Swyddogaeth Sgriwtini a Blaenoriaethau Strategol y Cyngor (fel y manylir ym mharagraff 4 o'r adroddiad hwn).



Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini Dros Dro/
Geraint Roberts, Swyddog Sgriwtini
Uned Sgriwtini Gorfforaethol


Awst, 2015


# DATGANIAD SEFYLLFA – PANELI CANLYNIAD SGRIWTINI

| Rhif | Enw | Aelodaeth | Swyddog Arweiniol | Cefndir, Cylch Gorchwyl a Chynnydd Hyd Yma | Statws<br><br>Gwyrdd – Ar amser.<br><br>Ambr- Ar ei hôl hi ond y dasg ar y ffordd i gael ei chwblhau.<br><br>Coch – Ar ei hôl hi a risg sylweddol o beidio â chwblhau. |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Panel Canlyniad Sgriwtini: **Gwaredu Asedau** | Cynghorwyr Meirion Jones (Cadeirydd), Llinos Medi Huws, Jim Evans a Raymond Jones | Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) (DRW)<br>[I'w gadarnhau] | **Cefndir**<br>• 01/09/ 2014 – Sefydlwyd y Panel gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol;<br>• 13/10/14 a 18/12/14 – Cyfarfod cyntaf y Panel wedi'i drefnu ond bu'n rhaid ei ohirio oherwydd amgylchiadau annisgwyl;<br>• 01/07/2015 – Cyfarfod cyntaf y Panel.<br>**Cylch Gorchwyl**<br>Edrych mewn manylder ar:<br>• Bolisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau cyfredol y Cyngor er mwyn sicrhau bod y Polisi'n:<br>➢ Galluogi 'r Awdurdod i waredu eiddo'n effeithiol ac effeithlon;<br>➢ Cael ei weithredu.<br>• Restr eiddo/asedau'r Awdurdod i graffu gweithrediad y Polisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau;<br>• Gyfraniad y Prosiect Gweithio'n Gallach i waredu asedau gan roi ystyriaeth benodol i'r gyrrwyr allweddol canlynol ar gyfer gweithredu Gweithio'n Gallach:<br>➢ Cau adeiladau;<br>➢ Llety gyda chyfyngiadau arnynt.<br>• Gynllun Rheoli Asedau Corfforaethol y Cyngor (Tiroedd ac Adeiladau) er sicrhau craffu cyn-penderfyniad a hynny cyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith.<br>**Cynnyd Hyd Yma**<br>• 08/07/15 & 28/07/15 – 2 gyfarfod pellach o'r Panel wedi'u cynnal;<br>• 2 gyfarfod pellach o'r Panel wedi'u trefnu ar gyfer 01/09/15 & 10/09/15;<br>• Rhagweler y bydd angen 4 cyfarfod pellach gyda chynlluniau mewn lle i gyflwyno gwaith y Panel i'r Rhiant Bwyllgor ddiwedd 2015/dechrau 2016. | |
| 2. | Panel Canlyniad Sgriwtini: **Adolygu achos benodol** | Cynghorwyr Gwilym Jones, Llinos Medi | Pennaeth Gwasanaethau Plant (AMH) | **Cefndir**<br>• Rhagfyr 2014 – Derbyniodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gais i sefydlu Panel Canlyniad Sgriwtini. | |

| Rhif | Enw | Aelodaeth | Swyddog Arweiniol | Cefndir, Cylch Gorchwyl a Chynnydd Hyd Yma | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Gwyrdd – Ar amser.<br><br>Ambr- Ar ei hôl hi ond y dasg ar y ffordd i gael ei chwblhau.<br><br>Coch – Ar ei hôl hi a risg sylweddol o beidio â chwblhau. |
| | **yn y Gwasanaethau Plant** | Huws a Lewis Davies. | | **Cylch Gorchwyl**<br>• Cais i Sgriwtini adolygu/ymchwilio achos benodol yn y Gwasanaethau Plant a oedd wedi bod yn destun adroddiadau yn yr Wasg.<br>**Cynnydd Hyd Yma**<br>• 25/06/15 – cynhaliwyd cyfarfod o'r Panel. Adroddiad cynnydd yn cael ei baratoi ar gyfer y Rhiant Bwyllgor Sgriwtini (16/11/15). | |
| | Panel Canlyniad Sgriwtini: **Dileu Dyledion** | Cynghorwyr Meirion Jones, Llinos Medi Huws, Jim Evans a Robert Llewelyn Jones gyda gwahoddiad i'r Deilydd Portffolio Cyllid yn ôl yr angen | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 Dros Dro (RM) | **Cefndir**<br>• 24/03/2015 - Y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn sefydlu'r Panel;<br>• 30/06/2015 – Cyfarfod cyntaf y Panel.<br>**Cylch Gorchwyl**<br>Edrych mewn mwy o fanylder ar:<br>• Ddileu dyledion;<br>• Reoli dyled yn yr Awdurdod.<br>trwy edrych mewn mwy o fanylder ar y gwahanol elfennau ym mhroses rheoli dyledion yr Awdurdod:<br>➢ Diffiniad o ddyledwr, pa ddyled sy'n ddyledus gan Wasanaethau a'r gweithredu gan Wasanaethau unigol;<br>➢ Codi dyled a beth sy'n digwydd. Sut y derbynnir taliadau<br>➢ Gorfodaeth - egwyddorion a dulliau/gweithdrefnau;<br>➢ Dileu dyledion.<br>**Cynnydd Hyd Yma**<br>• 28/07/15 – cynhaliwyd cyfarfod pellach o'r Panel;<br>• 5 cyfarfod o'r Panel wedi'u rhaglennu ar gyfer 01/09/15, 06/10/15, 03/11/15, 01/12/15 & 05/01/16;<br>• Rhagweler y cyflwynir Adroddiad Terfynol y Panel gerbron y Rhiant Bwyllgor Sgriwtini yn Chwefror/Mawrth, 2016. | |

| Rhif | Enw | Aelodaeth | Swyddog Arweiniol | Cefndir, Cylch Gorchwyl a Chynnydd Hyd Yma | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Gwyrdd – Ar amser.<br><br>Ambr- Ar ei hôl hi ond y dasg ar y ffordd i gael ei chwblhau.<br><br>Coch – Ar ei hôl hi a risg sylweddol o beidio â chwblhau. |
| 4.<br><br>Tudalen 188 | Panel Canlyniad Sgriwtini: **Grŵp Adolygu Cynnydd Ysgolion** | Cynghorwyr Derlwyn Hughes, Alun Mummery, Meirion Jones, Gwilym Jones, Lewis Davies, Richard Owain Jones, Dylan Rees a Jim Evans.<br><br>[Ar gais yr UDA, ystyried y priodoldeb o ymestyn ymhellach ar yr aelodaeth. Amcan: Cyfraniad i waith y Panel ar draws ystod ehangach o Aelodau]. | Pennaeth Gwasanaeth – Dysgu ( DM) | **Cefndir**<br>• Sefydlwyd y Panel Canlyniad Sgriwtini'n dilyn Arolwg Estyn o ddarpariaeth addysgol yr Awdurdod ac mae'n cynnwys Aelodau o'r ddau bwyllgor sgriwtini;<br>• Cynhaliwyd cyfarfodydd ar 20/05/14, 05/06/14, 09/12/14, 05/02/15, 13/02/15, 10/03/15, 17/03/15 a 10/07/15.<br>**Cylch Gorchwyl**<br>➢ Cylch gorchwyl y Panel ydy monitro cynnydd ysgolion unigol sydd angen cefnogaeth fel y nodwyd yn y fframwaith categoreiddio ysgolion Llywodraeth Cymru;<br>➢ Gall y Panel argymell i'r Adran Dysgu Gydol Oes fod angen cefnogaeth ychwanegol ar ysgol benodol gan y Gwasanaeth Addysg a/neu'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE). Mae gwaith y Panel yn parhau.<br>**Cynnydd Hyd Yma**<br>➢ Cynhelir cyfarfod pellach o'r Panel ar 21 Hydref gyda threfniadau mewn llaw i gynnal 5 cyfarfod pellach o'r Panel yn ystod y flwyddyn fwrdeistrefol gyfredol (er mwyn monitro perfformiad 7 ysgol);<br>➢ Nid oes dyddiad terfyn ffurfiol i'r Panel gyda'r gwaith yn parhau o flwyddyn i flwyddyn. Cyflwynir adroddiad ar waith y Panel i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ym mis Tachwedd yn flynyddol ac yna i'r Cyngor Llawn ym Mai bob blwyddyn trwy gyfrwng yr Adroddiad Blynyddol Sgriwtini. |  |
| 5. | Panel Canlyniad Sgriwtini: **Cyd Graffu'r Bwrdd Gwasanaethau** | Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini | Uwch Reolwr Gwasanaeth Cyflawni a Chefnogi Newid ( Cyngor Gwynedd) ( JR) | **Cefndir**<br>• 14/01/15 – Y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio'n cytuno i sefydlu Cyd-Banel Craffu Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn.<br>• Mawrth, 2015 – Cyngor Gwynedd yn cytuno i enwebu Aelodau ar gyfer y Panel. |  |

| Rhif | Enw | Aelodaeth | Swyddog Arweiniol | Cefndir, Cylch Gorchwyl a Chynnydd Hyd Yma | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Gwyrdd – Ar amser.<br><br>Ambr- Ar ei hôl hi ond y dasg ar y ffordd i gael ei chwblhau.<br><br>Coch – Ar ei hôl hi a risg sylweddol o beidio â chwblhau. |
|  | **Lleol** | Partneriaeth ac Adfywio ynghyd â'r Cynghorydd John Griffith. (Cynghorydd Dylan Rees fel Eilydd) | | **Cylch Gorchwyl**<br>• Darparu her "ffrind beirniadol" i'r BGLl/BGC;<br>• Craffu, gwerthuso ac hyrwyddo mewn modd rhagweithiol y gwella yn y gwaith a gyflawnir yn unol â blaenoriaethau'r BGLl/BGC (yn hytrach na blaenoriaethau'r sefydliadau unigol a gynrychiolir ar y BGLl);<br>• Craffu, gwerthuso ac hyrwyddo mewn modd rhagweithiol y gwella wrth ddatblygu a gweithredu ar brosiectau i gyfarch y blaenoriaethau a gytunwyd gan y BGLl/BGC;<br>• Cyflwyno adroddiadau i bartneriaid neu'r BGLl/BGC a gwneud argymhellion ar fesurau all wella effaith;<br>• Adlewyrchu llais a phryderon dinasyddion a chymunedau ar Ynys Môn a Gwynedd.<br>**Cynnydd Hyd Yma**<br>• Haf, 2015 – Bu i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLl) gyfarfod ar 26/06/15 ac argymhellwyd y dylid symud ymlaen gyda'r Cyd-Banel Craffu ar y sail bod yr aelodaeth yn cael ei diwygio i adlewyrchu aelodaeth statuduol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) arfaethedig a fydd yn cymryd lle'r BGLl o Ebrill, 2016. Mae Tîm Cefnogi'r BGLl bellach yn adnabod enwebiadau gan yr asiantaethau statudol eraill (Bwrdd Iechyd, Gwasanaeth Tân ac Achub a Chyfoeth Naturiol Cymru). | |
| 6. | Panel Canlyniad Sgriwtini: **Arbedion Effeithiolrwydd (2015/16)** | Cynghorwyr Meirion Jones, Llinos Medi Huws a Victor Hughes. | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 Dros Dro (RM) | **Cefndir**<br>• 17/04/14 – Y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn sefydlu'r Panel;<br>• 15/05/14 – Cyfarfod cyntaf y Panel a chynaliwyd 4 cyfarfod dilynol o'r Panel;<br>• 20/04/15 – Cyflwynwyd Adroddiad Terfynol y Panel i'r Pwyllgor Gwaith a derbyniwyd yr argymhellion;<br>• 10/06/15 –. Y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn cytuno i ail gynnull y Panel yn ystod 2015/16 i ymchwilio'r arbedion effeithiolrwydd yn erbyn y targedau a osodwyd.<br>**Cylch Gorchwyl**<br>Edrych mewn manylder ar:<br>• Y graddau y cyflawnir arbedion effeithiolrwydd 2015/16 yn erbyn targedau Gwasanaethau;<br>• A oes trefniadau rheoli prosiect cadarn mewn lle i gefnogi'r gwaith o wireddu ar strategaeth |  |

| Rhif | Enw | Aelodaeth | Swyddog Arweiniol | Cefndir,  Cylch Gorchwyl a Chynnydd Hyd Yma | Statws<br><br>Gwyrdd – Ar amser.<br><br>Ambr- Ar ei hôl hi ond y dasg ar y ffordd i gael ei chwblhau.<br><br>Coch – Ar ei hôl hi a risg sylweddol o beidio â chwblhau. |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | arbedion yr Awdurdod;<br>• A ydy lefel wirioneddol yr arbedion a gyflawnir yn unol â'r rhagamcanion;<br>• Reolaeth risgiau'n gysylltiedig â'r strategaeth arbedion.<br>**Cynnydd Hyd Yma**<br>• 07/09/15 & 14/09/15 – 2 gyfarfod cyntaf y Panel wedi'u rhaglennu;<br>• Cylch Gorchwyl a'r Cynllun Prosiect yn cael eu negydu ar hyn o bryd gyda'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) Dros Dro. | |
| | Panel Canlyniad Sgriwtini: **Diogelu Corfforaethol** | I'w chadarnhau gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 16/11/15 | Pennaeth Gwasanaethau Plant (AMH) [Swyddogaeth ddirprwyiedig: rôl Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol] | **Cefndir**<br>• 06/07/15 – Y Pwyllgor Sgriwtini'n sefydlu'r Panel er mwyn cwblhau adolygiad cynhwysfawr o drefniadau sicrwydd ac atebolrwydd yr Awdurdod er sicrhau bod trefniadau Corfforaethol ar gyfer diogelu mewn lle ac yn gweithio'n effeithiol.<br>**Cylch Gorchwyl Cychwynnol***<br>• Monitro cydymffurfiaeth gydag anghenion Awdit (SAC) trwy sicrhau sgriwtini rheolaidd, ffurfiol o ddiogelu (yr Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol);<br>• Dal y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol statudol i gyfrif ar gyfer effeithiolrwydd y trefniadau diogelu.<br>**Cynnydd Hyd Yma**<br>• Trafodaethau'n parhau gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Statudol a'r Penaethiaid Gwasanaeth (Plant ac Oedolion)  er mwyn cadarnhau'r cylch gorchwyl a'r amserlen ar gyfer cynnal cyfarfodydd y Panel;<br>• Adroddiad cynnydd i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 16/11/15 – i gynnwys ystyriaeth o aelodaeth y Panel.<br>[*Bydd angen i Gylch Gorchwyl terfynol y Panel adlewyrchu oblygiadau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (cyfrifoldebau statudol diogelu a rôl Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol).  Cyflwynir adroddiad pellach ar gylch gorchwyl y Panel er ystyriaeth y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod i'w gynnal ar 16 Tachwedd, 2015]. |  |

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

SCRUTINY

# RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

Cadeirydd: Y Cynghorydd R Meirion Jones
Is-Gadeirydd: Y Cynghorydd Gwilym O Jones

Y tabl isod yw Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol o fis Mai, 2015 hyd at fis Mai, 2016. Adroddir ar y Rhaglen Waith i bob cyfarfod o’r Pwyllgor Sgriwtini i bwrpas adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu i ohirio/tynnu eitemau yn ôl.

Cyswllt: Anwen Davies (Rheolwr Sgriwtini Dros Dro)
Ffôn: 01248 752039
E-bost: AnwenDavies@ynysmon.gov.uk

[Fersiwn 6 @ 03/09/15]

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad /Amser cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog ar bob rhaglen Pwyllgor:**<br>• Ymddiheuriadau<br>• Cofnodion<br>• Cyhoeddiadau'r Cadeirydd/Is-Gadeirydd<br>• Rhaglen Waith - Adolygiad | | | |
| **6 Gorffennaf 2015** | Enwebiad i'r Panel Rhiant Corfforaethol. | Enwebu un aelod i'r Panel sy'n sicrhau bod gwasanaethau i blant a phobl ifanc mewn gofal o safon uchel | Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp |
| | Trefniadau'r Awdurdod Lleol i Gefnogi Diogelu Plant – Swyddfa Archwilio Cymru | Monitro perfformiad | |
| | Adroddiad Perfformiad Blynyddol - Drafft (Cynllun Gwella ) 2014/15 | Sgriwtini cyn penderfyniad | |
| | Matrics Cyllideb Gyfalaf 2016/17 | Monitro perfformiad | |
| | Monitro Perfformiad – Sgorfwrdd Corfforaethol CH4 2014/15:<br>• SCA/018b (Gofalwyr oedolion);<br>• LCL/004 (Deunyddiau llyfrgell a fenthyciwyd);<br>• LCS/002b (Ymweliadau i ganolfannau chwaraeon/hamdden). | Monitro perfformiad | |
| | | | |
| **17 Medi 2015** | Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) 2014/15 | Sgriwtini cyn penderfyniad | Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp |
| | Cerdyn Sgorio Corfforaethol CH1 2015/16 | Monitro perfformiad | |
| | Adroddiad Monitro Refeniw CH1 2015/16 | Monitro perfformiad | |
| | Adroddiad Monitro Cyfalaf CH1 2015/16 | Monitro perfformiad | |
| | Cyllideb 2016/17 – Cynllun Ymgynghori | Sgriwtini cyn penderfyniad | |
| | Moderneiddio Ysgolion – Ymgynghoriad Ffurfiol Ardal Rhosyr | Sgriwtini cyn penderfyniad | |
| | Paneli Canlyniad Sgriwtini Effeithiol – Datganiad Sefyllfa ac argymhellion | Trefniadau sgriwtini effeithiol | |
| | Blaen Raglen Waith | Trefniadau sgriwtini effeithiol | |

[Fersiwn 6 @ 03/09/15]

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad /Amser cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog ar bob rhaglen Pwyllgor:**<br>• **Ymddiheuriadau**<br>• **Cofnodion**<br>• **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd/Is-Gadeirydd**<br>• **Rhaglen Waith - Adolygiad** | | | |
| | | | |
| **16 Tachwedd 2015** | Opsiynau Cyllideb cychwynnol: 2016/17 | Sgriwtini cyn penderfyniad | Ystafell Bwyllgor 1 / 2 yp |
| | Cerdyn Sgorio Corfforaethol CH2 2015/16 | Monitro perfformiad | |
| | Adroddiad Monitro Refeniw CH2 2015/16 | Monitro perfformiad | |
| | Adroddiad Monitro Cyfalaf CH2 2015/16 | Monitro perfformiad | |
| | Rheoli Pobl:<br>A. Montro Perfformiad – Sgorfwrdd Corfforaethol:<br>• Absenoldeb salwch – cyfartaledd diwrnodau/shifftiau gwaith a gollwyd;<br>• Canran y cyfweliadau RTW a gynhaliwyd;<br>• Canran y PDRs a gwblhawyd i amser.<br>B. Panel Canlyniad Sgriwtini: Adolygiad Rheolaeth Absenoldeb Salwch Adroddiad cynnydd. | Monitro perfformiad | |
| | Adroddiad Blynyddol Perfformiad Llyfrgelloedd | Monitro perfformiad | |
| | Gwerthusiad Blynyddol AGGCC o'r Gwasanaethau Cymdeithasol (2014/15) | Monitro perfformiad | |
| | Panel Canlyniad Sgriwtini: Diogelu Corfforaethol – sgôp/cylch gorchwyl/aelodaeth | Trefniadau sgriwtini effeithiol | |
| | Sgriwtini o achos Gwasanaethau Plant penodol – Adroddiad Panel ac argymhellion | Adolygiad Sgriwtini/Ychwanegu gwerth | |
| | Blaen Raglen Waith | Trefniadau sgriwtini effeithiol | |
| | | | |
| **11 Ionawr 2016** | Cyllideb Ddrafft y Pwyllgor Gwaith 2016/17 | Sgriwtini cyn penderfyniad | Ystafell Bwyllgor 1 /<br>10yb - 4yp ( trwy'r dydd) |



[Fersiwn 6 @ 03/09/15]

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad /Amser cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog ar bob rhaglen Pwyllgor:**<br>• **Ymddiheuriadau**<br>• **Cofnodion**<br>• **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd/Is-Gadeirydd**<br>• **Rhaglen Waith - Adolygiad** | | | |
| | Panel Canlyniad Sgriwtini: Arbedion Effeithiolrwydd [2015/16] – Adroddiad Terfynol ac argymhellion | Adolygiad Sgriwtini/Gwerth ychwanegol | |
| | | | |
| **1 Chwefror 2016**<br>**(N.B. Dyddiad arall i'w drefnu yn y man)** | Ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus ar Gyllideb 2016/17 y Pwyllgor Gwaith | Sgriwtini cyn penderfyniad | Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp |
| | Adolygiad o'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd [i'w gadarnhau] | Sgriwtini cyn penderfyniad | |
| | Gwasanaethau Iechyd Meddwl [i'w gadarnhau] | Sgriwtini o drefniadau cyfredol | |
| | Panel Canlyniad Sgriwtini: Gwaredu Asedau – Adroddiad Terfynol ac argymhellion | Adolyiad Sgriwtini/Gwerth ychwanegol | |
| | Paneli Canlyniad Sgriwtini Effeithiol – Datganiad Sefyllfa ac argymhellion | Trefniadau sgriwtini effeithiol | |
| | | | |
| **14 Mawrth 2016** | Cerdyn Sgorio Corfforaethol CH3 2015/16 | Monitro perfformiad | Ystafell Bwyllgor 1 / 3yp |
| | Adroddiad Monitro Refeniw CH3 2015/16 | Monitro perfformiad | |
| | Adroddiad Monitro Cyfalaf CH3 2015/16 | Monitro perfformiad | |
| | Cofrestr Risgiau Corfforaethol | Monitro perfformiad | |
| | Panel Canlyniad Sgriwtini: Rheoli Dyled – Adroddiad Terfynol ac argymhellion | Adolygiad Sgriwtini/Gwerth ychwanegol | |
| | | | |
| **11 Ebrill 2016** | Gwasanaethau Anableddau Dysgu – trawnsnewid [i'w gadarnhau] | Sgriwtini o drefniadau cyfredol | Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp |
| | Trefniadau Ôl-ofal (Gwasanaethau Plant) | Sgriwtini o drefniadau cyfredol | |
| | | | |

[Fersiwn 6 @ 03/09/15]